



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

PROSPECTWS ÔL-RADDEDIG 2020



CYNNWYS



03-10

BYW AC ASTUDIO YMA


Y Brifysgol 1-3
Rhagoriaeth mewn Ymchwil 4-5
Cymraeg ym Mangor 6-7
Chwaraeon 8
Cefnogi Myfyrwyr 9
Cyflogadwydd 10



12-13

CYLLID A GWNEUD CAIS

12 Cyllid Myfyriwr, Ffioedd, Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau
13 Gwneud Cais, Gofynion Mynediad, Opsiynau Astudio



FFAIR CYRSIAU ÔL-RADD

www.bangor.ac.uk/ffair-ol-radd

14-131

CYRSIAU ÔL-RADD

CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A BUSNES

16 Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau
22 Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
28 Hanes ac Archaeoleg
31 Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg
34 Ieithoedd a Diwylliannau Modern
37 Cerddoriaeth
42 Athroniaeth a Chrefydd
44 Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd
47 Busnes
63 Y Gyfraith
71 Gwyddorau Cymdeithas

GWYDDORAU DYNOL

75 Addysg a Datblygiad Dynol
79 Gwyddorau Iechyd
87 Gwyddorau Meddygol
92 Seicoleg
103 Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

GWYDDORAU'R AMGYLCHEDD A PHEIRIANNEG

110 Gwyddorau Biolegol
114 Coedwigaeth, Gwyddor yr Amgylchedd, Daearyddiaeth, Cadwraeth ac Ecoleg
120 Gwyddorau Eigion
124 Cyfrifiadureg
128 Peirianeg Electronig



@prifysgolbangor



facebook.com/PrifysgolBangor



@prifysgolbangor



@prifysgolbangor

Os ydych yn ei chael hi'n anodd darllen maint y print yn y llyfr hwn, edrychwch ar y wefan www.bangor.ac.uk am fanylion am ein cyrsiau a'n cyfleusterau.



Ym Mangor, rydym yn rhoi ein myfyrwyr wrth wraidd popeth. Yn ogystal â chynnal ymchwil o'r radd flaenaf a darparu safon wych o addysgu, rydym yn ymfalchïo yn y gefnogaeth academiaidd, ariannol a phersonol gynhwysfawr sydd ar gael i'n holl fyfyrwyr. Mae ein cysylltiadau â phartneriaid yn y rhanbarth a chyda'r gymuned leol hefyd yn rhoi nifer o gyfleoedd i'n myfyrwyr ennill profiad gwaith gwerthfawr ac elwa ar amrywiaeth enfawr o gyfleoedd gwirfoddoli. Ar ben hyn, mae gan y Gymraeg le amlwg yn y Brifysgol, gyda'r ddarpariaeth ehangaf o gyrsiau cyfrwng Cymraeg i'w cael yma ynghyd â bwrlwm diwylliannol arbennig. Mae hyn i gyd yn digwydd mewn ardal o harddwch eithriadol ac yn cyfrannu at brofiad cwbl unigryw ym Mangor."

Yr Athro Iwan Davies
Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor

RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd Prifysgol Bangor yn 1884 ac mae ganddi draddodiad hir o ragoriaeth a mynd tu hwnt i ddisgwyliadau o ran safonau academiaidd a phrofiad myfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor heddiw yn sefydliad ffyniannus, blaengar sy'n cynnig cyfleoedd ôl-raddedig rhagorol mewn cyrsiau hyfforddedig a graddau ymchwil.

Mae ein hymchwil yn trawsnewid bywydau miliynau o bobl o gwmpas y byd ac yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r effaith hon yn amrywio o'r bwyd y byddwn yn ei fwyta a'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, at iechyd a lles a gwella'r economi a chyfraith gwlad. Mae'r holl lwyddiant hyn yn dangos bod Prifysgol Bangor yn rym ymchwil o'r radd flaenaf yng Nghymru, sy'n gwneud y byd yn well lle.

Rydym yn mwynhau hanes rhagorol o ran ansawdd ymchwil ac addysgu. Cydnabu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (REF 2014) fod mwy na thri chwarter o ymchwil Bangor naill ai gyda'r orau yn y byd neu yn rhagorol yn rhyngwladol. Ar sail cyflwyniad y brifysgol mewn 14 uned asesu, cafodd 77% o'r ymchwil ei gosod yn y ddwy haen uchaf o ran ansawdd ymchwil, sydd yn uwch na'r cyfartaledd ymysg holl brifysgolion y Deyrnas Unedig.

Mae ein henw da fel prifysgol ymchwil gyda'r gorau yn y byd, yn cael ei bwysleisio gan y ffaith bod canlyniadau'r REF wedi gosod Prifysgol Bangor ymhlith y 40 prifysgol orau ym Mhrydain. Roedd yr ymchwil a wnaed mewn dros hanner ein hysgolion academiaidd ymhlith yr 20 uchaf ym Mhrydain.

Mae'n amlwg bod yr ymchwil ragorol a wneir gan academyddion Prifysgol Bangor yn cael effaith economaidd sylweddol ar fywydau pobl ar draws y byd. Ni fydd hyn yn syndod o gwbl i'r rheiny sy'n gyfarwydd â ni: mae Prifysgol Bangor, a sefydlwyd gan y gymuned yng ngogledd Cymru yn 1884 i wasanaethu

anghenion cenedlaethau i ddod, yn parhau i drawsnewid bywydau gant a thri deg o flynyddoedd ers ei sefydlu.

Ynghyd â safon uchel y gweithgarwch ymchwil, gall myfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig hyfforddedig fwynhau addysgu o safon uchel a ddarperir gan wir arbenigwyr yn eu maes.

Yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) 2017 a gynhaliwyd gan y Llywodraeth, cafodd Prifysgol Bangor y sgôr uchaf posibl - y Wobr Aur am 'addysgu rhagorol'. Ymhlith y meysydd a amlygwyd yn TEF fel cryfderau penodol ym Mangor, yr oedd y ffyrdd yr ydym yn ymwneud â'n myfyrwyr, y gefnogaeth bersonol a gynigiwn i fyfyrwyr, a'r modd yr ydym yn gwella cyflogadwyedd myfyrwyr.

Cydnabyddir Prifysgol Bangor yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar gyfer portffolio amrywiol o raglenni academiaidd ac oherwydd safon uchel y profiad a gynigir ganddi i'w myfyrwyr a'i staff. Mae gennym ystod o bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol gyda nifer o brifysgolion eraill sy'n rhoi cyfle i gydweithio, yn ogystal â gwneud ymchwil ac astudio ar y cyd.

Mae'r ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Bangor, ynghyd â'r lefel uchel o foddhad myfyrwyr a'r buddsoddiad sylweddol yn y campws yn gwneud y brifysgol hon yn lle unigryw a hynod atyniadol i astudio ynddi.

BANGOR: DOES UNMAN TEBYG

- Sefydlwyd Prifysgol Bangor yn 1884 ac mae ganddi draddodiad hir o ragoriaeth academiaidd sy'n parhau hyd heddiw. Mae'r gymeradwyaeth sylweddol ddiweddar i ansawdd yr addysgu a'r ymchwil a wneir yma'n ategu hyn.
- Cafodd Prifysgol Bangor y sgôr uchaf posibl - y Wobr Aur am 'addysgu rhagorol' - yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) 2017 a gynhaliwyd gan y Llywodraeth. Ymhlith y meysydd a amlygwyd yn TEF fel cryfderau penodol ym Bangor, yr oedd y ffyrdd yr ydym yn ymwneud â'n myfyrwyr, y gefnogaeth bersonol a gynigiwn i fyfyrwyr, a'r modd yr ydym yn gwella cyflogadwyedd myfyrwyr.
- Cydnabuwyd ymchwil o safon fyd-eang Prifysgol Bangor yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), yr asesiad cenedlaethol o ansawdd ymchwil. Mae Prifysgol Bangor ymhlith y 40 uchaf yn y DU* o ran ansawdd ymchwil, gyda'r ymchwil a wnaed mewn dros hanner ein hysgolion academiaidd wedi'u graddio yn yr 20 uchaf yn y DU.
- Mae gan Brifysgol Bangor bortffolio amrywiol o raglenni ôl-raddedig ac mae gennym ystod o bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol gyda nifer o brifysgolion eraill sy'n rhoi cyfle i weithio ar y cyd.
- Bu i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) diwethaf osod Prifysgol Bangor yn un o'r 10 uchaf o brifysgolion y DU am foddhad myfyrwyr**.

*Heb gyfrif sefydliadau arbenigol a phrifysgolion yn cyflwyno mewn un uned asesu yn unig

**ac eithrio sefydliadau arbenigol





Y BRIFYSGOL

- Rydyn ni'n rhoi blaenoriaeth uchel i brofiad myfyrwyr. Mae costau byw isel, y gefnogaeth i fyfyrwyr a'r lleoliad godidog i gyd yn cyfrannu at hyn.
- Rydym ni'n cynnig ystod o raglenni a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr i'ch helpu chi i wneud y gorau o'ch amser yn y brifysgol. Gallwn hefyd eich paratoi chi ar gyfer eich dyfodol gyda'n gwasanaethau cyflogadwyedd a menter.
- Cydnabyddir mewn nifer o arolygon myfyrwyr fel un o'r mannau gorau ym Mhrydain i fod yn fyfyrwr ynddo.
- Mae gan Brifysgol Bangor fwy na 200 o Glybiau a Chymdeithasau ac mae'r aelodaeth am ddim i fyfyrwyr. Mae ein Clybiau a'n Cymdeithasau wedi eu dyfarnu'n orau yn y DU am y drydedd flwyddyn yn olynol (*WhatUni? Student Choice Awards 2019*).
- Yn ogystal â bod yn lleoliad i Undeb y Myfyrwyr, mae canolfan Pontio yn gartref i theatr, theatr stiwdio, sinema, darlithfeydd, bar a chaffi.
- Mae Academi, y clwb nos swyddogol i fyfyrwyr, yn darparu ffocws ar gyfer adloniant yn ystod y nos a chymdeithasu'n gyffredinol. Mae Bar Uno, sydd wedi'i leoli ym mhentref myfyrwyr Ffriddoedd, hefyd yn cynnig digwyddiadau fel nosweithiau chwaraeon, digwyddiadau cymdeithasol i glybiau a chymdeithasau, ac adloniant.

BANGOR A'R ARDAL

- Mae Bangor yn ddinas fach gyda myfyrwyr yn ganolog iddi. Mae hyn yn golygu ei bod yn hawdd dod i adnabod pobl, ac mae ein myfyrwyr yn ymgynefino'n gyflym.
- Mae cyfran uchel o fyfyrwyr yn dewis Bangor oherwydd maint bychan a natur gyfeillgar y Brifysgol a'r ddinas.
- Gerllaw mae trefi hanesyddol Biwmares, Conwy a Chaernarfon (pob un â'u cestyll eu hunain) a phentrefi hyfryd fel Llanberis, Beddgelert a Betws y Coed. Mae'r traethau ar Ynys Môn hefyd yn fannau poblogaidd i dorheulo a nofio.
- Mae'n haws cyrraedd yma nag y byddech chi'n meddwl - mae cysylltiadau rhagorol ar y ffordd ar hyd arfordir gogledd Cymru o'r rhwydwaith traffyrdd, a threnau uniongyrchol o lawer o orsafoedd rheilffordd mawr.

LLETY

- Mae ein neuaddau ymhlith y 3 llety prifysgol gorau yn y DU (*WhatUni? Student Choice Awards 2019*).
- Mae'r lletyau o fewn pellter cerdded i adeiladau'r Brifysgol a chanol y ddinas.
- Mae gan ein neuaddau preswyl Uwch Wardeiniaid a thîm helaeth o Fentoriaid yn ogystal â staff diogelwch ar alwad 24 awr y dydd.

EISIAU GWYBOD MWY?

www.bangor.ac.uk/llety
www.bangor.ac.uk/tai-myfyrwyr
www.bangor.ac.uk/lleoliad
www.bangor.ac.uk/undeb

PRIFYSGOL YMCHWIL GYDA'R ORAU YN Y BYD



YN Y 40 UCHAF AM YMCHWIL

Mae mwy na thri
chwarter o ymchwil
Prifysgol Bangor naill
ai 'gyda'r orau yn y
byd' neu'n 'rhagorol'
yn rhyngwladol.
REF, 2014

- Mae ymchwil yn ganolog i Brifysgol Bangor; mae'n rhan annatod o'n haddysgu ac mae'n staff academiaidd yn frwd iawn drosti.
- Mae bron pob un o'r academyddion ymchwil yn addysgu, gan sicrhau bod ein myfyrwyr yn elwa o'r wybodaeth a grëir gan ein hymchwil.
- Cydnabu Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 fod mwy na thri chwarter o ymchwil Bangor naill ai 'gyda'r orau yn y byd' neu'n 'rhagorol' yn rhyngwladol. Bu i ganlyniadau'r REF osod Bangor ymhlith 40 prifysgol orau'r DU am ymchwil*.
- Mae ymchwil mewn Gwyddorau Chwaraeon; leithoedd Modern; Cymraeg; Addysg; leithyddiaeth; Gwyddorau Cymdeithas; Gwyddorau Eigion; Gwyddorau Biolegol; Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth; Seicoleg; Gwyddorau Gofal Iechyd a Gwyddorau Meddygol i gyd wedi eu gosod yn yr 20 uchaf yn y Deyrnas Unedig.
- Mae ein hymchwil yn trawsnewid bywydau miliynau o bobl o gwmpas y byd ac yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r effaith hon yn amrywio o'r bwyd y byddwn yn ei fwyta a'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, at iechyd a lles a gwella'r economi a chyfraith gwlad.
- Mae'r Brifysgol yn rhoi cefnogaeth gref i weithgareddau ymchwil sy'n cynnwys annog cysylltiadau gyda chyrff masnachol a diwydiannol yn y DU a thramor.

* ac eithrio sefydliadau arbenigol a phrifysgolion yn cyflwyno mewn un uned asesu yn unig

YMCHWIL O'R RADD FLAENAF

ASTUDIAETH ACHOS: BETH SYDD YN Y PRIDD O DAN EIN TRAED?

Mae Paul George, myfyriwr PhD sy'n astudio yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH), wedi cyhoeddi ei ymchwil yn *Nature Communications*.

Mae ymchwil Paul yn edrych ar y rhywogaethau lleiaf un, sy'n byw yn y pridd, gan gynnwys bacteria, ffyngau ac anifeiliaid. Mae ei waith yn rhoi Cymru ar y blaen o ran deall beth sy'n rheoli lle mae'r rhywogaethau microsgopig hyn yn digwydd ar draws y tirwedd ar raddfa genedlaethol. A dyna lawer o rywogaethau, oherwydd amcangyfrifir bod chwarter yr holl rywogaethau ar dir yn byw o fewn ein priddoedd.

Mae cyflwr pridd yn ddangosydd byd-eang ar gyfer dirywiad tir o fewn Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae Cymru yn un o'r ychydig lywodraethau yn fyd-eang sy'n gwarchod priddoedd ar y lefel uchaf.

Eglura Paul: "Mae'r gangen hon o wyddoniaeth yn dal i ddatblygu ac mae'n cael ei defnyddio i archwilio bioamrywiaeth 'cudd' yn ein moroedd, ein hafonydd, a hyd yn oed yn y perfedd dynol. Yma rydym wedi ei chymhwyso at ein pridd. Mae'r dull gweithredu hwn yn tynnu sylw at yr amrywiaeth rhyfeddol o rywogaethau na allem eu gweld o'r blaen gan na fydd llawer o rywogaethau'n tyfu mewn sefyllfaoedd labordy gan ddefnyddio dulliau cyfredol.

Er syndod i ni, cawsom amrywiaeth a nifer llawer mwy cyfoethog o rywogaethau microbaidd mewn priddoedd amaethyddol yn hytrach nag mewn coetiroedd, corsydd a thir cadwraeth. Nid ydym eto'n gwybod yn union pam fod hyn yn digwydd. Gallai fod oherwydd bod amaethyddiaeth yn bresennol ar fathau o bridd sydd yn fwy addas i gynnal nifer fwy o rywogaethau, neu bod yr arferion rheoli a ddefnyddiwn mewn amaethyddiaeth yn creu cynefinoedd mwy amrywiol i wahanol rywogaethau fanteisio arnynt."

ASTUDIAETH ACHOS: PRYD DAETH POBL CYMRU'N GYMRY?

Mae Rebecca wedi derbyn Cymrodoriaeth Ôl-ddoethurol fawreddog yr Academi Brydeinig i ymchwilio i ddatblygiad yr hunaniaeth Gymreig yn yr Oesoedd Canol – pryd ydym yn gweld cyfeiriadau at y syniad o Gymru a'r Cymry, a pham.

Bydd hi'n troi at gronclau a hanesion Lladin canoloesol i chwilio am dystiolaeth ynghylch sut y cafodd yr hunaniaeth Gymreig ei chreu, a bydd hefyd yn bwrw golwg dros y cyfoeth o dystiolaeth o waith y beirdd Cymraeg sydd wedi goroesi, i weld sut y bydden nhw'n disgrifio'r wlad a'i phobl.

Eglurodd Rebecca: "Roedd yr Oesoedd Canol cynnar, yn enwedig y nawfed a'r ddegfed ganrif, yn gyfnod allweddol lle mae creu hunaniaethau yn y cwestiwn. Os ystyriwch y croniclau a'r hanesion a ysgrifennwyd yn y cyfnod hwnnw, maent yn ymwneud â rhannu'r byd yn wahanol bobloedd a chofnodi gwreiddiau'r bobl hynny. Honnai ysgrifennwyr canoloesol, er enghraifft, i'r Cymry hanu o Gaerdroea. Roedd priodoli gwreiddiau yng Nghaerdroea i bobl yn syniad poblogaidd iawn ar y Cyfandir - credai'r Ffranciaid hefyd eu bod yn hanu o Gaerdroea, er enghraifft - ac felly roedd ysgrifennwyr Cymru'n manteisio ar ffenomenon ehangach. Mae'n debygol hefyd eu bod yn ymwybodol iawn bod testunau a oedd yn cael eu llunio mewn rhannau eraill o Brydain yn dechrau sôn am Loegr a'r Saeson.

Rwyf am ofyn pa mor bwysig oedd y cyswllt â'r byd ehangach wrth lunio hunaniaeth Gymreig yn y cyfnod hwn, a meddwl am yr hyn yr oedd ysgrifennwyr Cymru'n ei feddwl oedd yn gosod y Cymry ar wahân i bobloedd eraill. Beth oedd yn gwneud y Cymry'n bobl yn eu tyb hwythau?

Pan ysgrifennodd Asser, ysgolhaig o Dyddewi, yn 893 fod y brenin Offa o'r wythfed ganrif wedi codi clawdd rhwng Mercia a Britannia o fôr i fôr, iddo ef Britannia oedd Cymru, uned ddaearyddol a ddiffinnir gan glawdd Offa. Pan roes Nennius, ysgolhaig o Wynedd yn y nawfed ganrif, enwau llefydd yn Saesneg ac yn Gymraeg yn ei destun Lladin, roedd yn cyfeirio at y Gymraeg fel 'ein hiaith'. Felly, mae syniadau sy'n ymwneud â rhannu iaith, hanes, diwylliant a thiriogaeth gyffredin i gyd yn ffactorau pwysig y mae angen eu hystyried."

EISIAU GWYBOD MWY?

www.bangor.ac.uk/newyddion/ymchwil
www.bangor.ac.uk/ref2014-cy

Y GYMRAEG YM MANGOR

Mae'r Gymraeg yn rhan gwbl naturiol o fywyd ym Mhrifysgol Bangor ac i'w gweld a'i chlywed ym mhob agwedd ar ei gwaith a'i gweithgarwch. Y mae'r Brifysgol yn buddsoddi'n gyson mewn datblygiadau academiaidd cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau dwyieithog. Ym Mangor, ceir profiad Cymraeg cyflawn – o ddewis eang o fodiwlau cyfrwng Cymraeg i wasanaethau trwy'r Gymraeg, i ddigwyddiadau cymdeithasol lle mae'r Gymraeg yn ganolog.

Astudio drwy'r Gymraeg

Prifysgol Bangor sy'n cynnig y nifer fwyaf o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg – ac mae mwy o'i myfyrwyr yn dewis astudio trwy'r Gymraeg nac yn unrhyw brifysgol arall. Mae'r Brifysgol wedi ymroi yn benodol i gynyddu nifer y cyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-radd

Pam astudio drwy'r Gymraeg?

Mae arolwg DLHE yn dangos bod myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg yn llawer mwy tebygol o fod mewn gwaith neu astudiaethau pellach, ac mewn cyflogaeth sgiliau uwch, na myfyrwyr eraill. Felly, gall astudio trwy'r Gymraeg wella eich rhagolygon gyrfa ac mae sawl rheswm ymarferol a chymdeithasol hefyd dros ddewis astudio trwy'r Gymraeg:

Rhesymau tros astudio drwy'r Gymraeg:

- Gosod sylfaen ardderchog i'r dyfodol o ran cael prawf pendant o ddeallusrwydd a defnydd ymarferol o'r Gymraeg
- Mae cyflogwyr angen pobl ddwyieithog ar gyfer pob math o swyddi
- Mae cyflogau swyddi dwyieithog ar gyfartaledd yn uwch
- Y Gymraeg ydi iaith yr aelwyd a/neu iaith yr addysg yn yr ysgol a'r chweched dosbarth, ac felly dyma'r iaith sydd fwyaf naturiol
- Wedi arfer cael arholiadau a phrofion drwy'r Gymraeg – ac am barhau â hynny yn y brifysgol
- Wedi dysgu ac arfer defnyddio termau gwyddonol a chelfyddydol yn Gymraeg
- Mae'n agor drysau i gyfleoedd newydd a gwella'r hyn a gynnigir ar y CV
- Mae'n gyfle i gymdeithasu a byw mewn awyr

Astudio drwy'r Gymraeg – pa gefnogaeth sydd ar gael?

Mae nifer o fyfyrwyr ôl-radd Prifysgol Bangor yn dewis astudio drwy'r Gymraeg. Os dewiswch chi wneud hyn, bydd digon o gefnogaeth ar gael i chi. Rhan bwysig iawn o'r gefnogaeth hon ydy'r gwasanaethau mae Canolfan Bedwyr yn eu cynnig. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

1. Modiwl Sgiliau Iaith
2. Meddalwedd Cyfrifiadurol
3. Gwasanaeth Terminoleg
4. Gwasanaeth Cyfieithu Llawn

Modiwl datblygu sgiliau iaith – Ymdrin â'ch pwnc drwy'r Gymraeg

Mae'r modiwl hwn wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer anghenion myfyrwyr ôl-radd ac yn cynnig cymorth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr rhugl ddatblygu eu sgiliau iaith fel y gallant ymdrin â'u pynciau yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddalwedd cyfrifiadurol

Dyma adnodd defnyddiol ar gyfer rhai sy'n awyddus i ysgrifennu'r Gymraeg. Mae'n cynnwys:

- Cysyll – rhaglen sy'n gwirio sillafu agramadeg
- Cysgeir – casgliad o eiriaduron electronig Cymraeg/ Saesneg a Saesneg/Cymraeg

Mae Cysgliad wedi'i osod ar rwydwaith y brifysgol, ac mae hefyd ar gael am ddim i fyfyrwyr Prifysgol Bangor.

Gwasanaeth Terminoleg

Mae'r tîm termau wedi cyhoeddi ystod eang o eiriaduron termau dwyieithog er mwyn galluogi myfyrwyr a staff i ymdrin â'u pwnc yn Gymraeg. Gall myfyrwyr gysylltu â swyddog terminoleg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi'i lleoli yng Nghanolfan Bedwyr, am arweiniad ar ba dermau i'w defnyddio.

Gwasanaeth cyfieithu llawn

Mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno traethodau neu wneud cyflwyniadau yn Gymraeg, hyd yn oed os nad yw'r tiwtor/darlithydd yn deall Cymraeg. Mae'r Uned Gyfieithu yn cyfieithu gwaith ysgrifenedig myfyrwyr i'r Gymraeg ac yn cyfieithu cyflwyniadau myfyrwyr i'r Gymraeg trwy'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.



COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL YM MANGOR

Mae Prifysgol Bangor yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau ac i gynyddu'r cyfleoedd astudio trwy'r Gymraeg i'n myfyrwyr.


Trwy gydweithio â phrifysgolion Cymru, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sicrhau ac yn datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Cymru. Mae'n cynnig ysgoloriaethau sy'n galluogi myfyrwyr i ddilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mangor wedi'i lleoli yng Nghanolfan Bedwyr.

Y Rhaglen Sgiliau Ymchwil

Dyma'r unig raglen hyfforddiant ymchwil ar gyfer myfyrwyr ôl-radd sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyrsiau preswyl yn agored i unrhyw fyfyrwyr ôl-radd beth bynnag fo'u pwnc a pha bynnag fodd y cyllidir eu hymchwil.

Ceir rhestr o'r cyrsiau ar y wefan:
www.colegcymraeg.ac.uk



"Mae'n fraint cael arwain nifer o ddatblygiadau sy'n cyfrannu'n ymarferol at nod Llywodraeth Cymru o gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Ar yr un pryd, rydym yn falch iawn o fod yn ganolbwynt i ymdrechion Prifysgol Bangor i ddatblygu a chryfhau ei safle fel y Brifysgol arweiniol o ran y Gymraeg ac addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg."

DR LLION JONES
Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr

"Credaf fod Bangor yn lle gwych i fyfyrwyr Cymraeg oherwydd yr ystod eang o gyrsiau a'r cymorth sydd ar gael i'w hastudio."

Myfyriwr sy'n astudio Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol



FFIT AM OES

Mae Prifysgol Bangor mewn safle delfrydol a chyda phob math o gyfleusterau ar gyfer gwahanol chwaraeon, yn enwedig chwaraeon awyr agored.

Mae gennym gyfleusterau chwaraeon a hamdden rhagorol, gyda rhaglen fuddsoddi gwerth miliynau o bunnoedd a gwblhawyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol.

"Mae'r bywyd cymdeithasol yn eang iawn yma. Rydw i'n gallu byw a chymdeithasu yn Gymraeg yma. Mae Bangor yn cynnig popeth sydd ei angen ar fyfyrwr ac mae'r ardal yn cynnig amryw o weithgareddau awyr agored a hamdden."

Myfyrwr yn yr Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol

"Mae'r golygfeydd yn brydferth ac mae yna lawer o deithiau cerdded braf. Mae'n dawel yma a dwi'n hoffi hynna."

LEANNE ROWLANDS
O Ynys Môn, sy'n astudio PHD
Niwroseicoleg

EICH HELPU CHI I FOD Y GORAU Y GALLWCH CHI FOD

- Mae'r **Gwasanaethau Myfyrwyr** yn cynnig cyngor a chymorth gan gynnwys: gwasanaeth cwnsela; cyngorwyr iechyd meddwl; gofal iechyd trwy feddygfeydd dyddiol gyda meddyg teulu; nyrs yn benodol ar gyfer iechyd myfyrwyr; Swyddog Cefnogaeth Ariannol; Swyddfa Tai, a chefnogaeth gan arweinwyr cyfoed.
- Mae'r help a gynigir gan y **Gwasanaeth Anableddau'n** cynnwys: cyngor ar strategaethau i wneud tasgau astudio a phob dydd yn haws; Cynlluniau Cymorth Dysgu Personol; addasiadau penodol mewn arholiadau; help gyda gwneud cais am Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSAs); darparu gweithwyr cefnogi dysgwyr a chyfieithu i BSL.
- Mae **Gwasanaeth Dyslecsia** arloesol Bangor yn adnabyddus yn rhwngwladol am ei harbenigedd yn cefnogi myfyrwyr.
- **Tîm o gynghorwyr ar gyfer myfyrwyr rhwngwladol** sy'n cynnig cymorth a chynghor ar ystod o faterion.
- Mae'r **Ganolfan Sgiliau Astudio** yn rhoi cyngor ar bob agwedd ar astudio gan gynnwys: cynllunio ac ysgrifennu traethodau hir, cyflwyniadau llafar a mathemateg, ystadegau a rhifedd.
- Ystod o raglenni personol a datblygiad gyrfa i'ch helpu chi ddechrau cynllunio eich gyrfa i'r dyfodol. Byddwch yn gallu ennill sgiliau a phrofiad trosglwyddadwy trwy leoliadau gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli, a datblygu sgiliau menter ac entrepreneuriaeth, yn ogystal â manteisio ar **Wobr Cyflogadwyedd Bangor (BEA)**, sy'n ddatblygiad arloesol yn y sector.
- Mae'r **Gwasanaethau Llyfrgell ac Archifau'n** darparu ystod o amgylcheddau astudio deniadol, gyda llefydd hyblyg ar gyfer holl anghenion dysgu ac ymchwil, yn cynnwys llefydd i gydweithio, ystafelloedd cyfarfod a llefydd i astudio'n dawel. Mae gennym un o'r archifau prifysgol mwyaf yn y Deyrnas Unedig.
- Mae'r **Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth** yn cynnig ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau gan gynnwys mynediad rhwydwaith diwifr a chyflym ar y campws ac ym mhob neuadd breswyl, a mynediad o bell i TG pan oddi ar y campws.
- Mae **Undeb y Myfyrwyr** yn cynnig cefnogaeth gan gynnwys: cynrychiolaeth academiaidd; adborth ac eiriolaeth ar ran myfyrwyr.
- Mae yna lawer o **glybiau a chymdeithasau** y gellwch ymuno â nhw am ddim yn Undeb y Myfyrwyr, o grwpiau cefnogaeth academiaidd i glybiau cymdeithasol ac athletau.
- Mae'r cynllun **Arweinwyr Cyfoed** a'r system Tiwtoriaid Personol yn golygu bod yna bob amser fyfyrwr arall neu aelod academiaidd o staff y gallwch droi ato.
- Mae **FyMangor** yn rhoi mynediad ar-lein at wybodaeth a gwasanaethau i'ch cefnogi tra'r ydych yn y Brifysgol lle gallwch chi: weld eich amserlen ar-lein; gwirio pa fodiwlau rydych chi'n eu hastudio, eich marciau ac adborth ar fodiwlau.
- Mae'r **Ysgol Ddoethurol** yn darparu rhaglen flynyddol o hyfforddiant a datblygu i roi portffolio eang o sgiliau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y maent eu hangen yn ystod pob cam o'u Doethuriaeth ac i ddatblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt yn gynyddol.
- Mae **Rhaglen Hyfforddi a Datblygu'r Ysgol Ddoethurol** yn cynnwys sesiynau ar bynciau fel: chwilio am lenyddiaeth, dulliau cyfeirio, rheoli data ymchwil, sut i fod yn ymchwilydd effeithiol, cael cyhoeddi eich gwaith, olrhain dyfyniadau ac eiddo deallusol.
- Mae **Ysgoloriaeth Sgiliau'r Economi** Wybodaeth 2 (KESS 2) a KESS 2 East yn cynnig cyfle i wneud PhD ar y cyd neu Feistr trwy Ymchwil gan weithio gyda chwmni lleol a thrwy hynny gael profiad gwerthfawr iawn o ddiwydiant.
- Mae'r **Rhaglen PGCertHE**, os caiff ei chefnogi gan y goruchwyliwr academiaidd, yn cael ei chynnig i rai sy'n dymuno datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ym meysydd addysgu, dysgu ac asesu, ar yr adeg briodol yn ystod y PhD.

EISIAU GWYBOD MWY?

www.bangor.ac.uk/brailsford-cy
www.bangor.ac.uk/llyfrgell
www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr

PARATOI AR GYFER EICH DYFODOL

- Gall y Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd eich helpu i ddatblygu eich cyflogadwyedd a darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys: arweiniad ym maes gyrfaedd; gweithdai rheoli gyrfa wedi'u teitwra ar gyfer myfyrwyr ôl-radd; cyfleoedd profiad gwaith; cael hyd i gyfleoedd gwirfoddoli, swyddi yn ystod y tymor, gwyliau ac i raddedigion; Byddwch Fentrus i ddatblygu sgiliau menter ac entrepreneuriaid.
- Mae Byddwch Fentrus yn cynnig ystod o gyfleoedd a chyllid i'ch galluogi i ddatblygu eich sgiliau menter ac entrepreneuriaeth, derbyn cefnogaeth fentora i ddatblygu syniadau busnes yn ogystal â manau i hybu busnes a phrototeipio.
- Mae gan y brifysgol wasanaeth cyflogaeth ar-lein pwrpasol i fyfyrwyr, TARGETconnect, sy'n hysbysebu'r swyddi diweddaraf i raddedigion, gwaith rhan-amser lleol, lleoliadau, profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli
- Mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor (BEA) yn cynnig rhaglen rheoli gyrfa a datblygu sgiliau ar-lein, gan achredu gweithgareddau allgyrsiol a chyd-gwricwlaidd sydd efallai ddim yn cael eu cydnabod yn ffurfiol o fewn y cwricwlwm academaidd. Mae rhaglenni Meistr BEA ac Ymchwilydd BEA wedi'u teitwra i fod yn addas i anghenion myfyrwyr ôl-raddedig.
- Mae'r Ysgol Ddoethurol yn darparu rhaglen flynyddol o hyfforddiant a datblygu i roi portffolio eang o sgiliau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y maent eu hangen yn ystod pob cam o'u Doethuriaeth ac i ddatblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt yn gynyddol.
- Mae Ysgoloriaeth Sgiliau'r Economi Wybodaeth 2 (KESS 2) a KESS 2 East yn cynnig cyfle i wneud PhD ar y cyd neu Feistr trwy Ymchwil gan weithio gyda chwmni lleol a thrwy hynny gael profiad gwerthfawr iawn o ddiwydiant.

ASTUDIAETH ACHOS

Cafodd Patrick Burn gefnogaeth gan y project KESS pan oedd yn cwblhau ei radd Meistr trwy Ymchwil mewn Peirianeg Electronig ym Mhrifysgol Bangor. Trwy'r project ar y cyd bu Patrick yn gweithio gyda Creo Medical ar project o'r enw 'Medical Microwave Therapeutic Application Design'. Ers cwblhau ei radd Meistr trwy Ymchwil, mae Patrick wedi cael ei gyflogi gan y cwmni ac mae'n parhau i weithio ar broiectau ymchwil a datblygu.

“

Mae KESS 2 yn gyfle gwych i ennill profiad gwaith gwerthfawr, tra cwblhau prosiect â ffocws a chymhwysol. Mae'r ysgoloriaeth yn caniatáu ichi ganolbwyntio'n llawn ar y radd gyda llai o ariannol cyfyngiadau a phryderon. Mae'r cynllun yn wedi'i drefnu'n dda ac mae ganddo rwydwaith cefnogol iawn i helpu pob myfyrwr i gwblhau eu gradd ôl-raddedig. Mae KESS 2 yn gyfle na ddylid ei golli. Y sgiliau a ddatblygwyd ac sy'n gweithio bydd y profiad a gafwyd yn eich helpu i gael mynediad yr yrfa rydych chi ei eisiau.”

PATRICK BURN
Peirianeg Electronig

EISIAU GWYBOD MWY?

www.bangor.ac.uk/celt-cy
www.bangor.ac.uk/gyrfaoedd
www.bangor.ac.uk/ysgol-ddoethurol

"Y cyngor byddwn i'n ei roi i bobl sy'n gwneud cais i Fangor yw disgwyl yr annisgwyl. Byddwch yn rhyfeddu at yr harddwch sydd o'ch cwmpas. Mae'r darlithwyr yn gyfeillgar a'r tîm gweinyddol yn gefnogol."

SANDRA WILLIAMS

O Ynys Môn, sy'n astudio MSc Cwnsela

CYLLIDO EICH ASTUDIAETHAU



- Mae ffioedd dysgu yn amrywio yn dibynnu ar y cwrs ac a yw myfyrwyr wedi eu dosbarthu fel myfyrwyr y DU, yr UE neu fyfyrwyr rhyngwladol. Mae rhagor o fanylion ar ein gwefan (gweler isod).
- Efallai y bydd myfyrwyr o'r DU a'r UE yn gymwys i gael benthyciadau myfyrwyr i gynorthwyo gyda chost astudio ar gyfer gradd Meistr neu radd lefel doethuriaeth.
- Gall myfyrwyr cymwys o Gymru a'r UE fenthycha hyd at £17,000 i gynorthwyo gyda chost gradd Meistr; gall myfyrwyr o Loegr fenthycha hyd at £10,906.
- Gall myfyrwyr cymwys o Gymru, Lloegr a'r UE hefyd fenthycha hyd at £25,700 ar gyfer gradd lefel doethuriaeth fel PhD.
- Mae'r system ychydig yn wahanol i fyfyrwyr o Ogledd Iwerddon a'r Alban. Edrychwch ar www.gov.uk/masters-loan am fanylion pellach.
- Weithiau mae'n bosibl cael cefnogaeth ariannol gan drydydd parti ar gyfer eich astudiaeth. Gall hyn fod gan elusen, sefydliad neu ymddiriedolaeth y mae ei nodau a'i ddiddordebau yn cyfateb â'ch cefndir eich hun neu'ch maes astudio arfaethedig, neu efallai y bydd eich cyflogwr yn barod i'ch noddi.
- Efallai y byddwch chi'n penderfynu hunangyllido eich astudiaeth, p'un a gwneir hyn trwy ddefnyddio cynilion presennol, gweithio'n rhan-amser i gefnogi'ch costau byw neu ddefnyddio **Benthyciad Datblygu Gyrfa** o fanc ar y Stryd Fawr.
- Ar gyfer cyrsiau Meistr, mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau yn gyffredinol yn amrywio o oddeutu £500 i £4,000 y flwyddyn, yn dibynnu ar y maes pwnc, ac fel rheol fe'u dyrennir ar sail gystadleuol.
- Ar gyfer graddau ymchwil fel PhD, mae'r brifysgol yn hysbysebu nifer sylweddol o efrydiaethau ymchwil a gyllidir yn llawn bob blwyddyn a gall cyfleoedd godi trwy gydol y flwyddyn. Dyrennir y cyllid hwn o ffynonellau amrywiol fel cronfeydd ysgoloriaeth canolog, ysgolion academiaidd, Cynghorau Ymchwil y DU a sefydliadau elusennol.
- Efallai y byddwch yn gymwys i gael **Bwrsariaeth Mynediad Ôl-raddedig** gwerth £500 os oeddech yn derbyn grant neu gyllid caledi fel myfyriwr israddedig. Mae rhagor o fanylion ar ein gwefan (gweler isod).
- **Dyfernir Ysgoloriaethau Rhyngwladol** o £4,000 i bob ymgeisydd sy'n dangos perfformiad sy'n cyfateb i radd anrhydedd dosbarth 1af, a dyfernir £2,000 am berfformiad sy'n cyfateb i 2(i) neu 2(ii).

SANTANDER

Mae Prifysgolion Santander wedi ymrwmo i ddarparu cefnogaeth effeithiol, amrywiol a chynhwysol i addysg uwch, gan ddatblygu gwaddol cynaliadwyedd trwy ganolbwyntio ar addysg, entrepreneuriaeth a chyflogaeth.

Fel aelod o rwydwaith Prifysgolion Santander rydym yn falch iawn o allu cynnig ystod eang o gyfleoedd wedi'u hariannu i fyfyrwyr, yn enwedig y rhai sydd o gefndir ehangu cyfranogiad. Gall cefnogaeth Santander helpu i wella profiad y myfyriwr trwy gyfleoedd sy'n canolbwyntio ar wella cyflogadwyedd a hyrwyddo menter.

I gael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael, cysylltwch â Kathryn Caine yn kathryn.caine@bangor.ac.uk

EISIAU GWYBOD MWY?

www.bangor.ac.uk/cyllid-olradd
www.bangor.ac.uk/ysgoloriaeth-olradd

GWNEUD CAIS, GOFYNION MYNEDIAD AC OPSIYNAU ASTUDIO

**MAE RHAI
CYRSIAU
HYFFORDDedig
YN CYCHWYN
YM MIS IONAWR**

CAIS AM GYRSIAU HYFFORDDedig

Mae manylion llawn sut i wneud cais am gyrsiau ôl-raddedig hyfforddedig (gan gynnwys TAR, MA Gwaith Cymdeithasol a DClinPsy) ar ein gwefan, gweler isod. Fe'ch cynghorir yn gryf i ddarllen y Canllawiau i Ymgeiswyr cyn llenwi'r ffurflen gais.

CAIS AM RAGLENNI YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

Anogir ymgeiswyr am radd ymchwil i nodi a thrafod y pwnc i'w ymchwilio gyda'r adran berthnasol cyn cyflwyno'r cais. Gweler y wefan isod am arweiniad.

DEWISIADAU ASTUDIO

Mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr ôl-radd yn dewis astudio ar sail amser llawn, ond mae llawer o'n cyrsiau hyfforddedig a'n rhaglenni ymchwil ar gael yn rhan-amser i fyfyrwyr y DU/UE ac mae rhai ysgolion academaidd yn cynnig cyrsiau dysgu o bell.

DYDDIAD DECHRAU'R CWRS:

Bydd mwyafrif y cyrsiau a addysgir yn cychwyn ym mis Medi. Fodd bynnag, bydd gennych y dewis o allu cychwyn rhai rhaglenni lefel Meistr naill ai ym mis Ionawr neu fis Medi. Os yw cwrs yn cynnig dyddiad cychwyn ym mis Ionawr neu fis Medi, tynnir sylw at hyn yn yr adran 'Hyd y Cwrs' yn nisgrifiad y cwrs ac ar ein gwefan, gweler isod. Ar gyfer mwyafrif y cyrsiau ymchwil, gallwn dderbyn myfyrwyr ddechrau mis Medi, Ionawr neu Ebrill. Holwch Gyfarwyddwr y Cwrs, os gwelwch yn dda.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae'r cymwysterau, y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer astudiaethau ôl-radd ym Mangor yn amrywio o gwrs i gwrs ac o'r naill ysgol academaidd i'r llall. Cewch fanylion llawn ar y wefan, gwelwch isod.

Academaidd

Mae angen gradd Baglor gan brifysgol neu sefydliad addysg uwch a gymeradwyir. Fel rheol, ar gyfer mynediad i gyrsiau Meistr, y dosbarthiad gradd lleiaf a dderbynnir yw anrhydedd ail ddosbarth is (2.ii) neu gyfwerth, ac ar gyfer graddau ymchwil, anrhydedd ail ddosbarth uwch (2.i) neu gyfwerth. Efallai y bydd angen dosbarthiad gradd uwch neu gymhwyster gradd uwch ar gyfer rhai rhaglenni. Derbynnir graddau baglor a geir yn y DU fel rheol. Os oes gennych radd o wlad arall, gweler ein gwefan, isod.

Bydd myfyrwyr hyn nad oes ganddynt y cymwysterau academaidd uchod hefyd yn cael eu hystyried am raglenni graddau uwch. Gellir derbyn o leiaf dwy flynedd o brofiad gwaith proffesiynol perthnasol yn lle cymwysterau academaidd ffurfiol.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd rhai cyrsiau proffesiynol hefyd yn gofyn am isafswm graddau TGAU C/4 neu B/5 mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg.

Bydd rhai cyrsiau fel iechyd ac addysg yn gofyn i fyfyrwyr gael gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

EISIAU GWYBOD MWY?

www.bangor.ac.uk/cyrsiau/olraddedig/
www.bangor.ac.uk/olradd
www.bangor.ac.uk/cais-olradd



Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau

Rydym yn cynnig graddau ar draws ystod eang o gelfyddydau creadigol, gan gynnwys ffilm, newyddiaduraeth, y cyfryngau, cyfryngau digidol a rhyngweithiol, ysgrifennu proffesiynol a theatr. Ceir cyfuniad o'r ymarferol a'r theoretig yn ein holl gyrsiau, sy'n sicrhau bod ein myfyrwyr yn graddio â gwybodaeth gynhwysfawr am eu maes pwnc.

Ni allai'r awyrgylch astudio ym Mangor fod yn well ar gyfer astudio ar lefel ôl-raddedig. Byddwch yn ymuno â chymuned ôl-raddedig fywiog a phrifysgol sydd â phrofiad sylweddol o ddysgu'r diwydiannau creadigol ar lefel ôl-raddedig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ein myfyrwyr ôl-raddedig wedi ennill nifer o wobrau ac ysgoloriaethau ac wedi cael swyddi academiaidd ac ym myd diwydiant mewn sefydliadau pwysig fel y BBC ac yn y sector meddalwedd adloniant.

Staff a chyfleusterau

Ymhlith y staff dysgu ceir academyddion uchel eu parch ac ymarferwyr creadigol o fri, gyda chysylltiadau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol cryf yn y sector preifat a chyhoeddus. Mae'r staff academiaidd yn arbenigo mewn meysydd ymchwil amrywiol fel dawnys fertigol, technoleg a disgwrs, y byd ffilm lddewig, hysbysebu digidol, newyddiaduraeth, gwleidyddiaeth a risg, gemau fideo a bydoedd rhithwir, Ffônedeu byw a gwneud ffilmiau dogfen.

I gyd-fynd ag arbenigedd ein staff ceir y cyfleusterau diweddaraf posibl. Yn ogystal ag offer Ffônedeu a radio o safon ddarlledu, ceir mannau penodol ar gyfer rhai'n astudio gemau, cyfryngau digidol, newyddiaduraeth ac ysgrifennu, a theatr. Mae'r holl gyfleusterau hyn i'w cael yn Neuadd John Phillips sydd mewn lle dymunol ar lannau'r Fenai.

Meysydd academiaidd yr ymdrinnir â hwy Mae ein graddau Meistr yn cynnig cyfuniad i chi o fodiwlau hyfforddedig a goruchwyliaeth bersonol, gan eich galluogi i ddilyn eich maes diddordeb eich hun a manteisio ar arbenigedd eang aelodau staff, y cyfan o fewn fframwaith pendant. Mae'r gyrsiau hefyd yn caniatáu i chi wneud cyfuniad o waith damcaniaethol/beirniadol a gwaith creadigol-ymarfer.

Gellir astudio hefyd am raddau PhD/MPhil mewn pynciau ar draws sbectrwm cyfan y Diwydiannau Creadigol, gan arbenigo mewn ymchwil academiaidd neu ymchwil ar sail ymarfer mewn meysydd fel: Ysgrifennu Proffesiynol, Ffilm a/neu Astudiaethau'r Cyfryngau, Cyfryngau Newydd, Drama, Cyfathrebu a meysydd cysylltiedig.

Cysylltiadau Ymchwil / Cysylltiadau â Diwydiant

Gall ymchwil fod yn rhyngddisgyblaethol, cydweithredol, creadigol a beirniadol. Mae ein cryfderau allweddol mewn: diwylliant digidol; cyfryngau a chyfathrebu perswadiol; a theori ac ymarfer creadigol (ymarfer-fel-ymchwil).

Mae gennym gysylltiadau cryf â chwmnïau lleol (e.e. BBC Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, S4C, Cwmni Da, Gwerthwyr Tai Dafydd Hardy, Menter Môn, Galeri Caernarfon, GeoMôn) ac rydym yn cynnig amrywiaeth o sgwrsiau a gweithdai a arweinir gan bobl o ddiwydiant i chi fynd iddynt a meithrin cysylltiadau â darpar gyflogwyr yn y diwydiannau cyfryngau a chreadigol.

RHESTR CYRSIAU:

MA/Diploma

- Filmmaking: Concept to Screen

MA

- Film Studies
- Sport History, Culture and the Media

MSc

- International Media and Management (with Business/Law)

MRes

- Creative Practice
- Film Studies
- Media and Practice
- Professional Writing

PhD/MPhil

- Professional Writing, Film, Media, New Media, Journalism, Creative Studies, Drama

PhD/MPhil Practice-Led Research

- Professional Writing, Film, Media, New Media, Journalism, Creative Studies, Drama

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382118

E-bost: media.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/media



PROFFIL STAFF

DR EBEN J. MUSE

Uwch Ddarlithydd mewn Cyfryngau Digidol

Mae ymchwil Dr Eben Muse yn edrych ar y berthynas sy'n newid rhwng llyfrau, darllenwyr ac awduron, ac ymhle y prynir, y rhennir ac y deuir o hyd i lyfrau. "Mae arloesedd digidol wedi bod yn ysgogiad i'r diwydiant llyfrau ers 1971 pan ddefnyddiodd Michael Hart gyfrifiadur gwerth miliynau o ddoleri i ddigido Datganiad Annibyniaeth America a sefydlu Project Gutenberg", meddai Eben. "Mewn sawl ffordd mae hyn wedi symud y diwydiant yn ei flaen gyda datblygiadau arloesol megis trac sain darllen Booktrack neu lyfrau amlgyfrwng a ysgrifennwyd yn dorfel megis Atavist. Ond mae'r dechnoleg wedi gwneud cymaint i anfon darllen ac ysgrifennu llyfrau yn ôl at fodolau hyn gan gynnwys cyhoeddi cyfresol neu benodau yn null y teledu. Efallai bod llyfrau ac awduron bellach yn ein darllen ni gymaint neu mor aml ag yr ydym ni yn eu darllen nhw. Mae lle'r llyfr hefyd wedi newid; mae'r cynnydd mewn gwerthu l

Llyfrau ar y we wedi arwain at ailddarganfod y lle gwerthu llyfrau ac wedi arwain at fath newydd o siop lyfrau gyda modelau busnes a chymunedau newydd."

Mae gan Eben ddiddordeb mewn gweithio gydag ymchwilwyr a myfyrwyr PhD mewn unrhyw faes sy'n gysylltiedig â diwylliant llyfrau a masnach, gan gynnwys llyfrau, gwerthu llyfrau a chyhoeddi. Mae ganddo hefyd ddiddordeb arbennig mewn ymchwil ryngddisgyblaethol ac ymchwil ymarfer creadigol.

Filmmaking: Concept to Screen MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn llawn-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii dda mewn Astudiaethau Cyfryngau neu ddisgyblaeth gysylltiedig ac/neu brofiad cyfatebol mewn diwydiant. Mae angen portffolio o waith creadigol/ffilm hefyd. Sgôr IELTS o 6.0 (dim cydran yn is 5.5), neu gyfwerth, os nad Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae gan y rhaglen radd hyfforddedig hon ffocws unigryw, ac mae'n cynnig hyfforddiant ym mhob agwedd ar wneud ffilmiau, o'r cysyniad a'r datblygiad creadigol i'r broses o wneud ffilm ac ymlaen at y dosbarthu a'r marchnata. Erbyn diwedd y radd, byddwch wedi datblygu ffilm fer fydd yn addas i'w chynnwys mewn cystadleuaeth neu wyl ffilm, ynghyd â sgiliau trosglwyddadwy i ddatblygu a marchnata eich cynnyrch a dealltwriaeth o natur y diwydiant ffilm.

Mae'r addysgu ar y radd hon yn cydymffurfio ag ymarfer cyfredol yn y diwydiant, ac mae'n cynnwys hyfforddiant a mentora ar ddogfennau datblygu safonol, megis sgriptiau ffilm, triniaethau a byrddau stori, ac mewn meysydd megis asesu risg a rheoli cyllidebau. Bydd siaradwyr gwadd o amrywiol feysydd y diwydiant ffilm yn rhoi cyd-destun hanfodol ar ymarfer sy'n newid, yn ogystal â chynnig gwybodaeth ddefnyddiol am eu profiadau eu hunain ym myd ffilmiau. Bydd pob myfyrwr ar y rhaglen hon yn cael cyllideb gynhyrchu.

Modiwlau Gorfodol:

• The Film Industry

Nod y modiwl hwn yw meithrin dealltwriaeth o'r ffordd mae'r diwydiant ffilm rhyngwladol yn gweithio. Edrychir ar yr holl elfennau o gynhyrchu, dosbarthu, arddangos, marchnata a defnyddio ffilm.

• Concept Development

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno'r agweddau ymarferol a damcaniaethol ar ddatblygu cysyniadau ar gyfer ffilm, yn ogystal â chrefft sgriptio. Bydd hyn yn cynnwys fformatio sgriptiau, arddull, strwythur, genre, llunio plotiau, cymeriadaeth a deialog.

• Film Production: The Micro Short

Nod y modiwl hwn yw datblygu gwybodaeth myfyrwyr am yr agweddau technegol ar wneud ffilm, yn cynnwys cyfarwyddo, gwaith camera, goleuo, cerddoriaeth a golygu, gyda'r nod o gynhyrchu ffilm fer ddau funud o hyd sydd o ansawdd uchel.

• Writing the Short Film

Mae'r modiwl hwn yn ehangu eich profiad ymarferol o ysgrifennu ar gyfer y sgrin ac yn ymdrin â theorïau craidd yn ymwneud â chyfuno ymarfer creadigol ac ymarfer y diwydiant, yn ogystal â chanolbwyntio'n benodol ar hanes, fformat, estheteg a gofynion ffilm fer.

• Pre-Production: The Short Film

Nod y modiwl hwn yw datblygu gwybodaeth myfyrwyr am yr elfennau ymarferol a chyllidebol o gyn-gynhyrchu ffilm fer sy'n addas i wyl ffilm, yn cynnwys strategaethau comisiynu, castio, ymarfer, asesu risg, chwilio am leoliadau a rheoli a chydlynu criw cynhyrchu.

• Film Production – Creative Practice

Byddwch yn cynhyrchu gwaith sy'n dangos gallu eithriadol mewn agweddau gweithredol ar dechnolegau, systemau, technegau ac arferion proffesiynol cyfryngau i gynhyrchu ffilm fer sy'n barod ar gyfer cystadleuaeth neu wyl ffilmiau fel enghraifft o'ch gwaith.

RHAGOLYGON GYRFA

Mae gan y radd MA hon gyswllt cryf â diwydiant, a'i nod yw hyfforddi myfyrwyr yn alwedigaethol. Cyflawnir hyn trwy eich addysgu mewn modd sy'n cydymffurfio ag arfer cyfredol y diwydiant, gan gynnwys dogfennau datblygu safonol (sgript ffilm, triniaeth, byrddau stori), a chanolbwyntio ar gwlbiau gwaith y gellir ei gyflwyno mewn amrywiaeth o wyliau a chystadlaethau ffilm rhyngwladol. Bydd siaradwyr gwadd o amrywiol feysydd y diwydiant ffilm yn rhoi cyd-destun hollbwysig ar ymarferion sy'n newid, yn ogystal â chynnig gwybodaeth ddefnyddiol am eu profiadau eu hunain ym myd ffilmiau.

Rydym yn ceisio rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad â chyrff perthnasol yn y diwydiant a threfnu amrywiaeth o weithdai a chystadlaethau proffesiynol, e.e. trwy'r cynllun Menter trwy Ddylunio.

Mae cyn-raddedigion wedi sicrhau swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau creadigol (a chysylltiedig), gan gynnwys darlledu a gwneud ffilmiau, hysbysebu/cysylltiadau cyhoeddus, datblygu gemau a thwristiaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

International Media and Management MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn llawn-amser neu ddwy flynedd rhan-amser

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii dda mewn pwnc perthnasol neu brofiad cyfatebol mewn diwydiant. Sgôr IELTS o 6.0 (dim cydran yn is 5.5), neu gyfwerth, os nad Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r diwydiannau creadigol yn gwneud cyfraniad pwysig at dwf economaidd ar draws y byd, ac maent yn gyfrifol am oddeutu 7% o'r cynnyrch mewnwladol crynswth yn Ewrop, dros 11% yn yr Unol Daleithiau a rhwng 17 ac 20% yng ngweddill y byd. Mae'r twf aruthrol hwn yn golygu bod cyfleoedd rhagorol i unigolion gyda'r sgiliau a'r cefndir angenrheidiol i weithio fel swyddogion gweithredol yn y sector. Bydd y radd MSc Rheoli'r Cyfryngau Rhyngwladol yn rhoi datblygiad deallusol a hyfforddiant i chi ddatblygu gyrfa fel uwch reolwr yn y maes hwn.

Ar y radd hon byddwch yn astudio pynciau fel Rheolaeth Strategol, Strategaeth Farchnata, Cyllid i Reolwyr, Sefydliadau a Phobl, Eiddo Deallusol, Cyfraith Gorfforaethol Gymharol, Cyfraith Lafur, Cyfraith Ryngwladol, Dulliau Ymchwil a Diwydiannau Creadigol. Byddwch hefyd yn llunio traethawd hir yn canolbwyntio ar y cyfryngau gyda'r bwriad o ymchwilio i theori ac ymarfer yn yr economïau creadigol yn lleol a/neu'n fyd-eang.

Modiwlau Gorfodol:

• Creative Industries

Yn y modiwl hwn, byddwch yn dadansoddi datblygiad y diwydiannau creadigol yn fyd-eang. Bydd pwyslais arbennig ar y cyfryngau ac ystyirir hefyd gyd-destun cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol y prif ddatblygiadau yn y diwydiannau hyn.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg beirniadol a dealltwriaeth i chi o'r prif faterion methodolegol sy'n gysylltiedig â'r amrywiol ddulliau ymchwil ym maes y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol er mwyn eich paratoi at ysgrifennu'r traethawd hir.

• Traethawd hir Meistr

Mae'r traethawd hir yn rhoi cyfle i chi weithio gyda goruchwyliwr arbenigol i gynhyrchu darn o waith ysgrifenedig estynedig. Bydd rhaid i'r gwaith fynd trwy nifer o gamau a bydd y goruchwyliwr yn eich cefnogi i adolygu eich gwaith yn effeithiol. Yn ogystal â datblygu sgiliau ar lefel uchel o ran ymchwil a chyflwyno, bydd myfyrwyr hefyd yn datblygu sgiliau pwysig o ran hunan-ddisgyblaeth.

Gall modiwlau eraill gynnwys:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn darparu dadansoddiad integredig o reolaeth, sefydliadau a phobl, gan ddatblygu'r sgiliau cysyniadol, strategol ac ymarferol sy'n angenrheidiol i reolwyr mewn cyd-destun sefydliadol, byd-eang a chymhleth.

• Intellectual Property Law

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi am elfennau sylfaenol cyfraith eiddo deallusol;

diffiniad a chwmpas hawlfraint; awduraeth, perchnogaeth, hyd a chymhwyster amddiffyn hawlfraint; torri hawlfraint a'r amddiffyniadau mewn achos o dorri hawlfraint.

• Marketing Strategy

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno elfennau sylfaenol marchnata i chi, trwy ddisgrifio strategaethau mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ac ymdrin ag amryw o safbwyntiau ym maes marchnata, ynghyd â modelau dadansodol ac arferion rheolaeth perthnasol.

RHAGOLYGON GYRFA

Trwy ei amrywiaeth unigryw o fodiwlau mewn diwydiannau creadigol, busnes a'r gyfraith, mae'r radd MSc alwedigaethol ei natur hon yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel uwch reolwr yn yr economïau creadigol. Bydd y rhaglen gyfan hefyd yn eich paratoi ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig ar lefel PhD neu MPhil. Rydym yn ceisio rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad â chyrff perthnasol yn y diwydiant a threfnu amrywiaeth o weithdai a chystadlaethau proffesiynol, e.e. trwy'r cynllun Menter trwy Ddylunio.

Mae cyn-raddedigion wedi sicrhau swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau creadigol (a chysylltiedig), gan gynnwys darlledu a gwneud ffilmiau, hysbysebu/cysylltiadau cyhoeddus, datblygu gemau a thwristiaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

Film Studies MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn Astudiaethau Ffilm neu ddisgyblaeth gysylltiedig (e.e. Astudiaethau'r Cyfryngau, Astudiaethau Americanaidd, Hanes, Gwleidyddiaeth neu Lenyddiaeth Saesneg).

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau cyfwerth a/neu ddwy flynedd neu fwy o brofiad mewn diwydiant, a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd, yn cael eu hystyried ar sail unigol. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Ni ellir deall cymdeithas fodern yn llawn heb werthfawrogi swyddogaeth ffilm. Mae ffilm yn faromedr hanfodol i fesur pryderon, gofidiau a diddordebau cymdeithas. Yn fwy nag 'adloniant' yn unig, mae ffilm yn ein helpu i ddeall ei gwleidyddiaeth, hanes, diwylliant, a swyddogaethau dosbarth, rhyw, hil, ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol.

Mae ein MA mewn Astudiaethau Ffilm yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymgysylltu â ffilm ar lefel uwch, yn weledol ac yn ddeallusol. Gan ystyried ffilm fel cynnyrch y cymdeithasau y mae'n dod i'r amlwg ohonynt, mae'r cwrs beirniadol a deallusol gadarn hwn yn gwneud defnydd o arbenigedd staff yn yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau a'r Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth. Trwy archwilio ysgolheictod ffilm o amrywiaeth o wahanol safbwyntiau (esthetig, gwleidyddol, hanesyddol) bydd myfyrwyr yn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc ac yn ei gymhwyso i'r dadansoddiad o

ddelwedd ffilm - ei briodweddau gwledol penodol, ei ystyr a'i effeithiau.

CYNNWYS Y CWRS

Cyflwynir y cwrs hwn o lygad y ffynnon gan arbenigwyr mewn Astudiaethau Ffilm. Fe'i dysgir trwy gyfuniad o seminarau i grwpiau bach, yn ogystal â goruchwyliaeth un i un. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn elwa oddi wrth awyrgylch ymchwil bywiog, gyda rhaglen reolaidd o seminarau ymchwil, dangosiadau ffilm, cynadleddau a siaradwyr gwadd.

Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau hyfforddedig (Rhan Un) a thraethawd hir (Rhan Dau). Asesir trwy gyfuniad o gyflwyniadau llafar a gwaith ysgrifenedig. Mae myfyrwyr yn cynhyrchu darn terfynol o waith ar ffurf traethawd hir dan oruchwyliaeth aelod(au) staff perthnasol.

Rhan Un:

Yn rhan gyntaf y rhaglen MA, mae'n ofynnol i bob myfyrwr astudio pedwar modiwl o 30 credyd yr un (yn achos myfyrwyr llawn-amser, mae hyn yn golygu dau fodiwl y semester), gemau fideo a thestunau cyfryngau newydd eraill.

Modiwlau gorfodol:

• Media, Culture & Creativity

Caiff myfyrwyr gyfle i astudio, trafod a darllen gweithiau arloesol o ganon y llenyddiaeth feirniadol a'u cymhwyso i arteffactau creadigol, diwylliannol a chyfryngau. Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ystyried yn feirniadol swyddogaeth a phwysigrwydd creadigrwydd mewn cyd-destun academiaidd a dadansoddi ei gyfraniad at gynhyrchu gwybodaeth.

• Research Design

Pwrpas y modiwl hwn yw eich paratoi i ddylunio, cynllunio a chwblhau project ymchwil mawr (yn seiliedig ar ymarfer neu'n empirig). Bydd myfyrwyr yn ymwneud â phob agwedd ar

y broses ymchwil, gan gynnwys: nodi patrwm ymchwil; dewis dull ansoddol neu feintiol o weithredu a strategaeth fethodolegol; llunio cwestiynau ymchwil; a chasglu a dadansoddi data.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddewis dau fodiwl dewisol pellach o restr a all gynnwys:

- American History and Politics on Screen
- Visions of the City in French Cinema
- Independent Research Project in Film Studies

Rhan Dau:

Ar ôl cwblhau'r pedwar modiwl sy'n ffurfio Rhan Un y rhaglen, mae Rhan Dau yn cynnwys traethawd hir 20,000 o eiriau (60 credyd). Mae'r traethawd hir yn rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio gyda goruchwyliwr pwnc arbenigol i gynhyrchu darn o waith ysgrifenedig neu ymarfer estynedig.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd y sgiliau a geir drwy'r cwrs hwn yn paratoi myfyrwyr ar gyfer amrywiaeth o wahanol swyddi. Gall opsiynau gyrfa posib yn y dyfodol gynnwys newyddiaduraeth a beirniadaeth ffilm, rheoli ffilm a'r celfyddydau, y diwydiannau ffilm, cyfryngau a chreadigol.

Bydd y radd MA hon yn rhoi gwybodaeth pwnc benodol a sgiliau academiaidd i chi a fydd yn eich paratoi at astudio pellach ar lefel PhD a thu hwnt. Bydd y rhaglen hefyd yn rhoi sgiliau i chi mewn meddwl yn feirniadol, dadansoddi a chyfathrebu sy'n cael eu prisio gan gyflogwyr ym maes astudiaethau ffilm a thu hwnt iddo.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

Sport History, Culture and the Media MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn Astudiaethau Ffilm neu ddisgyblaeth gysylltiedig (e.e. Hanes, Astudiaethau'r Cyfryngau, Astudiaethau Ffilm, Llenyddiaeth Saesneg, Chwaraeon).

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau cyfwerth a/neu ddwy flynedd neu fwy o brofiad mewn diwydiant, a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd, yn cael eu hystyried ar sail unigol. Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y rhaglen MA newydd arloesol hon yw rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o ddylanwad hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol chwaraeon, ynghyd â'u dosbarthiad a'u heffaith.

Gan gyfuno hanes chwaraeon a'r astudiaeth o'r cyfryngau, diwylliant a chymdeithas, mae'r rhaglen yn tynnu ar bynciau sydd eisoes ar gael

ar draws y brifysgol. Anogir myfyrwyr i feddwl a dadlau'n feirniadol am theori gymdeithasol, economaidd a gwleidyddol i egluro datblygiad a gwahaniaethiad chwaraeon ledled cymdeithas, ac i gymhwyso'r ystyron cymdeithasol a diwylliannol sydd ynghlwm â chwaraeon a'r diwydiannau cyfryngau ac adloniant.

Dysgir y rhaglen trwy gyfuniad o seminarau i grwpiau bach, yn ogystal â goruchwyliaeth un i un. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn elwa oddi wrth awyrgylch ymchwil bywiog, gyda rhaglen reolaidd o seminarau ymchwil, dangosiadau ffilm, cynadleddau a siaradwyr gwadd.

Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau hyfforddedig (Rhan Un) a thraethawd hir (Rhan Dau). Asesir trwy gyfuniad o gyflwyniadau llafar a gwaith ysgrifenedig. Mae myfyrwyr yn cynhyrchu darn terfynol o waith ar ffurf traethawd hir dan oruchwyliaeth aelod(au) staff perthnasol.

Rhan Un:

Yn rhan gyntaf y rhaglen MA, mae'n ofynnol i bob myfyrwr astudio pedwar modiwl o 30 credyd yr un. Yn ogystal â'r modiwl Research Design, bydd myfyrwyr ar y cwrs hwn yn cymryd modiwlau arbenigol pellach gan gynnwys: The World History of Sport; Sport, Culture and the Media; a Sport and Ethnicity.

Rhan Dau:

Ar ôl cwblhau'r pedwar modiwl sy'n ffurfio Rhan Un y rhaglen, mae Rhan Dau yn cynnwys traethawd hir 20,000 o eiriau (60 credyd). Mae'r traethawd hir yn rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio gyda goruchwyliwr pwnc arbenigol i gynhyrchu darn o waith ysgrifenedig neu ymarfer estynedig.

RHAGOLYCON GYRFA

Gall y cwrs hwn fod yn addas i rai sydd eisiau datblygu gyrfaedd yn y dyfodol mewn ysgrifennu am chwaraeon, newyddiaduraeth, datblygu chwaraeon, rheolaeth, y cyfryngau, addysgu neu astudio ymhellach ar lefel PhD a thu hwnt. Datblygir sgiliau mewn meddwl yn feirniadol, dadansoddi a chyfathrebu sy'n cael eu gwerthfawrogi gan amrywiaeth o gyflogwyr.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

Creative Practice MRes

HYD Y CWRS

MRes: Blwyddyn llawn-amser neu ddwy flynedd rhan-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.1 dda neu brofiad cyfatebol mewn diwydiant. Sgôr IELTS o 6.5 (dim cydran yn is 6.0), neu gyfwerth, os nad Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r radd hon wedi ei seilio ar ein ffocws cryf ar gyfuno gwaith ac ymarfer beirniadol/damcaniaethol a thynnu'r gwahanol elfennau at ei gilydd. Yn y semester cyntaf byddwch ym cymryd modiwlau ar greadigrwydd ac ymchwil ac ym maes theori cyfryngau, cyn dechrau ar y gwaith o gynhyrchu traethawd hir sylweddol ar sail ymarfer, dan oruchwyliath aelod staff arbenigol.

Bydd y traethawd hir yn cynnwys elfen adfyryiol/feirniadol a phortffolio, a gellir ei seilio ar unrhyw un o'r disgyblaethau ymarferol a ddysgir, yn cynnwys ysgrifennu, ysgrifennu i'r sgrin, perfformio, cynhyrchu Ffônede a radio, gwneud ffilmiau a rhaglenni dogfen, ysgrifennu a chynhyrchu i'r cyfryngau digidol a newyddiaduraeth. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn meddu ar radd gyntaf ragorol mewn disgyblaeth berthnasol neu brofiad ymarferol/diwydiannol cyfwerth, a'r gallu i weithio'n annibynnol i gwblhau project sylweddol.

Modiwlau Gorfodol:

• Media, Culture, and Creativity Theory

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar ein cryfderau mwyaf, trwy ddod â myfyrwyr, ynghyd ag ymarferwyr ac ymchwilwyr o feysydd astudio eraill, ynghyd mewn fforwm i ymdrin yn ehangach ag ymchwil gyfredol yn y diwydiannau cyfryngau a chreadigol. Bydd y modiwl yn rhoi golwg gyffredinol systematig o brif ysgolion beirniadol a dulliau damcaniaethol yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, sy'n allweddol i gael dealltwriaeth uwch o sut i ddarllen a dadansoddi arteffactau creadigol, diwylliannol a chyfryngau, megis ffuglen, gwaith ffeithiol, barddoniaeth, drama, ffilm, gemau fideo a thestunau cyfryngau newydd eraill.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg beirniadol a dealltwriaeth i chi o'r prif faterion methodolegol sy'n gysylltiedig â'r amrywiol ddulliau ymchwil ym maes y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol er mwyn eich paratoi at ysgrifennu'r traethawd hir.

• MRes Humanities Traethawd hir

Gydag arweiniad gan staff academaidd, gofynnir i fyfyrwyr sy'n dilyn y modiwl Traethawd Hir MRes yn y Dyniaethau ddewis pwnc eu hunain ar gyfer ymchwil bellach. Disgwylir i fyfyrwyr gynhyrchu darn o waith y maent wedi ymchwilio'n annibynnol iddo a fydd yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r sgiliau

y maent wedi eu cael drwy'r modiwlau hyfforddedig. Gall y pwnc a ddewisir fod yn benodol i un diwylliant neu'n bwnc cymharol.

RHAGOLYGON GYRFA

Bydd yr MRes mewn Ymarfer Creadigol yn eich paratoi i ddiwallu'r angen, a nodir fwyfwy o fewn diwydiant, am ymarferwyr medrus sydd â phrofiad o ddatblygu projectau yn y sector creadigol.

Rydym yn ceisio rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad â chyrff perthnasol yn y diwydiant a threfnu amrywiaeth o weithdai a chystadlaethau proffesiynol, e.e. trwy'r cynllun Menter trwy Ddylunio.

Mae cyn-raddedigion wedi sicrhau swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau creadigol (a chysylltiedig), gan gynnwys darlledu a gwneud ffilmiau, hysbysebu/cysylltiadau cyhoeddus, datblygu gemau a thwristiaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

Professional Writing MRes

HYD Y CWRS

MRes: Blwyddyn llawn-amser neu ddwy flynedd rhan-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.1 dda neu brofiad ymarferol/diwydiannol cyfatebol. Sgôr IELTS o 6.5 (dim cydran yn is 6.0), neu gyfwerth, os nad Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle i chi wneud ymchwil fanwl, empirig neu feirniadol yn seiliedig ar ymarfer i broses a chynnyrch ysgrifennu proffesiynol. Byddwch yn gweithio tuag at gynhyrchu portffolio wedi'i seilio ar ymarfer, neu ddarn o waith yr ymchwiliwyd yn annibynnol iddo, a fydd yn archwilio arddulliau, cyd-destunau ac agweddau creadigol a beirniadol ysgrifennu proffesiynol. Byddwch yn datblygu, cynnal, cyfnerthu a chwblhau rhaglen waith hunangyfeiriedig mewn ysgrifennu proffesiynol dros gyfnod estynedig o amser, dan oruchwyliath staff proffesiynol arbenigol yn y maes.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus am y rhaglen hon radd gyntaf mewn disgyblaeth berthnasol neu brofiad ymarferol/diwydiannol cyfwerth, yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol i gwblhau project hunangyfeiriedig.

Modiwlau Gorfodol:

• Media, Culture, and Creativity Theory

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar ein cryfderau mwyaf, trwy ddod â myfyrwyr, ynghyd ag ymarferwyr ac ymchwilwyr o feysydd astudio eraill, ynghyd mewn fforwm i ymdrin yn ehangach ag ymchwil gyfredol yn y diwydiannau cyfryngau a chreadigol. Bydd y modiwl yn rhoi golwg gyffredinol systematig o brif ysgolion beirniadol a dulliau damcaniaethol yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, sy'n allweddol i gael dealltwriaeth uwch o sut i ddarllen a dadansoddi arteffactau creadigol, diwylliannol a chyfryngau, megis ffuglen, gwaith ffeithiol, barddoniaeth, drama, ffilm, gemau fideo a thestunau cyfryngau newydd eraill.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg beirniadol a dealltwriaeth i chi o'r prif faterion methodolegol sy'n gysylltiedig â'r amrywiol ddulliau ymchwil ym maes y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol er mwyn eich paratoi at ysgrifennu'r traethawd hir.

• MRes Humanities Traethawd hir

Gydag arweiniad gan staff academaidd, gofynnir i fyfyrwyr sy'n dilyn y modiwl Traethawd Hir MRes yn y Dyniaethau ddewis pwnc eu hunain ar gyfer ymchwil bellach. Disgwylir i fyfyrwyr gynhyrchu darn o waith y maent wedi ymchwilio'n annibynnol iddo a fydd yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi eu cael drwy'r modiwlau hyfforddedig. Gall y pwnc a ddewisir fod yn benodol i un diwylliant neu'n bwnc cymharol.

RHAGOLYGON GYRFA

Bydd yr MRes mewn Ysgrifennu Proffesiynol yn eich paratoi i ddiwallu'r angen, a nodir fwyfwy o fewn diwydiant, am ymarferwyr medrus sydd â phrofiad o ddatblygu projectau yn y diwydiannau creadigol. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i chi ddangos eich gallu i weithio'n annibynnol ar broject hir a chymhleth, gan ddarparu sylfaen gref i'r rheini sy'n dymuno mynd ymlaen i astudio academaidd pellach ac i yrfaoedd academaidd.

Rydym yn ceisio rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad â chyrff perthnasol yn y diwydiant a threfnu amrywiaeth o weithdai a chystadlaethau proffesiynol, e.e. trwy'r cynllun Menter trwy Ddylunio.

Mae cyn-raddedigion wedi sicrhau swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau creadigol (a chysylltiedig), gan gynnwys darlledu a gwneud ffilmiau, hysbysebu/cysylltiadau cyhoeddus, datblygu gemau a thwristiaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

Film Studies MRes

HYD Y CWRS

MRes: Blwyddyn llawn-amser neu ddwy flynedd rhan-amser

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.i dda neu brofiad ymarferol/diwydiannol cyfatebol. Sgôr IELTS o 6.5 (dim cydran yn is 6.0), neu gyfwerth, os nad Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle i chi wneud astudiaeth fanwl ar agwedd o'ch dewis ar ffilm ac astudiaethau sinema. Yn dilyn modiwlau'r semester cyntaf mewn Dulliau Ymchwil a'r Cyfryngau, Diwylliant a Chreadigrwydd, byddwch yn dechrau ar draethawd hir 40,000 o eiriau (neu broiect cyfwerth yn seiliedig ar ymarfer). Bydd staff ffilm arbenigol yng Ngholeg y Celfyddydau, y Dyniaethau a Busnes ym Mhrifysgol Bangor wrth law i oruchwylio, wrth i chi ddatblygu, cynnal, cyfnerthu a chwblhau rhaglen waith hunangyfeiriedig ym maes astudiaethau ffilm, naill ai'n greadigol neu'n ddamcaniaethol, dros gyfnod estynedig o amser. Cefnogir yr MRes gan gyfres o seminarau a drefnir gan y coleg, sy'n rhoi cyfle i chi gyflwyno'r gwaith sydd ar y gweill gennych, a datblygu dealltwriaeth o fodelau beirniadol ac ymchwil ym Mangor a thu hwnt.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus am y rhaglen hon radd gyntaf mewn disgyblaeth berthnasol neu brofiad ymarferol/diwydiannol cyfwerth, yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol i gwblhau project hunangyfeiriedig.

Modiwlau Gorfodol:

• Media, Culture, and Creativity Theory

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar ein cryfderau mwyaf, trwy ddod â myfyrwyr, ynghyd ag ymarferwyr ac ymchwilwyr o feysydd astudio eraill, ynghyd mewn fforwm i ymdrin yn ehangach ag ymchwil gyfredol yn y diwydiannau cyfryngau a chreadigol. Bydd y modiwl yn rhoi golwg gyffredinol systematig o brif ysgolion beirniadol a dulliau damcaniaethol yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, sy'n allweddol i gael dealltwriaeth uwch o sut i ddarllen a dadansoddi arteffactau creadigol, diwylliannol a chyfryngau, megis ffuglen, gwaith ffeithiol, barddoniaeth, drama, ffilm, gemau fideo a thestunau cyfryngau newydd eraill.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg beirniadol a dealltwriaeth i chi o'r prif faterion methodolegol sy'n gysylltiedig â'r amrywiol ddulliau ymchwil ym maes y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol er mwyn eich paratoi at ysgrifennu'r traethawd hir.

• MRes Humanities Traethawd hir

Gydag arweiniad gan staff academiaidd, gofynnir i fyfyrwyr sy'n dilyn y modiwl Traethawd Hir MRes yn y Dyniaethau ddewis pwnc eu hunain ar gyfer ymchwil bellach. Disgwylir i fyfyrwyr gynhyrchu darn o waith y maent wedi ymchwilio'n annibynnol iddo a fydd yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi eu cael drwy'r modiwlau hyfforddedig. Gall y pwnc a ddewisir fod yn benodol i un diwylliant neu'n bwnc cymharol.

RHAGOLYGON GYRFA

Bydd yr MRes Astudiaethau Ffilm yn rhoi hyfforddiant delfrydol i rai sy'n dymuno gweithio yn y diwydiannau creadigol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau dadansodol a beirniadol allweddol ar gyfer y sectorau astudiaethau ffilm a sinema. Bydd hefyd yn rhoi sylfaen gref i rai sy'n dymuno dilyn astudiaeth ddoethurol gyda golwg ar yrfaoedd mewn addysgu, darlithio ac ymchwil.

Rydym yn ceisio rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad â chyrff perthnasol yn y diwydiant a threfnu amrywiaeth o weithdai a chystadlaethau proffesiynol, e.e. trwy'r cynllun Menter trwy Ddylunio.

Mae cyn-raddedigion wedi sicrhau swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau creadigol (a chysylltiedig), gan gynnwys darlledu a gwneud ffilmiau, hysbysebu/cysylltiadau cyhoeddus, datblygu gemau a thwristiaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

Media and Practice MRes

HYD Y CWRS

MRes: Blwyddyn llawn-amser neu ddwy flynedd rhan-amser

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.i dda neu brofiad ymarferol/diwydiannol cyfatebol. Sgôr IELTS o 6.5 (dim cydran yn is 6.0), neu gyfwerth, os nad Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y rhaglen hon yw dyfnhau gwybodaeth myfyrwyr am gyfryngau ac ymarfer, trwy eu galluogi i wneud gwaith ymchwil ym maes theori cyfryngau, cyfathrebu a ffurfiau ar y cyfryngau. Gan bwyso ar ystod eang o arbenigedd, cewch gyfle i ddatblygu, cynnal, cyfnerthu a chwblhau rhaglen waith hunangyfeiriedig ym maes y cyfryngau - naill ai'n greadigol neu'n ddamcaniaethol - dros gyfnod estynedig o amser. Rhennir y rhaglen yn ddau fodiwl hyfforddedig a darn sylweddol o waith annibynnol, a wneir dan oruchwyliaeth staff proffesiynol arbenigol.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus am y rhaglen hon radd gyntaf ragorol mewn disgyblaeth berthnasol neu brofiad ymarferol/diwydiannol cyfwerth, yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol i gwblhau project hunangyfeiriedig.

Modiwlau Gorfodol:

• Media, Culture, and Creativity Theory

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar ein cryfderau mwyaf, trwy ddod â myfyrwyr, ynghyd ag ymarferwyr ac ymchwilwyr o feysydd astudio eraill, ynghyd mewn fforwm i ymdrin yn ehangach ag ymchwil gyfredol yn y diwydiannau cyfryngau a chreadigol. Bydd y modiwl yn rhoi golwg gyffredinol systematig o brif ysgolion beirniadol a dulliau damcaniaethol yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, sy'n allweddol i gael dealltwriaeth uwch o sut i ddarllen a dadansoddi arteffactau creadigol, diwylliannol a chyfryngau, megis ffuglen, gwaith ffeithiol, barddoniaeth, drama, ffilm, gemau fideo a thestunau cyfryngau newydd eraill.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg beirniadol a dealltwriaeth i chi o'r prif faterion methodolegol sy'n gysylltiedig â'r amrywiol ddulliau ymchwil ym maes y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol er mwyn eich paratoi at ysgrifennu'r traethawd hir.

• MRes Humanities Traethawd hir

Gydag arweiniad gan staff academiaidd, gofynnir i fyfyrwyr sy'n dilyn y modiwl Traethawd Hir MRes yn y Dyniaethau ddewis pwnc eu hunain ar gyfer ymchwil bellach. Disgwylir i fyfyrwyr gynhyrchu darn o waith y maent wedi ymchwilio'n annibynnol iddo a fydd yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi eu cael drwy'r modiwlau hyfforddedig. Gall y pwnc a ddewisir fod yn benodol i un diwylliant neu'n bwnc cymharol.

RHAGOLYGON GYRFA

Bydd y sgiliau dadansodol a chreadigol allweddol a addysgir fel rhan o'r MRes Cyfryngau ac Ymarfer yn hyfforddiant delfrydol i rai sy'n dymuno gweithio ym maes ymarfer creadigol a diwydiannau cysylltiedig. Bydd gallu'r myfyriwr i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig i derfynau amser caeth, ynghyd â'u gwybodaeth fanwl am lawer o agweddau ar gyfryngau ac ymarfer, yn dangos gallu gwerthfawr i weithio'n annibynnol ar broiect hir a chymhleth. Bydd hefyd o ddefnydd i fyfyrwyr sy'n dymuno mynd ymlaen i astudio academiaidd pellach (e.e. ymchwil doethuriaeth) ac i yrfaoedd fel darlithwyr ac ymchwilwyr.

Rydym yn ceisio rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad â chyrff perthnasol yn y diwydiant a threfnu amrywiaeth o weithdai a chystadlaethau proffesiynol, e.e. trwy'r cynllun Menter trwy Ddylunio.

Mae cyn-raddedigion wedi sicrhau swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau creadigol (a chysylltiedig), gan gynnwys darlledu a gwneud ffilmiau, hysbysebu/cysylltiadau cyhoeddus, datblygu gemau a thwristiaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/creative

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd llawn-amser, 6 blynedd rhan-amser;
MPhil: 2 flynedd llawn-amser, 4 blynedd rhan-amser;

GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, byddem yn disgwyl i fyfyrwyr sy'n dechrau ar PhD neu MPhil fod â gradd dosbarth cyntaf neu radd dda yn yr ail ddosbarth. Yn aml, mae ymgeiswyr PhD a MPhil wedi astudio hyd at lefel Meistr, er nad yw hynny'n orfodol. Rydym yn gallu derbyn myfyrwyr sy'n dysgu o bell, ond dylent eisoes fod wedi ennill y sgiliau a ddysgir yn y seminarau rhagarweiniol, neu dylent drefnu i fynd i seminarau cyfatebol mewn sefydliad arall, ar eu cost eu hunain. Yn achos myfyrwyr nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, disgwylir fod ganddynt sgôr IELTS o fan leiaf 7.0.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Gellir astudio am raddau PhD/MPhil a PhD/MPhil Ymchwil ar Sail Ymarfer mewn pynciau ar draws sbectrwm cyfan y Diwydiannau Creadigol, gyda photensial i arbenigo mewn meysydd fel: ffilm ac/neu astudiaethau cyfryngau, cyfryngau newydd, drama, cyfathrebu a meysydd cysylltiedig. Mae ein staff yn arbenigo mewn ystod eang o feysydd pwnc, megis sinema'r byd, diwylliant gweledol, cyfryngau digidol a rhyngweithiol, gemau ac amgylcheddau rhithwir, y celfyddydau digidol a diwylliant, newyddiaduraeth, astudiaethau cyfryngau a diwyllianol, ysgrifennu ac addasu ar gyfer y sgrin, drama a pherfformio. Mae ein staff Ymchwil ar Sail Ymarfer yn arbenigo mewn meysydd fel cyfryngau digidol a rhyngweithiol, ysgrifennu proffesiynol (newyddiaduraeth ac ysgrifennu ar gyfer y sgrin), cynhyrchu i'r cyfryngau a ffilm, a pherfformio.

Ni allai'r awyrgylch astudio ym Mangor fod yn well ar gyfer astudio ar lefel ôl-raddedig. Byddwch yn ymuno â chymuned ôl-raddedig fywiog a phrifysgol sydd â phrofiad sylweddol o ddysgu'r diwydiannau creadigol ar lefel ôl-raddedig.

RHAGOLYGON GYRFA

Ar ôl cwblhau eu graddau ymchwil, mae cyn-raddedigion wedi sicrhau swyddi mewn amrywiaeth o sefydliadau academiaidd o fri yn ogystal ag mewn diwydiannau creadigol (a chysylltiedig), gan gynnwys darlledu a gwneud ffilmiau, hysbysebu/cysylltiadau cyhoeddus, datblygu gemau a thwristiaeth.

Rydym yn ceisio rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad â chyrff perthnasol yn y diwydiant a threfnu amrywiaeth o weithdai a chystadlaethau proffesiynol, e.e. trwy'r cynllun Menter trwy Ddylunio.

Mae gan bob myfyrwr ymchwil ystod eang o ddigwyddiadau hyfforddi academiaidd i ddewis ohonynt, gan gynnwys:

- cyfres o seminarau i staff a myfyrwyr
- cyfarfodydd rheolaidd pwyllgor goruchwyllo
- symposiwm blynyddol i ôl-raddedigion
- cyrsiau sgiliau gyrfa ac ymchwil a gynigir gan Ysgol Ddoethurol y Brifysgol.

Mae myfyrwyr ymchwil hefyd yn cymryd rhan mewn addysgu israddedigion perthnasol a gweithgareddau golygyddol/cyhoeddi.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/creative



Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Mae Llenyddiaeth Saesneg wedi bod yn rhan annatod o Brifysgol Bangor ers i'r brifysgol agor ei drysau yn 1884. Adlewyrchir ein hanes hir, ein traddodiad cryf a'n cyfoeth o brofiad yn ein harbenigedd ar lefel ôl-raddedig, ac ategir hynny gan ystod o gyrsiau sy'n caniatáu i'n myfyrwyr arbenigo mewn nifer o feysydd astudio traddodiadol a chyfoes. Mae'r staff addysgu yn cynnwys unigolion sy'n feirdd, awduron, beirniaid a nofelwyr llwyddiannus yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r staff academaidd yn cynnwys rhai o arbenigwyr mwyaf blaenllaw'r byd ar Llenyddiaeth Arthuraidd, Herbert, llenyddiaeth fodern gynnar, hanes y llyfr a llên Saesneg Cymru.

Mae gan Fangor hanes sydd ymhlith yr hynaf yn y Deyrnas Unedig o ddysgu ysgrifennu creadigol ac mae wedi arloesi ar y rhyngwyneb creadigol-feirniadol sydd wedi galluogi ein graddedigion i ragori mewn gwaith ysgrifennu a chyhoeddi.

Mae'r ysgol yn cynnig awyrgylch ddiddan a chefnogol i ôl-raddedigion, ac yn canolbwyntio ar addysgu mewn grwpiau bach a goruchwyliaeth unigol. Mae ôl-raddedigion yn gweithio'n agos â staff academaidd mewn cymuned ymchwil sy'n cymell cyfnewid a gweithgarwch rhyngddisgyblaethol. Mae ein myfyrwyr MA a PhD yn aelodau o Ysgol Graddedigion Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cyfnewid cynhyrchiol rhwng ei hamrywiol ysgolion a disgyblaethau.

Yn ogystal â darlenniadau barddoniaeth rheolaidd, mae gweithgareddau ymchwil a sefydlwyd ac a gynhelir gan ein myfyrwyr yn cynnwys: cynhadledd ôl-radd flynyddol ar astudiaethau'r oesoedd canol a chanoloesoldeb; gweithdy ysgrifennu creadigol staff a myfyrwyr ôl-radd; cyfnodolyn ôl-radd ar-lein; a fforwm ymchwil ôl-raddedig.

Golwg gyffredinol ar y meysydd academaidd
Mae gennym arbenigedd yn y meysydd allweddol canlynol:

Testunau Materol a Diwylliant

Astudir hwynt ar draws pob cyfnod o lenyddiaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar olygu a dehongli llyfrau llawysgrif canoloesol a llawysgrifau a phrint modern cynnar; y berthynas rhwng celfyddyd a llenyddiaeth; gohebiaeth a chyfathrebu Fictoriaidd; gwaith R.S. Thomas a sgriptiau ffilm modern.

Llenyddiaethau Cymru

Rydym wedi sefydlu cryfder ym maes llên Saesneg Cymru; gan arloesi mewn ymdriniaethau newydd a chymharol o ysgrifennu sy'n deillio o Gymru yn Gymraeg a Saesneg; damcaniaethau am lenyddiaeth, diwylliant a hunaniaeth genedlaethol.

Ymdriniaethau â'r Pedair Gwlad

Ymdriniaethau beirniadol sy'n edrych ar destunau o wahanol ranbarthau a chenhedloedd yr ynysoedd hyn, yn aml yn gymharol, neu sy'n herio'r agwedd weddilliol Eingl-ganolog tuag at astudiaethau llenyddol Prydain.

Llenyddiaeth y Byd

Testunau o lenyddiaethau cenedlaethol y tu allan i Brydain; ymdriniaethau beirniadol neu astudiaethau cymharol sy'n ystyried testunau

o Brydain ochr yn ochr â rhai o rannau eraill o'r byd; damcaniaethau am ofod llenyddol rhyngwladol.

Astudiaethau Arthuraidd

Mae'r maes arbenigedd hwn wedi'i sefydlu ym Mangor ers dros 50 mlynedd; mae'r gwaith ymchwil ac addysgu yn canolbwyntio ar ymdriniaethau rhyngddisgyblaethol o ddatblygiad y chwedlau Arthuraidd o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw.

Cyfieithu, Addasu, Arbrofi Ymdriniaethau

creadigol a beirniadol o ysgrifennu arbrofol; ymdriniaethau o gyfieithu, addasu a chyfatebiaeth rhwng genres ac ieithoedd, gyda chryfderau arbennig mewn llenyddiaeth, ffilm a sgriptiau ffilm.

Ysgrifennu Creadigol

Mae'r staff ysgrifennu creadigol ym Mangor yn cyhoeddi ym mhrif ffurfiau ffuglen fer, y nofel a barddoniaeth ac mae eu hymchwil yn rhychwantu beirniadaeth a'u cyfraniadau ar sail ymarfer i'r meysydd hynny.

Canolfannau Ymchwil

- Mae'r Sefydliad **Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar (IMEMS)**, sefydliad ymchwil cydweithredol rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth, yn canolbwyntio ar weithgarwch ymchwil yn y cyfnod cyn 1800.
- Mae **Canolfan R. S. Thomas** yn meithrin gwaith newydd yn y maes astudio hwn, yn benodol trwy ymdrin â deunyddiau ffynhonnell wreiddiol o archifau R. S. Thomas, sydd wedi dod i feddiant Prifysgol Bangor yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae'r **Ganolfan dros Farddoniaeth Gyfoes** (a elwir yn anffurfiol yn 'Contempo') yn ganolfan ymchwil draws-sefydliadol, gydweithredol a sefydlwyd yn 2006, sy'n cael ei chynnal gan brifysgolion Bangor, Aberystwyth a Brighton. Ei nod yw datblygu gwybodaeth am arferion barddonol cyfoes, am y rhyngwyneb rhwng y gair a'r gweledol, ac archwilio gwahaniaethau mewn ymarfer rhwng ffurfiau barddonol arbrofol a thraddodiadol.
- Mae'r **Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd** yn ganolfan ymchwil a chyfnewid rhyngwladol mewn Astudiaethau Arthuraidd sy'n tynnu ar gryfderau hanesyddol y brifysgol yn y maes o ran arbenigedd staff a'r adnoddau a gedwir yn Llyfrgell a Chasgliadau Arbennig y brifysgol.
- Mae **Canolfan Stephen Colclough** ar Hanes a Diwylliant y Llyfr wedi'i leoli yn Llyfrgell a Chasgliadau Arbennig y Brifysgol ac mae'n ganolbwynt i staff ar draws y brifysgol a thu hwnt sy'n gweithio ar astudio'r llyfr fel gwrthrych materol. Mae'r ymchwil a wneir yn y Ganolfan yn canolbwyntio ar ddatblygu ymdriniaethau o le'r llyfr mewn fframweithiau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, ac fel cynwyd diwylliannol, cludwr gwybodaeth a gwrthrych i'w ddyheu.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MA/Diploma

- Arthurian Literature
- Creative Writing
- English Literature
- Medieval Studies

PhD/MPhil

- Creative and Critical Writing
- English Literature

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382118

E-bost: languages.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/lang-lit-ling

Staff a chyfleusterau

Mae diddordebau ein staff yn ymestyn o gyfnod yr oesoedd canol i'r unfed ganrif ar hugain ac yn edrych y tu hwnt i Brydain ar dirweddau rhyngwladol llenyddiaethau Saesneg. Mae'r staff yn ymchwilwyr ac athrawon brwdfrydig sy'n cydweithio yn y cyrsiau ôl-radd rhagarweiniol i drosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd gwerthfawr. Mae daliadau llyfrgell y brifysgol wedi cael eu datblygu'n ofalus i gyfateb â diddordebau ymchwil.

Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant arbenigol mewn palaeograffeg a chodicoleg (llawysgrifau canoloesol a modern cynnar mewn Saesneg Canol, Cymraeg Canol, Eingl Normanaidd a Lladin).

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. Astudiaethau Llenyddol, Hanes, Astudiaethau/Llenyddiaeth Arthuraidd, Astudiaethau Ffilm) a diddordeb amlwg mewn Llenyddiaeth Arthuraidd.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.5 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MA mewn Astudiaethau Arthuraidd yn cynnig rhaglen o fodiwlau wedi'u dewis yn ofalus i'ch tywys trwy'r maes ymchwil rhyngddisgyblaethol cyfoethog hwn a'ch paratoi ar gyfer ymchwil ar lefel uwch. Ceir dwy ran i'r rhaglen: Rhaid cwblhau Rhan Un (hyfforddedig) yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i Ran Dau (y traethawd hir).

Rhan Un:

Mae'r rhaglen yn nodweddiadol yn cynnwys y modiwlau hyfforddedig gorfodol canlynol:

• **Introduction to Literary Theory, Scholarship and Research** (30 credyd), sy'n datblygu dealltwriaeth o theori lenyddol a dulliau ymchwil.

• **Medieval Arthur** (30 credyd) sy'n ymdrin â'r myth Arthuraidd o'r dystiolaeth archeolegol gynharaf hyd at ddiwedd y bymthegfed ganrif, gyda'r bwriad o archwilio i'w esblygiad mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwleidyddol-gymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal â diwylliant materol. Bydd y genres a astudir yn y modiwl hwn yn cynnwys dogfennau hanesyddol, croniclau, rhamantau ac achau, wedi'u hysgrifennu yn Lladin, Cymraeg,

Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Iseldireg, Norseg, Eidaleg, Sbaeneg (mewn cyfieithiad, yn ôl yr angen), hynny yw, yr holl ieithoedd hynny y cafodd deunydd Arthuraidd ei greu a'i gylchredeg ynddynt.

• **Post-Medieval Arthur** (30 credyd), sy'n ymdrin ag addasiadau o fyth a chwedlau Arthuraidd o'r unfed ganrif ar bymtheg i'r unfed ganrif ar hugain, gan roi sylw i sut y lluniwyd y stori mewn gwahanol genres, o ramant boblogaidd, bugeilgerddi, drama, epig a dychan, i ffantasi fodern, y nofel graffig, gemau fideo a ffilm.

Bydd myfyrwyr hefyd yn dewis Modiwl Dewisol pellach o restr a all gynnwys:

• **Open Essay** (30 credyd): Traethodau dan oruchwyliath ar bynciau o ddewis y myfyrwr ei hun (Sylwch: Bydd angen i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn datblygu portffolio ysgrifennu creadigol ar gyfer eu Traethawd Agored ddangos profiad blaenorol lefel gradd (neu gyfwerth) o ysgrifennu creadigol, a thrafod yr opsiwn hwn gyda chyfarwyddwr y cwrs).

• **Manuscript and Printed Books** (30 credyd): Cyflwyniad i astudiaeth o baleograffeg a chodicolleg ganoloesol a modern cynnar, mewn cydweithrediad ag Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor, sy'n cynnwys llyfrgell Eglwys Gadeiriol Bangor.

• **Material Texts & Editing** (30 credyd): Mae'r modiwl hwn yn archwilio i'r maes cyfoethog o weithio gyda thestunau - o lawysgrifau canrifoedd cynnar yr oesoedd canol i sgrin yn yr oes ddigidol. Caiff y myfyrwyr gyfle i gyfarfod am seminarau yn adran archifau'r brifysgol a gweithio gyda thim o academyddion a fydd yn rhannu eu profiad ymchwil wrth ymdrin â gweithiau ysgrifenedig o'r wythfed i'r unfed ganrif ar hugain.

• **Welsh Writing in English** (30 credyd): Mae'r modiwl hwn yn arddangos cyfoeth llên Saesneg Cymru yn y cyfnod modern ac yn cwmpasu ystod lawn o genres. Mae croeso i fyfyrwyr ddewis y modiwl hwn a/neu fodiwl arall sy'n berthnasol i'w diddordeb(au), gyda'r unig ofyniad bod un o'r testunau a gynhwysir yn eu hymchwil yn ymwneud â chwedl(au) Arthuraidd neu'n cynnwys addasiad(au) ohonynt.

Rhan Dau:

• **Traethawd hir** (60 credyd): darn sylweddol (20,000 o eiriau) o ymchwil ysgolheigaidd, ar bwnc o'ch dewis eich hun ac wedi'i drafod yn fanwl gyda'r goruchwyliwr a ddewisir. Bydd yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd goruchwylio un i un dros yr haf, unwaith y bydd Rhan I wedi'i chwblhau'n llwyddiannus. (Sylwch: Bydd angen i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn datblygu portffolio ysgrifennu creadigol fel rhan neu'r cwbl o'u Traethawd Hir ddangos profiad blaenorol lefel gradd (neu gyfwerth) o ysgrifennu creadigol, a thrafod yr opsiwn hwn gyda chyfarwyddwr y cwrs).

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Mae cydweithrediad yr atyniad twristaidd 'Labrinth y Brenin Arthur' yng Nghorris wedi arwain at ariannu lleoedd Mynediad i Radd Meistr MA dros y blynyddoedd diwethaf.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae myfyrwyr ymchwil presennol a blaenorol wedi mynd ymlaen at raddau uwch, addysgu, ymchwil a llyfrgellyddiaeth mewn addysg uwch (y Deyrnas Unedig, yr Unol Daleithiau, Japan, a mannau eraill), cyhoeddi, ac ystod o weithgareddau cysylltiedig.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/english



HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol a ddylai fel rheol gynnwys elfen o Ysgrifennu Creadigol (e.e. Ysgrifennu Creadigol neu Astudiaethau Llenyddol) a diddordeb amlwg mewn Ysgrifennu Creadigol.

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau neu brofiad cyfwerth a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd yn cael eu hystyried fesul un. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno ychydig enghreifftiau o'u gwaith (barddoniaeth a/neu ryddiaith) i gefnogi eu cais. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.5 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Gallai cwrs mewn ysgrifennu creadigol fod yn gam cyntaf tuag at yrfa ysgrifennu, neu'n gyfle i awduron mwy profiadol ddatblygu eu gwaith o safbwynt newydd. Mae ysgrifennu creadigol ym Mhrifysgol Bangor yn cynnig ystod o gyfleoedd ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig mewn awyrgylch feirniadol a chreadigol ddeinamig. Mae gan Brifysgol Bangor brofiad sylweddol yn y ddisgyblaeth hon a chymuned ôl-raddedig lewyrchus.

Hyfforddir ein MA mewn Ysgrifennu Creadigol gan staff sy'n awduron cyhoeddedig ac yn academyddion sydd â phrofiad helaeth o heriau ymchwil prifysgol.

Mae dwy ran i'r MA mewn Ysgrifennu Creadigol. Rhaid cwblhau Rhan Un yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i Ran Dau (y traethawd hir).

Rhan Un:

Yn rhan gyntaf yr MA, addysgir pedwar modiwl mewn grwpiau bychain neu dan oruchwyliaeth unigol. Mae'r modiwlau'n cynnwys tri modiwl gorfodol a phedwerydd modiwl wedi'i ddewis o restr o'r dewis sydd ar gael.

Modiwlau Gorfodol:**• Creative Writing: Poetry (30 credyd):**

Trwy gyfres o seminarau grŵp gwahoddir myfyrwyr i arbrofi gyda nifer o wahanol arddulliau o farddoni, o ddefnyddio ffurfiau traddodiadol at dechnegau arloesol o archwilio iaith. Bydd y cyfranwyr yn darllen ac yn trafod barddoniaeth gyfoes, ac yn datblygu portffolio o'u gwaith eu hunain dan oruchwyliaeth unigol.

• Creative Writing: Prose (30 credyd): Mae'r modiwl hwn, a hyfforddir yn gychwynnol trwy gyfrwng seminar, ac wedi hynny drwy oruchwyliaeth unigol, yn cyflwyno technegau uwch o ysgrifennu ffuglen, ac yn canolbwyntio ar sut mae cymeriad, plot, lleoliad, tŷn ac arddull yn cyfrannu at naratif grymus, ac ar sut y gellir herio confensiynau genre. Gwneir yr asesiad trwy bortffolio o ffuglen.**• Introduction to Literary Theory, Scholarship and Research (30 credyd):** Mae'r modiwl hwn yn cynnig cyfle i astudio ochr yn ochr â myfyrwyr MA yn y maes pwnc, a rhannu syniadau am awduraeth, hanes y llyfr, a safbwyntiau cyfoes allweddol am y berthynas rhwng llenyddiaeth a'r diwylliant y mae'n cael ei gynhyrchu ynddo. Mae'r modiwl hwn yn cynnig dealltwriaeth werthfawr i awduron o berthynas eu gwaith creadigol â'i gyd-destun ehangach.

Gall modiwlau dewisol gynnwys:

• Advanced Writing Portfolio (30 credyd): Cyfle i weithio naill ai fel unigolyn neu mewn grŵp gydag aelod o staff ar broiect Ysgrifennu Creadigol y cytunwyd arno.**• Open Essay/Portfolio (30 credyd):** Traethawd dan oruchwyliaeth ar bwnc/thema o ddewis y myfyriwr.**• Transcreative Writing (30 credyd):** Hyfforddir y modiwl hwn mewn cydweithrediad â'r adran leithoedd a Diwylliannau Modern (nid oes angen sgiliau iaith dramor).

Gellir hefyd cymryd modiwlau o unrhyw ran o'r rhaglen MA Llenyddiaeth Saesneg a gallant gynnwys: Welsh Literature in English; Revolution & Modernity; Material Texts & Editing; Gender & Devotion in Early Modern Literature; Myth & the Early Modern Writer; Medieval Arthur; Post-Medieval Arthur; Understanding the Middle Ages; Manuscript & Printed Books.

Rhan Dau:

Ail ran yr MA yw'r Traethawd Hir, sy'n gyfle i ddatblygu darn hirach o ysgrifennu creadigol (20,000 o eiriau) mewn ymgynghoriad â goruchwyliwr. Bydd yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd goruchwyllo un i un dros yr haf, unwaith y bydd Rhan I wedi'i chwblhau'n llwyddiannus.

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Gwahoddir ysgrifennwyr proffesiynol yn rheolaidd i'r ysgol i rannu eu profiad â myfyrwyr.

RHAGOLYCON GYRFA

Gall MA mewn Ysgrifennu Creadigol arwain at yrfa fel nofelydd, bardd neu ddramodydd. Mae cynllunio a datblygu project ysgrifennu o sylwedd yn baratoad da ar gyfer ysgrifennu a ariennir neu a gomisiynir yn y dyfodol, yn ogystal ag ar gyfer gyrfa academiaidd mewn ymchwil yn seiliedig ar ymarfer. Mae'r cwrs hwn hefyd yn cynnig amrywiaeth o sgiliau y gellir eu defnyddio mewn cyd-destunau eraill, er enghraifft golygu, cyhoeddi, newyddiaduraeth a gweinyddu'r celfyddydau. Mae'r gallu i ddefnyddio iaith yn rhugl ac yn argyhoeddiadol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ym mron unrhyw faes, ac mae'r hyblygrwydd o weithio ar draws genres yn y cwrs hwn yn cynnig sylfaen ragorol i ddefnyddio iaith yn greadigol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/english



PROFFIL STAFF

YR ATHRO ANGHARAD PRICE
Athro mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol

Graddiodd Yr Athro Angharad Price mewn leithoedd Modern yng Ngholeg Iesu. Rhydychen lle cwblhaodd hefyd draethawd DPhil mewn Astudiaethau Celtaidd. Bu'n ddarlithydd ym mhrifysgolion Fienna, Abertawe a Chaerdydd cyn ymuno ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor yn 2006. Mae maes ei hymchwyl yn cynnwys astudiaethau llenyddol ac ysgrifennu creadigol, ac mae wedi cyhoeddi cyfrolau ac ysgrifau niferus yn y meysydd hynny. Mae Ffarwél i Freiburg yn astudiaeth o waith T. H. Parry-Williams a enillodd wobwr Ellis Griffith ac a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn yn 2014. Ei nofel gyntaf oedd O, Tyn y Gorchudd a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2002 a gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2003. Mae wedi ei chyfieithu i chwech o ieithoedd (Saesneg, Almaeneg, Rwmaneg, Sbaeneg, Bengaleg a Chatalaneg). Cyfrol ddiweddaraf Angharad yw Trysorau Cudd Caernarfon (2018), cyfres o 25 o

ysgrifau byrion gyda ffotograffau gan Richard Outram. Gellir lawrlwytho ap ffôn symudol yn rhad ac am ddim i gyd-fynd â'r gyfrol.

Bu'n gyd-olygydd Tu Chwith (1995-1999) ac Ysgrifau Beirniadol (2011-2016), a hi yw golygydd Chwileniwm (2002), cyfrol o erthyglau rhyngddisgyblaethol ar lenyddiaeth a thechnoleg. Mae'n gyfieithydd profiadol o'r Almaeneg, y Ffrangeg, yr Eidaleg a'r Sbaeneg, a chyd-olygodd Translation Studies: Special Issue Wales gyda H. Miguelez-Carballeira a J. Kaufmann yn 2016. Mae'n Gymrawd yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol O'r Pedwar Gwynt. Yn 2014 dyfarnwyd iddi Fedal Glyndwr am ei chyfraniad i'r celfyddydau yng Nghymru.

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. Astudiaethau Llenyddol, Hanes, Astudiaethau/Llenyddiaeth Arthuraidd, Astudiaethau Ffilm).

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau neu brofiad cyfwerth a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd yn cael eu hystyried fesul un. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.5 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae ein MA Llenyddiaeth Saesneg yn cynnig cyfle i ddilyn astudiaethau llenyddol Saesneg ar lefel uwch. Byddwch yn gallu datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer dadansoddiad testunol, damcaniaethol a hanesyddol yn eich dewis faes a chymryd rhan lawn mewn amgylchedd ymchwil bywiog ymysg awduron ac ymchwilwyr cyhoeddedig.

Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau hyfforddedig (Rhan Un) a asesir yn bennaf trwy draethodau a thraethawd hir (Rhan Dau).

Wrth ddilyn y cwrs MA hwn gallwch archwilio'ch diddordebau ar draws maes eang o astudiaethau llenyddol Saesneg yn eich dewis o fodiwlau hyfforddedig, neu gallwch ddewis dilyn rhaglen o fodiwlau hyfforddedig â goruchwyliaeth un-i-un mewn meysydd o ddiddordeb mwy arbenigol. I'r rhai hynny sy'n dymuno arbenigo mae cyfle hefyd i glystyru dewisiadau modiwl o gwmpas meysydd o arbenigedd neilltuoel o gryf yn yr adran, megis:

Medieval and Early Modern Literature: Mae'r rhain yn feysydd o arbenigedd ym Mangor sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol. Mae aelodau o'r Ysgol Saesneg yn gwneud gwaith ymchwil mewn barddoniaeth, rhyddiaith a drama Saesneg ganoloesol; llenyddiaeth cyfnod y Tuduriaid; drama Shakespeare a'i gyfoeswyr; hanes llyfrau modern cynnar; a llenyddiaeth yr ail ganrif ar bymtheg, yn farddoniaeth a rhyddiaith yn ogystal ag i'r llwyfan. Mae meysydd o ddiddordeb arbennig yn cynnwys: Astudiaethau Chauceraidd; rhantantau'r oesoedd canol; llenyddiaeth Arthuraidd; drama ganoloesol a modern cynnar; Shakespeare a'i gyfoeswyr; llen teithio cyn-fodern; astudiaethau cof modern cynnar; George Herbert a barddoniaeth ddefosiynol; ysgrifennu hunangofiannol; rhyddiaith bolemig Milton; astudiaethau llawysgrif; a gwaith awduron benywaidd drwy'r oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar. Adlewyrchir y pynciau eang hyn yn y dewis o fodiwlau a phynciau traethawd hir sydd ar gael i fyfyrwyr.

Material Texts: Mae'r maes pwnc hwn yn cyflwyno'r myfyriwr ôl-radd i nifer o'r methodolegau sy'n gysylltiedig â hanes y llyfr, cymdeithaseg testunau, hanes darllen a'r damcaniaethau sy'n gysylltiedig â golygu. Mae ymchwilio i'r testun materol ac amgylchiadau cynhyrchu a defnyddio llenyddiaeth yn feysydd sy'n tyfu o fewn disgyblaeth astudiaethau llenyddol. Gall myfyrwyr archwilio ystod o destunau yn amrywio o lawysgrifau

canoloesol a modern cynnar, llyfrau printiedig cynnar (a elwir yn incunabula) ac ymlaen at destunau cyfresol y cyfnod Fictoriaidd, yn ogystal ag astudio sgriptiau ffilmiau sinema a thechnolegau cyfoes o hunan-gynrychiolaeth. Mae'r modiwlau a gynigir yn y maes hwn yn gwneud y gorau o arbenigedd yr ysgol mewn hanes llyfrau a golygu ysgolheigaidd, yn ogystal â chasgliadau archif arbennig o gryf Prifysgol Bangor (gan gynnwys Llyfrgell yr Eglwys Gadeiriol) sy'n cynnwys popeth o effemera printiedig a gynhyrchwyd yn lleol i ddogfennau sy'n ymwneud â phlanhigfeydd yn Jamaica. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn sawl project digideiddio, a bydd nifer o'r modiwlau'n ystyried effaith y chwyldro technolegol diweddaraf ar astudiaethau llenyddol.

Revolution and Modernity, 1750 to the Present:

Mae'r maes arbenigedd hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr dddod yn gyfarwydd iawn â'r grymoedd hanesyddol, diwylliannol a llenyddol sydd wedi siapiu ein hoes gyfoes. Gall y myfyriwr archwilio amrywiaeth o ddiwylliannau, gofodau a hunaniaethau print gweledol a geiriol er mwyn datblethu'r berthynas gymhleth rhwng testunau a'u cyd-destunau. Mae Prifysgol Bangor, gyda'i phensaernïaeth neo-Gothig (1911) a'i hagosatrywydd at Bont Grog arloesol Telford dros y Fenai (1826), ei hun yn ymgorfforiad ffisegol o chwyldro esthetig ac o ddilyn trywydd moderniaeth. Anogir myfyrwyr i ddefnyddio archifau helaeth y brifysgol ac i gymryd rhan yng ngweithgareddau ymchwil yr ysgol a Choleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes yn ehangach. Wrth hodi eu dealltwriaeth o destunau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, daw'r myfyrwyr hefyd yn rhugl mewn disgwrs ysgolheigaidd gyfoes a datblygu eu llais beirniadol eu hunain.

Four Nations Literature: Mae'r maes arbenigedd hwn yn cynnig cyfle ar gyfer astudiaeth arloesol o lenyddiaethau Lloegr, yr Alban, Iwerddon a Chymru. Drwy hynny mae'n cynrychioli newid yn ffocws yr MA mewn Llenyddiaeth Saesneg, ac yn gwahodd myfyrwyr ôl-raddedig i archwilio llenyddiaethau pedair gwlad Nysoedd Prydain yn fwy manwl. Ei nod yw ehangu cwmpas cyrsiau Llenyddiaeth Saesneg traddodiadol trwy chwilio am barhad a chyferbyniadau rhwng llenyddiaethau Prydain ac Iwerddon yn y cyfnod modern. Yn benodol, mae pwyslais y Pedair Gwlad yn ymchwilio i'r ffyrdd y mae llenyddiaethau Prydain ac Iwerddon yn cofrestru effeithiau moderniaeth ar ddiwylliant a chymdeithas Prydain ac Iwerddon, o ddiwedd y ddeunawfed ganrif i'r ennyd cyfoes. Prifysgol Bangor, â'i lleoliad cyfheus rhwng Llundain, Dulyn a Lerpwl, yw'r lle delfrydol i archwilio materion o'r fath.

Mae'r **Llwybr Agored** yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ddilyn portffolio ehangach o astudiaethau llenyddol uwch yn Saesneg trwy gwbllhau'r modiwlau gorfodol ynghyd â dewis rhydd o'r holl fodiwlau dewisol sydd ar gael.

Rhan Un:

Mae pob myfyriwr yn dilyn y modiwlau gorfodol Literary Theory, Scholarship and Research a Material Texts and Editing. Mae'r modiwlau hyn yn ystyried syniadau allweddol mewn theori lenyddol, dadansoddi testunau a thechnegau ysgrifennu ysgolheigaidd uwch. Yna bydd y myfyriwr yn dewis dau fodiwl pellach o blith y

rhai a gynigir. Er mwyn cwblhau llwybr, rhaid dewis y ddau fodiwl o'r rhestr fodiwlau sydd ar gael i'r llwybr hwnnw. Gall myfyrwyr sy'n dilyn y Llwybr Agored ddewis unrhyw ddau fodiwl o'r ystod lawn a gynigir. Rhoddir enghraifft o fodiwlau nodweddiadol isod:

Gall modiwlau Medieval and Early Modern Literature gynnwys:

- Manuscripts and Printed Books
- Myth and the Early Modern Author
- Women's Devotional Writing
- Medieval Arthur
- Open Essay

Gall modiwlau Material Texts gynnwys:

- Manuscripts and Printed Books
- Material Texts and Editing
- Print, Politics & Popular Culture
- Open Essay

Gall modiwlau Revolution and Modernity, 1750 to the Present gynnwys:

- Revolution, Modernity: 1790-1930
- Material Texts and Editing
- Print, Politics & Popular Culture
- Open Essay

Gall modiwlau Four-Nations Literature gynnwys:

- Revolution, Modernity: 1790-1930
- Scottish Literature
- Welsh Literature in English
- Irish Literature
- Open Essay

Yn ogystal â'r modiwlau uchod sy'n gysylltiedig â llwybr, cynigir y modiwlau canlynol:

- Open Essay
- The Postgraduate Conference

It may also be possible to take one optional module from the MA in Creative Writing (if the prerequisites of creative writing experience are met) or in another Arts and Humanities subject (if the necessary academic prerequisites are met).

Rhan Dau:

Paratoi traethawd hir 20,000 o eiriau ar bwnc o'ch dewis, wedi'i ymchwilio a'i ysgrifennu dan oruchwyliaeth unigol arbenigwr pwnc. Disgwylir i'r rhai hynny sy'n dilyn llwybr penodol ddewis pwnc mewn maes ymchwil perthnasol.

RHAGOLYSGON GYRFA

Mae'r cwrs yn cynnig paratoad rhagorol ar gyfer rhaglenni doethurol. Mae'n ychwanegu at gymwysterau'r rhai sy'n bwriadu dilyn gyrfa mewn meysydd diwylliannol a chreadigol fel cyhoeddi, gweinyddu'r celfyddydau, y cyfryngau, cyfathrebu ac addysgu. Gall y profiad o astudiaeth lenyddol ôl-raddedig hefyd wella cyflogadwydd at y dyfodol, trwy feithrin sgiliau trosglwyddadwy megis: y gallu i wneud gwaith ymchwil annibynnol; cwblhau dadansoddiad datblygedig o destunau a dadleuon; a chyflwyno syniadau yn rhugl ar ffurf ysgrifenedig a llafar. Yn anad dim, mae'r MA yn cynnig cyfle ar gyfer datblygiad personol a deallusol uwch.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/english

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2-3 blynedd yn rhan-amser; Diploma: 9 mis yn llawn amser (astudio rhan-amser ar gael hefyd)

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. Astudiaethau Llenyddol, Hanes, Astudiaethau/Llenyddiaeth Arthuraidd, Astudiaethau'r Oesoedd Canol).

Dylai'r ymgeiswyr amlinellu'r maes yr hoffent arbenigo ynddo (e.e. hanes, astudiaethau llenyddol) yn eu datganiad personol. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.5 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Yn Rhan Un y cwrs, mae myfyrwyr yn datblygu sgiliau a meithrin gwybodaeth bwnc wrth baratoi ar gyfer Rhan Dau, sef traethawd hir 20,000 o eiriau. Nod y Diploma, sef Rhan Un y rhaglen MA, yw datblygu dysgwyr annibynnol i'r graddau y bo myfyrwyr yn abl i ddechrau traethawd hir ysgolheigaidd ar lefel MA.

Rhan Un:

Ar ddechrau'r cwrs hwn, rhaid i bob myfyriwr gofrestru ar gyfer y modiwlau canlynol:

- **Understanding the Middle Ages** (semestrau 1 a 2)
- **Manuscripts and Printed Books** (1 semester)

I'yn ychwanegol at y modiwlau hyn, gall myfyrwyr ddewis o blith ystod eang o fodiwlau yn y rhan hon o'r cwrs. Gall y rhain gynnwys:

CYMRAEG (40 credyd):

- **Treftadaeth Geltaidd Prydain**
- **Llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol**

SAESNEG:

Medieval Arthur (30 credyd): Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â'r myth Arthuraidd o'r dystiolaeth archeolegol gynharaf hyd at ddiwedd y bymthegfed ganrif, gyda'r bwriad o archwilio sut y datblygodd mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwleidyddol-gymdeithasol, yn ogystal â diwylliant materol (llawysgrifau a llyfrau printiedig, arteffactau). Gan ganolbwyntio ar nifer o destunau mewn gwahanol genres ac ieithoedd (a ddarllenir mewn cyfieithiad Saesneg lle bo'r angen), bydd y modiwl yn taflu goleuni ar wreiddiau a datblygiad themâu Arthuraidd mewn llenyddiaeth ganoloesol.

Women's Devotional Writing (30 credyd): Bydd y modiwl hwn yn edrych ar ddetholiad helaeth o destunau cyhoeddedig a llawysgrifau sy'n arddangos ystod, dilyniant ac amrywiaeth ysgrifennu defosiynol gan ferched yn yr oesoedd canol hwyr a'r cyfnod modern cynnar. Cyflwynir gweithiau gan feudwyiaid, cyfrinwyr, cyfieithwyr a hyfforddwy ar draws y sbectwm cymdeithasol a fynegodd eu hysbrydolerdd mewn amrywiaeth eang o genres ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Yn y modiwl hwn caiff ôl-raddedigion gyfle i wneud ymchwil hynod arloesol drwy gymharu ysgrifennu defosiynol o Loegr cyn y Diwygiad Protestannaidd ac ar ei ôl yn ddadansodol. Bydd digon o gyfle yn ystod y semester i'r ôl-raddedigion unio a datblygu eu hymchwiliadau eu hunain.

Pre-Modern Travel (30 credyd): Bydd y modiwl hwn yn ymdrin â detholiad helaeth o destunau cyhoeddedig a llawysgrif sy'n ymdrin â

chysyniad hynod gymhleth teithio yng nghyswllt mudo, dadleoli, fforio, gwladychu, pererindota, daearyddiaeth amgen (iwtopiaeth) ac antur. Yn y modiwl hwn caiff ôl-raddedigion gyfle i wneud ymchwil hynod arloesol mewn meysydd astudio a gaiff eu hesgeuluso'n aml.

Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg:

Oes Llywelyn ap Iorwerth (40 credyd) Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddadansoddi amrywiaeth o dystiolaeth yn ymwneud â hanes Cymru yn ystod oes Llywelyn ab Iorwerth (c.1170-1240), gan ganolbwyntio nid yn unig ar Llywelyn ei hun ond hefyd ar ddatblygiadau gwleidyddol, eglwysig, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yng Nghymru yn ystod ei oes. Defnyddir amrywiaeth o ffynonellau i ymchwilio i yrfa Llywelyn fel tywysog Gwynedd, mewn cyd-destun Cymreig ac Ewropeaidd. Dangosir i fyfyrwyr sut y gellir defnyddio ffynonellau dogfennol a naratif gyda gweithiau llenyddol a thestunau cyfreithiol a gynhyrchwyd gan y dosbarthiadau dysgedig brodorol a chant eu hannog i werthuso'n feirniadol y ffyrdd y mae gwahanol genres yn cynnig tystiolaeth o wahanol safbwyntiau.

The Archaeology of the Early Medieval Celtic Churches

(40 credyd): Mae'r modiwl hwn yn ymchwilio i eglwysi canoloesol cynnar yng Nghymru, Iwerddon, Yr Alban, Ynys Manaw a de-orllewin Prydain c. AD400-1100. Er y canolbwyntir ar y dystiolaeth archeolegol, defnyddir ffynonellau dogfennol gwreiddiol lle bo'n briodol. Dadansoddir yr olion archeolegol cyfoethog, yn cynnwys mynwentydd, eglwysi, mynachlogydd, cerflunwaith, gwaith metel eglwysig a chreiriau gan egluro'r hyn y maent yn ei ddatgelu ynghylch datblygiad Cristnogaeth yn yr ynysoedd hyn; defodau claddu a choffau; datblygiad hierarchaeth o safleoedd Cristnogol; datblygiad tirweddau eglwysig; nawdd seciwlar ac eglwysig; a'r cynnydd yng nghwltiau'r saint.

The Duke, Duchy and Institutions of Normandy, 942-1135

(40 credyd): Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i rôl dugiaid Normandi, twf eu hawdurdod a'r sefydliadau a ddefnyddiwyd ganddynt i reoli'r ddugiaeth. Bydd myfyrwyr yn olrhain twf awdurdod y dugiaid trwy'r cronicleu a'r offerynnau ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn eu henw; byddant yn archwilio i ba raddau yr effeithiodd goresgyniad Lloegr ar lywodraeth Normanaidd a llywodraeth Loegr; a byddant yn trafod sut y gallai aristocratiaid Normanaidd, yr eglwys Normanaidd, neu gymdogion Normandi gynorthwyo neu rwystro awdurdod dugol. Defnyddir ystod eang o ffynonellau, rhai cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi. Mabwysiadir dull cymharol drwy'r modiwl cyfan, gan roi Normandi, ei ddetrach, a'i sefydliadau mewn cyd-destun eang yn ymchwilio na'i thrin fel endid ynysig.

Women and Power in the High Middle Ages

(40 credyd): Yn y modiwl hwn caiff myfyrwyr gyflwyniad i hanes merched a grym ym Mhrydain a Gogledd-orllewin Ewrop yn ystod y ddeuddegfed ganrif a dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg. Bydd yn canolbwyntio ar y ffyrdd y portreadwyd merched yn y ffynonellau o'u cymharu â dynion a bydd yn ystyried datblygiadau gwleidyddol ehangach ym Mhrydain y ddeuddegfed ganrif, yn cynnwys newidiadau cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol. Defnyddir amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys siarteri, naratifau, cronicleu, barddoniaeth a thestunau cyfreithiol er mwyn medru dadansoddi'n fanwl y gwahanol safbwyntiau a gynigir gan wahanol ffynonellau. Bydd yn ystyried y themâu hyn mewn persbectif Ewropeaidd drwy roi sylw i dystiolaeth Eingl-Normanaidd, Angefinaidd a Ffrengig a hanesyddiaethau merched, rhywedd a grym. Plethir hyn ag

asesiad beirniadol o hanesyddiaeth Prydain y cyfnod. Bydd y cwrs yn herio myfyrwyr i ymwneud yn feirniadol â damcaniaethau a thrafodaethau'n ymwneud â dehongli tystiolaeth i hwyluso cymharu beirniadol. Bydd yn ystyried swyddogaeth merched yng nghymdeithas y ddeuddegfed ganrif, datblygiadau gwleidyddol cyfoes, a delwedd merched yn y ffynonellau er mwyn hwyluso trafod y ffyrdd y lluniwyd y ffynonellau i roi golwg neilltuoel ar ferched a grym.

Medieval Latin (20 credyd): Cafodd mwyafrif helaeth y ffynonellau gwreiddiol a geir yn hanes Prydain ac Ewrop yn yr oesoedd canol eu hysgrifennu'n wreiddiol mewn Lladin Canoloesol. Cafodd llawer o ffynonellau gwreiddiol y cyfnod modern cynnar hefyd eu hysgrifennu mewn Lladin canoloesol. Diben ac amcanion y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i ddarllen ffynonellau hanesyddol gwreiddiol wedi'u golygu. Bydd y modiwl hefyd yn rhoi arweiniad i fyfyrwyr ganfod a defnyddio i'r eithaf weithiau cyfeiriadol perthnasol er mwyn medru gwneud y defnydd gorau posibl o ffynonellau hanesyddol gwreiddiol mewn Lladin.

CERDDORIAETH:

Mae modiwlau mewn Cerddoriaeth Gynnar yn canolbwyntio'n thematig ar gerddoriaeth yr Oesoedd Canol a'r Dadeni. Eu bwriad yw ehangu gwybodaeth y myfyrwyr am y gwahanol fathau o gerddoriaeth a gyfansoddwyd yn ystod y cyfnodau hyn, yn ogystal â'u gwahanol gyd-destunau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried agweddau dadansodol, repertoireidd, palaeograffig, cofiannol, sefydliadol, cymdeithasol a diwylliannol. Trwy gyfrwng nifer o astudiaethau achos, ynghyd â darllen cyfeiriedig ac aseiniadau, edrychir ar ddyfnder astudio a dealltwriaeth hanesyddol a cherddolegol, gan alluogi myfyrwyr i ymdrin â chyfnodau, pynciau a/neu faterion penodol y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Mae Prif Gyflwyniadau (40 credyd) ac Is Gyflwyniadau (20 credyd) yn wahanol o ran eu sgôp. Os dewisir Cerddoriaeth Gynnar fel Prif Bwnc bydd myfyrwyr yn gwneud eu cyflwyniad Rhan II ym maes Cerddoriaeth Gynnar hefyd.

- **Prif Bwnc: Cerddoriaeth Gynnar** (40 credyd)
- **Prif Gyflwyniad Agored: Cerddoriaeth Gynnar** (40 credyd)
- **Is Gyflwyniad Agored: Cerddoriaeth Gynnar** (20 credyd)
- **Paratoi ar gyfer Project Rhan II** (20 credyd)

Gall myfyrwyr hefyd ddewis modiwlau perthnasol sy'n cynnwys **Portffolio Ôl-raddedig**.

Rhan Dau:

- **Traethawd hir** – darn sylweddol o ymchwil ysgolheigaidd, ar bwnc o'ch dewis eich hun ac wedi'i drafod yn fanwl gyda'r goruchwyliwr a ddewiswyd.

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Mae cydweithrediad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, wedi arwain at le Mynediad i Feistr wedi'i ariannu ar y rhaglen radd hon mewn blynyddoedd diweddar.

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae'r MA hwn yn eich paratoi ar gyfer gyrfa mewn addysgu, cyhoeddi ac amrywiaeth o weithgareddau cysylltiedig, yn ogystal â chynnig paratoad ar gyfer ymchwil bellach mewn addysg uwch.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/english

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser, 6-8 blynedd yn rhan-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser, 4-5 blynedd yn rhan-amser;

GOFYNIION MYNEDIAD

Fel rheol, byddem yn disgwyl i fyfyrwyr fod â gradd ddosbarth cyntaf neu radd dda yn yr ail ddosbarth. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr heb MA ddilyn y modiwl hyfforddiant ymchwil. Rydym yn gallu derbyn myfyrwyr sy'n dysgu o bell, ond dylent eisoes fod wedi ennill y sgiliau a ddysgir yn y seminarau rhagarweiniol, neu dylent drefnu mynd i seminarau cyfatebol mewn sefydliad arall, ar eu cost eu hunain. Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.5 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS**PhD/MPhil in English Literature**

Dyfernir yr MPhil mewn Llenyddiaeth Saesneg am draethawd hir heb fod yn fwy na 60,000 o eiriau a'r PhD mewn Llenyddiaeth Saesneg am draethawd hir sydd fel rheol heb fod yn fwy na 100,000 o eiriau. Gellir gwneud gwaith ymchwil ym mhrif feysydd llenyddiaeth Saesneg yn dilyn 1300; llenyddiaeth Arthuraidd. Mae meysydd arbenigedd ymchwil aelodau staff yn cynnwys: Llenyddiaeth Arthuraidd, Chaucer a'i gyfoeswyr, ysgrifennu canoloesol a modern cynnar gan fenywod, drama ganoloesol a modern cynnar, hunangofiant modern cynnar, Shakespeare, George Herbert, drama'r Adferiad, Milton, llenyddiaeth Rhyfeloedd Cartref Lloegr, Rhamaentiaeth (yn enwedig Hazlitt a'i gyfoeswyr), llenyddiaeth Fictoriaidd (yn enwedig Dickens ac Oscar Wilde), llên Saesneg Cymru (yn arbennig R.S. Thomas), ysgrifennu Cymry Llundain ar droad yr ugeinfed ganrif, Moderniaeth, Edward Thomas, barddoniaeth y Rhyfel Byd Cyntaf, Saesneg Modern a Drama Americanaidd, David Mamet, hanes ffilm a'r sgript ffilmiau, hanes darllen, ysgrifennu arbrofol, barddoniaeth gyfoes, llenyddiaethau byd-eang, llenyddiaeth gymharol ac ôl-wladychiaeth.

PhD/MPhil in Creative and Critical Writing

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle i weithio dros gyfnod estynedig ar gasgliad o straeon byrion, nofel neu gasgliad o gerddi dan oruchwyliaeth unigol awdur sy'n cyhoeddi yn eich maes. Byddwch yn cynnwys sylwebaeth feirniadol ar eich gwaith creadigol, a ddylai ganolbwyntio'n bennaf ar archwilio syniad, pwnc, genre, thema, awdur neu grŵp o awduron sydd â pherthynas â'r gwaith creadigol dan sylw. Bydd ymchwilio i'r elfen hon yn sicrhau gwybodaeth dda am faterion llenyddol cyfoes. Dylai'r sylwebaeth feirniadol gynnwys adran lle byddwch yn trafod eich gwaith eich hun a sut y mae'n ymwneud â'r testunau llenyddol rydych chi wedi'u trafod. Prif elfen y PhD yw'r elfen greadigol y bwriedir i'r sylwebaeth feirniadol ei chefnogi. Dylai'r elfen greadigol fod yn 70,000 i 80,000 o eiriau o hyd os yw'n rhyddiaith. Yn achos barddoniaeth trafodir hyd cyfatebol, yn dibynnu ar union natur y gwaith creadigol a gyflwynir, gyda'ch goruchwyliwr. Dylai'r sylwebaeth feirniadol fod rhwng 20,000 a 30,000 o eiriau. Disgwylir i'r traethawd ymchwil, a fydd yn cynnwys elfennau creadigol a beirniadol, fod â chyfanswm geiriau o oddeutu 100,000 o eiriau neu gyfwerth.

Byddwch yn ymuno â chymuned ôl-raddedig fywiog ac yn cael eich addysgu gan staff sydd â phrofiad sylweddol o addysgu ysgrifennu creadigol ar lefel ôl-raddedig. Mae nifer o'r aelodau staff yn awduron cyhoeddedig sydd wedi ennill gwobrau, ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau golygu a beirniadu. Rydym hefyd yn elwa o bresenoldeb y bardd yr Athro Carol Rumens ac ymweliadau'r Athro Anrhydeddus Philip Pullman.

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Mae academyddion sy'n ymweld yn ymddangos yn rheolaidd yn ein seminarau ymchwil. Rydym yn trefnu nifer o ddarlenniadau gan awduron bob blwyddyn. Mae ymwelwyr diweddar wedi cynnwys: Jackie Kay, George Szirtes, Anne-Marie Fyfe, Erin Moure, Andrea Brady, Robert Hampson, Jeff Hilson, Michael Symmons Roberts, Tiffany Atkinson, Patrick McGuinness, Richard Marggraf Turley, Damian Walford Davies a Jack Mapanje.

Mae'r gyfres seminar Contempo, a gynhelir ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth, yn gyfres o seminarau staff a myfyrwyr ôl-radd sydd hefyd yn cynnwys rhaglen reolaidd o ymweliadau gan awduron a beirniad.

RHAGOLYOGON GYRFA

Bydd y PhD/MPhil mewn Llenyddiaeth Saesneg yn eich paratoi ar gyfer gyrfa mewn addysg uwch, yn ogystal ag ym maes cyhoeddi, gweinyddu'r celfyddydau, ymchwil y cyfryngau, ac amrywiaeth o yrfaoedd cysylltiedig. Mae'r cwrs hwn yn eich paratoi'n llawn at yrfa yn y dyfodol fel awdur ac fel academydd. Caiff y myfyrwyr hefyd gyfle i ddilyn ystod o raglenni hyfforddi a gynigir trwy'r brifysgol a fydd yn gwella eu cyfleoedd o ddod o hyd i waith yn eu maes dethol yn sylweddol.

Mae nifer o fyfyrwyr ysgrifennu creadigol diweddar neu bresennol wedi cyhoeddi casgliadau o gerddi neu straeon byrion sydd yn ffrwyth eu hastudiaethau yma ym Mangor. Ymhlith y rhain mae John Tanner, Richard Jones a Nessa O'Mahoney. Mae eraill wedi cyhoeddi straeon gan gynnwys Terri Lee Hackman, Zoe Perrenoud, a Lisa Blower (a fu hefyd yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Stori Fer 2009 y Guardian).

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/english

Hanes ac Archaeoleg

Mae hanes wedi cael ei ddysgu ym Mangor ers sefydlu'r Brifysgol yn 1884 ac mae Archaeoleg wedi cael ei dysgu yma ers 1960. Mae'r adran hanes wedi'i lleoli yng nghanol hanesyddol y brifysgol, ac mae'r darlithfeydd, Prif Lyfrgell y Celfyddydau a'r archifau i gyd yn gyfagos. Mae gennym enw da am addysgu ac ymchwil dros rychwant cronolegol helaeth, o gynhanes i'r presennol.

Staff a chyfleusterau

Mae gennym gryfderau penodol yn hanes Cymru ac archaeoleg Geltaidd a diwylliant ymchwil bywiog. Rydym yn cynnal seminarau ymchwil rheolaidd mewn Hanes ac Archaeoleg gydag ysgolheigion blaenllaw mewn amrywiaeth o feysydd ym Mangor a thu hwnt. Cefnogir hyn gan weithgareddau Sefydliad Astudiaethau'r Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar, Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, ynghyd â chysylltiadau â grwpiau a chyfresi ymchwil eraill yn y brifysgol. Mae'r llyfrgell yn cynnig adnoddau rhagorol yn y meysydd hyn, gan gynnwys casgliad cynhwysfawr o gyfnodolion a phapurau newydd, casgliadau o ffynonellau cyhoeddus, ac amrywiaeth eang o lyfrau. Mae yna hefyd gasgliad sylweddol o lyfrau prin.

Mae Archifau'r Brifysgol yn cynnwys y casgliad archifau mwyaf yng Nghymru ac eithrio'r Llyfrgell Genedlaethol ac yn gartref i gyfoeth o lawysgrifau sy'n dyddio o'r Oesoedd Canol hyd heddiw - yn amrywio o gasgliadau sylweddol ystadau Mostyn a Phenrhyn i bapurau gwleidyddion, ffigurau llenyddol ac ysgolheigion modern a chyfoes fel Kate Roberts, y sosialydd arloesol David Roberts a'r hanesydd J. E. Lloyd.

Mae arbenigeddau ymchwil mewn hanes yn cynnwys: hanes gwleidyddol, gweinyddol a rhywedd yr oesoedd canol; hanes crefyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol modern cynnar; hanesyddiaeth Gymreig (h.y. hanes ysgrifennu hanes Cymru). Mae gennym hefyd staff sy'n arbenigo mewn hanes modern, sy'n ymdrin â meysydd megis: Diwylliant gwleidyddol yr 20fed ganrif; hanes cymdeithasol a gwleidyddol; rhyfel a phrotest; hanes trefol. Mae gan nifer o staff academiaidd ddiddordeb mawr yn hanes Cymru o oes tywysogion Cymru hyd at ddatganoli. Cewch eich dysgu ym Mangor gan bobl sy'n ymchwilio a chyhoeddi yn y meysydd pwnc penodol yr ydych yn eu hastudio.

Mae archaeoleg ym Mangor yn manteisio ar ein lleoliad bendigedig mewn ardal sydd ag amrywiaeth eang o henebion archeolegol - beddrodau cynhanesyddol a chylchoedd cerrig, caerâu Rhufeinig, cestyll canoloesol (gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd ym Miwmares, Caernarfon a Chonwy), ac olion y chwyldro diwydiannol. Mae diddordebau ymchwil aelodau staff archaeoleg yn cynnwys: cynhanes cynnar Prydain ac Iwerddon, yr Oes Haearn Geltaidd yn Ewrop a Phrydain, Arfordir Gorrlewin yr Iwerydd, Cymru ac Iwerddon yn yr Oesoedd Canol cynnar, a hanes archaeoleg. Mae gan sawl aelod staff broiectau maes yng Nghymru a thu hwnt.

Golwg gyffredinol ar y meysydd academiaidd

Mae cryfderau ymchwil mewn Hanes a Hanes Cymru yn cynnwys:

- Yr Oesoedd Canol: y byd Eingl-Normanaidd; hanes menywod yn yr Oesoedd Canol; seliau a sigilograffeg; crefydd; hunaniaeth genedlaethol; hanesyddiaeth; cymdeithas a diwylliant.
- Y cyfnod modern cynnar: crefydd, hunaniaeth genedlaethol a rhethreg wleidyddol yng Nghymru a Lloegr yn ystod cyfnod diwedd y Stiwartiaid.
- Hanes modern a chyfoes: cenedlaetholdeb; y mudiad llafur; prynwriaeth; datganoli; canol y ddinas; tldi; polisi llywodraeth.

Mae cryfderau ymchwil Archaeoleg a

Threftadaeth yn cynnwys:

- Cynhanes cynnar: tirweddau a morluniau; marwolaeth a chladdedigaeith.
- Cynhanes a hanes Rhufeinig diweddarch: tirweddau, anheddu a chladdu; archaeoleg gymdeithasol; archaeoleg Geltaidd.
- Yr oesoedd canol cynnar: celf a cherflunwaith, anheddiad; archaeoleg gymdeithasol; archaeoleg Geltaidd.
- Rheoli treftadaeth: cenedlaethol a rhyngwladol; archaeoleg gyhoeddus.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MA/Diploma

- Celtic Archaeology
- History
- Welsh History
- The Celts (see page 41)
- Medieval Studies (see page 22)

PhD/MPhil

- Archaeology
- Heritage
- History
- Welsh History

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382085

E-bost: history.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/

Celtic Archaeology MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser; Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig dda mewn disgyblaeth berthnasol; bydd o leiaf 2.ii yn ofynnol fel arfer.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 yn gyffredinol (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Amcan y rhaglen hon yw dyfnhau gwybodaeth am archaeoleg y tu hwnt i lefel israddedig, gyda phwyslais neilltuoel ar archaeoleg Geltaidd. Mae'n rhoi cyfle i chi arbenigo mewn maes academiaidd neilltuoel, er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o'r dadleuon archeolegol sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd ein rhaglen yn rhoi gwybodaeth i chi am faterion damcaniaethol archeolegol perthnasol a dulliau o ddehongli a defnyddio tystiolaeth. Bydd hefyd yn rhoi'r sgiliau ymchwil angenrheidiol i chi gynhyrchu darn o waith gwreiddiol ar destun o'ch dewis.

Dyfernir MA ar ôl cwblhau'r 180 credyd i gyd yn llwyddiannus.

Dyfernir Diploma ar ôl cwblhau'r 120 credyd cyntaf yn llwyddiannus.

Modiwlau Gorfodol:

• Theory and Interpretation in Archaeology

Mae'r modiwl hwn yn eich cyflwyno i ystod o ddamcaniaethau, dehongliadau a dadleuon allweddol sy'n berthnasol i astudio Archaeoleg Geltaidd.

• Initiating a Research Project

Mae'r modiwl hwn yn esbonio sut i ddechrau project ymchwil ac i gynhyrchu darn ymchwil sylweddol a gwreiddiol yn y pen draw.

• Postgraduate Portfolios

Dau broiect ymchwil annibynnol bach wedi'u cynllunio mewn ymgynghoriad â goruchwyliwr.

• Traethawd hir

Mae'r modiwl traethawd hir yn rhoi'r cyfle i chi gwblhau darn o ymchwil ysgolheigaidd o 15,000-20,000 o eiriau ar bwnc o'ch dewis sydd wedi'i drafod yn fanwl gyda'r goruchwyliwr a ddewiswyd.

Modiwlau Dewisol:

Un wedi'i ddewis o blith y canlynol:

- The Prehistoric Archaeology of the Irish Sea Zone
- Celtic Societies in Europe

RHAGOLYAGON GYRFA

Mae MA mewn Archaeoleg Geltaidd yn gymhwyster amlbwrpas a bydd yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o ddisgyblaeth academiaidd archaeoleg a'r gallu i wneud gwaith ymchwil ar wahanol lefelau o ddadansoddiad hanesyddol. Bydd yn gwella'ch cyfleoedd gyrfa mewn Archaeoleg, cyfathrebu, addysgu, diwydiannau treftadaeth, cyhoeddi ac ymchwil.

Mae'r sgiliau trosglwyddadwy a geir o astudio'r rhaglen hon yn fuddiol mewn amrywiaeth o yrfaoedd eraill, gan gynnwys hysbysebu, newyddiaduraeth, ymgynghori etc. Yn dilyn cwblhau'r MA mewn Archaeoleg Geltaidd yn llwyddiannus efallai y byddwch yn penderfynu dilyn gyrfa academiaidd mewn archaeoleg, trwy wneud cais am le i astudio PhD mewn Archaeoleg Geltaidd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

History MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser; Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig dda; bydd o leiaf 2.ii yn ofynnol fel arfer.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 yn gyffredinol (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y rhaglen hon yw cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o faes academiaidd penodol trwy hyfforddiant ymchwil trylwyr. Bydd ein rhaglen yn rhoi gwybodaeth i chi am faterion damcaniaethol hanesyddol perthnasol a dulliau o ddehongli a defnyddio tystiolaeth. Mae hefyd yn rhoi'r sgiliau ymchwil angenrheidiol i chi gynhyrchu darn gwreiddiol o ymchwil hanesyddol mewn maes astudio o'ch dewis.

Dyfernir MA ar ôl cwblhau'r 180 credyd i gyd yn llwyddiannus.

Dyfernir Diploma ar ôl cwblhau'r 120 credyd cyntaf yn llwyddiannus.

Modiwlau Gorfodol:

• Themes and Issues in History:

Interpretations, Approaches and Debates

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am faterion damcaniaethol hanesyddol perthnasol a dulliau o ddehongli'r gorffennol hanesyddol.

• Documents and Sources

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r ystod eang o dystiolaeth y mae haneswyr yn ei defnyddio i ail-lunio'r gorffennol, a'r problemau a chyfleoedd o ddehongli.

Un wedi'i ddewis o'r canlynol:

- Documents and Sources in Medieval and Early Modern History
- Documents and Sources in Modern History.

• Research Skills

Mae hwn yn fodiwl sgiliau lefel uwch sydd â thri nod: hyfforddi myfyrwyr i ddechrau projectau ymchwil, eu hymgyfarwyddo â sut i feirniadu papur seminar ymchwil a chyflwyno sgiliau iddynt a fydd yn gwella eu cyflogadwyedd.

• Traethawd hir

Mae'r modiwl traethawd hir yn rhoi'r cyfle i chi gwblhau darn o ymchwil ysgolheigaidd ar bwnc o'ch dewis sydd wedi'i drafod yn fanwl gyda'r goruchwyliwr a ddewiswyd.

Optional Modiwlau:

- Normandy under the Normans, 911-1144
- National Identities in Britain and Ireland 1660-1800
- War and Protest, 1914-2003
- The Inner City: Governance, Policy and Exclusion
- Lleoliad Gwaith
- Society, Politics and History in Karl Marx
- Antisemitism and the Holocaust
- Nationalism and Minorities
- Oes Llywelyn ab Iorwerth

RHAGOLYAGON GYRFA

Mae MA mewn Hanes yn gymhwyster amlbwrpas a bydd yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o'r ddisgyblaeth a'r gallu i wneud gwaith ymchwil ar wahanol lefelau o ddadansoddiad hanesyddol. Bydd yn gwella'ch cyfleoedd gyrfa mewn amrywiaeth o broffesiynau yn niwydiannau'r cyfryngau a chyfathrebu, addysgu, treftadaeth ac amgueddfeydd, gweinyddiaeth gyhoeddus, cyhoeddi ac ymchwil. Mae'r sgiliau trosglwyddadwy a geir o astudio'r rhaglen hon yn fuddiol mewn amrywiaeth o yrfaoedd eraill, gan gynnwys hysbysebu, newyddiaduraeth, ymgynghori etc. Yn dilyn cwblhau'r MA mewn Hanes yn llwyddiannus efallai y byddwch yn penderfynu dilyn gyrfa academiaidd mewn Hanes, trwy wneud cais am le i astudio am PhD mewn Hanes.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Welsh History MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser; Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig dda; bydd o leiaf 2.ii yn ofynnol fel arfer.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 yn gyffredinol (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y rhaglen hon yw cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o faes academiaidd penodol o hanes Cymru i chi trwy hyfforddiant ymchwil trylwyr. Bydd ein rhaglen yn rhoi gwybodaeth i chi am faterion damcaniaethol hanesyddol perthnasol a dulliau o ddehongli a defnyddio tystiolaeth. Mae hefyd yn rhoi'r sgiliau ymchwil angenrheidiol i chi gynhyrchu darn gwreiddiol o ymchwil hanesyddol mewn maes astudio o'ch dewis.

Rhoddir MA ar ôl cwblhau'r 180 credyd i gyd yn llwyddiannus.

Dyfernir Diploma ar ôl cwblhau'r 120 credyd gyntaf yn llwyddiannus.

Modiwlau Gorfodol:

• Themes and Issues in History

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am faterion damcaniaethol hanesyddol perthnasol a dulliau o ddehongli'r gorffennol hanesyddol.

• Documents and Sources

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r ystod eang o dystiolaeth y mae haneswyr yn ei ddefnyddio i ail-unio'r gorffennol, a'r problemau a chyfleoedd o ddehongli. Un modiwl wedi'i ddewis o'r canlynol:

- Documents and Sources in Medieval and Early Modern History
- Documents and Sources in Modern History

• Research Skills

Mae hwn yn fodiwl sgiliau lefel uwch sydd â thri nod: hyfforddi myfyrwyr i ddechrau projectau ymchwil, eu hymgyfarwyddo â sut i feirniadu papur seminar ymchwil a chyflwyno sgiliau iddynt a fydd yn gwella eu cyflogadwyedd.

• Traethawd hir

Mae'r modiwl traethawd hir yn rhoi'r cyfle i chi gwblhau darn o ymchwil ysgolheigaidd ar bwnc o'ch dewis sydd wedi'i drafod yn fanwl gyda'r gorchwyliwr a ddewiswyd.

Modiwlau Dewisol:

Un wedi'i ddewis o'r canlynol:

- Oes Llywelyn ab Iorwerth
- Lleoliad Gwaith
- Nationalism and Minorities

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd MA mewn Hanes Cymru yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o ddisgyblaeth Hanes Cymru a'r gallu i wneud gwaith ymchwil ar wahanol lefelau o ddadansoddiad hanesyddol. Bydd yn gwella'ch cyfleoedd gyrfa yn niwydiannau'r cyfryngau a chyfathrebu, addysgu, cyhoeddi ac ymchwil.

Mae'r sgiliau trosglwyddadwy a geir o astudio'r rhaglen hon yn fuddiol mewn amrywiaeth o yrfaoedd eraill, gan gynnwys hysbysebu, newyddiaduraeth, ymgynghori ac ati. Yn dilyn cwblhau'r MA mewn Hanes Cymru'n llwyddiannus efallai y byddwch yn penderfynu dilyn gyrfa academiaidd mewn hanes, trwy wneud cais am le i astudio am PhD mewn Hanes Cymru.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Hanes / Hanes Cymru / Archaeoleg / Treftadaeth PhD/MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser, 4-6 blynedd yn rhan-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser, 4 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae'n bosibl dechrau ar PhD ar ôl cwblhau gradd Meistr yn llwyddiannus mewn pwnc cysylltiedig (Hanes/Hanes Cymru/Archaeoleg/Treftadaeth) ym Mangor neu mewn sefydliad arall. Ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith frodorol: IELTS 6.0 yn gyffredinol (dim elfen yn is na 5.5). Gall myfyrwyr sydd â sgôr gyffredinol o 5.5 ddilyn cwrs cyn-sesiwn dros yr haf yng Nghanolfan Iaith Saesneg y Brifysgol i Fyfyrwyr Tramor (ELCOS).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n dilyn y radd hon ysgrifennu traethawd ymchwil sylweddol a gwreiddiol o hyd at 100,000 o eiriau ar gyfer PhD, neu 60,000 o eiriau ar gyfer MPhil ar bwnc sy'n ymwneud â Hanes/Hanes Cymru/Archaeoleg/Treftadaeth. Byddwch yn derbyn hyfforddiant ymchwil a hyfforddiant mewn sgiliau trosglwyddadwy trwy Raglen Hyfforddi Graddedigion y Brifysgol. Cewch hefyd ddilyn modiwlau MA a gynigir gan yr ysgol ac Ysgol Graddedigion Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes. Byddwch yn cael eich tywys gan ddau oruchwyliwr.

RHAGOLYCON GYRFA

Rhaglen ymchwil yw hon. Gallech ddilyn gyrfa academiaidd mewn Hanes/Hanes Cymru/Archaeoleg/Treftadaeth. Caiff y sgiliau dadansoddi ac ymchwil ar lefel uchel a gânt eu datblygu yn ystod y radd hon eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr mewn meysydd fel cyfathrebu, y cyfryngau, amgueddfeydd a diwydiannau treftadaeth, addysgu, cyhoeddi, yn ogystal â swyddi mewn ymchwil a datblygu.



PROFFIL STAFF

YR ATHRO HUW PRYCE Athro Hanes Cymru

Mae gan Huw Pryce ddiddordebau eang yn hanes Cymru. Y mae'n gyd-olygydd Cylchgrawn Hanes Cymru (Welsh History Review) ac yn un o olygyddion Studies in Celtic History, cyfres o gyfrolau a gyhoeddwyd gan Boydell. Yn 2011 fe'i hetholwyd yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Y mae wedi cyhoeddi'n helaeth ar Gymru'r oesoedd canol, gan gynnwys golygiad o ddogfennau'r tywysogion Cymreig. Yn ogystal y mae'n ymddiddori yn

hanesyddiaeth Cymru. Yn 2011 cyhoeddodd lyfr ar yr hanesydd John Edward Lloyd (1861-1947), a fu'n Athro Hanes ym Mangor ac yn awdur y ddwy gyfrol arloesol A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest (1911), ac mae'n cwblhau cyfrol ar y ffordd mae hanes Cymru wedi ei sgrifennu o'r chweched ganrif hyd y presennol.

leithyddiaeth ac Iaith Saesneg

Sefydlwyd ein hadran leithyddiaeth yn 1960 ac mae'n un o'r adrannau leithyddiaeth hynaf yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cynnig amgylchedd addysgu ac ymchwil bywiog, ac mae'r adran yn anghyffredin yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol o ran y meysydd addysgu a goruchwyllo a gynigir. Caiff myfyrwyr eu haddysgu a'u goruchwyllo gan aelodau staff, sydd i gyd yn ymchwilwyr profiadol. Cydnabyddir llawer o'n staff fel arweinwyr rhyngwladol yn eu meysydd arbenigedd.

Mae ein rhaglenni ôl-raddedig yn ymdrin ag ystod eang o feysydd damcaniaethol a chymhwysol. Er bod pob cwrs MA a MSc yn cynnwys elfennau o hyfforddiant gorfodol, mae amrywiaeth o fodiwlau dewisol ar gael hefyd. Cefnogir myfyrwyr yn eu dysgu gan ddarlithoedd, seminarau a grwpiau tiwtorial llai, ac fe'u hasesir mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys adroddiadau ymchwil, a chyflwyniadau. Cefnogir dysgu ymhellach gan system rithwir BlackBoard, sy'n cynnwys: llyfrgell o adnoddau darllen electronig y gellir eu lawrlwytho; fforymau trafod; sleidiau o ddarlithoedd; a thafenni eraill.

Mae myfyrwyr MA ac MSc yn dechrau ag elfen hyfforddedig, sy'n cynnwys ystod o fodiwlau gorfodol a dewisol, cyn dechrau ar broiect ymchwil unigol o sylwedd. Bydd hynny'n arwain at draethawd hir 20,000 o eiriau, wedi'i gefnogi trwy gyfarfodydd un-i-un gyda goruchwyliwr.

Cefnogir astudio ar gyfer PhD gan diwtorialau rheolaidd gyda goruchwyliwr, yn ogystal ag ail oruchwyliwr sydd ag arbenigedd perthnasol. Byddwch hefyd yn cael cefnogaeth trwy raglen hyfforddiant a datblygu ymchwil, a gallwch hefyd gymryd modiwlau pwnc-benodol o'r ystod eang o fodiwlau ôl-raddedig sydd ar gael trwy ein rhaglenni hyfforddedig.

Cryfderau ac arbenigedd

Mae Dwyieithrwydd yn faes ymchwil allweddol lle mae gennym arbenigedd gyda'r gorau yn y byd. Mae ein harbenigedd ymchwil hefyd yn ymestyn i faes Datblygiad Iaith ac leithyddiaeth Wybyddol.

Mae Dwyieithrwydd yn astudio'r ffordd y mae siaradwyr dwy iaith (neu fwy) yn caffael ac yn defnyddio eu hieithoedd a sut mae'r ieithoedd hyn yn cael eu cynrychioli yn y meddwl. Mae Prifysgol Bangor wedi'i lleoli mewn ardal wirioneddol ddwyieithog (Cymraeg-Saesneg). Mae'r aelodau staff yn gwneud ymchwil ar bob agwedd ar ddwyieithrwydd/amlieithrwydd, a hynny o safbwynt amlddisgyblaethol, wedi'i lywio'n empirig.

Mae gennym gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf a labordy seineg a ni yw'r unig uned academiaidd yn y Deyrnas Unedig i gynnig MA a PhD mewn Dwyieithrwydd. Ar ben hynny, mae astudio Dwyieithrwydd yn ganolog i gwrwclwm israddedig y cwrs leithyddiaeth ac iaith Saesneg.

Staff a chyfleusterau

Mae staff academiaidd yn arbenigo mewn gwahanol agweddau ar anhwylderau lleferydd ac iaith, caffael iaith gyntaf ac ail iaith, dwyieithrwydd, ieithyddiaeth y Gymraeg ac ieithyddiaeth wybyddol. Yn ogystal, rydym yn falch o gael David Crystal fel Athro Anrhydeddus; mae'n treulio diwrnod yma bob blwyddyn yn traddodi cyfres o ddarlithoedd ar amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig ag iaith.

Mae ein staff yn gwneud ymchwil ar ystod eang o ieithoedd gan gynnwys Saesneg, Ffrangeg, Daneg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg, Groeg, Lombardaidd, Iseldireg a Chymraeg.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MA

- Applied Linguistics for TEFL
- Bilingualism
- Linguistics

MSc

- Language Acquisition and Development

PhD/MPhil

- Bilingualism
- Linguistics

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382118

E-bost: languages.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/linguistics

Linguistics MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2-3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. leithyddiaeth, ieithoedd Modern, Cyfieithu, Seicoleg, Iaith/Llenyddiaeth Saesneg, Addysg Saesneg/Addysg iaith Saesneg).

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau neu brofiad cyfwerth a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd yn cael eu hystyried fesul un. Mae croeso i chi gysylltu â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos y myfyrwyr hynny nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn i fyfyrwyr sydd â gradd israddedig mewn unrhyw bwnc ac sydd eisiau cymhwyster mewn ieithyddiaeth. Byddwch hefyd yn ysgrifennu traethawd ymchwil hir 20,000 o eiriau ar bwnc o'ch dewis. Er mwyn eich helpu i gyflawni hyn, mae gan y rhaglen fodiwl gorfodol ar Hyfforddiant Ymchwil sy'n cynnwys hyfforddiant mewn ymchwil ieithyddol benodol ac ymchwil gyffredinol mewn gwyddorau cymdeithas.

Mae'n bosib na fydd rhaid i'r rhai hynny sydd â BA mewn leithyddiaeth astudio'r modiwlau gorfodol os gwnaethant eu hastudio fel rhan o'u gradd gyntaf, a gallant ddewis dilyn un o'r modiwlau MA eraill.

Modiwlau Gorfodol:

• Foundations of Linguistics

Mae'r modiwlau hyn yn cynnig trosolwg o ddisgyblaeth gywyddor iaith. Maent yn ymdrin yn benodol â syniadau a methodolegau allweddol wrth astudio ystyr, gramadeg a sain.

• Linguistics Research Methods

Nod y modiwl hwn yw eich arfogi â'r sylfeini a'r cyfarpar angenrheidiol i lunio a chyflawni ymchwil arbrofol mewn ieithyddiaeth, ynghyd â pharatoi ar gyfer eich traethawd hir.

Mae Modiwlau Dewisol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac yn cynnwys:

- Language Acquisition
- Bilingual and Acquisition Issues
- Language Change
- Psycholinguistics
- EFL Theory
- SLA and Language Teaching
- Cognitive Discourse Analysis
- L2 Speech Learning
- Welsh Linguistics
- Historical Linguistics

- Language Contact and Bilinguals
- Phonology in Bilingual Acquisition
- Language and Communication
- Language Disorders and Bilinguals
- Using Corpora: Theory and Practice

Rhaid i rai nad ydynt yn siaradwyr Saesneg brodorol ddilyn cyrsiau di-gredyd gydag ELCOS i'w cynorthwyo gyda'u Saesneg, oni bai eu bod yn cael eu heithrio gan eu tiwtor.

RHAGOLYGON GYRFA

Bydd MA mewn leithyddiaeth yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o sut mae iaith yn gweithio a'r gallu i wneud ymchwil ar wahanol lefelau o ddadansoddiad ieithyddol. Mae graddedigion yn dod o hyd i gyfleoedd gyrfa mewn cyfathrebu, addysgu, cyhoeddi, ymchwil. Mae'r sgiliau trosglwyddadwy a geir o astudio'r rhaglen hon yn fuddiol mewn ystod o yrfaoedd eraill, gan gynnwys hysbysebu, newyddiaduraeth, ymgynghori etc. Yn dilyn cwblhau'r MA mewn leithyddiaeth yn llwyddiannus efallai y byddwch yn penderfynu dilyn gyrfa academiaidd mewn leithyddiaeth, trwy wneud cais i astudio am PhD mewn leithyddiaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/linguistics

Applied Linguistics for TEFL MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2-3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. leithyddiaeth, leithoedd Modern, Cyfieithu, Seicoleg, Iaith/Llenyddiaeth Saesneg, Addysg Saesneg/Addysg Iaith Saesneg).

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau neu brofiad cyfwerth a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd yn cael eu hystyried fesul un. Mae croeso i chi gysylltu â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.5 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr cartref neu ryngwladol sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor (TEFL) i rai nad ydynt yn siaradwyr Saesneg brodorol. Mae'n cynnwys cyfuniad o fodiwlau hyfforddedig a thraethawd ymchwil hir 20,000 o eiriau.

Mae'r MA mewn leithyddiaeth Gymhwysol ar gyfer Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor yn cynnig hyfforddiant ar lefel ôl-raddedig i fyfyrwyr sy'n dymuno dysgu am agweddau damcaniaethol, ymarferol ac addysgiadol Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor (TEFL), yn ogystal â chynnig cymhwysedd a dealltwriaeth feirniadol o ystod eang o agweddau ar yr iaith Saesneg ac ieithyddiaeth Saesneg (agweddau sosioieithyddol ar Saesneg, gramadeg, system sain a semanteg Saesneg, hanes Saesneg,

caffael iaith gyntaf ac ail iaith, seicoieithyddiaeth yn ogystal â materion yn ymwneud â Saesneg fel iaith ryngwladol a dwyieithrwydd).

Mae'r rhaglen hon wedi'i hanelu'n benodol at fyfyrwyr sy'n chwilio am yrfaeodd mewn cyd-destunau amlieithog a rhyngwladol - lle mae ymwybyddiaeth o wahanol genres strategaethau cyfathrebu Saesneg, a'r gallu i'w defnyddio, o'r pwys mwyaf.

Modiwlau Gorfodol:

• EFL Theory

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno sail ddamcaniaethol dysgu Saesneg fel iaith dramor, ac yn archwilio'r meysydd craidd a'r materion a wynebwr gan athrawon a dysgwyr.

• Foundations of Linguistics

Mae'r modiwlau hyn yn cynnig trosolwg o ddisgyblaeth gwyddor iaith. Maent yn ymdrin yn benodol â syniadau a methodolegau allweddol wrth astudio ystyr, gramadeg a sain.

• Teaching EFL

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i fethodolegau addysgu perthnasol ac yn eu harfogi i werthuso a chymhwyso'r methodolegau hynny. Mae hwn hefyd yn fodiwl ymarferol lle mae myfyrwyr yn arsylwi ar wersi i fyfyrwyr nad ydynt yn siaradwyr Saesneg brodorol ac yna'n gwneud rhywfaint o addysgu gyda chefnogaeth mentor.

• Second Language Acquisition and Language Teaching

Mae'r modiwl hwn yn archwilio sut mae ail iaith yn cael ei dysgu, a'r prosesau sydd ynghlwm â hynny.

• Linguistics Research Methods

Nod y modiwl hwn yw eich arfogi â'r sylfeini a'r cyfarpar angenrheidiol i lunio a gwneud ymchwil mewn ieithyddiaeth, ynghyd â pharatoi ar gyfer eich traethawd hir.

Gall myfyrwyr sydd wedi gwneud gwaith cwrs blaenorol mewn ieithyddiaeth hepgor Foundations of Linguistics 1 a 2 ac ennill y nifer cyfatebol o gredydau o restr o Fodiwlau Dewisol.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r cwrs yn addas ar gyfer rhai sy'n dymuno dysgu Saesneg fel iaith dramor at wahanol ddibenion proffesiynol ar draws y byd. Yn ogystal ag ennill profiad ystafell ddosbarth byddwch hefyd yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau ymchwil a dadansoddi cryf ynghyd â'r gallu i fabwysiadu/defnyddio gwahanol strategaethau ar gyfer cyfathrebu a chyflwyno yn Saesneg mewn amrywiaeth o gyd-destunau amlieithog a rhyngwladol. Er nad yw hwn yn gymhwyster addysgu ffurfiol, mae'n rhoi'r cefndir damcaniaethol a chefnidir mewn ieithyddiaeth sydd ei angen ar fyfyrwyr sy'n dymuno mynd ymlaen i ddysgu Saesneg i siaradwyr nad ydynt yn siaradwyr brodorol yn ogystal â chynnig profiad ymarferol, ystafell ddosbarth. Mae cyfleoedd yn bodoli i ddysgu mewn gwledydd ar draws y byd, e.e. mewn prifysgolion, colegau neu ysgolion iaith preifat. Yn dilyn cwblhau'r MA mewn leithyddiaeth Gymhwysol ar gyfer Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor yn llwyddiannus, gallwch benderfynu dilyn gyrfa academaidd a gwneud cais i astudio am PhD.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/linguistics

Bilingualism MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2-3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. leithyddiaeth, leithoedd Modern, Cyfieithu, Seicoleg, Iaith/Llenyddiaeth Saesneg, Addysg Saesneg/Addysg Iaith Saesneg).

Bydd ceisiadau gan weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd yn cael eu hystyried ar sail unigol. Mae croeso i chi gysylltu â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos y myfyrwyr hynny nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MA mewn Dwyieithrwydd yn cynnig rhaglen o astudio ar lefel raddedig ym maes eang dwyieithrwydd yn ogystal â hyfforddiant ymchwil yn y maes hwn. Mae'n cynnwys elfen hyfforddedig ynghyd â chyfuniad o fodiwlau craidd a dewisol, a thraethawd ymchwil hir 20,000 o eiriau. Mae'r cwrs yn cynnig rhaglen gynhwysfawr, amrywiol a hyblyg o hyfforddiant mewn pynciau amlddisgyblaethol sy'n gysylltiedig ag astudio dwyieithrwydd, gan gynnwys materion yn ymwneud ag iaith, addysg a gwybyddiaeth. Diben y cwrs yw cynnig yr adnoddau a'r sgiliau damcaniaethol, dadansodol a methodolegol angenrheidiol i chi wneud ymchwil uwch mewn agwedd ar ddwyieithrwydd.

Modiwlau Gorfodol:

• Linguistics Research Methods

Nod y modiwl hwn yw arfogi myfyrwyr â'r sylfeini a'r cyfarpar angenrheidiol i lunio a gwneud ymchwil arbrofol mewn ieithyddiaeth, ynghyd â'u paratoi ar gyfer y traethawd hir.

• Bilingualism Research & Methods

Mae'r modiwl hwn yn eich cyflwyno i amrywiaeth o faterion damcaniaethol a dulliau ymarferol a ddefnyddir wrth astudio dwyieithrwydd.

Mae Modiwlau Dewisol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac yn cynnwys:

- Language Contact and Bilinguals
- Language Acquisition
- L2 Speech Learning
- Bilingual and Acquisition Issues
- Psycholinguistics
- Second Language Acquisition
- Phonology in Bilingual Acquisition
- Ieithyddiaeth Gymraeg
- Cognitive Discourse Analysis
- EFL Theory
- SLA and Language Teaching

Rhaid i rai nad ydynt yn siaradwyr Saesneg brodorol ddilyn cyrsiau di-gredyd gydag ELCOS i'w cynorthwyo gyda'u Saesneg, oni bai eu bod yn cael eu heithrio gan eu tiwtor.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae amlieithrwydd yn ffenomen eang mewn llawer o wledydd gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Bydd MA mewn Dwyieithrwydd yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o faterion sy'n ymwneud â dwyieithrwydd a'r gallu i wneud gwaith ymchwil yn y maes hwn. Mae graddedigion yn dod o hyd i gyfleoedd gyrfa mewn cyfathrebu, addysgu, therapi lleferydd ac iaith, cyhoeddi, ymchwil, ac mae'r sgiliau trosglwyddadwy a ddysgir trwy'r rhaglen hon yn fuddiol mewn amrywiaeth o yrfaeodd eraill, gan gynnwys hysbysebu, newyddiaduraeth, ymgynghori etc. Yn dilyn cwblhau'r MA mewn Dwyieithrwydd yn llwyddiannus efallai y byddwch yn penderfynu dilyn gyrfa academaidd, trwy wneud cais i astudio am PhD mewn Dwyieithrwydd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/linguistics

Language Acquisition and Development MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, 2-3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn ieithyddiaeth neu faes cysylltiedig (e.e. Ieithoedd Modern, Cyfieithu, Seicoleg, Iaith/ Llenyddiaeth Saesneg, Addysg Saesneg/ Addysg iaith Saesneg).

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau neu brofiad cyfwerth a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd yn cael eu hystyried fesul un. Mae croeso i chi gysylltu â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos y myfyrwyr hynny nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb i unrhyw elfen fod yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Y cwrs MSc hwn yw'r rhaglen feistr gyntaf yng Nghymru i gynig cyrsiau mewn datblygiad iaith nodweddiadol ac annodweddiadol mewn poblogaethau uniaith a dwyieithog (cydamserol a dilyniannol). Mae'n cynnwys elfen hyfforddedig ynghyd â chyfuniad o fodiwlau craidd a dewisol, a thraethawd ymchwil hir 20,000 o eiriau.

Nod y cwrs yw datblygu eich dealltwriaeth o ddatblygiad a chaffael iaith yn achos plant uniaith a dwyieithog sy'n datblygu'n nodweddiadol, ac yn achos oedolion, yn ogystal ag yn achos plant gydag amhariadau iaith. Diben y cwrs MSc hwn yw cyflwyno'r sgiliau

damcaniaethol a methodolegol sydd eu hangen arnoch i wneud ymchwil uwch yn y maes hwn.

Modiwlau Gorfodol:

• Language Acquisition

Prif amcan y modiwl hwn yw eich cyflwyno i gwestiynau canolog mewn ymchwil caffael iaith (e.e. Sut ydym yn dysgu ystyr geiriau? Beth yw manteision magu plentyn yn ddwyieithog? A yw plant yn well dysgwyr iaith nag oedolion?). Bydd y ffocws ar gaffael iaith gyntaf (I1).

• Linguistics Research Methods

Nod y modiwl hwn yw eich arfogi â'r sylfeini a'r cyfarpar angenrheidiol i lunio a gwneud ymchwil arbrofol mewn ieithyddiaeth, ynghyd â'ch paratoi ar gyfer eich traethawd hir.

Rhaid i rai nad ydynt yn siaradwyr Saesneg brodorol ddilyn cyrsiau di-gredyd gydag ELCOS i'w cynorthwyo gyda'u Saesneg, oni bai eu bod yn cael eu heithrio gan eu tiwtor.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn rhoi'r sgiliau, y ddealltwriaeth a'r wybodaeth angenrheidiol i chi weithio'n effeithiol a gwella eich cyflogadwyedd mewn sefydliadau sy'n gweithio gyda phoblogaethau dwyieithog a dysgwyr ail iaith sydd ag amhariad iaith neu beidio, fel therapyddion lleferydd ac iaith ac athrawon.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/linguistics

Mae Modiwlau Dewisol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac yn cynnwys:

- L2 Speech Learning
- Bilingual and Acquisition Issues
- Second Language Acquisition
- Psycholinguistics
- Phonology in Bilingual Acquisition
- Language Contact and Bilinguals
- Language Disorders and Bilinguals
- Ieithyddiaeth Gymraeg
- EFL Theory
- SLA and Language Teaching

Linguistics / Bilingualism PhD/MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser, 5 mlynedd yn rhan-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser, 3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae'n bosib ymuno â'r rhaglen PhD ar ôl cwblhau gradd Meistr mewn ieithyddiaeth neu bwnc cysylltiedig ym Mangor neu mewn sefydliad arall. Rhaid i'r ymgeiswyr hynny nad yw'r Saesneg yn iaith frodorol iddynt basio'r prawf Saesneg IELTS gyda sgôr o 6.0 ym mhob un o'r pedair elfen. Gall myfyrwyr sydd â sgôr gyffredinol o 5.5 ar yr IELTS ddilyn cwrs cyn-sesiwn dros yr haf yng Nghanolfan Iaith Saesneg y Brifysgol i Fyfrwyr Tramor (ELCOS).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Linguistics PhD/MPhil:

Rhaglen ymchwil yw hon. Byddwch yn derbyn hyfforddiant ymchwil a hyfforddiant mewn sgiliau trosglwyddadwy trwy Raglen Hyfforddi Graddedigion y Brifysgol. Gallwch hefyd ddilyn modiwlau/dosbarthiadau a gynigir mewn ieithyddiaeth. Byddwch yn gwneud gwaith ymchwil mewn maes o ieithyddiaeth, o dan arweiniad dau oruchwyliwr, ac yn cyflwyno traethawd hir ar ddiwedd y rhaglen.

Bilingualism PhD/MPhil:

Cynllun gradd yw hwn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno ysgrifennu eu traethawd ymchwil ar thema dwyieithrwydd. Byddwch yn derbyn hyfforddiant ymchwil a hyfforddiant mewn sgiliau trosglwyddadwy trwy Raglen Hyfforddi Graddedigion y Brifysgol. Gallwch hefyd ddilyn modiwlau a gynigir ar ieithyddiaeth a Dwyieithrwydd. Byddwch yn cael eich tywys gan ddau oruchwyliwr.

RHAGOLYCON GYRFA

Gradd ymchwil yw hon, sy'n eich paratoi at yrfa academiaidd mewn ieithyddiaeth / Dwyieithrwydd neu at waith arall sy'n gofyn am unigolion cymwys iawn mewn meysydd cysylltiedig. Bydd y sgiliau dadansoddi ac ymchwilio manwl a ddysgwch yn ystod y radd hon yn eich gwneud yn fwy cyflogadwy mewn meysydd fel cyfathrebu, addysgu, cyhoeddi, ymchwil etc.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/linguistics



Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Mae ieithoedd Modern wedi bod ar gwricwlwm Prifysgol Bangor ers i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru groesawu ei myfyrwyr cyntaf ym 1884. Mae ein gwaith yn seiliedig ar y traddodiad cadarn a pharhaus hwnnw ac rydym yn cofleidio ac yn hybu'r gorau o'r hyn sydd gan dechnoleg i'w gynnig i'r sawl sy'n dysgu iaith.

Rydym yn cynnig cyrsiau gradd gyda'r mwyafrag eang a hyblyg yn y Deyrnas Unedig mewn Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg a Tsieinëeg - ynghyd a llawer o gyfuniadau gyda phynciau eraill. Rydym hefyd yn cynnig modiwlau sy'n rhoi cyfle i holl fyfyrwyr y Brifysgol ddatblygu eu sgiliau ieithyddol drwy gydol eu cyfnod ym Mangor.

Rydym yn cynnig goruchwyliaeth dros ymchwil ôl-radd mewn amrywiol feysydd ac ieithoedd (Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg, Galiseg, Catalaneg, Mandarin ac Astudiaethau Cyfieithu) mewn amgylchedd cyfeillgar a bywiog. Rydym hefyd yn cynnal y Ganolfan Astudiaethau Galisaidd yng Nghymru ac mae gennym gysylltiadau clos â sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Dwyrain Pell.

Yn ogystal â'n fforwm ymchwil sy'n croesawu amrywiaeth o siaradwyr gwadd, rydym hefyd yn trefnu digwyddiadau rheolaidd gyda'r nod yn benodol o feithrin sgiliau ymchwil ein myfyrwyr ôl-radd. Mae cyfleoedd addysgu hefyd ar gael i fyfyrwyr ôl-radd sydd â diddordeb datblygu eu proffil.

Yma ym Mangor mae cymuned ôl-radd fywiog ac mae hi'n cynyddu, a myfyrwyr ieithoedd modern yn elwa o amgylchedd dysgu clos a chefnogol.

Cyfleusterau ar gyfer Ymchwil

Mae ein staff yn ymchwilwyr o fri yn rhyngwladol yn eu meysydd ac mae ganddynt arbenigedd amrywiol. Rydym yn drydydd ar ddeg yn y Deyrnas Unedig lle mae Ymchwil yn y cwestiwn (REF 2014). Mae projectau ar y cyd ar draws y gwahanol feysydd iaith yn golygu bod gan yr ysgol ddiwylliant ymchwil bywiog a thrawsddisgyblaethol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y cyrsiau ôl-radd. Mae myfyrwyr yn dod i gysylltiad rheolaidd â'r staff trwy grwpiau dysgu bach a/neu diwtorialau unigol ac fel rheol mae gan fyfyrwyr ddau oruchwylydd project. Bydd eich goruchwylwyr yn eich annog i ddatblygu eich proffil ymchwil a'ch gyrfa trwy fynd i ddigwyddiadau hyfforddi, cyflwyno mewn cynadleddau rhyngwladol a chyhoeddi eich ymchwil.

Mae gennym adnoddau rhagorol i gefnogi ymchwil ym Mangor, gan gynnwys cyfrifiaduron pwrpasol ac amrywiaeth eang o adnoddau llyfrgell a chyfryngau. Byddwn yn sicrhau y cewch fynediad llawn at gyfleusterau cyfrifiadurol, darpariaeth y llyfrgell a holl adnoddau'r adran, gan gynnwys ein llyfrgell ffilm helaeth, tanysgrifiadau i gyfryngau mewn ieithoedd tramor, meddalwedd iaith arbenigol a llyfrgell y Ganolfan Astudiaethau Galisaidd.

Golwg gyffredinol ar y meysydd academiaidd

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig graddau ôl-radd hyfforddedig a graddau ôl-radd ymchwil sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd arbenigol a rhyngddisgyblaethol. Mae'r rheiny'n cynnwys Astudiaethau Cyfieithu, Ffrangeg ac Astudiaethau Ffrengig (gydag arbenigedd penodol yn yr 20fed a'r 21ain ganrif), Astudiaethau Iberaidd (gan gynnwys Galiseg a Chatalaneg), Astudiaethau Almainig (gydag arbenigedd penodol yn y cyfnod ar ôl 1945), Astudiaethau Eidaleg, Astudiaethau Tsieineaidd, Astudiaethau Ffilm a Llenyddiaeth Gymharol.

Mae arbenigedd trawsddisgyblaethol hynod gryf ym meysydd astudiaethau'r cof, ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol, astudiaethau taith, astudiaethau diwylliannol trefol, trosglwyddo diwylliannol, a chyfieithu a newidiadau cymdeithasol-wleidyddol.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MA

- European Languages and Cultures
- Translation Studies

MSc

- Language Technologies

PhD/MPhil

- Chinese Studies
- French and Francophone Studies
- German Studies
- Italian Studies
- Hispanic Studies
- Translation Studies

PhD/MPhil by Practice

- Translation Studies

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382118

E-bost: languages.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/ml

European Languages and Cultures MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. leithoedd Modern, Hanes (Ewrop) Astudiaethau Llenyddol, Astudiaethau Diwylliannol(Ewrop), Cyfieithu).

Caiff yr ymgeiswyr hynny sydd â chymwysterau neu brofiad cyfatebol eu cloriannu hefyd yn ôl teilyngdod unigol; caiff profiad gwaith a ffactorau eraill eu hystyried hefyd. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

I'r myfyrwyr hynny nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, mae angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb yr un elfen o dan 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynlluniwyd yr MA leithoedd a Diwylliannau Ewropeaidd i roi sylfaen helaeth i chi mewn theori feirniadol gyfoes a'r modd y gellir ei chymhwyso i ystod o gyd-destunau diwylliannol Ewropeaidd. Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i arbenigo mewn agweddau penodol ar ddiwylliant Ewrop (heblaw'r Angloffôn) sy'n agos at feysydd arbenigedd y staff, gan gynnwys hanes, ffilm, llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol a pherfformio. Byddwch yn cynnal project ymchwil helaeth o'ch dewis o dan arweiniad manwl mewn amgylchedd cefnogol a bywiog.

Rydym yn cynnig goruchwyliaeth mewn ymchwil mewn amrywiaeth o feysydd ac ieithoedd ac yn darparu cyfleoedd ymchwil mewn amgylchedd rhyngddisgyblaethol personol a bywiog. Ar ôl cwblhau modiwlau

gorfodol mewn Dulliau Ymchwil a Dulliau Theori Feirniadol, byddwch yn dewis modiwl mewn iaith benodol o blith y rhai a gynigir mewn unrhyw flwyddyn benodol (Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg neu Sbaeneg).

Mae'r modiwlau hynny'n baratoad angenrheidiol at y traethawd hir ar bwnc sydd o ddiddordeb personol. Asesir trwy draethodau, papurau seminar, cyflwyniadau a thraethawd hir.

Modiwlau Gorfodol:

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu sgiliau mewn ysgrifennu academiaidd, cyflwyno a chynnal ymchwil llyfryddiaethol mewn gwahanol feysydd ieithyddol.

• Modes of Critical Theory

Mae'r modiwl hwn yn cymryd agwedd thematig at ddulliau dadansoddi beirniadol a damcaniaethau beirniadol. Mae'r modiwl hwn yn defnyddio dull thematig i roi'r cefndir damcaniaethol a'r sgiliau dadansoddi perthnasol i'r myfyrwyr, megis llenyddiaeth, ffilm, astudiaethau gwleidyddol, hanesyddol a diwylliannol.

• Critical Theory in Practice

Mae'r modiwl yma'n ehangu ar Modes of Critical Theory, ac mae'n ymgorffori astudiaethau achos o dan arweiniad y myfyrwyr a hynny'n seiliedig ar y themâu a astudiwyd yn semester 1, ac mae angen rhywfaint o ysgrifennu academiaidd yn yr iaith darged i ategu eich gwaith dadansoddi.

Modiwlau Dewisol yr Iaith Darged, gan gynnwys:

- (Non)conformity in the GDR
- German Avant-Garde 20/21st Century
- Visions of the City in French Cinema
- French Film and Comic Adaptation
- Translating Spain
- Monsters of Spain
- Memories of Violence in Italy

• Traethawd Hir

20,000 o eiriau ar bwnc sy'n berthnasol i'r arbenigedd(au) ieithyddol o'ch dewis. Gall hwnnw fod yn broiect cymharol o blith sawl maes iaith..

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno gwella eu rhagolygon cyflogaeth neu ganlyn diddordebau ymchwil sy'n ymwneud â chyd-destun Ewropeaidd, gyda golwg ar yrfa benodol mewn nifer o feysydd, megis busnesau cenedlaethol a rhyngwladol, addysg, cyfieithu, rheolaeth ddiwylliannol neu'r cyfryngau.

Mi wnaiff y cwrs eich arfogi gydag amryw o sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau mewn ymchwil ac mewn cyfathrebu ysgrifenedig, llafar a rhyngddiwylliannol. Mae hefyd yn rhoi sylfaen i fyfyrwyr sy'n bwriadu parhau â'u hymchwili ym Mangor trwy gymhwyster PhD.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/modernlanguages

Translation Studies MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. leithoedd Modern, Cyfieithu). Disgwyllir i'r ymgeiswyr feddu ar gymhwysedd lefel gradd mewn o leiaf dwy iaith fodern (e.e. Cymraeg, Sbaeneg, Catalaneg, Tsieinëeg, Saesneg, Ffrangeg, Galiseg, Almaeneg ac Eidaleg).

Caiff yr ymgeiswyr hynny sydd â chymwysterau neu brofiad cyfatebol hefyd eu barnu yn ôl teilyngdod unigol; caiff profiad gwaith a ffactorau eraill eu hystyried hefyd. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos y myfyrwyr hynny nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb yr un elfen yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nid yn unig y mae'r MA mewn Astudiaethau Cyfieithu'n cynnig hyfforddiant proffesiynol rhagorol, mae hefyd yn gyfle i astudio mewn gwlad ddwyieithog sy'n cynnal diwylliant ymchwil dwys ac ysgogol mewn Astudiaethau Cyfieithu. Nod y cwrs yw eich paratoi chi ar gyfer gyrfaedd proffesiynol yn y diwydiant cyfieithu ac ymchwil academiaidd uwch. Mae'r semester cyntaf yn darparu sylfaen ddamcaniaethol a methodolegol trwy fodiwlau mewn Astudiaethau Cyfieithu a Dulliau Ymchwil. Mae modiwlau ymarferol yr ail semester yn gyfle i chi ymchwilio i wahanol agweddau ar y proffesiwn ac archwilio meysydd o ddiddordeb personol. Mae project

y traethawd hir yn cydgrynhoi'ch dysgu naill ai trwy ymchwil neu ymarfer cyfieithu. Rydym yn cynnig goruchwyliaeth mewn amrywiaeth o arbenigeddau ymchwil; mae'r ieithoedd sydd ar gael fel arfer yn cynnwys: Arabeg, Tsieinieeg, Saesneg, Ffrangeg, Galiseg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Sbaeneg, Catalaneg a Chymraeg (gweler y wefan neu cysylltwch â ni i gael y rhestr ddiweddaraf).

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Bedwyr y Brifysgol (Canolfan Gwasanaethau Cyfieithu) i ddarparu modiwlau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Modiwlau Gorfodol:

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch ar lefel ôl-radd.

• The Making of a Discipline

Mae'r modiwl hwn yn eich arfogi â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i wneud ymchwil annibynnol ym maes Astudiaethau Cyfieithu neu ddisgyblaethau cysylltiedig eraill.

Modiwlau Dewisol (mae myfyrwyr yn dewis un Modiwl Cynnwys ac un Modiwl Ymarfer):

Modiwlau Cynnwys:

- Translation in Practice
- Translation and Creative Writing

Modiwlau Ymarfer:

- Portffolio Ymarfer Cyfieithu (o unrhyw un o'n harbenigeddau iaith i'r Gymraeg/Saesneg)

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae cysylltiadau clos rhwng y rhaglen a'r diwydiant cyfieithu lleol a'r cymdeithasau proffesiynol. Mae Canolfan Bedwyr - uned gyfieithu a thechnolegau iaith fewnol Prifysgol Bangor yn cynnig cyfleoedd am ymweliadau safle a chydweithio. Mae ymchwil o'r radd flaenaf mewn astudiaethau cyfieithu yn sail i'n haddysgu.

RHAGOLYCON GYRFA

Cewch eich paratoi at amrywiol yrfaedd fel cyfieithwyr mewn sefydliadau cyhoeddus, fel y Comisiwn Ewropeaidd, yn ogystal â chwmnïau masnachol ac asiantaethau cyfieithu preifat. Gallech hefyd ystyried gyrfaedd mewn meysydd eraill sy'n gofyn am sgiliau uwch o ran iaith a chyfathrebu fel marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, ysgrifennu technegol neu ddysgu ieithoedd. Petaech chi am ddatblygu eich astudiaethau wedi hynny, mae cyfle i barhau ym Mangor naill ai gydag ymarfer neu ddoethuriaeth ymchwil mewn Astudiaethau Cyfieithu.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/modernlanguages

Language Technologies MSc - yn amodol ar ddilysu

Rhaglen MSc arloesol sy'n cynnwys cyfuniad o elfennau craidd a dewisol yn ogystal â phroject ymchwil ymarferol a chyfle i gydweithio ag Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor. Mae'r MSc Technolegau Iaith yn cynnig sawl llwybr sy'n addas ar gyfer myfyrwyr o wahanol gefndiroedd academaidd, gan gynnwys

leithyddiaeth, Cyfrifiadureg, ac Astudiaethau Iaith.

Nod y rhaglen MSc hon yw eich hyfforddi mewn meysydd fel prosesu iaith naturiol, gwyddor lleferydd a chyfieithu awtomataidd, a'ch paratoi at yrfa ym maes technolegau iaith.

Gweler y wefan i gael rhagor o fanylion:

www.bangor.ac.uk/go/pg/modernlanguages

French and Francophone Studies / German Studies / Hispanic Studies / Italian Studies / Chinese Studies / Translation Studies PhD/MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3-4 blynedd yn llawn-amser,
6 blynedd yn rhan-amser;
MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser,
3 blynedd yn rhan-amser;

Y GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, dylai'r ymgeiswyr feddu ar radd israddedig anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch a gradd Meistr mewn pwnc perthnasol. Fel rheol bydd gofyn i'r rhai nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt feddu ar IELTS 6.5 neu uwch (heb yr un elfen o dan 6.0). Caiff ceisiadau eu hystyried yn unigol bob amser, a chaiff ymgeiswyr hefyd eu barnu yn ôl eu rhinweddau unigol, eu profiad gwaith a'u cymwysterau perthnasol eraill. Gall myfyrwyr sydd â sgôr gyffredinol o 5.5 ar yr IELTS ddilyn cwrs cyn-sesiwn yn yr haf yng Nghanolfan Iaith Saesneg y Brifysgol i Fyfyrrwyr Tramor (ELCOS).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Rydym yn cynnig graddau ôl-radd ymchwil sy'n cwmparu amryw o feysydd arbenigol a rhyngddisgyblaethol mewn Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg, Tsieinëeg ac Astudiaethau Cyfieithu. Mae'r berthynas waith glos sydd rhwng y meysydd hyn yn creu lefelau uchel o waith rhyngddisgyblaethol ac ymchwil trawsddiwylliannol helaeth, ac mae hynny i'w weld yn arbenigedd yr ymchwil mewn astudiaethau llenyddol, astudiaethau ffilm, diwylliant gweledol, astudiaethau hanesyddol a chyfieithu. Gellir cynnig cyd-oruchwyliaeth dros bynciau cymharol hefyd. Mae arbenigedd yr ymchwil ym meysydd astudiaethau cyfieithu a diwylliannau ac iethoedd lleiafrifol hefyd yn darparu ar gyfer diwylliant ymchwil sy'n arbennig o addas ar gyfer cymdeithas ddwyieithog y gogledd.

Fel rheol cewch ddau oruchwylydd a chyfleusterau cyfrifiadurol llawn (gan gynnwys meddalwedd cof cyfieithu), darpariaeth y llyfrgell, ac adnoddau gan gynnwys y

llyfrgell ffilm. Mae gan Fangor draddodiad hir o gefnogaeth ragorol i fyfyrwyr. Mae yma gymuned ôl-radd fywiog sydd ar gynydd, ac mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn amgylchedd cefnogol a chlos.

Gallwn gynnig goruchwyliaeth i raddau ôl-radd ymchwil yn y meysydd a ganlyn:

Ffrangeg ac Astudiaethau Ffrengig:

- French film
- Multiculturalism, immigration and national identity in modern France
- Astudiaethau addasu
- Minority and regional identities
- Contemporary popular culture
- French language Comic Art

Astudiaethau Almaenaidd:

- German Romanticism
- German/Spanish literary relations (19th C)
- East German history, society and politics
- Representations of memory in contemporary Germany
- German Avant-Garde and Neo Avant-Garde
- Literature of the 20th and 21st Centuries

Astudiaethau Eidalaidd:

- Contemporary Italian Studies
- The Mafia in Italian society
- Organised crime in Italy

Astudiaethau Sbaenaidd:

- The Spanish 19th century
- 20th and 21st century peninsular literature
- Spanish comics
- Iberian travel writing
- Hispanic women writers
- Astudiaethau Galisaidd
- Nations and Nationalisms in Spain
- Spanish cinema
- Catalan Studies
- Hispanic Visual Cultures

Astudiaethau Tsieineaidd:

- Intercultural Communication

- Chinese Applied Linguistics
- Translation Studies
- Western representations of China

Astudiaethau Cyfieithu

(PhD/MPhil trwy Ymchwil neu Ymarfer)

Gall PhD neu MPhil trwy Ymchwil mewn Astudiaethau Cyfieithu gynnwys amryw o bynciau ynghylch theori, hanes ac ymarfer cyfieithu, gan gynnwys amrywiol iethoedd Ewropeaidd (Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg) a Tsieinëeg. Oherwydd arbenigedd y staff academaidd, byddai rhai pynciau'n hynod berthnasol. Yn eu plith: cyfieithu ac iethoedd lleiafrifol (mae yma arbenigedd yn y cyd-destun Cymraeg, Galiseg a Chatalaneg); cyfieithu a rhywedd; ymagweddau cymdeithasegol tuag at ymarfer a chyd-destunau cyfieithu, neu gyfieithu a'r diwydiannau creadigol (newyddiaduraeth, ffilm, cyfryngau ac ysgrifennu creadigol).

Byddai PhD neu MPhil trwy Ymarfer mewn Astudiaethau Cyfieithu yn cyfuno cyfieithiad gorffenedig o ddarn o waith beirniadol/creadigol ynghyd â thraethawd hir, gan gynnwys: 1) dadansoddiad beirniadol/sylwebaeth ar y cyfieithiad a'i gyd-destun; 2) darn beirniadol sy'n ymwneud ag Astudiaethau Cyfieithu a fyddai'n gyfraniad at y maes.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae cwblhau PhD neu MPhil yn llwyddiannus yn gwella'r rhagolygon cyflogaeth ac yn cynnig cyfleoedd mewn amryw o feysydd, gan gynnwys addysg uwch, cyfieithu, polisi a rheolaeth ddiwylliannol, y cyfryngau, newyddiaduraeth, y sector cyhoeddi, busnesau cenedlaethol a rhyngwladol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/modernlanguages



Cerddoriaeth

Mae gan Brifysgol Bangor draddodiad hir o ragoriaeth academiaidd a chreadigol mewn Cerddoriaeth, ac mae hynny'n dyddio o 1921. Mae ein cymuned ôl-radd o'r maint delfrydol i feithrin trafodaeth a chydweithio mewn awyrgylch cymdeithasol braf. Mae'r staff a'r ôl-raddedigion yn cyfarfod yn wythnosol mewn seminarau ymchwil a gweithgareddau cymdeithasol. Mae gennym gysylltiadau cryf â chyflogwyr, ac mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i swyddi gydag amryw o sefydliadau o fri, gan gynnwys darlledwyr, cerddorfeydd a chwmnïau operâu, ysgolion, cyhoeddwy'r a chwmnïau recordio. Mae gan eraill yrfaedd llwyddiannus fel perfformwyr a chyfansoddwyr ar eu liwt eu hunain ac mae nifer dda o gyn-fyfrwyr ymchwil wedi mynd ymlaen i swyddi academiaidd.

Mae'r gweithgareddau academiaidd yn cynnwys holl ystod ysgolheictod a chreadigrwydd cerddorol, ac i ategu hynny mae yma raglen fywiog o berfformiadau all-gyrsiol (corau, cerddorfeydd, ensembles cerddoriaeth gynnar a cherddoriaeth newydd, grŵp opera, ac ati). Ar y cyd â Pontio - canolfan y celfyddydau ac arloesedd ym Mangor - rydym yn trefnu rhaglen helaeth ac amrywiol o gyngherddau, gan gynnwys ymweliadau gan berfformwyr byd-enwog megis Freddy Kempf, Catrin Finch, Mahan Esfahani, Pedwarawd Llinynol Allegri a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Rydym hefyd yn cynnal gŵyl flynyddol o gerddoriaeth newydd.

Rydym yn unigryw yng Nghymru, mae yma awyrgylch gwirioneddol ddwyieithog. Gellir astudio'r rhan fwyaf o'n cyrsiau ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cryfderau ac arbenigedd

Mae ein harbenigedd cerddolegol yn amrywio o'r Dadeni i ganu roc. Mae gennym arbenigedd neilltuol mewn cerddoriaeth gynnar, cerddoriaeth er 1900, minimaliaeth, a cherddoriaeth Cymru. Dehonglir cyfansoddi yn ystyr ehangaf y gair, gan gynnwys cyfansoddi cyfoes 'clasurol', electroacwstig, poblogaidd a chyfansoddi cymhwysol (gan gynnwys cerddoriaeth ffilm). Mae perfformio cerddoriaeth yn rhan ganolog o fywyd yr Ysgol, fel unawdydd neu fel cerddor mewn ensembles mawr a bychain. Rydym hefyd yn dysgu ac yn ymchwilio i gerddoriaeth ar waith yn y byd, megis cerddoriaeth mewn ieuchyd a lles, a cherddoriaeth gymunedol.

Staff a chyfleusterau

Mae pob un o'r 16 aelod o'r staff academiaidd yn weithredol fel ymchwilwyr ac yn dysgu yn ôl eu harbenigedd fel cerddolegwyr, cyfansoddwyr a pherfformwyr. Graddiodd Framwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF) 81% o'n hymchwili cyhoeddiedig yn rhagorol yn rhyngwladol neu gyda'r gorau yn y byd - ac mae hynny'n cadarnhau ein statws fel un o'r adrannau cerdd prifysgol mwyaf blaenllaw yn y byd, mae sawl aelod o'r staff wedi derbyn gwobrau sy'n cydnabod eu rhagoriaeth fel athrawon a chyfathrebwyr.

Mae'r Adran Gerdd yn rhan o'r Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, a saif yng nghanol y brifysgol. Mae ein prif adeilad ar ei newydd wedd yn cynnwys neuadd berfformio, ystafelloedd seminar, man arddangos, archifau, ystafelloedd gwaith tawel, ystafell gyffredin ôl-radd a mannau

cymdeithasol clyd. Saif ein stiwdios ym Mhrif Adeilad y Brifysgol y drws nesaf, ac yno hefyd mae ein neuaddau cyngerdd, adnoddau llyfrgell a chaffis. Mae'r cyfleusterau ymarfer mewn tŷ Fictoriaidd cyfagos. Yno ceir ystafelloedd ymarfer gwrthsain o wahanol faint - sy'n cynnwys ystafell gyda dau biano cyngerdd ac ystafell ymarfer arbenigol i offerynnau taro.

Mae pianos cyngerdd o safon uchel (dau Steinway Ds a Bösendorfer Imperial) yn Neuadd Powis (200 sedd), Theatr Bryn Terfel (450 sedd) a Neuadd Prichard-Jones (520 sedd). Mae gennym hefyd ddwy organ a chasgliad o harpsicordiau. Yn ein llyfrgell mae dros 3000 o grynno ddisgiau, 20,000 o sgorau a chasgliad mawr o lyfrau am gerddoriaeth. Mae gennym hefyd danysgrifiadau electronig i gyfnonodion pwysig ac i adnoddau ar-lein, megis Grove Online a'r Naxos Music Library. Mae casgliadau arbenigol yn cynnwys Archif Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru, Archif Bop Cymru a chasgliad unigryw Peter Crossley-Holland o offerynnau o bob rhan o'r byd. Mae gennym ddwy stiwdio 8 sianel gyda'r offer diweddaraf i gyfansoddi cerddoriaeth electroacwstig, yn ogystal â stiwdio recordio a stiwdio cerddoriaeth ffilm. Mae gan fyfrwyr ôl-radd eu hystafell weithio benodedig eu hunain yn y prif adeilad cerddoriaeth.

Golwg gyffredinol o'r meysydd academiaidd

Mae ein cyrsiau Meistr hyfforddedig hefyd yn galluogi myfyrwyr i arbenigo mewn cerddoleg, ethnogerddoleg, cyfansoddi, perfformio, neu addysg cerddoriaeth. Mae'r MA mewn Cerddoriaeth i rai sydd eisiau astudio hanes cerddoriaeth, cerddoriaeth yn y gymdeithas, ac/neu ddadansoddi cerddoriaeth. Mae ein MMus mewn Perfformio yn ddelfrydol i rai sydd eisiau datblygu sgiliau pellach ym maes perfformio proffesiynol, ac mae'r MMus mewn Cyfansoddi a Chelfyddydau Sonig yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu creadigrwydd a sgiliau technegol mewn cyfansoddi ar gyfer lleisiau, offerynnau, electroneg, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Dysgir yr MA mewn Cerddoriaeth gydag Addysg ar y cyd â'r Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol. Mae'n galluogi'r myfyrwyr i ddewis modiwlau o blith nifer o ddewisiadau yn y ddwy Ysgol, ac mae hefyd yn cynnwys lleoliad dewisol mewn ysgol neu goleg lleol.

Defnyddir cyfuniad o seminarau a gweithdai i grwpiau, goruchwyliaeth bersonol, ac astudio preifat dan gyfarwyddyd, i ddysgu ar yr holl gyrsiau hyn. Mae anogaeth i leoliadau gwaith, ac mae gradd Meistr o Fangor yn baratoad delfrydol ar gyfer astudio at ddoethuriaeth.

Gall cerddolegwyr, cyfansoddwyr neu berfformwyr wneud graddau ymchwil (MA drwy Ymchwil, MPhil a PhD), sy'n arwain at gyflwyno traethawd hir, portffolio o gyfansoddiadau, ac/neu gyfres o berfformiadau. Mae myfyrwyr ymchwil yn cymryd y cyfrifoldeb dros eu hymchwili a'u hymarfer creadigol eu hunain, ond fe'u cefnogir yn eu hymrechion drwy oruchwyliaeth unigol bob pythefnos a hyfforddiant ymchwil. Mae nifer o gyfleoedd i weithio'n agos gyda chyflogwyr a sefydliadau allanol eraill. Yn aml, bydd cyfleoedd i fyfrwyr ymchwil gyfrannu at addysgu israddedigion, a bydd y brifysgol yn rhoi hyfforddiant llawn iddynt.

RHESTR CYRSIAU:

MA

- Music
- Music with Education
- Music Management (subject to validation)

MMus

- Composition and Sonic Art
- Performance

MA/MMus by Research

- Music

PhD/MPhil

- Music

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382118

E-bost: music.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/music

Music MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd gyntaf o safon 2.ii neu uwch (neu gymhwyster cyfwerth). Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr sydd â gradd 2.ii feddu ar 2.i mewn project sylweddol (e.e. traethawd hir) yn y maes astudio o'u dewis. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno darn o waith ysgrifenedig 3,000-5,000 o eiriau a all fod naill ai: 1) yn drafodaeth ar bwnc dethol o hanes cerddoriaeth neu ethnogerddoleg; neu 2) dadansoddiad o gyfansoddiad dethol. Rhaid i'r traethawd fod yn academiaidd ei naws a rhaid iddo gynnwys troednodiadau a llyfryddiaeth lawn.

Rhaid i'r ymgeiswyr hynny nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt basio'r prawf Saesneg IELTS gyda sgôr o 6.0 (heb yr un elfen yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MA mewn Cerddoriaeth yn fodd i chi ddatblygu sgiliau cerddolegol a sgiliau cysylltiedig drwy raglen astudio gyffredinol a phenodol. Mae pob myfyriwr yn cymryd y

modiwl craidd Ymchwilio i Gerddoriaeth, ac yn hwnnw byddwch yn archwilio amrywiaeth eang o gerddoriaeth a'r disgysiau diweddaraf yn eu cylch. Ategir y modiwl hwn gan ddwy astudiaeth achos (un ym mhob semester) a ddewisir o blith amrywiol opsiynau sy'n datblygu o arbenigeddau'r staff, ac mae'n eich galluogi i brofi'r ymchwil gerddolegol ddiweddaraf.

Yr opsiynau cyfredol yw:

- Music in Society
- Contemporary Music Practice
- Music in Text and Context

Yn yr ail semester, byddwch hefyd yn gwneud Project Ymchwil Annibynnol o dan oruchwyliaeth ar destun o'ch dewis eich hun. Mae hyn yn arwain at Ran II y Project, sydd fel rheol ar ffurf traethawd hir, er ei bod yn bosibl gwneud golygiad neu ddadansoddiad beirniadol yn ogystal.

Addysgir drwy gyfuniad o hyfforddiant unigol a seminarau i grwpiau bach.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Byddwch yn gweithio'n agos ag ymchwilwyr profiadol, llawer ohonynt yn adnabyddus yn rhyngwladol. Mae gennym gysylltiadau clos â phartneriaid yn y diwydiant ac yn y trydydd sector fel Cerddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl, Venue Cymru a Chymdeithas Jazz Gogledd Cymru.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd yr MA mewn Cerddoriaeth yn rhoi blas i chi ar ymchwil gwreiddiol, a bydd yn rhoi gwybodaeth pwnc benodol a sgiliau academiaidd i chi a fydd yn eich paratoi at astudio pellach ar lefel PhD a thu hwnt. Bydd y rhaglen hefyd yn rhoi sgiliau i chi i feddwl yn feirniadol, dadansoddi a chyfathrebu ac mae'r sgiliau hynny'n uchel eu parch gan gyflogwyr ym maes cerddoriaeth a thu hwnt. Mae graddedigion diweddar wedi dilyn gyrfaoedd llwyddiannus fel awduron, golygyddion, gweinyddwyr y celfyddydau, athrawon, ymgynghorwyr addysgol, perfformwyr a phobl fusnes.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/music

Music with Education MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser. Nid yw'r cwrs hwn ar gael yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd gyntaf mewn Cerddoriaeth o safon 2.ii neu uwch (neu gymhwyster cyfwerth). Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr gyda gradd 2.ii feddu ar 2.i mewn project sylweddol (e.e. traethawd hir, portffolio o gyfansoddiadau, neu ddatganiad estynedig) yn y maes astudio o'u dewis. Efallai y gofynnir i gerddolegwyr gyflwyno darn o waith ysgrifenedig 3,000-5,000 o eiriau a all fod naill ai: 1) yn drafodaeth ar bwnc dethol o hanes cerddoriaeth; neu 2) yn ddadansoddiad o gyfansoddiad dethol. Rhaid i'r traethawd fod yn academiaidd ei naws a rhaid iddo gynnwys troednodiadau a llyfryddiaeth lawn. Gellid gofyn i gyfansoddwyr gyflwyno samplau cynrychioliadol o'u gwaith creadigol (dau neu dri darn fel rheol). Gall y rhain fod yn sgorau mewn nodiant, neu recordiadau sain, neu'r ddau, a gellir eu hanfon ar bapur, DVD data, neu drwy we-gyswllt megis Dropbox. Gofynnir i berfformwyr ddod i glyweliad neu, os nad yw hynny'n ymarferol, anfon perfformiad fideo heb ei olygu a recordiwyd yn ddiweddar ac sy'n cynnwys repertoire cyfebyniol (25-30 munud). Gellid gofyn hefyd am enghraifft o waith academiaidd gan berfformwyr.

Rhaid i'r ymgeiswyr hynny nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt basio'r prawf Saesneg IELTS gyda sgôr o 6.0 (heb yr un elfen yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MA mewn Cerddoriaeth gydag Addysg yn fodd i chi ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ynghylch theori ac ymarfer dysgu cerddoriaeth i eraill. Byddwch yn cymryd modiwlau yn Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol y Brifysgol, o blith amrywiol opsiynau, gan gynnwys yn nodweddiadol: Datblygu Cwricwlwm, Arweinyddiaeth a Rheolaeth Addysgol, a Chymdeithaseg Plentynod ac Ieuencid (gall y rhai nad yw'r Saesneg/Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt gymryd dosbarthiadau Saesneg uwch yn lle'r rheiny). Gellwch hefyd fynd ar leoliad dewisol mewn ysgol neu goleg lleol. Yn yr Adran Gerddoriaeth, rydych chi'n dewis dau fodiwl o blith amryw gan gynnwys Cerddoriaeth mewn Testun a Chyd-destun; Cerddoriaeth yn y Gymdeithas; Astudiaethau Offerynnau/Canu; Cyfansoddi; Perfformio; Ymarfer Cerddoriaeth Gyfoes; a Phroject Ymchwil Annibynnol.

Mae Rhan II y Project, a gaiff ei gwblhau dros yr haf, yn hyblyg o ran fformat yn yr un modd. Fel rheol bydd yn cynnwys traethawd hir, a gall hefyd gynnwys darlith-datganiad, portffolio o gyfansoddiadau at ddefnydd addysgol, deunyddiau pedagogaidd ar gyfer eich llais neu offeryn, neu fformat arall y cytunir arno ymlaen llaw gyda'r staff darlithio.

Addysgir drwy gyfuniad o hyfforddiant unigol a seminarau i grwpiau bach.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Byddwch yn gweithio'n agos gydag ymchwilwyr profiadol, llawer ohonynt yn adnabyddus yn rhyngwladol. Mae gan yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau gysylltiadau clos a phartneriaid yn y diwydiant a'r trydydd sector, megis Venue Cymru, Ensemble Cymru a'r BBC; yn ogystal, mae'r Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau a'r Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol yn rhannu partneriaethau ag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, lle mae llawer o athrawon cerdd yn raddedigion o Fangor.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r MA mewn Cerddoriaeth gydag Addysg megis pont rhwng gradd mewn Cerddoriaeth a gyrfa broffesiynol mewn addysg cerddoriaeth. Bydd yn rhoi dealltwriaeth werthfawr i chi a fydd yn eich paratoi at gymhwyster hyfforddi athrawon i raddedigion. Ar y llaw arall, bydd y rhaglen yn fodd i chi wneud ymchwil pellach mewn addysg cerddoriaeth, ar lefel PhD a thu hwnt. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi sgiliau i chi feddwl yn feirniadol, dadansoddi a chyfathrebu a werthfawrogi gan gyflogwyr ym meysydd cerddoriaeth ac addysg a thu hwnt iddynt.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/music

Music with Education MA

Dyma gwrs newydd sy'n cynnig cyfle i fyfyrwyr gyfuno eu hangerdd at gerddoriaeth gyda'r wybodaeth dechnegol, yr iaith a'r sgiliau i ddadansoddi, gwerthuso a chreu strategaeth ar gyfer busnes cerddoriaeth cynaliadwy. Er bod y diwydiant cerddoriaeth wedi esblygu'n sydyn o ran modelau busnes ac arferion dosbarthu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, canolbwyntio ar eu crefft y mae cerddorion yn tueddu i'w wneud, a does ganddynt mo'r iaith i allu greu llwyfan lwyddiannus i allu cydbwysu anghenion cerddoriaeth a busnes. Heddiw, mae angen i bob cerddor beth bynnag fo'r genre, eu poblogrwydd neu'u brofiad yn y diwydiant, eu

hystyried eu hunain megis mentrau os ydyn nhw am lwyddo'n fasnachol.

Mae'r radd hon yn dwyn ynghyd yr arbenigedd presennol mewn cerddoriaeth, entrepreneuriaeth, busnes, marchnata a'r gyfraith er mwyn galluogi cerddorion i feithrin sgiliau entrepreneuriaidd i ddatblygu eu gyrfaedd eu hunain yn ogystal â darparu ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dod o gefndir busnes ac sy'n dymuno arbenigo mewn sector penodol. Bydd y sgiliau a enillir yn ystod y cwrs hwn yn cynorthwyo'r rhai sy'n ceisio datblygu gyrfaedd yn y diwydiant cerddoriaeth, fel

artistiaid, rheolwyr, y cyfryngau, addysgu neu ymchwil pellach a gyrfa academaidd.

Mae manylion llawn am y rhaglen ar ein gwefan:

www.bangor.ac.uk/go/pg/music

Composition and Sonic Arts MMus

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2-5 mlynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd gyntaf o safon 2.ii neu uwch (neu gymhwyster cyfwerth). Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr gyda gradd 2.ii feddu ar 2.i mewn project sylweddol (e.e. portffolio o gyfansoddiadau) yn y maes astudio o'u dewis. Gellir gofyn i ymgeiswyr gyflwyno samplau cynrychioliadol o'u gwaith creadigol (dau neu dri darn fel rheol). Gall y rhain fod yn sgorau mewn nodiant, neu recordiadau sain, neu'r ddau, a gellir eu hanfon ar bapur, DVD data, neu drwy we-gyswllt megis Dropbox.

Rhaid i'r ymgeiswyr hynny nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt basio'r prawf Saesneg IELTS gyda sgôr o 6.0 (heb yr un elfen yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MMus mewn Cyfansoddi a Chelfyddyd Sonig yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth mewn amrywiol arddulliau a genres cerddorol, ac i fireinio sgiliau arbenigol

yn y maes o'ch dewis, boed yn gyfansoddi ar gyfer lleisiau ac/neu offerynnau (gydag offer electronig neu hebddynt), cyfansoddi electroacwstig a chelfyddyd sonig, neu gyfansoddi ar gyfer ffilm. Ymhob semester byddwch yn gwneud Project Cyfansoddi Annibynnol o dan oruchwyliaeth mewn arddull a chyfrwng o'ch dewis. Ateir y modiwlau hyn gan Ymchwilio i Gerddoriaeth (Semester 1), lle byddwch yn archwilio amrywiaeth eang o gerddoriaeth a'i hystyron, ac Ymarfer Cerddoriaeth Gyfoes (Semester 2), lle byddwch yn rhannu syniadau â cherddolegwyr a pherfformwyr.

Mae Rhan II y Project, a gwbler dros yr haf, fel rheol ar ffurf cyfansoddiad gwreiddiol sylweddol, neu bortffolio cydlynol o weithiau.

Addysgir drwy gyfuniad o hyfforddiant unigol a seminarau i grwpiau bach.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Byddwch yn gweithio'n agos â chyfansoddwyr proffesiynol ac ymchwilwyr profiadol, llawer

ohonynt yn adnabyddus yn rhyngwladol. Mae gennym gysylltiadau clos â phartneriaid yn y diwydiant a'r trydydd sector fel Theatr Gerdd Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Blipfonica.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd yr MMus mewn Cyfansoddi a Chelfyddyd Sonig yn eich galluogi i ddatblygu llais gwreiddiol cryf mewn awyrgylch academaidd, ac mae'n baratoad delfrydol at waith creadigol pellach ar lefel PhD a thu hwnt. Bydd y rhaglen hefyd yn rhoi sgiliau i chi feddwl yn feirniadol, creadigrwydd a chyfathrebu a werthfawrogrir gan gyflogwyr ym maes cerddoriaeth a thu hwnt. Mae graddedigion diweddar wedi dilyn gyrfaedd llwyddiannus fel cyfansoddwyr proffesiynol, trefnwyr cerddoriaeth, cysodwyr cerddoriaeth, awduron, gweinyddwyr y celfyddydau, athrawon, ymgynghorwyr addysgol, perfformwyr a phobl fusnes.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/music



HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd gyntaf o safon 2.ii neu uwch (neu gymhwyster cyfwerth). Rhaid i ymgeiswyr y rhaglen hon fedru dangos sgiliau perfformio rhagorol. Bydd gan y rhan fwyaf naill ai radd ragorol mewn datganiad israddedig yn y flwyddyn olaf (gradd dda 2.i neu uwch), marc uchel mewn DipABRSM (neu gyfwerth), neu o leiaf farc pasio LRSM (neu gyfwerth). Gellir gofyn i ymgeiswyr ddod i glyweliad neu, os nad yw hynny'n ymarferol, i anfon perfformiad fideo heb ei olygu a recordiwyd yn ddiweddar ac sy'n cynnwys repertoire cyfebyniol (25-30 munud). Gellir gofyn hefyd am enghraifft o waith academiaidd.

Rhaid i ymgeiswyr nad yw'r siarad Cymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt basio'r prawf Saesneg IELTS gyda sgôr o 6.0 (heb yr un elfen yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Yr MMus mewn Perfformio yw'r cwrs i chi os ydych eisoes yn berfformiwr offerynnol neu leisiol medrus, ac yn dymuno mireinio eich sgiliau ac ymestyn eich gwybodaeth. Ar y rhaglen hon byddwch yn gwneud Projectau Perfformio Unigol yn y ddau semester, gan arwain at ddatganiad byr ar ddiwedd pob un. Yn Semester 1, byddwch hefyd yn dilyn Ymchwilio i Gerddoriaeth, lle byddwch yn archwilio amrywiaeth eang o gerddoriaeth a'i hystyron i gynulleidfaoedd hanesyddol a rhai heddiw. Yn Semester 2, cewch ddewis o blith nifer o opsiynau a fydd yn gwella'ch gwybodaeth am repertoire a'u cyd-destunau hanesyddol. Ymhlith yr opsiynau mae Cerddoriaeth yn y Gymdeithas, Ymarfer Cerddoriaeth Gyfoes neu Project Ymchwil Annibynnol o dan oruchwyliaeth ar bwnc o'ch dewis.

Mae Rhan II y Project yn ddatganiad cyhoeddus sy'n para 50-60 munud, a roddir fel rheol ddechrau mis Medi y flwyddyn academiaidd ddilynol.

Addysgir drwy gyfuniad o hyfforddiant unigol a seminarau i grwpiau bach. Mae myfyrwyr MMus Perfformio yn cael 36 awr o hyfforddiant offerynnol neu leisiol arbenigol dros gyfnod y cwrs, yn ychwanegol at weithdai a dosbarthiadau meistr.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Byddwch yn gweithio'n agos â pherfformwyr proffesiynol ac ymchwilwyr profiadol, llawer ohonynt yn adnabyddus yn rhyngwladol. Mae gennym gysylltiadau clos â phartneriaid yn y diwydiant ac yn y trydydd sector fel Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl ac Ensemble Cymru.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd yr MMus mewn Perfformio yn ehangu eich profiad o berfformio a bydd yn datblygu eich sgiliau academiaidd sy'n gysylltiedig â'ch ymarfer. Bydd y rhaglen yn eich paratoi at astudio perfformio ac/neu gerddoleg ymhellach ar lefel PhD a thu hwnt. Bydd hefyd yn rhoi sgiliau i chi mewn creadigrwydd, hunanddisgyblaeth, dadansoddi a chyfathrebu, a werthfawrogi gan gyflogwyr ym maes cerddoriaeth a thu hwnt iddo. Mae graddedigion diweddar wedi dilyn gyrfaedd llwyddiannus fel perfformwyr proffesiynol, hyrwyddwyr cyngherddau, gweinyddwyr y celfyddydau, athrawon, ymgynghorwyr addysgol a phobl fusnes.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/music



HYD Y CWRS

Y cyfnod cofrestru (heb gynnwys y flwyddyn ysgrifennu):
Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Gradd gyntaf o Brydain o safon Baglor (neu gyfwerth), a honno'n radd dosbarth cyntaf fel rheol. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cynnig ar gyfer eu project ymchwil (gan gynnwys cwestiynau ymchwil, methodoleg, ac adolygiad llenyddiaeth). Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno samplau o'u gwaith ysgrifenedig. Gofynnir hefyd i ymgeiswyr yr MMus trwy Ymchwil gyflwyno enghreifftiau o'u gweithgareddau perthnasol diweddar fel perfformwyr neu gyfansoddwyr (i berfformwyr, gallai hynny fod ar ffurf perfformiad fideo heb ei olygu yn ddiweddar sy'n para tua 30 munud). Rhaid i ymgeiswyr nad yw'r Gymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt basio'r prawf Saesneg IELTS gyda sgôr o 6.5 (heb yr un elfen yn is na 6.0).

Derbynnir ymgeiswyr yn ôl cryfder eu perfformiad academaidd ar lefel Baglor, ac yn ôl gwreiddioldeb a dichonoldeb eu cynnig ymchwil.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Fframwaith y Rhaglen

Mae ein graddau Meistr trwy Ymchwil yn cynnwys cynllun astudio ac ymchwil, a ddiffinnir ymlaen llaw (fel arfer gan y myfyriwr), ac a fydd fel arfer yn (a) werthusiad a dadansoddiad beirniadol o gorff o wybodaeth, a/neu (b) yn gyfraniad gwreiddiol at y maes. Ar gyfer MA trwy Ymchwil, gall y maes ymchwilio fod yn hanesyddol, yn ddadansoddiad, yn athronyddol, yn feirniadol neu'n empirig ei natur. Ar gyfer MMus trwy Ymchwil, mae projectau fel arfer yn cynnwys cyfansoddiad neu berfformiad fel rhan fawr o'r broses ymchwil a'r cyflwyno.

Mae gan bob myfyriwr bwyllgor goruchwyllo, sy'n cynnwys prif oruchwylydd, tiwtor personol, ac aelod arall o'r staff sydd ag arbenigedd perthnasol. Mae'r myfyrwyr ymchwil yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u goruchwylydd ac mae hawl ganddynt i ymgynghori ag aelodau eraill o'u pwyllgor fel bo'n briodol. Cânt eu hannog hefyd i gyflwyno adroddiadau ynghylch eu gwaith mewn seminarau a cholocwiau yn ystod pob un o'u cyfnodau astudio.

Cyflwyno ar gyfer MA trwy Ymchwil

Yn draddodiadol mae cyflwyniad ar gyfer MA trwy Ymchwil ar ffurf traethawd ymchwil, heb fod yn fwy na 50,000 o eiriau o hyd. Os yw'r cyflwyniad yn cynnwys deunyddiau nad ydynt yn destunol (fel argraffiadau beirniadol), fel arfer bydd nifer y geiriau'n llai.

Cyflwyno MA trwy Ymchwil

Mae cyflwyno MMus trwy Ymchwil fel arfer yn cynnwys cyflwyniad testunol (yn nodi cwestiynau, methodoleg a chanfyddiadau'r ymchwil, ac yn egluro sut mae'r gwaith sy'n seiliedig ar ymarfer

yn dangos canlyniadau ymchwil, a heb fod yn fwy na 15,000 o eiriau), yn ogystal ag un o'r canlynol:

- Composition: Portffolio o gyfansoddiadau, gan gynnwys tua 60 munud o gerddoriaeth.
- Performance: Datganiad cyhoeddus tua 50-60 munud o hyd.

Gwneir yr asesiad terfynol trwy arholiad viva voce gan banel penodedig sy'n cynnwys arholwr mewnol o'r Ysgol (ddim yn union yr un fath ag aelodau'r pwyllgor goruchwyllo), un arholwr allanol sy'n arbenigwr yn y maes, a chadeirydd.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gennym brofiad hir o sefydlu cysylltiadau cydweithredol, a rheiny'n aml wedi'u cyfuno â chyllid. Mae projectau Gradd Meistr trwy Ymchwil diweddar wedi'u cynnal ar y cyd â sefydliadau fel Venue Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

RHAGOLYOGON GYRFA

Yn ystod y rhaglen bydd myfyrwyr yn meiströli'r maes a byddant yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol a gwreiddiol at y maes pwnc. Mae llawer o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i wneud ymchwil ôl-radd PhD. Mae natur annibynnol, hunan-ysgogol a hunangyfeiriedig y broses ddysgu'n cymhwyso'r graddedigion at swyddi rheoli, rolau ymchwil proffesiynol, galwedigaethau creadigol ar lefel uchel, a gyrfaedd academaidd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/music

Music PhD/MPhil

HYD Y CWRS

Y cyfnod cofrestru (heb gynnwys y flwyddyn ysgrifennu) – PhD: 3 blynedd llawn-amser, 6 blynedd rhan-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser, 4 blynedd yn rhan-amser;

Y GOFYNION MYNEDIAD

Gradd Brydeinig o safon Meistr (neu gyfwerth), fel rheol yn radd deilyngdod neu ragoriaeth. Rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno cynnig ar gyfer eu project ymchwil (gan gynnwys cwestiynau ymchwil, y fethodoleg, ac adolygiad llenyddiaeth). Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno samplau o'u gwaith ysgrifenedig. Gofynnir hefyd i'r rhai y mae eu projectau arfaethedig yn cynnwys cyfansoddi a/neu berfformio gyflwyno enghreifftiau o'u ymarfer diweddar (fel arfer portffolio o gyfansoddiadau ar ffurf sgôr neu sain, neu berfformiad fideo diweddar sydd heb ei olygu tua 45 munud o hyd). Rhaid i ymgeiswyr na yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt basio'r prawf Saesneg IELTS gyda sgôr o 6.5 (heb yr un elfen yn is na 6.0).

Derbynnir ymgeiswyr yn ôl cryfder eu perfformiad academaidd a gwreiddioldeb a dichonoldeb eu cynnig ymchwil.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae ein graddau PhD ac MPhil yn cynnwys cynllun ymchwil gwreiddiol, a ddiffinnir ymlaen llaw (fel arfer gan y myfyriwr), a allai wneud cyfraniad newydd a sylweddol at wybodaeth a dealltwriaeth gerddorol. Gall yr ymchwil fod yn hanesyddol, yn ddadansoddiad, yn athronyddol, yn feirniadol, yn empirig neu'n greadigol ei natur, a gall gynnwys gweithgareddau sy'n seiliedig ar ymarfer (cyfansoddi a/neu berfformio fel arfer) fel elfen fawr neu fân o'r broses ymchwil a'r cyflwyno.

Mae gan bob myfyriwr bwyllgor goruchwyllo, sy'n cynnwys prif oruchwylydd, tiwtor personol, ac aelod arall o'r staff sydd ag arbenigedd perthnasol. Mae myfyrwyr ymchwil yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u goruchwylydd ac mae hawl ganddynt i ymgynghori ag aelodau eraill o'u pwyllgor fel bo'n briodol. Cânt eu hannog hefyd i gyflwyno adroddiadau ynghylch eu gwaith mewn seminarau a cholocwiau yn ystod pob un o'u cyfnodau astudio.

Mae projectau llwyddiannus diweddar wedi cynnwys astudiaeth empirig o gorau merched yn eglwysi cadeiriol Prydain, astudiaeth semiotig o ddull cyfansoddi Steve Reich yn ei ddarnau 'Counterpoint', argraffiad beirniadol ac asesiad arddull o gerddoriaeth gysegredig John Weldon (1676-1736), datblygu a chymhwyso technegau rhaglennu cynhyrchiol ym maes cyfansoddi electroacwstig, asesiad hanesyddol o weithgaredd proffesiynol y cerddor o Gymraes, Clara Novello Davies (1861-1943), a chreu a pherfformio cyfres o gyfansoddiadau i'r delyn.

Cyflwyno

Caiff PhD neu MPhil fel arfer ei gyflwyno ar ffurf traethawd ymchwil, heb fod yn fwy na 100,000 o eiriau o hyd ar gyfer PhD, neu 60,000 o eiriau ar gyfer MPhil. Gyda chymradwyaeth ymlaen llaw gan bwyllgor goruchwyllo'r myfyriwr, gall y cyflwyniad hefyd gynnwys deunyddiau annhestunol, megis argraffiadau beirniadol, dadansoddiadau graffigol, cyfansoddiadau (ar ffurf sgôr a/neu sain), a/neu berfformiadau cerddorol, a bydd y rheiny fel rheol yn golygu gostyngiad yn nifer y geiriau ar gyfer elfen ysgrifenedig y cyflwyniad. Gwahoddir ymgeiswyr i gysylltu â ni i gael cyngor pellach am hyn. Asesir yr elfennau testunol yn nhermau eu llwyddiant

o ran dangos canlyniadau'r ymchwil; nid yw'n ddigon dangos sgiliau technegol da fel golygydd, dadansoddwr, cyfansoddwr neu berfformiwr. Cymerir y rheiny'n ganiataol ar y lefel hon.

Gwneir yr asesiad terfynol trwy arholiad viva voce gan banel penodedig sy'n cynnwys arholwr mewnol o'r Ysgol (ddim yn union yr un fath ag aelodau'r pwyllgor goruchwyllo), un arholwr allanol sy'n arbenigwr yn y maes, a chadeirydd.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gennym brofiad hir o sefydlu cysylltiadau cydweithredol, yn aml wedi'u cyfuno â chyllid. Mae projectau PhD ac MPhil diweddar wedi'u cynnal ar y cyd â sefydliadau fel Cerddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a Venue Cymru.

RHAGOLYOGON GYRFA

Gradd ôl-radd drwy ymchwil yw'r cymwyster astudio uchaf. Yn ystod y rhaglen bydd y myfyrwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol a gwreiddiol i'w maes pwnc ac yn dod yn arbenigwr cydnabyddedig yn y maes. Er y goruchwylir y broses ddysgu, byddwch yn annibynnol ac yn gyfrifol am eich ysgogi a'ch cyfarwyddo eich hun. Ynghyd â'u harbenigedd pwnc-benodol, mae hyn yn cymhwyso graddedigion at swyddi rheoli, rolau ymchwil proffesiynol, galwedigaethau creadigol lefel uchel, a gyrfaedd academaidd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/music

Athroniaeth a Chrefydd

Mae Ysgol Athroniaeth a Chrefydd Prifysgol Bangor yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr astudio rhai o'r syniadau athronyddol pwysicaf a mwyaf heriol a ffurfiodd ddiwylliant y gorllewin a'r dwyrain, ac ystyried sut mae'r rheiny'n cydgyssylltu â syniadau crefyddol y gorllewin. Bu'r Brifysgol yn datblygu traddodiad ers tro byd yn y meysydd pwnc hyn ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rydym yn cynnig awyrgylch cyfeillgar, cefnogol ac anffurfiol a fydd yn galluogi'r myfyrwyr i feithrin sgiliau dadlau a meddwl yn annibynnol. Bydd y myfyrwyr yn elwa o'r sylw personol a goruchwyliaeth un i un.

Cynigiwn raglenni ymchwil ôl-radd a dewis o oruchwyliaeth wyneb yn wyneb ym Mangor, neu drwy ddsu o bell. Mae'r rhaglenni dysgu o bell yn ddeniadol iawn i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dymuno dilyn ymchwil gyda ni ond sy'n dymuno aros yn eu gwledydd cartref, ac i'r myfyrwyr cartref hynny sy'n ei chael yn anodd iawn teithio i Fangor yn rheolaidd. Mae'r rhaglenni hyn yn defnyddio cyfleusterau ar-lein Bangor, a chysylltiad clos â goruchwyllydd personol trwy gydol y rhaglen (ar e-bost, Skype, a/neu ffôn).

Golwg gyffredinol o'r meysydd academiaidd

Mae arbenigedd y staff Athroniaeth a Chrefydd yn gorwedd yn fras ym meysydd athroniaeth y Gorllewin a chrefyddau'r Gorllewin a'r Dwyrain, ac mae'n cynnwys athroniaeth crefydd, moeseg ac astudiaethau seicdreiddiol.

Mae pob un o'r rhaglenni ôl-radd yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwr ysgrifennu darn estynedig o ymchwil ar bwnc o'u dewis mewn ymgynghoriad â'u goruchwyllydd. Bydd angen i'r ymgeiswyr nodi eu darpar oruchwyllydd ymlaen llaw a chyflwyno cynnig ymchwil sy'n amlinellu eu cwestiynau ymchwil arfaethedig a'u pwnc astudio. Rydym yn fwy na pharod i drafod eich diddordebau cyn i chi ysgrifennu'ch cynnig.

Staff a chyfleusterau

Mae'r staff yn arbenigwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol yn eu dewis feysydd. Maent yn gwasanaethu fel golygyddion ac ar fyrdau golygyddol cyfnodolion rhyngwladol blaenllaw, ac maent wedi ymrwymo i drosglwyddo eu gwybodaeth mewn ffordd ddiddorol a bywiog er mwyn gwella'r profiad dysgu.

Mae crefydd ac athroniaeth wedi cael eu dysgu ym Mangor ers dros gan mlynedd, ac o'r herwydd mae'r llyfrgell yn arbennig o dda ac yn llawn llyfrau a chyfnodolion.

RHESTR CYRSIAU:

MRes by Distance Learning

- Philosophy and Religion

PhD/MPhil

- Philosophy and Religion

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382085

E-bost: philosophy.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/



PROFFIL STAFF

DR GARETH EVANS-JONES

Darlithydd Astudiaethau Crefyddol

Death Gareth i Brifysgol Bangor i astudio gradd BA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Crefyddol. Wedi graddio yn 2012, cwblhaodd MA mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol, cyn ymgymryd â phrosiect PhD ar y cyd rhwng Ysgol Athroniaeth a Chrefydd ac Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, dan nawdd yr AHRC.

Roedd ei ymchwil doethurol yn archwilio ymatebion crefyddol y Cymry yn yr Unol Daleithiau i fater caethwasiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y dengys testun ei PhD, mae ei ddiddordebau academiaidd yn eang ac yn rhyngddisgyblaethol, ac yn cynnwys: astudiaethau beiblaidd; derbyniad y Beibl mewn hanes a'i rôl mewn materion cyfoes; crefydd, llenyddiaeth a chymdeithas; hanes caethwasiaeth a moeseg; Iddewiaeth a Christnogaeth, a'u deialog ryng-grefyddol; Anghydfurfiaeth Gymreig a'r Cymry yn America; diwylliant print y bedwaredd ganrif ar bymtheg; a rôl crefydd yn cynnal hunaniaeth ethnig a chenedlaetholgar mewn cymunedau gwasgaredig.

Mae'r modiwlau mae Gareth yn eu haddysgu'n amrywiol ac yn cynnwys moeseg, Iddewiaeth a Christnogaeth, a rôl crefydd mewn materion ecolegol cyfoes.

Mae Gareth hefyd yn ysgrifennu'n greadigol ac ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd nofel yn darlunio profiadau'r Iddewon yn ystod yr Holocost, Eira Llwyd (Gwasg y Bwthyn). Cafodd Eira Llwyd ei enwi'n Llyfr y Mis ar gyfer mis Tachwedd 2018 gan Gyngor Llyfrau Cymru. Enillodd Gareth Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 am ei ddrama Adar Papur.

Philosophy and Religion MRes

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser,
2 flynedd yn rhan-amser.
Cewch ddilyn y cwrs trwy Ddysgu o Bell.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol mae angen gradd Baglor 2.i neu uwch. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad perthnasol.

Sgôr IELTS o 7.0 (heb yr un elfen o dan 6.5), neu gyfwerth, os nad Saesneg na Chymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r radd ymchwil hon wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer eich diddordebau mewn ymgynghoriad â'r meysydd arbenigedd a gynigir. Mae'n cynnwys dwy ran:

Rhan Un:

Bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu dau draethawd, ill dau'n 5000 o eiriau (30 credyd yr un) o blith y pynciau isod. Penderfynir ynghylch teitlau a chynnwys y traethawd mewn ymgynghoriad â'ch goruchwylydd. Caiff pob myfyriwr gefnogaeth lawn gan oruchwylydd dynodedig (bydd y rhai sy'n astudio trwy Ddysgu o Bell yn derbyn cefnogaeth dros e-bost, ffôn, Skype, neu dulliau eraill sy'n gyfleus i bawb).

Rhestr Pynciau:

- Eastern Philosophy and Religion
- Islam
- Buddhism and Hinduism
- Religious fundamentalism
- Political Philosophy (including social theory such as Marx, Weber, Rawls etc.)
- The Enlightenment
- The Philosophy of Nietzsche
- Psychoanalytic Studies
- Jungian Theory
- Ethical Theory
- Applied Ethics
- Religious Experience

Gall y rhestr o'r pynciau sydd ar gael newid ac mae'n aml yn cael ei diweddaru. Gweler ein gwefan, neu cysylltwch â ni am fanylion.

Rhan Dau:

Mae hyn yn cynnwys traethawd hir o dan oruchwyliath o 40,000 o eiriau (120 o gredydau). Chi fydd yn penderfynu ar bwnc y traethawd hir mewn ymgynghoriad â'ch goruchwylydd. Disgwylir fel arfer y bydd y pwnc yn ymwneud â'r amrywiol bynciau a restrir yn Rhan 1.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd y rhaglen yn fuddiol iawn i'r rheiny sy'n dymuno dysgu crefydd neu athroniaeth mewn ysgolion neu mewn sefydliadau Addysg Uwch. Bydd llawer sy'n dilyn y rhaglen yn cychwyn ar yrfaoedd amrywiol yn y sector cyhoeddus neu breifat.

Rhagwelir y bydd y radd hon yn ddefnyddiol i fyfyrwyr rhyngwladol o ddiwyllianau heblaw'r Gorllewin wrth iddynt weithio mewn sefydliadau a busnesau rhyngwladol. Efallai y bydd rhai myfyrwyr am fynd ymlaen i astudio doethuriaeth a dilyn gyrfa academaidd mewn prifysgol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Philosophy and Religion PhD/MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser,
5 mlynedd yn rhan-amser;
MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser,
4 blynedd yn rhan-amser;
Cewch ddilyn y cwrs trwy Ddysgu o Bell.

Y GOFYNION MYNEDIAD

I gael eich derbyn ar radd MPhil bydd angen gradd 2.i neu uwch mewn Athroniaeth a/neu Grefydd neu bwnc cysylltiedig. I gael eu derbyn ar gyfer gradd PhD bydd y myfyrwyr naill ai wedi ennill gradd Meistr mewn Athroniaeth a/neu Grefydd neu mewn pwnc cysylltiedig neu â gradd israddedig eithriadol ac yn dangos y gallu i gwblhau project ymchwil annibynnol a gwreiddiol.

Sgôr IELTS o 7.0 (heb yr un elfen o dan 6.5), neu gyfwerth, os nad Saesneg na Chymraeg yw eich iaith gyntaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y radd MPhil yw bod y myfyriwr yn ennill gwybodaeth arbenigol sylweddol am ddisgyblaeth a/neu gyfnod hanesyddol penodol, yn sylfaen ar gyfer ymchwil manylach. Bydd y myfyriwr wedi datblygu sgiliau ymchwil annibynnol sy'n briodol i swydd academaidd neu yrfa mewn ymchwil uwch a bydd wedi ysgrifennu traethawd sylweddol, y gellir ei ymestyn wedyn yn draethawd ymchwil ar lefel doethuriaeth.

Nod y radd PhD yw helpu'r myfyriwr gwblhau darn mawr o ymchwil mewn Diwinyddiaeth neu Astudiaethau Crefyddol, a dangos cyraeddiadau academaidd priodol ar gyfer eu penodi i swydd addysgu neu ymchwil mewn Prifysgol. Ar ddiwedd y rhaglen, bydd gennych wybodaeth gyffredinol dda o'r maes dysgu penodol y mae pwnc y traethawd ymchwil yn rhan ohono a byddwch wedi gwneud cyfraniad sylweddol, gwreiddiol a sylweddol at ymchwil.

Ar gyfer y ddwy raglen radd, byddwch yn derbyn hyfforddiant ymchwil a sgiliau trosglwyddadwy gan Raglen Hyfforddi Graddedigion y Brifysgol. (Ddim yn berthnasol os ydych chi'n dilyn y rhaglenni hyn trwy ddysgu o bell).

Bydd goruchwylydd i bob myfyriwr a'i ddyletswydd ef neu hi yw rhoi cyngor ynghylch dewis pynciau ac ynglŷn ag unrhyw gwestiynau sy'n gysylltiedig â'r gwaith academaidd. Mae addysgu'n digwydd trwy gyfrwng tiwtora unigol, yn ôl yr amgylchiadau ac yn ôl disgrisiwn y goruchwylydd. Mae'r trefniadau'n wahanol i bob achos unigol. Gellir rhoi cyngor trwy e-bost neu dros y ffôn ond mae angen i chi gwrdd â'ch goruchwylydd yn rheolaidd i drafod eich cynnydd.

RHAGOLYCON GYRFA

Gradd ymchwil yw hon, sy'n eich paratoi at yrfa academaidd mewn crefydd neu athroniaeth neu at waith arall sy'n gofyn am unigolion cymwys iawn mewn meysydd cysylltiedig. Bydd y sgiliau dadansoddi ac ymchwilio manwl a gewch chi yn ystod y radd hon yn eich gwneud yn fwy cyflogadwy mewn meysydd fel cyfathrebu, addysgu, cyhoeddi ac ymchwil.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Mae goroesiad y Gymraeg yn yr oes fodern - fel iaith lafar fyw a chyfrwng llenyddol ddeinamig - yn wirioneddol ryfeddol, ac mae datblygiad Cymru fel cenedl ddwyieithog fywiog yn golygu na fu erioed gyfnod mwy cyffrous i astudio'r iaith a'i llenyddiaeth ar lefel ôl-radd.

Saif Prifysgol Bangor mewn ardal lle mae dros 60% o'r boblogaeth yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg: dyma amgylchedd ieithyddol unigryw na all yr un brifysgol arall ei gynnig ac mae'n gwneud Bangor yn lle rhagorol i astudio iaith Geltaidd fyw a'i llenyddiaeth.

Mae Prifysgol Bangor wedi gwneud cyfraniad aruthrol i dwf ysgolheictod a dysg fodern Cymru. Yma y lluniodd John Morris-Jones ei Ramadeg hynod (1913), a hwnnw yw sylfaen yr iaith lenyddol fodern, a rhwng y 1930au a'r 1960au, ym Mangor y cynhyrchodd lfor Williams yr argraffiadau ysgolheigaidd modern cyntaf o'r farddoniaeth Gymraeg gynharaf. Bu gan Fangor rôl allweddol hefyd o ran cynhyrchu tri o gyfeirlyfrau pwysicaf y Gymru gyfoes: Geiriadur yr Academi (1995), Geiriadur Enwau Lleoedd Cymru (2007), a Gwyddoniadur Cymru'r Academi Gymreig (2008).

Staff a chyfleusterau

Mae ein staff yn arbenigwyr rhyngwladol blaenllaw yn eu meysydd astudio. Ymhlith eu cyhoeddiadau mae astudiaethau ac argraffiadau o'r gweithiau cynharaf yn yr iaith a gwaith arloesol ynghylch llenyddiaeth ddiweddar Cymru. Mae gennym arbenigedd ym mhob un o brif feysydd llenyddiaeth Gymraeg, gan gynnwys llenyddiaeth o Gymru yn yr iaith Saesneg a llenyddiaeth Gymraeg a ysgrifennwyd mewn gwledydd eraill. Ymhlith ein staff mae rhai o brif awduron creadigol y Gymru gyfoes.

Gall y myfyrwyr fanteisio ar Wasanaethau TG rhagorol y Brifysgol, ynghyd â'r casgliad helaeth o lyfrau, cyfnodolion a llawysgrifau sydd yn ein Llyfrgell a'n Harchifau. Mae llawer o gyfnodolion ar gael ar-lein i fyfyrwyr ar ffurf testun llawn, ac mae gennym hefyd gronfeydd data, fideos a chryno ddisgiau, micro-ddeunydd a mynediad ar y we at e-lyfrau, e-gyfnodolion ac adnoddau eraill.

Golwg gyffredinol o'r meysydd academiaidd

Os oes gennych brofiad israddedig o astudio llenyddiaeth (neu feysydd cysylltiedig fel llenyddiaeth gymharol, llên gwerin neu fytholeg), pleser o'r mwyaf fyddai clywed gennych. Mae traddodiad llenyddol di-dor Cymru yn dechrau gydag uchafbwyntiau canoloesol byd-enwog fel chwedlau'r Mabinogion (gan gynnwys y chwedlau Arthuraidd cynharaf), barddoniaeth arwrol Llyfr Aneirin a barddoniaeth serch a natur Dafydd ap Gwilym. Yn ystod yr ugeinfed ganrif, rhoddodd awduron fel T. Gwynn Jones, Saunders Lewis, Kate Roberts, TH Parry-Williams ac eraill gyfeiriad newydd a deinamig i lenyddiaeth Gymraeg, gan ymgysylltu'n llawn â moderniaeth ac ôl-foderniaeth Ewropeaidd. Bydd astudio llenyddiaeth Gymraeg - yn enwedig os nad ydych yn gyfarwydd â'r maes - yn rhoi gwedd newydd i chi ar drefnadaeth ddiwylliannol Prydain ac Ewrop.

Efallai fod gennych ddiddordeb yn hanes cymdeithasol yr ieithoedd Celtaidd ac ieithoedd lleiafrifol eraill, a'u goroesiad yn y byd modern. Sut y goroesodd y Gymraeg y Chwyldro Diwydiannol? Beth oedd tynged diaspora Cymru yng Ngogledd America (lle bu'r wasg Gymraeg yn gynhyrchol dros ben)? Beth yw'r cysylltiad rhwng y Gymraeg a thwf cenedlaetholdeb yn y Gymru fodern? Sut mae llenyddiaeth yn ymateb i leiafrifoli a datganoli, a sut mae llenyddiaeth leiafrifol yn ymateb i heriau bywyd yr unfed ganrif ar hugain? Os yw cwestiynau o'r fath yn mynd â'ch bryd, beth am ddewis gwneud cwrs ôl-radd ym Mangor.

Un o rinweddau mawr ein cyrsiau MA yw eu hyblygrwydd: fe'u cynlluniwyd i ganiatáu dewis cyflawn o bynciau o fewn ffiniau eang y ddisgyblaeth. Er enghraifft, os mai llenyddiaeth ganoloesol yw eich diddordeb pennaf, caiff eich cwrs ei lunio'n unol â hynny. Ar y llaw arall, os ydych chi am astudio llenyddiaeth Gymraeg fodern neu ddilyn hanes cymdeithasol y Gymraeg, gall ein cwrs MA ddarparu ar gyfer eich diddordebau academiaidd. Mae ein MA 'Y Celtiaid' yn gwrs rhyngddisgyblaethol ac mae'n cael ei ddysgu ar y cyd â staff academiaidd sydd ag arbenigedd mewn meysydd fel Hanes, Archeoleg a llenyddiaeth Saesneg Cymru. Mae myfyrwyr hefyd wedi dewis astudio pynciau fel hunaniaeth 'Geltaidd' yng Ngalisia fodern, gan fanteisio ar yr Arbenigedd sydd gan Brifysgol Bangor mewn Astudiaethau Iberaidd.

Gellir gwneud ymchwil ar gyfer gradd MPhil neu PhD ym mhrif feysydd llenyddiaeth Gymraeg o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw, er enghraifft: barddoniaeth llys gynnar; barddoniaeth saga Gymraeg; chwedlau'r Mabinogion; Dafydd ap Gwilym; beirdd y tywysogion a'r uchelwyr; y traddodiad brud; agweddau ar lenyddiaeth a chymdeithas 1500-1900; diaspora Cymru a diwylliant Cymry gogledd America; y nofel Gymraeg fodern; barddoniaeth Gymraeg fodern; theatr Gymraeg fodern. Yn y meysydd hynny, mae amrywiaeth dda o themâu'n bosibl, o'r dulliau ffilolegol mwy traddodiadol hyd at ddulliau damcaniaethol arbrofol.

Dysgu Cymraeg

Bydd iaith yr hyfforddiant naill ai yn Gymraeg neu Saesneg (gan ddiwynnu ar eich gofynion). Lle bo angen, cewch astudio testunau mewn cyfieithiad. Un o elfennau craidd MA Y Celtiaid yw hyfforddiant mewn iaith Geltaidd (Cymraeg fel arfer) a gellir addasu cyrsiau eraill i'ch helpu chi ddatblygu eich sgiliau ieithyddol.

I'r myfyrwyr hynny nad oes ganddynt ddim gwybodaeth o'r Gymraeg cyn cofrestru, rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos ag Uned Gymraeg i Oedolion y Brifysgol, sydd â llu o gyrsiau a chyfleoedd i ddysgu'r iaith. Os ydych chi am fanteisio ar yr hyfforddiant hwn, caiff eich anghenion eu hasesu fel rhan o'r broses ymgeisio. Cyn cychwyn ar eich cwrs ôl-radd mi allech chi ddewis manteisio ar ysgol haf ddwyys tair wythnos yr Uned Gymraeg i Oedolion.

RHESTR CYRSIAU:

MA/Diploma

- Cymraeg/Welsh
- Y Celtiaid/The Celts
- Literatures of Wales

PhD/MPhil

- Cymraeg/Welsh

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382118

E-bost: pgadmissionscah@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

Y Celtiaid/The Celts MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser;
Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser

Y GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol (ee Llenyddiaeth, Hanes, Llên Gwerin, Mytholeg, Llenyddiaeth Gymharol, Archeoleg, Anthropoleg).

Caiff yr ymgeiswyr hynny sydd â chymwysterau neu brofiad cyfwerth a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd eu hystyried yn ôl eu rhinweddau unigol. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad yw Cymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb yr un elfen yn is na 5.5). Sylwer: Nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ofynnol ar gyfer y cwrs hwn. I'r rhai hynny nad yw Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt, bydd cyfle i ddilyn gwersi Cymraeg.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae 'Celtaidd' yn dwyn i gof emwaith cain yr Oes Efydd, adeileddau enfawr Côr y Cewri a Newgrange, chwedlau Arthur a Cú Chulainn a chrefft farddol brenhinoedd a thywysogion y canoloesoedd. Ond mae 'Celtaidd' hefyd yn ymwneud â'r Dadeni, yr Oleuedigaeth a'r Byd Newydd; Rhamantiaeth, Chwyldro ac ymdrechion hunaniaethau cenedlaethol cyfan i oroesi yn yr oes fodern.

Mae'r MA hwn yn rhoi'r cyfle a'r gallu i chi ddiolli'r gwir a'r gau, ac astudio'r cwestiwn yn fanwl: 'Pwy oedd - a phwy yw'r - Celtaidd?' Sut mae trafod cwestiynau o'r fath, beth fydd y fethodoleg a gyda pha dystiolaeth?

Sut y câi'r gair ei hun ('Celt', 'Keltoi', ac ati) ei ddefnyddio trwy'r canrifoedd, o haneswyr y byd Clasurrol hyd at gerddorion pop modern? Beth yw 'diwylliant Celtaidd', yn ystod cyfnodau amrywiol mewn hanes, a beth yw ei berthnasedd heddiw?

Addysgir y cwrs gan arbenigwyr o amrywiol feysydd: er enghraifft, Cymraeg, Gwyddeleg, Hanes, Archeoleg, Astudiaethau Iberaidd. Cewch ddewis astudio meysydd fel iaith, llenyddiaeth, archeoleg, crefydd, mytholeg, hynafiaetheg a cherddoriaeth, gall myfyrwyr archwilio diwylliant a hunaniaeth y bobloedd 'Celtaidd' o'r bryngaerau cynhanesyddol i seneddau datganoledig ac annibynnol yr oes hon. Bydd ffocws penodol y cwrs astudio (yn enwedig y traethawd terfynol) yn dibynnu ar eich diddordebau neilltuol chwithau.

Modiwlau Sampl:

• Y Celt: Ffynonellau'r Dystiolaeth

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno prif ffynonellau'r wybodaeth sydd am y 'Celtaidd', yn seiliedig ar ddau ddiffiniad gwahanol o'r gair 'Celtaidd': (i) defnydd y gair ei hun ('Celt', 'Keltoi', ac ati) wrth adnabod neu hunan-adnabod; ac (ii) y prif ffynonellau sy'n ymwneud ag agweddau at hanes a hunaniaeth y 'Celtaidd' (a ddiffinnir fel y bobl hynny sy'n siarad neu a arferai siarad iaith Geltaidd yn y cyfnod Modern).

• Celtic Institutions

Mae'r modiwl hwn yn archwilio prif agweddau llythrennedd 'Geltaidd' y canol oesoedd, mewn barddoniaeth a rhyddiaith, mewn genres amrywiol gan gynnwys y chwedlau rhyddiaith a barddoniaeth y llys a'r cyfreithiau a'r vitae (Bcheddau'r Saint a'r rheolwyr). Mae'r prif ffocws ar Gymru ac Iwerddon, ond gellir ystyried yr ieithoedd Celtaidd eraill hefyd. Yn

yr un modd, ystyriwn barhad y traddodiadau cynnar yma hyd y cyfnod modern a hyd at heddiw.

• The Creation of the Modern Celt

Mae'r modiwl hwn yn archwilio sut y cafodd cysyniad y 'Celt' a'r 'Celtaidd' ei ddefnyddio a'i drin yn y cyfnod Modern. Trwy ystyried ystod eang o ddisgyrsiau (e.e. ieithyddiaeth, archeoleg, anthropoleg, celfyddyd, cerddoriaeth, llenyddiaeth, gwleidyddiaeth), rydym yn archwilio'r hyn a ystyri'r yn ddeunydd 'Celtaidd' yn y gwahanol feysydd hynny, ac yn trafod y prif ddadleuon a gyflwynwyd wrth fynd ati i ddiffinio'r term.

Modiwlau Dewisol:

Mae amryw o fodiwlau dewisol ar gael i fyfyrwyr sy'n dymuno canlyn diddordebau ymchwil penodol (e.e. hanes, archeoleg, cerddoriaeth, llenyddiaeth ganoloesol, agweddau cyfoes).

Rhagor o Wybodaeth:

Mae dysgu iaith Geltaidd yn elfen graidd o'r ddarpariaeth addysgu. Caiff yr hyfforddiant ei deilwra yn ôl eich profiad - yn ddechreuwr pur ac yn ddysgwyr uwch. Darperir hyfforddiant hefyd mewn methodoleg ymchwil.

RHAGOLYOGON GYRFA

Byddwch yn ennill amryw o sgiliau trosglwyddadwy, a fydd yn eich galluogi i ddilyn lwybrau gyrfa amrywiol, gan gynnwys pob un o'r rheiny sydd fel arfer yn gysylltiedig â graddedigion y Dyniaethau. Os ydych yn dymuno dilyn diddordebau academiaidd cewch sylfaen gadarn i'ch galluogi i fynd rhagoch i lefel PhD.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/welsh

Cymraeg/Welsh MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2.ii neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol (e.e. iaith/Llenyddiaeth Gymraeg, iaith/Llenyddiaeth Saesneg, Hanes). Mae'r cwrs hwn yn addas i fyfyrwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg a myfyrwyr sy'n ceisio caffael - mewn cyd-destun academiaidd cadarn - dealltwriaeth well o'r iaith, ei llenyddiaeth a diwylliant Cymru'n gyffredinol.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus nad yw Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt gyfle i ddilyn gwersi Cymraeg.

Bydd ymgeiswyr sydd â chymwysterau neu brofiad cyfwerth a cheisiadau gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt radd yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau unigol. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Yn achos myfyrwyr nad Cymraeg/Saesneg yw eu hiaith gyntaf, bydd arnynt angen sgôr IELTS o 6.0 o leiaf (heb yr un elfen yn is na 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae ein MA Cymraeg yn gwrs hirsefydlog a llwyddiannus sy'n cyfuno sylfaen ymarferol mewn hyfforddiant ôl-radd ac ymchwil a'r cyfle i ganolbwyntio ar faes astudio penodol a dewisol. Mae i'r cwrs MA ei nodweddion unigryw ei hun, ond mae hefyd yn fodd i osod sylfeini ar gyfer project PhD yn ei sgil o ran darparu hyfforddiant a chyd-destun thematig.

Rydych chi'n astudio ar gyfer MA yn Gymraeg yn ôl y dull traddodiadol o draethodau a thraethawd hir. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys tri thraethawd cwrs (3 x 4,000-6,000 o eiriau) a ddylai ddangos gafael gadarn ar nodweddion bras y maes astudio o'ch dewis; yr ail ran yw'r traethawd hir (20,000 gair) sy'n cynnwys ymchwil gwreiddiol a hwnnw wedi'i seilio'n rhannol ar ddeunydd cynradd. Yn ystod Semester 1 byddwch hefyd yn dilyn cwrs cynefino ar fethodoleg ymchwil maes y Gymraeg.

Cryfder mawr ein cwrs MA yw ei hyblygrwydd a'r ffaith ei fod yn caniatáu dewis rhydd o bynciau o fewn ffiniau eang y ddisgyblaeth. Os mai llenyddiaeth Gymraeg y canol oesoedd yw eich diddordeb pennaf - y Gododdin, y Mabinogion, neu Ddafydd ap Gwilym, er enghraifft - caiff eich cwrs ei gynllunio a'i deilwra'n unol â hynny a bydd gennych oruchwylydd cwrs pwrpasol, a fydd yn arbenigwr yn eich dewis faes astudio. Ar y llaw arall, os ydych am astudio llenyddiaeth a diwylliant modern Cymru, neu agweddau sy'n ymwneud â'r iaith ei hun, gallwn ddarparu ar gyfer eich diddordebau academiaidd. Mae croeso brwd i fyfyrwyr sy'n dymuno cychwyn ar gwrs MA Cymraeg strwythuredig a allai fod yn gymharol ei natur, gan gysylltu astudio Cymraeg â meysydd fel llenyddiaeth Saesneg, astudiaethau canoloesol, ieithoedd Ewropeaidd, adfywio iaith, astudiaethau Arthuraidd, hanes, crefydd, athroniaeth, astudiaethau rhywedd, theori wleidyddol a chenedlaetholdeb.

Modiwlau'r Cwrs:

- Astudio Unigol I
- Astudio Unigol II
- Astudio Unigol III
- Traethawd Hir

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog lle caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu cydnabod yn gyfreithiol yn ieithoedd swyddogol. Mewn meysydd mor amrywiol ag addysg, cynllunio ieithyddol, y cyfryngau a newyddiaduraeth, y gwasanaeth sifil, y diwydiant treftadaeth, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata mae galw mawr am raddedigion sydd â gallu yn y Gymraeg a'r gallu i weithio mewn amgylchedd dwyieithog.

Byddwch yn ennill amryw o sgiliau trosglwyddadwy, a fydd yn eich galluogi i ddilyn amrywiaeth o lwybrau gyrfaol, gan gynnwys pob un o'r rhai sydd fel arfer yn gysylltiedig â graddedigion y Dyniaethau. Os ydych chi am ganlyn diddordebau academiaidd cewch sylfaen gadarn ar gyfer mynd rhagoch i wneud PhD.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/welsh

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser

Y GOFYNION MYNEDIAD

Dylai ymgeiswyr i'r rhaglen hon feddu ar radd 2.ii neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol (e.e. Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg neu Hanes). Efallai y derbynnir profiad ymarferol hefyd. Caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd. Nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn rheidrwydd ar gyfer y cwrs hwn. Gellir astudio testunau mewn cyfieithiad, ond caiff y myfyrwyr gyfle hefyd i ddilyn gwersi Cymraeg. I'r myfyrwyr hynny nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, bydd angen sgôr IELTS gyffredinol o 6.5 o leiaf (heb yr un elfen yn is na 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

MA Llenyddiaethau Cymru yw'r cwrs cyntaf o'i fath yn y byd sy'n canolbwyntio ar astudio a chymharu testunau o draddodiadau llenyddol ieithyddol amrywiol Cymru. Yn ystod y canol oesoedd roedd Cymraeg (yr iaith amlycaf) yn bodeli ochr yn ochr yng Nghymru â Saesneg, Lladin a Ffrangeg (neu Eingl-Normaneg), a chynhyrchodd y cyfnod destunau canonaidd fel y Mabinogion yn Gymraeg Historia Regum Britanniae Sieffre o Fynwy yn y Lladin. Cymru yw'r unig un o blith cenhedloedd Celtaidd gwledydd Prydain lle mae iaith frodorol hyfyr a siaredir yn eang a llenyddiaeth gyfoes gyffrous. Ar ben hynny, hi yw'r unig genedl yng ngwledydd Prydain y mae ei llenyddiaeth Saesneg unigryw - a gynhyrchodd ffigurau o faintiol Dylan Thomas ac R.S. Thomas - yn dal ar yr ymylon yn ei chyfundrefn addysg ei hun. Ar lefel y brifysgol, oherwydd y rhaniad ieithyddol a fodolai yn yr 20fed ganrif, câr ddwy lenyddiaeth eu hastudio ar wahân, a dim ond megis dechrau pontio'r agendor honno

y mae ysgolheictod cyfoes. Mae Bangor yn ganolfan ddiwylliannol wirioneddol ddwyieithog ac yn lle delfrydol i astudio nid yn unig y ddau draddodiad llenyddol esblygol hyn o Gymru, ond hefyd i ystyried cwestiynau ideolegol ehangach sy'n ymwneud â gwlad fach lle bu llenyddiaeth ar glawr erioed mewn mwy nag un iaith a lle na fu llenyddiaeth Saesneg erioed yn brif draddodiad..

Rhan Un:

Mae rhan gyntaf y cwrs yn cynnwys tri modiwl sy'n ceisio rhoi dealltwriaeth i'r myfyrwyr o hanes llenyddol a diwylliannol modern Cymru, a'u galluogi i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion allweddol ym maes ysgolheictod llenyddol modern Cymru ac ystyried materion allweddol ar draws y ddau draddodiad llenyddol mewn amrywiol ieithoedd. Yn gyntaf oll, bydd myfyrwyr yn gofyn y cwestiwn 'Pwy sy'n Siarad dros Gymru?' a gofynnir iddynt ystyried sut y deallid materion sy'n ymwneud â hunaniaeth sy'n berthnasol i Gymru o'r canol oesoedd hyd heddiw. Fel rheol, bydd y myfyrwyr yn astudio'r gwahaniaethau mewnol sydd yng Nghymru, Prydeindod (mewn cyd-destun canoloesol a modern), syniadau esblygol ynghylch yr hunaniaeth Geltaidd, Cymru fel cenedl ddiwydiannol ac ôl-ddiwydiannol, hegemoni'r hunaniaeth Brotestannaidd-Anghydfurfiol, a thwf y mudiadau cenedlaetholgar modern. Gellid astudio gwaith yr awduron canlynol: Gerallt Gymro, Sieffre o Fynwy, R. Rees Davies, Hywel Teifi Edwards, Saunders Lewis, Raymond Williams, Matthew Arnold, J.R. Jones, M. Wynn Thomas, Jane Aaron, Dafydd Glyn Jones, Dai Smith, Kirsti Bohata, Katie Gramich a Simon Brooks. Gofynnir i'r myfyrwyr ystyried sut y bu i lenyddiaeth y ddau draddodiad ieithyddol Cymraeg a Saesneg gofnodi dyfodiad moderniaeth, a'r newidiadau a ddaeth yn ei sgil. Gallai'r themâu gynnwys diwydiant, ecoleg,

trefoli, diwylliant gwledig, crefydd, newid ieithyddol ac alltudiaeth, a'r berthynas rhwng rhywedd a'r genedl Gymreig fodern. Ymhlith yr awduron a astudir mae Daniel Owen, John Ceiriog Hughes, O.M. Edwards, T. Gwynn Jones, Caradoc Evans, Kate Roberts, Lynette Roberts, Caradog Prichard, D Gwenallt Jones, Waldo Williams, R.S. Thomas and Dylan Thomas, Emyr Humphreys, Idris Davies, Jan Morris, John Sam Jones, Glyn Jones, Lewis Jones, Gwyneth Lewis, Rhys Davies, Amy Dillwyn, Menna Gallie, Mihangel Morgan ac Angharad Price. Bydd trydydd maes yr astudio'n galluogi'r myfyrwyr i ganolbwyntio'n fanylach, ac yn drwyadl gymharu ac o amrywiol safbwyntiau damcaniaethol, ar awduron amlycaf Cymry'r ugeinfed ganrif, megis Saunders Lewis, Kate Roberts, Dylan Thomas ac RS Thomas.

Rhan Dau:

Llunio Traethawd Hir 20,000 o eiriau, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, ar unrhyw agwedd ar y llenyddiaethau sydd o ddiddordeb i'r myfyrwr; pwnc o'ch dewis chi, a gaiff ei ymchwilio a'i ysgrifennu o dan oruchwyliath unigol arbenigwr pwnc.

RHAGOLYCON GYRFA

Trwy roi cyfle unigryw i'r myfyrwyr astudio gydag ysgolheigion gorau'r traddodiadau llenyddol a diwylliannol Cymraeg a Saesneg, mae'r cwrs yn hyfforddi'r myfyrwyr at amrywiol yrfaeod yn sectorau cyhoeddus a phreifat Cymru. Mae'r cwrs hwn yn hyfforddiant delfrydol at unrhyw swyddi lle mae dealltwriaeth o'r ddau ddiwylliant ieithyddol yn bwysig. Mae hefyd yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer astudiaethau ôl-radd pellach yng Nghymru, a thu hwnt.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/welsh

Cymraeg/Welsh PhD/MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser; 5 hyd at 6 blynedd yn rhan-amser;

MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser, 4-5 mlynedd yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglen PhD/MPhil mae angen gradd gyntaf dda ac MA mewn Cymraeg, Astudiaethau Celtaidd, neu faes sydd â chysylltiad agos.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae MPhil yn caniatáu dwy flynedd academaidd lawn o ymchwil, sy'n arwain at draethawd hir hyd at 30,000 o eiriau. Rydych yn rhwyd i ddilyn eich cwrs ymchwil eich hun, y penderfynir arno trwy ymgynghori â'r Ysgol a'ch ymgynghorydd academaidd.

Mae ein rhaglenni PhD fel arfer yn cynnwys 3 blynedd o astudio llawn amser a thraethawd ymchwil 60,000 hyd 100,000 gair a gyflwynir ar ddiwedd y drydedd flywyddyn. Cwblhawyd graddau PhD diweddar mewn meysydd sy'n cwmparu llenyddiaeth Gymraeg yn ei holl agweddau, gan gynnwys yr Oesoedd Canol (e.e. barddoniaeth y llys, diarhebon Cymraeg canoloesol, crefft ac addysg farddol) a gwaith awduron cyfoes byw, ac ar feysydd mor amrywiol â diwylliant poblogaidd, hanes y Gymraeg a chynllunio iaith, astudiaethau ffeministaidd a golygiadau Anterliwtiau'r ddeunawfed ganrif. Wrth gwrs, nid yw ymchwil Cymraeg yn gyfyngedig i ddaearyddiaeth Prydain Fawr, ac mae Bangor wedi cynhyrchu llawer o ymchwil pwysig i lenyddiaeth a diwylliant yr America Gymraeg.

Rydym yn cynnal rhaglen gyfnewid gydag Adran Ieithoedd a Llenyddiaeth Geltaidd Prifysgol Harvard, sy'n galluogi myfyrwyr o'r naill sefydliad dreulio semester yn astudio yn y llall. Mae Harvard yn un o sefydliadau addysgol mwyaf blaenllaw'r byd, ac yn ogystal â chyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf yn y rhan fwyaf o feysydd y Dyniaethau, mae ei llyfrgelloedd yn cynnwys casgliadau rhagorol o ddeunyddiau Cymraeg a Chymreig.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/welsh



Ysgol Busnes Bangor

Mae Ysgol Busnes Bangor yn un o ysgolion astudiaethau ariannol a bancio mwyaf blaenllaw prifysgolion Ewrop ac mae'n yn cynnig ystod lawn o ddisgyblaethau o lefel israddedig i lefel doethuriaeth. Rydym ymysg y 25% uchaf o ysgolion busnes yn y Deyrnas Unedig am ddwyseidd ymchwil (REF 2014) ac ymysg y 5 sefydliad uchaf yn y Deyrnas Unedig am ymchwil ym maes Bancio (RePEC).

Caiff myfyrwyr eu denu gan ein henw da am ansawdd uchel ac arbenigedd, yn benodol ym maes Bancio a Gwasanaethau Ariannol. Mae ein haddysgu a'n hymchwil, nid yn unig wedi cael sgôr uchel gan asiantaethau allanol, ond hefyd gan ein myfyrwyr a'r busnesau sy'n cyflogi ein graddedigion. Mae gennym hanes o gynhyrchu ôl-raddedig medrus a chyflogadwy iawn, sy'n meddu ar yr ystod eang o alluoedd y mae ar gyflogwyr eu hangen wrth recriwtio staff newydd.

Staff a chyfleusterau

Mae ymchwilwyr blaenllaw ac uwch staff Ysgol Busnes Bangor hefyd yn addysgu ar raglenni Meistr. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr yn cael darlithoedd gan staff academiaidd sy'n gwithio ffiniau ymchwil.

Mae ein staff wedi ymgymryd â gwaith polisi ac ymgynghori sy'n gysylltiedig â'u hymchwil ar ran sefydliadau mor amrywiol â'r Comisiwn Ewropeaidd, Banc y Byd, y Gronfa Ariannol Rhyngwladol, Trysorlys y Deyrnas Unedig, Banc Canolog Ewrop, Deutsche Bundesbank, Cymdeithas Banciau Cynilo Sbaen, a llawer o sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol eraill. Caiff papurau ac erthyglau gan staff ymchwil eu cyhoeddi'n rheolaidd mewn cyfnodolion amlwg a chyhoeddir eu llyfrau i gynulleidfa fyd-eang.

Golwg gyffredinol ar y meysydd academiaidd Caiff ein record ragorol mewn addysgu ôl-radd ei hadlewyrchu yn natur arloesol ein rhaglenni gradd, ac ym mherfformiad ein myfyrwyr ar lefelau Meistr a PhD. Yma, yn 1973, y sefydlwyd y radd MA gyntaf mewn Bancio a Chyllid i gael ei chynnig yn unrhyw un o brifysgolion y Deyrnas Unedig, ac, yn fwy diweddar, ni oedd y cyntaf i gynnig graddau MBA mewn Bancio a Chyllid ac mewn Bancio a Chyllid Islamaidd.

Gall myfyrwyr ôl-radd ddewis o blith sawl math o raglen ac o blith sawl pwnc wrth wneud gradd uwch. Mae'r rhain yn cynnwys graddau MSc, MA ac MBA hyfforddedig ym meysydd Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Bancio a Chyllid Islamaidd, Busnes, Rheolaeth a Marchnata, yn ogystal â rhaglenni sy'n golygu astudio Seicoleg Defnyddwyr, Cyfrifiadureg, Gwyddorau'r Amgylchedd a'r Gyfraith. Rydym hefyd yn cynnal rhaglen dra llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio am raddau ymchwil PhD neu MPhil. Mae nifer o ysgoloriaethau a bwrsariaethau atyniadol ar gael i annog myfyrwyr talentog a chanddynt gymwysterau da i gyrraedd eu llawn botensial.

Rhagolygon Gyrfa

Mae rhagolygon ein graddedigion yn rhagorol os ydynt am ddilyn gyrfa mewn ystod eang o swyddogaethau yn sectorau'r economi fyd-eang gan gynnwys cyfrifeg, busnes, bancio a chyllid. Mae pwyslais y rhaglenni ar sicrhau dealltwriaeth ymarferol yn gwella cyflogadwyedd myfyrwyr ac yn eu galluogi i ddatblygu ystod o sgiliau trosglwyddadwy y mae galw mawr amdanynt yn y sectorau uchod. Er enghraifft, mae myfyrwyr yn datblygu sgiliau technegol wrth gynnal ymchwil annibynnol ac wrth weithio mewn tîm.

Mae gan raddedigion Ysgol Busnes Bangor record lwyddiannus o ran cyflogadwyedd ac mae rhai o'n cyn-fyfyrwyr bellach yn cael eu cyflogi mewn swyddi uwch ledled y byd, o Stryd Downing a'r Deutsche Bank i Accenture Luxembourg ac Awdurdod Ariannol Ynysoedd y Caiman.

Cysylltiadau â Diwydiant

Rydym yn rhoi gwerth mawr ar ein cysylltiadau â diwydiant. Mae gan ein staff academiaidd ystod eang o gysylltiadau â byd busnes, banciau a sefydliadau ariannol rhyngwladol. Mae gennym hefyd gysylltiadau cryf â chyrrff proffesiynol megis Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, Sefydliad y Bancwyr Siartredig a'r Sefydliad Siartredig Gwarantau a Buddsoddiadau.

Caiff siaradwyr gwadd o fri eu gwahodd yn rheolaidd i Fangor i ddarlithio a rhannu eu profiadau gyda'n myfyrwyr, gan ddangos ein hymrwymiad tuag at addysgu o'r ansawdd uchaf a datblygu cyfleoedd gyrfa ein myfyrwyr.

Llawr Masnachu

Mae'r Llawr Masnachu yn Ysgol Busnes Bangor yn defnyddio meddalwedd efelychu a chronfeydd data ariannol amser real, sy'n rhoi cyfle i ymgorffori masnachu yn rhan o addysgu a dysgu lle bo hynny'n briodol. Mae'r Llawr Masnachu yn rhoi profiad uniongyrchol i fyfyrwyr o ddefnyddio offer safonol y diwydiant, a fydd yn eu helpu i gaffael sgiliau ymarferol ar gyfer y gweithle.

Gofynion iaith Saesneg

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg.

Mae'r Gofynion Saesneg yn golygu bod ag o leiaf:

- IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 5.5)
- Yn achos PhD/MPhil:
- IELTS 7.0 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 6.5)

Gall ymgeiswyr nad ydynt wedi cyrraedd y lefel ofynnol ddilyn cyrsiau iaith Saesneg yng Nghanolfan Iaith Saesneg y Brifysgol cyn dechrau'r cwrs - gweler elcos.bangor.ac.uk

Mae rhai rhaglenni ar gael yn rhan amser i fyfyrwyr sy'n byw / gweithio'n lleol. Anfonwch e-bost atom i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r holl wybodaeth am fodiwlau'n gywir adeg argraffu'r llyfryn hwn ond fe all newid. Edrychwch ar y wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc

- Accounting*
- Accounting and Banking*
- Accounting and Finance*
- Banking and Finance*
- Banking & Finance (Chartered Banker)
- Business with Consumer Psychology#
- Finance*+
- International Media and Management
- Investment Management*+
- Islamic Banking and Finance*
- Management and Finance**
- Research Methodology

MA

- Banking & Finance (Chartered Banker)
- Banking and Law
- Business and Marketing#
- Business with Consumer Psychology#

MBA

- Banking and Finance*
- Banking and Law
- Environmental Management#
- Finance*+
- Information Management#
- International Business#
- International Marketing#
- Islamic Banking and Finance*
- Law and Management#
- Management#

PhD/MPhil

- Accounting, Banking, Economics, Finance, Management Studies and Marketing

* Llwybr Dadansoddwr Ariannol Siartredig (CFA)

Mae'r rhaglenni gradd hyn yn gyfle i ddilyn llwybr CFA arbenigol a magu'r sgiliau i gwlblhau arholiad CFA Lefel 1.

+ Opsiwn 10 Mis

Ar gael yn unig ar gyfer dechrau ym mis Medi NID yw'r opsiwn Llwybr CFA ar gael ar gyfer rhaglenni 10 mis

Achrediad gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI)

Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglenni hyn yn graddio gyda chymhwyster deuol sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

Mae Canolfan Rheolaeth Ysgol Busnes Bangor yn cynnig cyrsiau hyfforddiant proffesiynol a chyfleusterau cynadledda o'r radd flaenaf: https://www.bangor.ac.uk/management_centre/index.php.cy

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382085
E-bost: business.pg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/business

[@BangorBizSchool](https://www.facebook.com/BangorBusinessSchool)

DECHRAU YM MIS IONAWR

Gellir dechrau ar y rhan fwyaf o'r cyrsiau ym mis Ionawr yn ogystal â'r cyfnod dechrau traddodiadol ym mis Medi.

Accounting MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser. Gellir dechrau'r rhaglen hon naill ai ym mis Ionawr neu ym mis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd gyntaf dda (2.ii neu uwch) neu gymhwyster cyfatebol gan brifysgol neu gorff cymeradwy arall sy'n dyfarnu graddau. Gellir ystyried hefyd gymhwyster ac eithrio gradd y bernir ei fod o safon foddhaol at ddiben derbyn i gwrs ôl-radd. Mae profiad gwaith yn ddymunol.

Mae astudio cyfrifeg (fel rhan o radd gyntaf er enghraifft) neu brofiad o weithio ym maes cyfrifeg yn hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod yr MSc mewn Cyfrifeg yw datblygu dealltwriaeth yr unigolyn o rôl cyfrifeg wrth wneud penderfyniadau y tu mewn a'r tu allan i sefydliadau.

Ar y cwrs hwn bydd myfyrwyr yn cynnal astudiaeth uwch o sefydliadau, sut y cânt eu rheoli, swyddogaeth cyfrifeg ar gyfer defnyddwyr mewnol ac allanol, a'r cyd-destun allanol cyfnewidiol y maent yn gweithredu o'i fewn. Bydd myfyrwyr yn datblygu'r gallu i gymhwyso eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am gyfrifeg i faterion cymhleth.

Modiwlau Gorfodol:

• Accounting Theory

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso'n feirniadol yr amrywiol ddamcaniaethau mewn cyfrifeg. Bydd myfyrwyr yn dod i ddeall sut y gellir defnyddio'r damcaniaethau hyn i egluro ymddygiad y sawl sy'n paratoi ac yn defnyddio gwybodaeth gyfrifyddu.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiau dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• International Taxation: Policy and Practice

Bydd y modiwl hwn yn edrych yn fanwl ar y nodweddion unigryw a geir wrth gynllunio system drethi; yn adolygu egwyddorion trethiant; yn archwilio polisi treth ac economeg gyhoeddus; yn cymharu sys-temau trethi rhyngwladol; yn gwerthuso gweinyddiaeth trethi; ac yn cyfrifo rhwymedigaethau treth cyfalaf, incwm a threuliant ar gyfer unigolion a busnesau.

• Financial Analysis

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn dadansoddi'r technegau a ddefnyddir i werthuso sefyllfa a pherfformiad ariannol cwmnïau, ac yn datblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r defnydd a wneir o ddata ariannol gan farchnadoedd cyfalaf at ddibenion prisio.

• Management Accounting

Bydd y modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i ddeall technegau a dulliau priodol ym maes cyfrifeg rheolaeth ac yn rhoi cyfle iddynt eu defnyddio.

• Advanced Financial Reporting & Regulation

Bydd y modiwl hwn yn gwella dealltwriaeth myfyrwyr o bynciau astrus adrodd a rheoleiddio ariannol yng nghyd-destun Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol a'r Egwyddor Gyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol (GAAP).

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Accounting Traethawd hir
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol - dewis 2:

- Corporate Risk Management
- International Financial Management
- Islamic Accounting and Financial Reporting
- Investment Strategy & Portfolio Management
- Islamic Finance
- Financial Ethics & Regulation

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

Accounting and Banking MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser. Gellir dechrau'r rhaglen hon naill ai ym mis Ionawr neu ym mis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd gyntaf dda (2.ii neu uwch) neu gymhwyster cyfatebol gan brifysgol neu gorff cymeradwy arall sy'n dyfarnu graddau. Gellir ystyried hefyd gymhwyster ac eithrio gradd y bernir ei fod o safon foddhaol at ddiben derbyn i gwrs ôl-radd. Mae profiad gwaith yn ddymunol.

Mae astudio cyfrifeg (fel rhan o radd gyntaf er enghraifft) neu brofiad o weithio ym maes cyfrifeg yn hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd yr MSc mewn Cyfrifeg a Bancio yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth uwch am gyfrifeg a bancio, a fydd o ddiddordeb arbennig i fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y diwydiant ariannol.

Nod cyffredinol y cwrs yw datblygu dealltwriaeth integredig o swyddogaeth bancio a chyfrifeg wrth wneud penderfyniadau y tu mewn a'r tu allan i sefydliadau. Bydd myfyrwyr yn cynnal astudiaeth uwch o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau ariannol, sut y cânt eu rheoli, swyddogaeth cyfrifeg i ddefnyddwyr mewnol ac allanol, a'r cyd-destun allanol cyfnewidiol y maent yn gweithredu o'i fewn. Bydd myfyrwyr yn datblygu'r gallu i gymhwyso eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am gyfrifeg a bancio i faterion cymhleth.

Modiwlau Gorfodol:

• Accounting Theory

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso'n feirniadol yr amrywiol ddamcaniaethau mewn cyfrifeg. Bydd myfyrwyr yn dod i ddeall sut y gellir defnyddio'r damcaniaethau hyn i egluro ymddygiad y sawl sy'n paratoi ac yn defnyddio gwybodaeth gyfrifyddu.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg mewn bancio rhyngwladol.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiau dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• Financial Analysis

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn dadansoddi'r technegau a ddefnyddir i werthuso sefyllfa a pherfformiad ariannol cwmnïau, ac yn datblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r defnydd a wneir o ddata ariannol gan farchnadoedd cyfalaf at ddibenion prisio.

• Advanced Financial Reporting & Regulation

Bydd y modiwl hwn yn gwella dealltwriaeth myfyrwyr o bynciau astrus adrodd a rheoleiddio ariannol yng nghyd-destun Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol a'r Egwyddor Gyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol (GAAP).

• Bank Financial Management

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r myfyrwyr am hanfodion natur, cyd-destun strategol a swyddogaethau rheolaethol rheolaeth ariannol mewn banciau, a chwmnïau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol - dewis 2:

- Corporate Risk Management
- Financial Ethics & Regulation
- Investment Strategy & Portfolio Management
- International Tax: Policy and Practice
- Management Accounting

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

Investment Management MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser. Mae fersiwn 10 mis o'r rhaglen hon hefyd ar gael. Bydd myfyrwyr yn astudio 5 modiwl yn yr Hydref a 5 modiwl yn y Gwanwyn.

GOFYNION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd gyntaf dda (2.ii neu uwch) neu gymhwyster cyfatebol gan brifysgol neu gorff cymeradwy arall sy'n dyfarnu graddau. Gellir ystyried hefyd gymhwyster ac eithrio gradd y bernir ei fod o safon foddhaol at ddiben derbyn i gwrs ôl-radd. Mae profiad gwaith yn ddymunol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MSc mewn Rheoli Buddsoddiadau'n addysgu myfyrwyr am sylfaen ddamcaniaethol buddsoddi ac am dechnegau rheoli risg modern, ac yn eu paratoi i ymuno â'r diwydiant rheoli buddsoddiadau, sy'n ddiwydiant sy'n tyfu'n gyflym. Nod y rhaglen yw ymdrin â maes llafur traddodiadol gradd Meistr mewn Cyllid ynghyd â darparu hyfforddiant rheolaeth a busnes lefel uwch i fyfyrwyr am feysydd buddsoddi arbenigol, megis rheoli portffolios ecwiti a bondiau; technegau masnachu; rheoli risg; rheoli gwarantau deilliadol a chyfnewid tramor; ac am fuddsoddi mewn egin-farchnadoedd. Bydd myfyrwyr yn elwa o gael cyfle unigryw i ddefnyddio cronfeydd data ar-lein amrywiol sydd ar gael yn Ysgol Busnes Bangor, megis DataStream.

Bydd myfyrwyr yn ennill gwybodaeth arbenigol a sgiliau uwch mewn ystod o gymwysiadau buddsoddi ar lefelau strategol a gweithredol. Byddant yn datblygu sgiliau deallusol ac arbenigedd ymchwil ym maes dadansoddi buddsoddiadau a rheoli portffolios; sgiliau technegol sy'n berthnasol i weithrediad a rheolaeth marchnadoedd ariannol; sgiliau beirniadol wrth edrych ar ddamcaniaethau lefel uwch a thystiolaeth empirig; sgiliau cyfrifiannol fel rhan o weithgarwch gwasanaethau ariannol; a sgiliau dadansodol wrth archwilio rhagdybiaeth marchnadoedd effeithlon.

Modiwlau Gorfodol:

• International Financial Markets

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i theori cyllid, ac i sut y gall buddsoddwyr, dadansoddwyr a rheolwyr portffolio ei defnyddio'n ymarferol.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn addysgu myfyrwyr am ddulliau ymchwil ansodol a meintiol canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil.

• Financial Ethics and Regulation

Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer profesiynol a moesegol ymysg rheolwyr gwasanaethau ariannol yn ogystal â chynorthwyo'r unigolyn i wneud penderfyniadau moesegol yn y diwydiant gwasanaethau ariannol ar adeg o graffu cyhoeddus a rheoliadol cynyddol.

• Investment Strategy & Portfolio Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi strategaethau portffolio i reoli risg yn effeithiol a gwellu adenillion; datblygu sgiliau deallusol

ac arbenigedd ymchwil mewn dadansoddi buddsoddiadau a rheoli portffolios; a dangos technegau modelu priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau buddsoddi a rheoli risg.

• Financial Analysis

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r technegau a ddefnyddir i werthuso sefyllfa a pherfformiad ariannol cwmnïau, ac yn datblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r defnydd a wneir o ddata ariannol gan farchnadoedd cyfalaf at ddibenion prisio.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Applied Financial Projects (30 credits)*
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

*Rhaid i fyfyrwyr ar y rhaglen 10 mis gymryd yr opsiwn hwn

Modiwlau Dewisol - dewis 3:

- Financial Econometrics
- Credit Risk Analytics*
- International Tax: Policy and Practice*
- Behavioral Finance Theory and practice
- Executive Compensation
- Financial Technology
- Islamic Finance

*Rhaid i fyfyrwyr ar y rhaglen 10 mis gymryd y modiwlau hyn a 2 ychwanegol

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

Accounting and Finance MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglen MSc Cyfrifeg a Chyllid mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth neu Farchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae newidiadau yn yr amgylchedd busnes yn golygu bod angen i unigolion sy'n dymuno swydd fel uwch reolwyr fod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfoes mewn cyfrifeg a chyllid. Mae deall y materion damcaniaethol ac ymarferol hyn yn hanfodol i reolwyr sy'n aml yn gorfod gwneud penderfyniadau cyflym a phellgyrhaeddol ynghylch gweithrediadau ariannol tymor byr a strategaethau tymor hir busnesau.

Mae'r MSc mewn Cyfrifeg a Chyllid yn cynnig cyfle unigryw i chi werthfawrogi achosion ac arwyddocâd datblygiadau cyfredol yn y sector ariannol a'r sector gorfforaethol, ac i astudio theori ac ymarfer uwch sy'n ymwneud â

chyfrifeg a chyllid. Nod y rhaglen yw darparu i raddedigion, ac unigolion eraill sydd wedi cael hyfforddiant cyfrifeg ac ariannol ymarferol, yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ddilyn gyrfa broffesiynol ar lefel uwch mewn cyfrifeg, gwasanaethau ariannol neu sectorau cysylltiedig o'r economi.

Cynlluniwyd y rhaglen i ddatblygu eich sgiliau presennol trwy astudiaethau arbenigol uwch. Un amcan pwysig yw darparu hyfforddiant dadansodol perthnasol i chi, er mwyn i chi fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau damcaniaethol ac ymarferol diweddaraf sy'n ymwneud â chyfrifeg a chyllid. Mae'r rhaglen yn darparu fframwaith damcaniaethol cydlynol ar gyfer y gwahanol feysydd pwnc, ond mae'r pwyslais drwyddi draw ar ddefnyddio technegau cyfrifeg a thechnegau ariannol yn ymarferol mewn lleoliad yn y byd go iawn.

Modiwlau Gorfodol:

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiau dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• Accounting Theory

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso'n feirniadol set eang o ddamcaniaethau sy'n esbonio ymddygiad cyfrifyddu ac allbwn rheoleiddio cyfrifyddu.

• International Financial Markets

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i theori cyllid, ac i sut y gall buddsoddwyr, dadansoddwyr a rheolwyr portffolio ei defnyddio'n ymarferol.

• **Advanced Financial Reporting and Regulation**
Mae'r modiwl hwn yn rhoi ymdriniaeth fanwl o'r prif egwyddorion damcaniaethol sy'n sail i adrodd ariannol, ac o oblygiadau ymarferol cyfundrefnau rheoleiddio amgen.

• Financial Analysis

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r technegau a ddefnyddir i werthuso sefyllfa a pherfformiad ariannol cwmnïau.

• Management Accounting

Yn y modiwl hwn bydd myfyrwyr yn dod i ddeall sut y defnyddir data ariannol wrth fesur a gwerthuso perfformiad busnes, ac wrth osod nodau strategol sefydliad.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol - dewis 2:

- Corporate Risk Management
- Islamic Accounting and Financial Reporting
- International Financial Management
- Investment Strategy and Portfolio Management
- Islamic Finance

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

HYD Y CWRS

MSc/MBA: Blwyddyn yn llawn amser. Mae pob ffrwd yn derbyn myfyrwyr ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglen MSc Bancio a Chyllid mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth a Marchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried. Yn achos graddau MBA, er bod profiad gwaith yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae gwasanaethau ariannol a bancio yn sector cystadleuol iawn sy'n newid yn gyflym ym mhob economi fodern. Mae newidiadau yng ngofynion cwsmeriaid, technoleg, amodau cystadleuol a rheoleiddio yn golygu bod angen i reolwyr, masnachwyr a dadansoddwyr wneud penderfyniadau cyflym a phellgyrhaeddol ynghylch eu gweithrediadau tymor byr a'u strategaethau tymor hir. Mae'r rhaglenni hyn yn gyfle unigryw i astudio theori ac ymarfer uwch mewn perthynas â'r gwasanaethau ariannol, ac i werthfawrogi achosion ac arwyddocâd datblygiadau cyfredol mewn sector hanfodol a deinamig o'r economi.

Cynlluniwyd y rhaglenni MSc/MBA Bancio a Chyllid i ddatblygu eich sgiliau presennol trwy astudiaethau arbenigol uwch. Un amcan pwysig yw darparu hyfforddiant dadansoddol perthnasol i chi, er mwyn i chi fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau damcaniaethol ac ymarferol diweddaraf sy'n ymwneud â bancio, cyllid a marchnadoedd cyfalaf. Mae'r graddau hyn yn darparu fframwaith damcaniaethol cydlynol ar gyfer y gwahanol feysydd pwnc, ond mae'r pwyslais drwyddi draw ar ddefnyddio technegau ariannol yn ymarferol mewn lleoliad yn y byd go iawn.

Gall y radd MSc fod yn fwy addas i ymgeiswyr â rhywfaint o gefndir blaenorol mewn mathemateg, ystadegau neu econometreg. Bydd yr MBA yn datblygu swyddogion gweithredol gwybodus a galluog, a fydd yn symud yn gyflym i swyddi allweddol yn y sector ariannol. Mae'r radd yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol a strategol banciau a sefydliadau ariannol eraill. Mae astudiaethau achos a materion cyfoes yn rhan amlwg o'r rhaglen MBA.

Modiwlau Gorfodol (MSc):

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiau dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• Bank Financial Management

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r myfyrwyr am hanfodion natur, cyd-destun strategol a swyddogaethau rheolaethol rheolaeth ariannol mewn banciau, a chwmnïau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol.

• International Financial Markets

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i theori cyllid, ac i sut y gall buddsoddwyr, dadansoddwyr a rheolwyr portffolio ei defnyddio'n ymarferol.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

• Financial Econometrics

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw manwl i ddulliau ac arferion econometreg a ddefnyddir i fodelu data ariannol a busnes.

• Credit Risk Analytics

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar theori ac ymarfer dadansoddeg risg credyd a gwyddor penderfyniadau mewn sefydliadau ariannol. Rhoddir pwyslais arbennig ar feysydd cyfoes o fewn dulliau meintiol a gofynion rheoliadol.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol (MSc) - dewis 2:

- Investment Strategy and Portfolio Management
- Merger and Acquisition
- Market Risk Analytics
- Financial Technology
- Financial Ethics & Regulation
- Executive Compensation

Modiwlau Gorfodol (MBA):

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Bank Financial Management

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r myfyrwyr am hanfodion natur, cyd-destun strategol a swyddogaethau rheolaethol rheolaeth ariannol mewn banciau a chwmnïau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

• Merger and Acquisition

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno agweddau damcaniaethol a sefydliadol yn ymwneud â chydsoodi a chaffael ac yn darparu sylfaen ddamcaniaethol ar gyfer gwneud dadansoddiad empirig o faterion llywodraethu'n ymwneud â chymhellion a chanlyniadau cydsoddi a chaffael.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MBA Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol (MBA) - dewis 3:

- International Strategic Management
- International Financial Management
- Investment Strategy & Portfolio Management
- Financial Ethics & Regulation
- Financial Technology
- Islamic Finance
- Islamic Insurance
- Executive Compensation

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

HYD Y CWRS

MA/MBA: Blwyddyn yn llawn amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cyrsiau hyn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglen MA/MBA mewn Bancio a'r Gyfraith mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Y Gyfraith, Bancio, Economeg, Cyllid, Cyfrifeg neu Reolaeth) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried. Yn achos graddau MBA, er bod profiad gwaith yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Yn y farchnad gystadleuol fyd-eang sydd ohoni, mae angen i swyddogion gweithredol corfforaethol llwyddiannus ddeall sut y gall y system gyfreithiol a rheoliadau cyfreithiol effeithio ar y maes y maent yn arbenigo ynddo. O'r herwydd, mae'r Ysgol Busnes ac Ysgol y Gyfraith ym Mangor wedi dod ynghyd i gynnal cyfres arloesol o raglenni MBA ac MA rhyngddisgyblaethol.

Mae'r MA mewn Bancio a'r Gyfraith yn rhaglen ryngddisgyblaethol a fydd yn eich galluogi i astudio datblygiadau cyfreithiol a rheoliadol allweddol sy'n effeithio ar y sector ariannol. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio gwasanaethau ariannol, offerynnau gwarantau, cyllid corfforaethol, cyflafareddu a materion eraill sy'n effeithio ar fanciau modern ar lefel y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol. Mae'r radd MA yn addas i fyfyrwyr sy'n dymuno mabwysiadu dull anfeintiol yn bennaf o ymwneud â'u hastudiaethau.

Bydd yr MBA mewn Bancio a'r Gyfraith yn datblygu swyddogion gweithredol a chyfreithwyr yn y maes bancio sy'n wybodus a galluog, ac a fydd yn symud yn gyflym i swyddi allweddol yn y sector ariannol. Mae'r radd yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol a strategol banciau a sefydliadau ariannol eraill yn ogystal â'r strwythurau cyfreithiol a rheoliadol cynyddol gymhleth y mae'n rhaid i fanciau a'u swyddogion gweithredol weithredu oddi mewn iddynt. Bydd y materion cyfreithiol yn ymdrin ag ystod eang o bynciau ar lefel y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac ar lefel rhyngwladol y mae angen i fancwyr modern fod yn gyfarwydd â nhw. Mae astudiaethau achos a materion cyfoes yn rhan amlwg o'r rhaglen, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gwersi sydd i'w dysgu o'r 'wasgfa gredyd' ddiweddar a'r materion sydd wedi deillio o hynny o ran cyllido a rheoleiddio rhyngwladol.

Modiwlau Gorfodol (MA):

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiau dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• Bank Financial Management

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r myfyrwyr am hanfodion natur, cyd-destun strategol a swyddogaethau rheolaethol rheolaeth ariannol mewn banciau, a chwmnïau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

• International Banking Law

Nod y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i ddeall agweddau cyfreithiol cyfraith bancio'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Rhoddir sylw i'r nifer o newidiadau sylweddol a effeithiodd ar gyfraith bancio'r Deyrnas Unedig yn ystod ac ar ôl y 'wasgfa gredyd'.

• Merger and Acquisition

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno agweddau damcaniaethol a sefydliadol yn ymwneud â chydsoddi a chaffael ac yn darparu sylfaen ddamcaniaethol ar gyfer gwneud dadansoddiad empirig o faterion llywodraethu'n ymwneud â chymhellion a chanlyniadau cydsoddi a chaffael.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MA Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol

Modiwlau Dewisol - dewis 1:

- Financial Ethics & Regulation
- International Financial Markets

Modiwlau Dewisol - dewis 2:

- Competition Law
- Marine Insurance
- Intellectual Property Law
- International Commercial Arbitration
- Global Trade Law
- Comparative Corporate Governance
- Employment Law
- EU Internal Market Law

Modiwlau Gorfodol (MBA):

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Bank Financial Management

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r myfyrwyr am hanfodion natur, cyd-destun strategol a swyddogaethau rheolaethol rheolaeth ariannol mewn banciau a chwmnïau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

• International Banking Law

Nod y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i ddeall agweddau cyfreithiol cyfraith bancio'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Rhoddir sylw i'r nifer o newidiadau sylweddol a effeithiodd ar gyfraith bancio'r Deyrnas Unedig yn ystod ac ar ôl y 'wasgfa gredyd'.

• Merger and Acquisition

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno agweddau damcaniaethol a sefydliadol yn ymwneud â chydsoddi a chaffael ac yn darparu sylfaen ddamcaniaethol ar gyfer gwneud dadansoddiad empirig o faterion llywodraethu'n ymwneud â chymhellion a chanlyniadau cydsoddi a chaffael.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MBA Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol

Modiwlau Dewisol - dewis 2:

- Comparative Corporate Governance
- International Commercial Arbitration
- Intellectual Property Law
- Competition Law
- Global Trade Law
- Employment Law
- Marine Insurance
- EU Internal Market Law

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

Business and Marketing MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn amser.
Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.



Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deuol sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.



GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth neu Farchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried. Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r radd hon yn archwilio egwyddorion, cysyniadau damcaniaethol ac ymarfer marchnata yng nghyd-destun busnes a rheolaeth, a bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau academiaidd a chymhwysol mewn marchnata, gan gynnwys hysbysebu, rheolaeth a theyrngarwch brandiau, gwasanaeth cwsmeriaid, cysylltiadau cyhoeddus ac ymchwil marchnad.

Bydd y rhaglen yn datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws ystod ehangach o bynciau busnes a rheolaeth, gan gynnwys sefydliadau, sut y cânt eu rheoli a'r amgylchedd allanol cyfnewidiol y maent yn gweithredu o'i fewn; ac yn datblygu eich gallu i gymryd trosolwg strategol o faterion busnes a materion sefydliadol.

Un amcan pwysig yw darparu hyfforddiant dadansoddol perthnasol i chi, er mwyn i chi fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau strategol, rheolaethol a diwydiannol diweddaraf sy'n ymwneud â marchnata yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Byddwn yn edrych ar farchnata ar lefel lleol, cenedlaethol a byd-eang. Gallwch ddewis ymgymryd â thraethawd hir ar bwnc busnes neu farchnata.

Modiwlau Gorfodol:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• International Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r broses o wneud penderfyniadau strategol mewn busnes.

• Marketing Strategy

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso'n feiriadol gyfraniad sawl ffordd wahanol o feddwl am farchnata, ac yn edrych ar y modelau dadansoddol a'r arferion rheoli perthnasol, gyda phwyslais ar bwysigrwydd strategol marchnata i bob sefydliad.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• New Venture Creation

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar fanteision ac anfanteision y gwahanol lwybrau o gychwyn busnes.

• International Marketing Communication

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar y prosesau a ddefnyddir i gynllunio, datblygu a gweithredu rhaglenni cyfathrebu marchnata integredig.

• International Marketing

Mae'r modiwlau hyn yn rhoi trosolwg o faterion a thueddiadau marchnata rhyngwladol cyfoes yn ogystal â'r broses o gynllunio marchnata rhyngwladol.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MA Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol

Modiwlau Dewisol - dewis 1:

- Knowledge Management
- Contemporary Issues in Management
- Consumer Behaviour in a Global & Digital World
- Global Brand Management

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

Business with Consumer Psychology MA/MSc

HYD Y CWRS

MSc/MA: Blwyddyn yn llawn amser.



Mae'r rhaglenni hyn wedi'u hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deuol sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

GOFYNION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglen MSc/MA Busnes gyda Seicoleg Defnyddwyr mae angen gradd israddedig dda, orau oll mewn pwnc perthnasol (e.e. Busnes, Seicoleg, Marchnata, Cyllid, Rheolaeth) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd. Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Gradd Meistr ar y cyd yw hon i fyfyrwyr sy'n dymuno dechrau, neu ddatblygu gyrfa ym maes Seicoleg Defnyddwyr a Busnes. Caiff y rhaglen ei chyflwyno gan ddwy Ysgol academiaidd a chanddynt enw da'n rhyngwladol yn eu meysydd. Mae'r cyfuniad rhwng y ddwy ddisgyblaeth yn un naturiol, gan y gall deall

ymddygiad, yn enwedig ymddygiad defnyddwyr ym myd busnes, fod yn allweddol bwysig i lwyddiant busnesau.

Mae ar fusnesau a sefydliadau llwyddiannus yn y dydd sydd ohoni angen pobl fedrus sydd wedi eu hyfforddi i'w helpu i ddeall eu defnyddwyr ac i ddeall materion megis: Beth sy'n peri iddynt ddewis un cynnyrch dros un arall? A yw enwau brandiau ac ymgyrchoedd hysbysebu'n effeithio ar ein ffordd o feddwl? A fydd y rhyngwrdd yn gweddnewid ardaloedd siopa?

Gallwch ddewis rhwng llwybrau MSc neu MA. Gwahaniaethir rhyngddynt o ran natur y traethawd hir. Bydd traethawd hir yr MSc yn golygu ymgymryd ag ymchwil empirig, tra bydd traethawd hir yr MA yn golygu gwneud adolygiad llenyddiaeth estynedig.

Modiwlau Gorfodol:

• Consumer Psychology: Theory

Rhagarweiniad yw'r modiwl hwn i yddor defnyddwyr fel y caiff ei harfer yn y farchnad ar hyn o bryd.

• Nudges and Behaviour Change

Bydd y modiwl hwn yn archwilio sut y gallwn lunio a/neu addasu ymddygiad yn y tymor byr a'r tymor hir a deall rhai o'r mecanweithiau seicolegol sydd ar waith.

• Marketing Strategy

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso'n feiriadol gyfraniad sawl ffordd wahanol o feddwl am farchnata, ac yn edrych ar y modelau dadansoddol a'r arferion rheoli perthnasol,

gyda phwyslais ar bwysigrwydd strategol marchnata i bob sefydliad.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Applied Consumer Psychology

Nod y modiwl hwn yw darparu profiad ymchwil ymarferol mewn seicoleg defnyddwyr a bydd yn cynnwys gwneud gwaith ymarferol gyda mentrau masnachol hyfwi. Cewch eich partneru gyda chwmnïau lleol a bydd gofyn i chi gynllunio a chynnal project ymchwil defnyddwyr ymarferol, sydd fel arfer yn golygu gwneud gwaith maes.

• Traethawd hir

Modiwlau Dewisol - dewis 2:

- New Venture Creation
- Contemporary Issues in Management
- Finance for Managers
- International Marketing
- Consumer Behaviour in a Global & Digital World
- International Marketing Communication

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

HYD Y CWRS

MBA: blwyddyn yn llawn amser (hefyd ar gael yn rhan amser) Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.



Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr yn graddio gyda chymhwyster deuol sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

GOFYNION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd gyntaf dda (2:ii neu uwch) neu gymhwyster cyfatebol gan brifysgol neu gorff cymeradwy arall sy'n dyfarnu graddau. Gellir ystyried hefyd gymhwyster ac eithrio gradd y bernir ei fod o safon foddhaol at ddiben derbyn i gwrw ôl-radd. Mae profiad gwaith yn ddymunol. Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr

rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Fe gewch olwg ryngwladol ar fusnes a dod i ddeall gofynion a chyfyngiadau penodol cynnal a rheoli busnesau'n fyd-eang. Bydd myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth arbenigol a sgiliau uwch mewn ystod eang o bynciau busnes a rheolaeth, gan ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am sefydliadau rhyngwladol, sut y cânt eu rheoli a'r amgylchedd allanol byd-eang cyfnewidiol y maent yn gweithredu o'i fewn; a datblygu trosolwg strategol o faterion busnes a materion sefydliadol.

Bydd myfyrwyr hefyd yn datblygu gwybodaeth ddamcaniaethol uwch o bynciau busnes a rheolaeth rhyngwladol gan gynnwys cyllid, marchnata ac entrepreneuriaeth, a sut mae diwylliant yn effeithio ar y rhain.

Modiwlau Gorfodol:

• Marketing Strategy

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno hanfodion marchnata, trwy ddisgrifio strategaethau mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ac ymdrin ag amryw o safbwyntiau ym maes marchnata, ynghyd â modelau dadansodol ac arferion rheolaeth perthnasol.

• International Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar y cysylltiad rhwng rheolaeth strategol a gweithredol, yn trafod rheolaeth strategol fel proses reoli greiddiol, ac yn gosod penderfyniadau strategol mewn amgylchedd deinamig sy'n cael ei ddiffinio'n ddiwylliannol.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn archwilio materion methodolegol allweddol a dulliau o ymchwilio ym maes astudiaethau rheolaeth, ac yn gwerthuso'n feirniadol gryfderau a chyfyngiadau'r data a gesglir mewn cyfweiliadau, astudiaethau achos, grwpiau ffocws, arolygon ac arbrofion.

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn darparu dadansoddiad integredig o reolaeth, sefydliadau a phobol, gan ddatblygu'r sgiliau cysyniadol, strategol ac ymarferol sy'n angenrheidiol i reolwyr mewn cyd-destun sefydliadol, byd-eang a chymhleth, gan gyfeirio at faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadol a rheoli adnoddau dynol.

• Finance for Managers

Mae'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i feithrin dealltwriaeth sylfaenol o gyfrifeg a rheolaeth ariannol, trwy edrych ar yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n ymwneud â datganiadau cyfrifon a gwybodaeth ariannol fel y gellir eu defnyddio i wella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau.

• Global Culture and Management

Nod y modiwl yw galluogi myfyrwyr i ddeall bod diwylliant yn elfen rymus mewn busnes rhyngwladol yng nghyd-destun economi fyd-eang. Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar y dasg gymhleth o adnabod ac asesu'r cysylltiad diwylliannol, gan gyflwyno tystiolaeth empirig ac enghreifftiau o blith busnesau byd-eang a chyfuniadau diwylliannol sy'n egluro hyn.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol

Modiwlau Dewisol - dewis 3:

- International Financial Management
- Contemporary Issues in Management
- Consumer Behaviour in a Global & Digital World
- International Marketing Communication
- Executive Compensation
- Corporate Risk Management
- Global Brand Management

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business



HYD Y CWRS

MBA: Blwyddyn yn llawn amser (2/3 mlynedd yn rhan amser). Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.



Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deuol sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

GOFYNIION MYNEDIAD

I gael mynediad i'r rhaglen hon mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Gwyddorau'r Amgylchedd neu Astudiaethau Busnes) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd. Yn achos graddau MBA, er bod profiad gwaith yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae swyddi rheolwyr amgylcheddol corfforaethol yn mynd yn fwyfwy cymhleth a strategol. Mae cyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol corfforaethol bellach yn elfen flaenllaw o ran y galw gan ddefnyddwyr ac yn un o ragofynion prosesau tendro. Mae hyn yn golygu bod angen i reolwyr amgylcheddol fod yn fwy soffistigedig gan allu dehongli gofynion deddfwriaethol a gofynion archwilio, a'u cyflawni mewn modd sy'n ffafriol i ddatblygiad

economaidd parhaus a chydabod tueddiadau'r farchnad ar yr un pryd.

Nod y rhaglen hon yw datblygu sgiliau o ran cyflawni gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, technoleg werdd a chynaliadwydd.

Mae'r rhaglen yn cynnwys astudiaethau achos hynod gyfredol o bob rhan o'r sectorau hyn gan adlewyrchu strategaethau newidiol a dulliau amgen. Mae'n addas i raddedigion mewn ystod eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys yr Amgylchedd, Peirianeg, Cyllid, Gwyddorau Cymdeithas a phynciau eraill.

Modiwlau Gorfodol:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• International Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r broses o wneud penderfyniadau strategol mewn busnes. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o'r prosesau strategol sy'n ymwneud â rheolaeth busnes, a'r rhyng-gysylltiadau â'r parthau swyddogaethol.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Business Planning for the Green Economy

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r broses o sefydlu menter, o ffurfio'r syniad gwreiddiol i gwblhau cynllun busnes, sy'n ymgorffori cynllunio a rheoli amgylcheddol.

• Finance for Managers

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau cael dealltwriaeth sylfaenol o reolaeth ariannol, ac sydd angen deall cyllid er mwyn rheoli sefydliad yn effeithiol.

• Strategic Environmental Management

Cynlluniwyd y modiwl hwn i roi dealltwriaeth o egwyddorion datblygu cynaliadwy, deddfwriaeth amgylcheddol, archwilio ac asesu amgylcheddol, a datblygiadau technolegol gwyrdd.

• Green Technologies

Mae'r modiwl hwn yn adolygu canlyniadau amgylcheddol gweithgarwch economaidd, gan gynnwys cynhyrchu ynni, rheoli gwastraff, cyflenwi bwyd a dŵr a nwyddau defnyddwyr.

• MBA Traethawd hir

RHAGOLYCON GYRFA

Mae nifer cynyddol o swyddi ar gael ym maes Ymgynghori a Rheolaeth Amgylcheddol. Gwaith Rheolwyr Amgylcheddol yw goruchwyllo perfformiad amgylcheddol sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Maent yn datblygu, yn gweithredu ac yn monitro strategaethau, polisiau a rhaglenni amgylcheddol i annog datblygiadau cynaliadwy. Ceir swyddi eraill hefyd mewn sefydliadau masnachol ac yn y sector cyhoeddus sy'n cynnal asesiadau effaith i nodi, asesu a lleihau risgiau amgylcheddol a chostau ariannol sefydliad.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business



HYD Y CWRS

MSc/MBA: Blwyddyn yn llawn amser. Mae pob rhaglen yn derbyn myfyrwyr ym mis Ionawr a mis Medi. Mae fersiwn 10 mis o'r MSc/MBA Finance hefyd ar gael (dechrau ym mis Medi yn unig). Bydd myfyrwyr ar y fersiwn 10 mis yn astudio 5 modiwl yn yr Hydref a 5 modiwl yn y Gwanwyn.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth a Marchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried. Yn achos graddau MBA, er bod profiad gwaith yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae bod yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf o ran gwerthuso risgiau, dadansoddi portffolios, peirianeg cynhyrchion synthetig, technegau modelu a dadansoddi ariannol a phrisio yn ofynion hanfodol i bawb sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch ariannol neu sy'n dymuno bod â gwell dealltwriaeth o'r maes pwysig hwn o reoli busnes.

Mae'r rhaglenni MSc/MBA mewn Cyllid ym Mangor yn cynnig cyfle unigryw i werthfawrogi achosion ac arwyddocâd datblygiadau cyfredol yn y sector ariannol a'r sector gorfforaethol, ac i astudio theori ac ymarfer uwch sy'n ymwneud â marchnadoedd ariannol a rheolaeth ariannol busnesau.

Efallai y bydd y radd MSc yn fwy addas i fyfyrwyr â rhywfaint o gefndir blaenorol mewn mathemateg, ystadegau neu econometreg, tra bydd yr MBA yn datblygu swyddogion gweithredol gwybodus a galluog, a fydd yn symud yn gyflym i swyddi allweddol yn y sector.

Mae'r graddau'n canolbwyntio ar weithrediad marchnadoedd ariannol a rheolaeth strategol endidau ariannol. Byddwch yn meithrin dealltwriaeth a sgiliau ymarferol mewn ystod o bynciau'n ymwneud â rheolaeth ariannol a strategol o fewn gwasanaethau a marchnadoedd ariannol. Dewch i werthfawrogi beth yw achosion ac arwyddocâd datblygiadau cyfredol yn y sector ariannol a'r sector gorfforaethol. Mae astudiaethau achos a materion cyfoes yn rhan amlwg o'r rhaglen.

Modiwlau Gorfodol (MSc):

• Research Methods

Bydd y modiwl hwn yn eich arfogi â gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, y byddwch yn dod ar eu traws mewn modiwlau eraill ac yn eich traethawd hir.

• International Financial Markets

Trosolwg o offerynnau ariannol mewn byd aml-arian cyfred, gan ystyried damcaniaeth portffolio o ran y berthynas rhwng risg ac adenillion, arallgyfeirio risg, a phrisio asedau.

• Credit Risk Analytics

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar theori ac ymarfer dadansoddeg risg credyd a gwyddor penderfyniadau mewn sefydliadau ariannol. Rhoddir pwyslais arbennig ar feysydd cyfoes o fewn dulliau meintiol a gofynion rheoliadol.

• Market Risk Analytics

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar sut y gellir defnyddio peirianeg ariannol wrth gyflawni strategaethau hapfasnachu, ymddiogelu a chyfyngu, sut mae deilliadau ariannol yn cael eu priso, a sut y gellir eu defnyddio i reoli risg.

• Financial Econometrics

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw manwl i ddulliau ac arferion econometreg a ddefnyddir i fodelu data ariannol a busnes.

• Investment Strategy & Portfolio Management

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso datblygiad strategaethau buddsoddi ar gyfer bondiau, ecwitiau a deilliadau ariannol sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r canlyniadau risg-adenillion gorau posibl, ac yn edrych ar sut mae mesur a gwerthuso perfformiad portffolio o fuddsoddiadau.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Projectau Ariannol Cymhwysol (30 credyd)*
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol (MSc) - dewis 2:

- International Financial Management
- Financial Technology
- Islamic Finance
- Behavioral Finance Theory & Practice
- International Tax: Policy & Practice
- Financial Ethics & Regulation

Modiwlau Gorfodol (MBA):

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• Investment Strategy and Portfolio Management

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso datblygiad strategaethau buddsoddi ar gyfer bondiau, ecwitiau a deilliadau ariannol sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r canlyniadau risg-adenillion gorau posibl, ac yn edrych ar sut mae mesur a gwerthuso perfformiad portffolio o fuddsoddiadau.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• International Financial Management

Yn y modiwl hwn edrychir ar reolaeth ariannol cwmnïau amlwladol a dylanwad amgylcheddau macroeconomaidd, cyllidol, arian cyfred a gwleidyddol ar brosesau gwneud penderfyniadau busnes a phenderfyniadau ariannol mewn cyd-destun rhyngwladol a byd-eang.

• International Financial Markets

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg o offerynnau ariannol mewn byd aml-arian cyfred.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MBA Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol
- Projectau Ariannol Cymhwysol*
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only).

Modiwlau Dewisol (MBA) - dewis 3:

- International Strategic Management[#]
- Executive Compensation[#]
- Merger and Acquisition[#]
- International Tax: Policy and Practice
- Financial Ethics & Regulation[#]
- Financial Technology[#]
- Islamic Finance

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

HYD Y CWRS

MBA: Blwyddyn yn llawn amser.



Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deul sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

GOFYNION MYNEDIAD

I gael mynediad i'r rhaglen MBA mewn Rheoli Gwybodaeth mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Busnes neu Wyddoniaeth) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried. Yn achos graddau MBA, er bod profiad gwaith yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae rheoli gwybodaeth yn effeithiol yn allweddol i lwyddiant unrhyw sefydliad. Mae'r MBA mewn Rheoli Gwybodaeth yn datblygu swyddogion gweithredol gwybodus a galluog a fydd yn dod yn rheolwyr yn y diwydiant technoleg gwybodaeth/cyfrifiadura, neu mewn cwmnïau mewn sectorau eraill.

Nod y rhaglen yw darparu ystod o wybodaeth a sgiliau rheoli i chi, ynghyd â sylfaen drylwyr mewn rheoli gwybodaeth, technoleg gwybodaeth a'r defnydd masnachol y gellir ei wneud ohonynt. Mae'r rhaglen yn cynnwys astudiaethau achos sy'n adlewyrchu datblygiadau cyfoes yn y sector

Modiwlau Gorfodol:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• International Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r broses o wneud penderfyniadau strategol mewn busnes.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Web Technologies

Yn y modiwl hwn daw myfyrwyr i ddeall am y technolegau a'r strwythurau sylfaenol a ddefnyddir i ddatblygu rhaglenni gwe, gan gynnwys creu adnoddau rhyngwrwyd, technegau chwilio ac ieithoedd rhaglennu ar gyfer creu cynnwys gwe.

• Finance for Managers

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i fyfyrwyr sydd am gael dealltwriaeth sylfaenol o reolaeth ariannol, ac sydd angen deall cyllid er mwyn rheoli sefydliad yn effeithiol.

• Database Systems

Mae'r modiwl hwn yn dangos sut i gynllunio cronfa ddata a chreu ymholiadau deallus mewn cronfa ddata yn defnyddio SQL er mwyn deall cronfeydd ddata ar lefel ragarweiniol.

• Technologies for Internet Systems

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno technolegau ac offer ar gyfer systemau rhyngwrwyd a systemau e-fasnachu.

• Information Systems

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar y prif fathau o systemau gwybodaeth, eu helfennau unigol, eu swyddogaethau, eu buddion a'u cyfyngiadau.

• Projectau Busnes Cymhwysol (Rheoli Gwybodaeth)

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth..

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

International Media and Management MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser neu ddwy flynedd yn rhan amser

GOFYNION MYNEDIAD

I gael mynediad i'r rhaglen hon mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r diwydiannau creadigol yn gwneud cyfraniad pwysig at dwf economaidd ar draws y byd, ac maent yn gyfrifol am oddeutu 7% o'r cynnyrch mewnwladol crynswth yn Ewrop, dros 11% yn yr Unol Daleithiau a rhwng 17 ac 20% yng ngweddill y byd. Mae'r twf aruthrol hwn yn golygu bod cyfleoedd rhagorol i unigolion gyda'r sgiliau a'r cefndir angenrheidiol i weithio fel swyddogion gweithredol yn y sector.

Trwy ddod â thair ysgol academiaidd ragorol at ei gilydd ym Mhrifysgol Bangor (Busnes, y Gyfraith ac Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau) mae'r MSc mewn Cyfryngau Rhyngwladol a Rheolaeth yn darparu'r

datblygiad a'r hyfforddiant deallusol angenrheidiol i chi ddatblygu gyrfa fel uwch reolwr yn y maes.

Byddwch yn astudio modiwlau o bob un o'r tair ysgol ac yn ymgymryd â thraethawd hir yn canolbwyntio ar y cyfryngau gyda'r bwriad o ymchwilio i theori ac ymarfer yn yr economïau creadigol yn lleol a/neu'n fyd-eang.

Modiwlau Gorfodol:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• Intellectual Property Law

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr am elfennau sylfaenol cyfraith eiddo deallusol; diffiniad a chwmpas hawlfraint; awduraeth, perchnogaeth, hyd a chymhwysra amddiffyn hawlfraint; hawliau perchnogion hawlfraint; achosion torhawlfraint; ac amddiffyniadau torhawlfraint.

• Marketing Strategy

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno elfennau sylfaenol marchnata i chi, trwy ddisgrifio strategïau mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ac ymdrin ag amryw o safbwyntiau ym maes marchnata, ynghyd â modelau dadansodol ac arferion rheolaeth perthnasol.

• Creative Industries

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddadansoddi datblygiad a chyflwr presennol y diwydiannau creadigol yn fyd-eang

• Research Design

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg beirniadol a dealltwriaeth o'r prif faterion methodolegol sy'n gysylltiedig â'r amrywiol ddulliau ymchwil ym maes y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol er mwyn paratoi myfyrwyr at ysgrifennu'r traethawd hir.

• Traethawd hir

Modiwlau Dewisol - dewis 1:

- Finance for Managers
- International Marketing Communication
- New Venture Creation
- International Strategic Management
- Employment Law

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

HYD Y CWRS

MSc/MBA: Blwyddyn yn llawn amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cyrsiau hyn ym mis Ionawr a mis Medi.

Mae'r rhaglenni hyn wedi'u hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deul sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglenni MSc/MBA mewn Bancio a Chyllid Islamaidd mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth neu Farchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Yn achos graddau MBA, er bod profiad gwaith yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Dros y ddau neu dri degawd diwethaf, mae bancio a chyllid Islamaidd wedi amlygu ei hun fel dull arall hyfwrdd o ymdrin â chyfryngiadau ariannol. Mae'r dull wedi ennill hygreddedd ac wedi lledaenu ledled y byd a bellach dyma'r dull bancio sy'n cael ei ffafrio gan un rhan o bump o boblogaeth y byd. Mae'r graddau MSc/MBA hyfforddedig hyn yn gyfle i astudio strwythur y diwydiant bancio a chyllid Islamaidd, gan edrych ar sylfeini damcaniaethol, cynhyrchion, perfformiad, offerynnau ariannol Islamaidd a materion yn ymwneud â rheoli risg. Bydd y pynciau hyn ymysg eraill yn cael eu hastudio yng nghyd-destun y diwydiant bancio a chyllid byd-eang yn ehangach.

Mae'r MSc yn addas i fyfyrwyr â rhywfaint o gefndir blaenorol mewn mathemateg, ystadegau neu econometreg, tra mai nod yr MBA yw datblygu swyddogion gweithredol a fydd yn symud ymlaen yn gyflym i swyddi uwch reolwyr mewn sefydliadau ariannol sy'n gwneud trafodion busnes yn ôl egwyddorion Islamaidd.

Modiwlau Gorfodol (MSc):

• Research Methods

Bydd y modiwl hwn yn eich arfogi â gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, y byddwch yn dod ar eu traws mewn modiwlau eraill ac yn eich traethawd hir.

• International Financial Markets

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg o offerynnau ariannol mewn byd aml-arian cyfred, gan ystyried damcaniaeth portffolio o ran y berthynas rhwng risg ac adenillion, arallgyfeirio risg, a phrisio asedau.

• Islamic Finance

Yn y modiwl hwn daw myfyrwyr i ddeall materion cyfredol sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol Islamaidd a materion eraill sy'n ymwneud â rheoli risg.

• Islamic Banking

Yn y modiwl hwn daw myfyrwyr i ddeall prif nodweddion busnes bancio Islamaidd.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol (MSc) - dewis 3:

- Islamic Accounting and Financial Reporting
- Financial Econometrics
- Investment Strategy and Portfolio Management
- Islamic Insurance
- Financial Ethics & Regulation

Modiwlau Gorfodol (MBA):

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol. s.

• Islamic Finance

Yn y modiwl hwn daw myfyrwyr i ddeall materion cyfredol sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol Islamaidd a materion eraill sy'n ymwneud â rheoli risg.

• Islamic Banking

Yn y modiwl hwn daw myfyrwyr i ddeall prif nodweddion busnes bancio Islamaidd.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

• Islamic Insurance

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi natur ac egwyddorion yswiriant Islamaidd, ac yn edrych ar ddulliau gweithredol ac arferion yswiriant Islamaidd.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MBA Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol (MBA) - dewis 2:

- International Strategic Management
- Islamic Accounting and Financial Reporting
- Merger and Acquisition
- Financial Ethics & Regulation

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business



YR ATHRO OWAIN AP GWILYM
Athro Cyllid, Ysgol Busnes Bangor

Mae'r Athro Owain ap Gwilym wedi cyhoeddi dros wythdeg o erthyglau ymchwil academaidd. Mae ei waith wedi ymddangos mewn nifer fawr o gyfnodolion rhyngwladol, megis Journal of Banking and Finance, Financial Analysts Journal, Journal of Financial Stability a Journal of Business Finance and Accounting. Cyn dod i Fangor, bu'n Athro Cyllid ym Mhrifysgol Aberystwyth a bu hefyd yn ddeiliad swyddi academaidd ym Mhrifysgol Southampton a Phrifysgol

Abertawe. Mae wedi gweithio ar brosiectau gyda CFA UK, Chartered Banker Institute, Fitch Learning, Fitch Ratings, Financial Times, InteractiveData, Moody's Investors Service, a Scottish Widows. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys micro strwythur marchnadoedd; dadansoddi risg credyd a rheoli buddsoddiadau. Mae o'n arwain grŵp ymchwil ar risg credyd ac mae'n olygydd o'r cyfnodolyn European Journal of Finance.

PROFFIL STAFF

HYD Y CWRS

MBA: Blwyddyn yn llawn amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.



Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deuol sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglen MBA yn y Gyfraith a Rheolaeth mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Y Gyfraith, Rheolaeth, Economeg, Cyllid, Busnes) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Yn y farchnad gystadleuol fyd-eang sydd ohoni, mae angen i swyddogion gweithredol corfforaethol llwyddiannus ddeall sut y gall y system gyfreithiol a rheoliadau cyfreithiol effeithio ar y maes y maent yn arbenigo ynddo. O'r herwydd, mae Ysgol Busnes Bangor ac Ysgol y Gyfraith Bangor wedi dod ynghyd i gynnig cyfres arloesol o raglenni MBA ac MA rhyngddisgyblaethol.

Mae'r MBA yn y Gyfraith a Rheolaeth yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad proffesiynol a galwedigaethol, ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion cyfreithiol a rheoliadol allweddol sy'n chwarae rhan ganolog yn y gwaith o reoli busnesau modern, o bob math a maint, yn llwyddiannus. Byddwch yn dod i ddeall sgiliau a chysyniadau uwch i reolwyr a sut mae eu defnyddio mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Cewch gyfle i edrych ar y gyfraith a'r rheoliadau sy'n effeithio ar fusnesau mewn ystod eang o feysydd allweddol. Un amcan pwysig yw darparu hyfforddiant dadansoddol perthnasol am y datblygiadau strategol, rheolaethol, cyfreithiol a masnachol diweddaraf yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Modiwlau Gorfodol:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Comparative Corporate Governance

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar sgandalau corfforaethol mawr sydd wedi digwydd yn yr Unol Daleithiau, Ewrop a'r Deyrnas Unedig yn y blynyddoedd diwethaf, sy'n codi cwestiynau am drefniadaeth a llywodraethiant cwmnïau, yn enwedig sefydliadau amlwladol mawr.

• Finance for Managers

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i fyfyrwyr sydd am gael dealltwriaeth sylfaenol o reolaeth ariannol, ac sydd angen deall cyllid er mwyn rheoli sefydliad yn effeithiol.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol

Modiwlau Dewisol#:

Dewis 2 o'r canlynol:

- Marketing Strategy
- International Strategic Management
- Knowledge Management
- Contemporary Issues in Management
- Executive Compensation

Dewis 2 o'r canlynol:

- International Commercial Arbitration
- Intellectual Property Law
- Competition Law
- Global Trade Law
- Employment Law
- Marine Insurance
- International Banking Law

#Rhaid i'ch modiwlau dewisol gynnwys naill ai Marketing Strategy neu International Strategic Management ac o leiaf 2 fodiwl o blith dewisiadau'r Gyfraith.

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business



Management MBA

HYD Y CWRS

MBA: Blwyddyn yn llawn amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.



Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deul sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r MBA Rheolaeth mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth neu Farchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae MBA yn gymhwyster, a gydnabyddir ledled y byd, i uwch bersonél a swyddogion gweithredol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Mae cynnydd cyson yn effaith newid, ym mhwyysigrwydd strategaeth ac yn nwyster cystadleuaeth ac mae ar sefydliadau angen rheolwyr sy'n deall y gymuned fusnes yn ei chyfarwydd. Mae pwysigrwydd economaidd cynyddol entrepreneuriaeth hefyd wedi pwysleisio o'r newydd yr angen am well dealltwriaeth o'r theori a'r ymarfer sy'n ymwneud

â busnes a rheolaeth mewn sefydliadau presennol a sefydliadau newydd.

Cwrs modiwlaid blwyddyn o hyd yw'r rhaglen MBA sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau academaidd a rheolaethol mewn meysydd megis ymddygiad sefydliadol, strategaeth farchnata, e-fusnes a chreu mentrau newydd. Un amcan pwysig yw darparu hyfforddiant dadansoddol perthnasol, er mwyn i chi fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau strategol, rheolaethol a diwydiannol diweddaraf yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae'r cwrs yn darparu fframwaith dadansoddol cydlynol ar gyfer astudio busnes a menter o safbwynt rheoli.

Mae'r pwyslais trwy gydol y rhaglen ar gymhwyso datblygiadau ariannol, rheolaethol a strategol cyfoes sy'n effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau byd go iawn yn y farchnad fyd-eang.

Rydym yn cydnabod bod meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o ddatblygiadau diweddar mewn rheolaeth, entrepreneuriaeth, strategaeth, marchnata a chyllid yn ofynion hanfodol i unrhyw un mewn swydd rheoli (neu i unrhyw un sy'n dymuno bod â gwell dealltwriaeth o'r meysydd pwysig hyn ym maes busnes a rheolaeth).

Modiwlau Gorfodol:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• Marketing Strategy

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso'n feirniadol gyfraniad sawl ffordd wahanol o feddwl

am farchnata, ac yn edrych ar y modelau dadansoddol a'r arferion rheoli perthnasol, gyda phwyslais ar bwysigrwydd strategol marchnata i bob sefydliad.

• International Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r broses o wneud penderfyniadau strategol mewn busnes.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Finance for Managers

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i fyfyrwyr sydd am gael dealltwriaeth sylfaenol o reolaeth ariannol, ac sydd angen deall cyllid er mwyn rheoli sefydliad yn effeithiol

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MBA Traethawd hir
- Projectau Busnes Cymhwysol

Modiwlau Dewisol - dewis 3:

- Knowledge Management
- Contemporary Issues in Management
- International Financial Management
- New Venture Creation
- Executive Compensation
- Global Brand Management

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

Management and Finance MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad i'r rhaglen MSc Rheolaeth a Chyllid mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth neu Farchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae natur busnesau a'r marchnadoedd y maent yn gweithredu o'u mewn yn newid yn barhaus sy'n golygu ei bod yn gynyddol bwysig fod gan reolwyr corfforaethol ddealltwriaeth glir o theori ac ymarfer rheolaeth strategol, ac o'r gydberthynas rhwng y busnes, ei weithwyr a'i farchnadoedd, a'r goblygiadau o ran strategaeth ariannol gorfforaethol. Mae bod yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf mewn gwerthuso risg, prisiau, marchnata, rheoli adnoddau dynol, ymddygiad sefydliadol a rheolaeth strategol yn ofynion hanfodol i unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â busnes, neu ag ariannu gweithgarwch busnes, neu i unrhyw un sy'n dymuno deall mwy am y meysydd pwysig hyn. Cynlluniwyd y rhaglenni MSc Rheolaeth a

Chyllid i ddatblygu eich sgiliau presennol trwy astudiaethau arbenigol uwch. Un amcan pwysig yw bod myfyrwyr yn dod i ddeall nid yn unig ymddygiad sefydliadol a dewisiadau strategol ym maes rheoli adnoddau dynol a marchnata, ond hefyd y datblygiadau damcaniaethol sy'n ymwneud â chyllid corfforaethol a'r marchnadoedd cyfalaf, ynghyd â datblygu medrusrwydd yn y technegau sy'n ofynnol i asesu canlyniadau hynny wrth reoli busnes. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu fframwaith damcaniaethol cydlynol ar gyfer y gwahanol feysydd pwnc, ond mae'r pwyslais drwyddi draw ar ddefnyddio technegau rheoli busnes a thechnegau ariannol yn ymarferol mewn lleoliad byd go iawn.

Modiwlau Gorfodol (MSc):

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiasu dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadau a rheoli adnoddau dynol.

• International Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r broses o wneud penderfyniadau strategol mewn busnes.

• International Financial Markets

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i theori cyllid, ac i sut y gall buddsoddwyr,

dadansoddwyr a rheolwyr portffolio ei defnyddio'n ymarferol.

• International Financial Management

Yn y modiwl hwn edrychir ar reolaeth ariannol cwmnïau amlwladol a dylanwad amgylcheddau macroeconomaidd, cyllidol, arian cyfred a gwleidyddol ar brosesau gwneud penderfyniadau busnes a phenderfyniadau ariannol mewn cyd-destun rhyngwladol a byd-eang.

• New Venture Creation

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar fanteision ac anfanteision y gwahanol lwybrau o gychwyn busnes.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Traethawd hir
- Financial Research & CFA Series (CFA pathway only)

Modiwlau Dewisol (MSc) - dewis 2:

- Corporate Risk Management
- Knowledge Management
- Executive Compensation
- Investment Strategy and Portfolio Management
- Merger and Acquisition

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

HYD Y CWRS

MBA: Blwyddyn yn llawn amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.



Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglen hon yn graddio gyda chymhwyster deul sef gradd Meistr Prifysgol Bangor a chymhwyster Lefel 7 CMI mewn Rheolaeth Strategol ac Arweinyddiaeth.



GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd israddedig dda mewn pwnc perthnasol, (e.e. Cyfrifeg, Bancio, Cyllid, Busnes, Rheolaeth neu Farchnata) gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r radd hon yn archwilio egwyddorion, cysyniadau damcaniaethol ac ymarfer marchnata yng nghyd-destun busnes a rheolaeth, a bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau academiaidd a chymhwysol mewn marchnata, gan gynnwys hysbysebu, rheolaeth a theyrngarwch brandiau, gwasanaeth cwsmeriaid, cysylltiadau cyhoeddus ac ymchwil marchnad.

Bydd y rhaglen hefyd yn datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws ystod ehangach o bynciau busnes a rheolaeth, gan

gynnwys sefydliadau, sut y cânt eu rheoli a'r amgylchedd allanol cyfnewidiol y maent yn gweithredu o'i fewn. Byddwch yn datblygu'r gallu i gymryd trosolwg strategol o faterion busnes a materion sefydliadol. Un amcan pwysig yw darparu hyfforddiant dadansoddol perthnasol i chi am y datblygiadau strategol, rheolaethol a diwydiannol diweddaraf sy'n ymwneud â marchnata yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Byddwn yn edrych ar farchnata ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang, gan ddatblygu sgiliau dadansoddi strategol, datrys problemau a gwneud penderfyniadau.

Modiwlau Gorfodol:

• International Marketing

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg o faterion a thueddiadau marchnata rhyngwladol cyfoes yn ogystal â'r broses o gynllunio marchnata rhyngwladol.

• Consumer Behaviour in a Global & Digital World

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r prif ddamcaniaethau sy'n honni eu bod yn egluro ymddygiad defnyddwyr o safbwynt deall y defnyddiwr fel unigolyn, yn ogystal â sut mae'r amgylchedd diwylliannol yn dylanwadu ar ddefnyddwyr.

• Marketing Strategy

Mae'r modiwl hwn yn gwerthuso'n feirniadol gyfraniad sawl ffordd wahanol o feddwl am farchnata, ac yn edrych ar y modelau dadansoddol a'r arferion rheoli perthnasol.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol dros ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio materion methodolegol allweddol.

• International Marketing Communication

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar y prosesau a ddefnyddir i gynllunio, datblygu a gweithredu rhaglenni cyfathrebu marchnata integredig.

• Global Brand Management

Mae a wneol'r modiwl hwn â hanfodion brand, y ffactorau sy'n bwysig wrth ddatblygu a chynnal delwedd brand gadarnhaol, meithrin ecwiti brand a sut i ddatblygu brand i fod yn frand byd-eang.

• International Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r broses o wneud penderfyniadau strategol mewn busnes. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o'r prosesau strategol sy'n ymwneud â rheoli busnes, a'r rhyng-gysylltiadau â pharthau swyddogaethol marchnata, rheoli adnoddau dynol a chyllid corfforaethol, a rheoli systemau gwybodaeth.

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar faterion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes i ymddygiad sefydliadol a rheoli adnoddau dynol. Mae'n darparu dadansoddiad integredig o reolaeth, sefydliadau a phobl, gan ddatblygu'r sgiliau cysniadol, strategol ac ymarferol sy'n angenrheidiol i reolwyr mewn cyd-destun sefydliadol, byd-eang a chymleth.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- Project Marchnata Rhyngwladol
- Projectau Busnes Cymhwysol

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business



Research Methodology MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser, 2 flynedd yn rhan amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Medi yn unig.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd Baglor (2:1 neu 1af) neu gymhwyster cyfatebol mewn disgyblaeth berthnasol gan brifysgol neu gorff cymeradwy arall sy'n dyfarnu graddau. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol.

Mae angen i ymgeiswyr nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt fod â sgôr IELTS (neu gymhwyster cyfatebol) o 6.5 o leiaf.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MSc mewn Methodoleg Ymchwil wedi'i fwriadu ar gyfer unigolion sydd am ddilyn gyrfa ymchwil yn y sector academiaidd, y sector fasnachol neu'r sector di-elw. Mae'r MSc yn rhoi hyfforddiant arloesol a hynod ddatblygedig mewn dulliau a theori ymchwil ansoddol a meintiol o fewn cyd-destun busnes o'ch dewis. Mae ein MSc mewn Methodoleg Ymchwil yn eich tywys trwy'r holl broses o ymgymryd ag ymchwil busnes a rheolaeth o ddatblygu eich syniadau ymchwil cychwynnol i ymgymryd â darn sylweddol o ymchwil wreiddiol ac adrodd yn ei gylch.

Byddwch yn cael eich cyflwyno i amrywiaeth o fethodolegau ymchwil ac yn datblygu'r gallu i'w hystyried yn feirniadol ac asesu i ba raddau y gellir eu defnyddio gyda phroblemau ymchwil yn y byd go iawn. Byddwch yn gweithio gyda data go iawn (ansoddol a meintiol) er mwyn deall problemau ymchwil arwyddocaol a darparu atebion posibl.

Modiwlau Gorfodol:

• Research Colloquium

Nod y modiwl yw rhoi cyfle i fyfyrwyr siarad am eu hymchwili arfaethedig a datblygu eu gwerthfawrogiad o faterion cysyniadol, methodolegol a materion eraill sy'n gysylltiedig ag ymchwil yng nghyd-destun eu project eu hunain.

• Core Competencies

Nod y modiwl yw arfogi myfyrwyr â'r cymwyseddau craidd y bydd arnynt eu hangen i wneud ymchwil. Mae hyn yn cynnwys rheoli data, chwilio llenyddiaeth a sgiliau llyfryddiaethol, ysgrifennu a chyfrifiadura. Bydd yn ofynnol cymryd rhan mewn seminarau sy'n cael eu cynnal gan Ysgol Busnes Bangor a'r ysgol ddoethuror, a chyflwyno darnau o waith ysgrifenedig.

• Foundations in Social Research

Nod y modiwl hwn yw sicrhau bod myfyrwyr yn deall egwyddorion ac ymarfer cynllunio ymchwil a dulliau ymchwil. Bydd myfyrwyr yn dysgu sut i lunio cwestiynau ymchwil priodol a sut i ddatblygu dull o ddod o hyd i atebion.

• Research Applications

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r prif ddamcaniaethau sy'n berthnasol i'w maes arbenigol (marchnata, rheolaeth, cyfrifeg, bancio a chyllid) gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r syniadaeth ddiweddaraf yn eu dewis faes.

• Qualitative Methods for Researchers

Nod y modiwl yw rhoi hyfforddiant am y prif fathau o ymchwil meintiol a dulliau cymysg yn y gwyddorau cymdeithas. Bydd myfyrwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ansoddol ac yn datblygu'r sgiliau i roi amrywiaeth o ddulliau o'r fath ar waith.

• Quantitative Methods for Researchers

Nod y modiwl yw arfogi myfyrwyr â sgiliau meintiol uwch ar gyfer cynnal ymchwil astudiaethau ariannol. Yn y modiwl hwn daw myfyrwyr i ddeall sut mae casglu a dadansoddi data meintiol mewn ymchwil astudiaethau ariannol, yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

• MSc Traethawd hir

Cyfle yw'r modiwl hwn i weld ymchwil ar waith a chael ysgogi, cynllunio a chyflawni darn sylweddol o waith ymchwil.

Modiwlau Dewisol - dewis 1:

- Current Issues in Business and Management
- Quantitative Methods for Financial Studies

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r MSc mewn Methodoleg Ymchwil yn llwybr delfrydol at astudiaethau PhD ac felly caiff ei gydnabod gan yr ESRC fel rhan o achrediad 1 + 3 PhD Ysgol Busnes Bangor.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/business

Accounting / Banking / Economics / Finance / Management Studies / Marketing PhD/MPhil

Mae Ysgol Busnes Bangor yn cynnal rhaglen dra llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio ar gyfer graddau ymchwil MPhil neu PhD. Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) y Deyrnas Unedig yn cydnabod ein rhaglen PhD am ei rhagoriaeth o ran hyfforddiant gwyddorau cymdeithas.

THE DIFFERENCE BETWEEN PHD AND MPhil?

Fel rheol, bydd gradd PhD yn cymryd 3 blynedd yn llawn amser; neu 5-6 blynedd yn rhan amser. Disgwyllir i ymgeiswyr gyflwyno canlyniadau eu hymchwili mewn traethawd ymchwil 100,000 o eiriau sy'n gyfraniad gwreiddiol ac arwyddocaol at wybodaeth yn y maes pwnc a astudiwyd, a sefyll arholiad llafar.

Fel rheol, bydd gradd MPhil (Meistr mewn Athroniaeth) yn para 2 flynedd yn llawn amser neu 3 blynedd yn rhan amser. Mae'n rhaid i ymgeiswyr gwblhau'n llwyddiannus raglen gydnabyddedig o ymchwil dan oruchwyliaeth, a chyflwyno eu canlyniadau mewn traethawd ymchwil o hyd at 60,000 o eiriau.

GOFYNION MYNEDIAD

Dylai ymgeiswyr am fynediad i radd MPhil fod â gradd dosbarth cyntaf neu radd ail ddosbarth uwch mewn pwnc perthnasol, megis economeg, cyllid, cyfrifeg, rheolaeth busnes neu farchnata. Rhaid i ymgeiswyr am fynediad i radd PhD fod â gradd Meistr mewn pwnc perthnasol - fel rheol, mae angen bod wedi cael rhagoriaeth. Mae'n bosibl cofrestru yn y man cyntaf i wneud gradd MPhil, ac yna, yn amodol ar wneud cynnydd boddhaol, trosglwyddo i wneud gradd PhD ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47.

DISGRIFIAD O'R CWRS

I gael gradd PhD, disgwyllir i chi gyflwyno canlyniadau eich ymchwil mewn traethawd ymchwil sy'n gyfraniad gwreiddiol ac arwyddocaol at wybodaeth yn y maes pwnc a astudiwyd, a sefyll arholiad llafar. I gael gradd MPhil (Meistr mewn Athroniaeth), disgwyllir i chi gwblhau'n llwyddiannus raglen o ymchwil dan oruchwyliaeth, a chyflwyno'r canlyniadau mewn traethawd ymchwil. Gallwch hefyd wneud gradd Meistr trwy Ymchwil ar bwnc ymchwil penodol.

PREPARING A RESEARCH PROPOSAL

Fel rhan o'r broses ymgeisio am fynediad i radd ymchwil, gofynnir i chi gyflwyno cynnig ymchwil. Dylai gyd-fynd â diddordebau ymchwil ac arbenigedd yr aelodau staff, gan mai dyma'r meysydd y gallwn gynnig goruchwyliaeth ymchwil ynddynt. Rydym felly'n argymhell bod ymgeiswyr yn cyfeirio at dudalennau gwe aelodau staff cyn paratoi cynnig ymchwil: www.bangor.ac.uk/business/staff/cy

Dylai'r cynnig ymchwil fod rhwng 1,500 a 2,500 o eiriau, a dylai amlinellu'r canlynol:

- Y teitl dros dro
- Cwestiwn neu ragdybiaeth ganolog i'w ymchwilio
- Prif amcanion yr ymchwil
- Adolygiad llenyddiaeth
- Disgrifiad o'ch pwnc
- Methodoleg - sut y byddwch yn ateb y cwestiwn ymchwil
- Llyfryddiaeth
- Amserlen

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/business/academic/research_degrees

HYD Y CWRS

MSc/MA: Blwyddyn yn llawn amser.

Mae'r cyrsiau hyn wedi'u hachredu'n llawn gan Sefydliad y Bancwyr Siartredig. Mae hyn yn golygu y byddwch yn graddio gyda chymhwyster deuol: MSc/MA Bancio a Chyllid a Diploma Banciwr Siartredig, sef y safon aur ar gyfer bancwyr proffesiynol. Rydym yn falch o fod yn rhan o grŵp dethol o ysgolion busnes sy'n cynnig y cymhwyster deuol hwn.

GOFYNIION MYNEDIAD

I gael mynediad i'r rhaglen MSc/MA Bancio a Chyllid (Banciwr Siartredig) mae'n rhaid cael gradd anrhydedd sengl neu radd cydanrhydedd 2(ii) neu uwch mewn pwnc cysylltiedig, neu gymhwyster tramor a chanlyniad cyfwerth. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir profiad gwaith a ffactorau eraill.

Fel rheol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg - gweler tudalen 47

DISGRIFIAD O'R CWRS

Yn y rhaglen radd hon bydd myfyrwyr yn cael hyfforddiant rheolaeth a busnes ar lefel uwch sy'n ymwneud â materion rheolaethol ymarferol ym maes bancio a chyllid. Mae hyn yn golygu dadansoddi sut mae cwmnïau bancio / ariannol yn cael eu rhedeg gan gynnwys: rheolaeth ariannol a strategol banciau, datblygu'r sector bancio a'r sector ariannol, perfformiad banciau a chorfforaethau, dadansoddi prif nodweddion systemau a marchnadoedd ariannol. Bydd hefyd yn datblygu sgiliau academaidd a rheolaethol myfyrwyr ym maes bancio/gwasanaethau ariannol fel eu bod yn gyfarwydd â'r datblygiadau strategol a thechnolegol diweddaraf yn y diwydiant gwasanaethau ariannol.

Bydd y rhaglen hon yn arfogi'r myfyrwyr i gael gwaith a datblygu eu gyrfaedd yn y sector ariannol trwy ddatblygu a gwella ystod o sgiliau deallusol a sgiliau astudio trosglwyddadwy, ynghyd â gwella sgiliau dysgu gydol oes a datblygu personol er mwyn cyfrannu at gymdeithas.

Modiwlau Gorfodol (MA):**• International Banking**

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

• Financial Ethics & Regulation*

Mae'r modiwl hwn yn ystyried moeseg ariannol ac ymddygiad sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant gwasanaethau ariannol o ran rheoleiddio busnes. Mae'n rhoi sylw i nifer o bryderon ynghylch ymarfer moesegol gwael yn y gwasanaethau ariannol, moeseg busnes a sut mae sicrhau arfer foesebol yn y maes ariannol.

• Credit & Lending*

Mae'r modiwl hwn yn ystyried credyd a benthyca o safbwynt cymhwysol a phroffesiynol. Mae'r modiwl yn rhoi sylw i nifer o bynciau a materion o werthuso ceisiadau am fenthyciad yn feirniadol, nodi a chadw at gyfyngiadau cyfreithiol a deall sut mae arfer sgiliau rheoli risg, fel y mae'n ofynnol i fanciaiwr proffesiynol modern ei wneud.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiau dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• Bank Financial Management

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r myfyrwyr am hanfodion natur, cyd-destun strategol a swyddogaethau rheolaethol rheolaeth ariannol mewn banciau, a chwmnïau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol.

• International Financial Management

Yn y modiwl hwn edrychir ar reolaeth ariannol cwmnïau amlwladol a dylanwad amgylcheddau macroeconomaidd, cyllidol, arian cyfred a gwleidyddol ar brosesau gwneud penderfyniadau busnes a phenderfyniadau ariannol mewn cyd-destun rhyngwladol a byd-eang.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MA Traethawd hir
- Traethawd Hir Cyllid

Modiwlau Dewisol - dewis 2:

- Financial Technology
- Investment Strategy & Portfolio Management
- International Financial Markets
- Financial Analysis
- Islamic Banking
- Executive Compensation

* Rhaid cymryd y modiwlau hyn a llwyddo ynddynt gyda marc sydd o leiaf 50% er mwyn cael cymhwyster gydag achrediad Banciwr Siartredig

Modiwlau Gorfodol (MSc):**• International Financial Markets**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg o offerynnau ariannol mewn byd aml-arian cyfred, gan ystyried damcaniaeth portffolio o ran y berthynas rhwng risg ac adenillion, arallgyfeirio risg, a phrisio asedau.

• International Banking

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar wreiddiau bancio rhyngwladol, gweithgarwch banciau rhyngwladol, y marchnadoedd y maent yn rhan ohonynt, a'r ffynonellau risg.

• Financial Ethics & Regulation*

Mae'r modiwl hwn yn ystyried moeseg ariannol ac ymddygiad sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant gwasanaethau ariannol o ran rheoleiddio busnes. Mae'n rhoi sylw i nifer o bryderon yng-hylch ymarfer moesegol gwael yn y gwasanaethau ariannol, moeseg busnes a sut mae sicrhau arfer foesebol yn y maes ariannol.

• Credit & Lending*

Mae'r modiwl hwn yn ystyried credyd a benthyca o safbwynt cymhwysol a phroffesiynol. Mae'r modiwl yn rhoi sylw i nifer o bynciau a materion o werthuso ceisiadau am fenthyciad yn feirniadol, nodi a chadw at gyfyngiadau cyfreithiol a deall sut mae arfer sgiliau rheoli risg, fel y mae'n ofynnol i fanciaiwr proffesiynol modern ei wneud.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn datblygu gwybodaeth am ddulliau ymchwil canolradd ac uwch, ac yn darparu sylfaen mewn methodoleg ymchwil i'r rheini sydd eisiau dilyn graddau ymchwil yn y pen draw.

• Bank Financial Management

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r myfyrwyr am hanfodion natur, cyd-destun strategol a swyddogaethau rheolaethol rheolaeth ariannol mewn banciau, a chwmnïau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol.

• Financial Econometrics

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw manwl i ddulliau ac arferion econometreg a ddefnyddir i fodelu data ariannol a busnes.

Ynghyd â dewis 1 o'r canlynol:

- MSc Traethawd hir
- Traethawd Hir Cyllid

Modiwlau Dewisol - dewis 1:

- Investment Strategy & Portfolio Management
- Financial Analysis
- Islamic Banking
- Executive Compensation
- Merger and Acquisition

* Rhaid cymryd y modiwlau hyn a llwyddo ynddynt gyda marc sydd o leiaf 50% er mwyn cael cymhwyster gydag achrediad Banciwr Siartredig

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion rhaglenni Ysgol Busnes Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 47 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/business/postgraduate-courses

Ysgol y Gyfraith Bangor

Mae Ysgol y Gyfraith Bangor yn ysgol y gyfraith arloesol sy'n ehangu gan ddod ag agweddau rhyngwladol i'w gweithgaredd addysgu ac ymchwil. Cyfoethogir y profiad academiaidd gan gyfres o weithgareddau ychwanegol a chyd-gwricwlaidd sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i wella'ch rhagolygon gyrf. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun lleoliad gwaith, ffug ddadleuon cyfreithiol a ffair yrfaedd flynyddol. Un o nodweddion amlwg ein cyrsiau yw dosbarthiadau bychain lle mae myfyrwyr yn gallu ymwneud yn rhwydd â staff academiaidd.

Mae ein cyrsiau'n ymdrin â materion cyfoes sy'n berthnasol i faes busnes a gwleidyddiaeth ar draws y byd ac maent yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fyfyrwyr allu gweithredu'n llwyddiannus mewn marchnad gynyddol fyd-eang.

Staff

Mae staff Ysgol y Gyfraith Bangor yn raddedigion o rai o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, megis Caergrawnt, College of Europe, Queen Mary, Renmin, National University of Ireland a Queen's, Belfast. Mae sawl un wedi gweithio o'r blaen fel gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith mewn swyddi fel barnwyr, cyfreithwyr ac ynadon. Adlewyrchir yr arbenigedd hwn yn ein haddysgu, yn ogystal â'n gweithgaredd ymchwil helaeth ym meysydd cyfraith caffael a chyfraith ryngwladol.

Ynghyd â'r cyfuniad cyfoethog hwn o gefndiroedd, mae ymchwil aelodau staff yn adlewyrchu arbenigedd mewn meysydd sy'n cynnwys Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd, Cyfraith Cyllid Corfforaethol, Cyfraith Forwrol, Cyfraith Ryngwladol, Cyfraith Fasnachol, Cyfraith Cwmnïau, Cyfraith Plant a Theuluoedd, Cyfraith Amgylcheddol, Cyfraith Eiddo Deallusol, Cyfraith Droseddol Ryngwladol a Chyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol. Mae datblygu pobl ifanc broffesiynol trwy hyfforddiant ymchwil MPhil a PhD yn rhan ganolog o genhadaeth yr ysgol ac mae'r rhaglen ddoethuriaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at hyfforddi ymchwilwyr y dyfodol.

Cyfleusterau

Er mwyn cefnogi ein myfyrwyr trwy gydol eu hastudiaethau, mae Ysgol y Gyfraith a'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth o adnoddau dysgu a gefnogir gan staff profiadol.

Ymhlith y cyfleusterau mae Llyfrgell y Gyfraith helaeth sydd wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol ac sy'n cael ei goruchwylio gan Lyfrgellydd y Gyfraith penodedig sy'n rhoi cefnogaeth a chynghor arbenigol i fyfyrwyr. Mae'n cynnwys adnoddau printiedig ac electronig sy'n adlewyrchu addysgu ac ymchwil cyfredol yn yr Ysgol.

Mae'r casgliad yn cynnwys cyfrolau cyfeiriadol, statudau, adroddiadau cyfraith, cyfnodolion, llyfrau, pamffledi, cyhoeddiadau swyddogol, papurau newydd a chronfeydd data ar-lein.

Golwg gyffredinol ar feysydd academiaidd
Mae ein cyfres o raglenni Meistr yn adlewyrchu ein harbenigedd a'n hymrwymiad i addysgu ôl-raddedig o safon uchel. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o raddau LLM, gan ganolbwyntio ar Gyfraith Fasnachol a Busnes Ryngwladol, Cyfraith Bancio, Cyfraith Eiddo Deallusol, Troseddeg, Cyfraith Ryngwladol, Cyfraith Caffael Cyhoeddus a Chyfraith Forwrol. Rydym hefyd yn cynnig LLM cyffredinol yn y Gyfraith, sy'n galluogi myfyrwyr i ddewis o ddetholiad o fodiwlau a thrwy hynny deilwra eu hastudiaethau i'w diddordebau personol eu hunain; ac rydym yn darparu goruchwyliaeth arbenigol PhD a MPhil mewn ystod o feysydd cyfreithiol.

Rydym wedi ymuno ag Ysgol Busnes Bangor, sydd yn gyson ymhlith y 25 sefydliad uchaf yn y DU am ymchwil ym maes Bancio (RePEc), i gynnig graddau Meistr ar y cyd sy'n cyfuno'r Gyfraith â Bancio neu Reolaeth. Bydd y rhaglenni hyn yn paratoi swyddogion gweithredol fydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o reoli mentrau modern yn llwyddiannus, a pharatoi swyddogion gweithredol banciau a chyfreithwyr ym maes bancio i symud i swyddi allweddol yn y sector cyllid.

Ysgoloriaethau

Er mwyn helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial llawn, mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau i fyfyrwyr ôl-radd. Gweler y wefan am wybodaeth bellach.

Cysylltiadau â diwydiant

Trwy ein gwaith parhaus yn datblygu cysylltiadau ag ymarferwyr cyfreithiol ledled y DU, mae'r Brifysgol yn gallu cynnig rhaglen drawiadol o leoliadau gwaith i fyfyrwyr. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnig cyfle unigryw i brofi'r math o yrfaedd yr hoffai graddedigion y Gyfraith eu dilyn, o fusnesau cyfreithwyr i lywodraeth leol.

Rydym hefyd yn trefnu Ffair Yrfaedd flynyddol y gyfraith gyda'r nod o annog myfyrwyr i feddwl am y llwybrau gyrf. y maent am eu dilyn a'u helpu i gymryd y cam nesaf tuag at eu hamcanion penodol.

Rhagolygon Gyrf

Bydd gan raddedigion gyda graddau ôl-raddedig o Ysgol y Gyfraith Bangor ragolygon rhagorol i gael gwaith mewn amrywiaeth o swyddi mewn cwmnïau cyfreithiol, llywodraeth leol, y gwasanaeth sifil, diwydiant, rheolaeth, sefydliadau rhyngwladol a mwy. Gall graddedigion fynd ymlaen hefyd i wneud ymchwil bellach (PhD/MPhil) os dymunant.

Mae'r holl wybodaeth am fodiwlau'n gywir adeg argraffu'r llyfryn ond fe all newid. Edrychwch ar y wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

RHESTR CYRSIAU:

LLM

- International Commercial and Business Law
- International Intellectual Property Law
- International Law
- International Criminal Law and International Human Rights Law
- Law (General)
- Law and Banking
- Law and Criminology
- Law of the Sea
- Maritime Law
- Public Procurement Law and Strategy
- Procurement Law, Strategy and Practice by Distance Learning

MA

- Banking and Law (gweler tudalen 51)
- Criminology and Law (gweler tudalen 72)

MBA

- Banking and Law (gweler tudalen 51)
- Law and Management (gweler tudalen 58)

PhD/MPhil/LLM trwy Ymchwil

- Law

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382085

E-bost: law.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/law

Gofynion iaith Saesneg

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg.

Graddau LLM:

- IELTS 6.5 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 6.0)

Graddau MBA a MA:

- IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 5.5)

PhD/MPhil/LLM trwy Ymchwil:

- IELTS 7.0 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 6.5)

Gall ymgeiswyr nad ydynt wedi cyrraedd y lefel ofynnol ddilyn cyrsiau iaith Saesneg yn ELCOS, Canolfan iaith Saesneg y Brifysgol, cyn dechrau'r cwrs - gweler elcos.bangor.ac.uk

Ysgol Gyfraith orau yng Nghymru (Guardian University Guide 2019)

International Commercial and Business Law LLM

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Rydym yn derbyn ceisiadau gan raddedigion LLB (Anrhydedd Sengl a Chyd-anrhydedd) a phynciau cysylltiedig fel Cyfrifeg, Cyllid, Bancio, Astudiaethau Rheolaeth, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwyddorau Cymdeithas. Yn achos graddedigion LLB a rhai â gradd gysylltiedig, rydym fel rheol yn gofyn am o leiaf radd ail ddosbarth is o brifysgol a gymeradwyir. Bydd ceisiadau gan rai â graddau mewn disgyblaethau nad ydynt yn perthyn yn cael eu hystyried fesul achos. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol.

Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Rhaglen gyffrous, berthnasol yn fasnachol sy'n darparu cwricwlwm manwl a hyfforddiant trylwyr yn y gyfraith, polisi a rheoleiddio cyfreithiol sy'n rheoli meysydd allweddol masnach a diwydiant ledled y byd. Mae'r cwrs hwn yn arbennig o berthnasol i rai sy'n rhagweld gyrfaedd mewn busnes a diwydiant, neu'n bwriadu arbenigo mewn ymarfer cyfreithiol yn y maes masnachol, ac sy'n dymuno datblygu'r arbenigedd a'r gallu i roi sylw i ddatblygiad busnes a'i reoli o fewn fframwaith cyfreithiol, p'un ai yn y DU neu yn rhyngwladol.

Modiwlau gorfodol:

• Legal Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau cyfreithiol a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• International Sales Law

Pwrpas y modiwl yw archwilio'n feirniadol y statudau a'r gyfraith achosion sy'n llywodraethu trafodion gwerthu rhyngwladol. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar ddadansoddiad beirniadol o rwymedigaethau partion cytundebol dan delerau masnach traddodiadol fel CIF a FOB ac Incoterms a Chonfensiynau Rhyngwladol.

• Traethawd hir

Modiwlau dewisol - dewiswch 4:

- Competition Law
- Intellectual Property Law
- International Commercial Arbitration
- Comparative Corporate Governance
- Employment Law
- EU Internal Market Law
- Marine Insurance
- Carriage of Goods by Sea
- International Banking Law
- Global Trade Law
- International Climate Change Law and Policy

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol Y Gyfraith Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law

International Intellectual Property Law LLM

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Rydym yn derbyn ceisiadau gan raddedigion LLB (Anrhydedd Sengl a Chyd-anrhydedd) a phynciau cysylltiedig fel Cyfrifeg, Cyllid, Bancio, Astudiaethau Rheolaeth, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwyddorau Cymdeithas. Yn achos graddedigion LLB a rhai â gradd gysylltiedig, rydym fel rheol yn gofyn am o leiaf radd ail ddosbarth is o brifysgol a gymeradwyir. Bydd ceisiadau gan rai â graddau mewn disgyblaethau nad ydynt yn perthyn yn cael eu hystyried fesul achos. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol.

Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y rhaglen hon yn eich galluogi i ddatblygu eich arbenigedd mewn Cyfraith Eiddo Deallusol. Bydd y cwrs yn cynnwys astudiaethau cymharol o wahanol awdurdodaethau cenedlaethol, gan ddarparu safbwyntiau cenedlaethol a rhyngwladol.

Byddwch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddofn o theori Eiddo Deallusol, a hefyd y rhesymeg dros amddiffyn Hawliau Eiddo Deallusol. Trwy astudiaethau o wahanol awdurdodaethau, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r modd mae amddiffyn Eiddo Deallusol yn amrywio mewn gwahanol rannau o'r byd. Trwy astudiaethau o gyfraith achosion o wahanol awdurdodaethau, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r modd y gall y cyddestun cymdeithasol effeithio ar faterion Cyfraith Eiddo Deallusol Rhyngwladol. Datblygir sgiliau asesu cyfraith gymharol i lefel uchel gan y byddwch yn astudio cyfundrefnau cyfreithiol cenedlaethol a rhyngwladol.

Modiwlau gorfodol:

• Legal Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau cyfreithiol a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• Intellectual Property Law

• Traethawd hir

Modiwlau dewisol - dewiswch 4:

- EU Internal Market Law
- Comparative Corporate Governance
- International Commercial Arbitration
- International Sales Law
- Competition Law
- Global Trade Law

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol Y Gyfraith Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law



HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol rydym yn gofyn am o leiaf radd 2.ii mewn pwnc cysylltiedig (e.e. Y Gyfraith, Astudiaethau Rheolaeth, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Rhyngwladol, Gwyddorau Cymdeithas) o brifysgol a gymeradwyir. Bydd ceisiadau gan rai â graddau mewn disgyblaethau nad ydynt yn perthyn yn cael eu hystyried fesul achos. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol.

Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedruswydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bwriad y cwrs hwn yw darparu addysg gyffredinol ond cynhwysfawr i fyfyrwyr mewn amrywiaeth o agweddau ar faes cyfraith ryngwladol. Bydd y cwrs yn eich galluogi i feistrolu egwyddorion sylfaenol y ddisgyblaeth ac archwilio damcaniaethau lefel uwch, yn ogystal â deall y sialensiau traddodiadol a chyfoes niferus mewn Cyfraith Ryngwladol. Bydd gennych ystod eang o fodiwlau dewisol i ddewis ohonynt, ac felly efallai y byddwch am sicrhau gwybodaeth fwy eang yn hytrach nag arbenigol.

Trwy waith cwrs a gynlluniwyd yn ofalus a dulliau addysgu amrywiol, byddwch yn dysgu bod yn ddeallusol agored a dysgu sgiliau sy'n ymwneud ag arbenigedd technegol a meddwl yn feirniadol, sy'n hanfodol er mwyn bod yn effeithiol mewn maes lle ceir cystadleuaeth gynyddol fyd-eang am swyddi. Bydd y rhaglen yn eich paratoi i ymateb yn effeithiol i'r ystod eang o sialensiau deallusol a phroffesiynol sy'n wynebu cyfreithwyr rhyngwladol cyfoes, ac i ddelio â gwaith achosion a llunio polisiâu.

Modiwlau gorfodol:**• Legal Research Methods**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau cyfreithiol a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• Public International Law

Bydd y modiwl hwn yn eich dysgu am werthoedd, egwyddorion a rheolau sylfaenol Cyfraith Ryngwladol Gyhoeddus. Bydd hwn yn gwrs cytbwys, gydag elfennau hanfodol

hanes, theori, y gyfraith ac ymarfer yn cael eu cyflwyno.

• Traethawd hir**Modiwlau dewisol - dewiswch 4:**

- Global Trade Law
- International Human Rights Law
- EU Internal Market Law
- Competition Law
- Comparative Corporate Governance
- International Banking Law
- International Commercial Arbitration
- Intellectual Property Law
- International Law of Armed Conflict
- International Climate Change Law & Policy

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol Y Gyfraith Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/law

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol rydym yn gofyn am o leiaf radd 2.ii mewn pwnc cysylltiedig (e.e. Y Gyfraith, Astudiaethau Rheolaeth, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Rhyngwladol, Gwyddorau Cymdeithas) o brifysgol a gymeradwyir. Bydd ceisiadau gan rai â graddau mewn disgyblaethau nad ydynt yn perthyn yn cael eu hystyried fesul achos. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis gan ystyried eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedruswydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynlluniwyd y rhaglen hon i'ch helpu i ddod yn arbenigwr ym meysydd Cyfraith Ryngwladol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phobl: Cyfraith Droseddol Ryngwladol a Chyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol. Byddwch yn astudio modiwlau sylfaenol yn y meysydd hyn ac yn ysgrifennu traethawd hir ar bwnc o fewn Cyfraith Droseddol Ryngwladol neu Gyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol. Gellir dewis y modiwlau sy'n weddill o ystod o opsiynau perthnasol.

Trwy waith cwrs a gynlluniwyd yn ofalus a dulliau addysgu amrywiol, byddwch yn dysgu bod yn ddeallusol agored a dysgu sgiliau sy'n ymwneud ag arbenigedd technegol a meddwl yn feirniadol, sy'n hanfodol er mwyn bod yn effeithiol mewn maes lle ceir cystadleuaeth gynyddol fyd-eang am swyddi. Bydd y rhaglen yn eich paratoi i ymateb yn effeithiol i'r ystod eang o sialensiau deallusol a phroffesiynol sy'n wynebu rhai sy'n gweithio ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â'r person dynol, ac i ddelio â gwaith achosion a llunio polisiâu.

Modiwlau gorfodol:**• Legal Research Methods**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau cyfreithiol a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• International Criminal Law

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth gytbwys a thrylwyr i chi o hanfodion Cyfraith Droseddol Ryngwladol.

• International Human Rights Law

Amcan y modiwl hwn yw rhoi dealltwriaeth eang ond trylwyr i chi o Gyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol, sy'n ymdrin ag amrywiol agweddau ar hanes, theori, gwleidyddiaeth, y gyfraith ac ymarfer.

• Traethawd hir**Modiwlau dewisol - dewiswch 3:**

- International Law of Armed Conflict
- Public International Law
- International Climate Change Law & Policy
- Global Trade Law
- Transnational Crime

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol Y Gyfraith Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/law

Law (General) LLM

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD

Rydym yn derbyn ceisiadau gan raddedigion LLB a disgyblaethau eraill. Yn achos graddedigion LLB, rydym fel rheol yn gofyn am o leiaf radd ail ddosbarth is o brifysgol a gymeradwyir. Bydd ceisiadau gan rai â graddau mewn disgyblaethau nad ydynt yn perthyn yn cael eu hystyried fesul achos. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol.

Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a factorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Yn achos y myfyriwr anarbenigol, mae'r LLM cyffredinol hwn yn caniatáu i chi ddethol a dewis modiwlau o'r cynlluniau arbenigol. Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwl gorfodol mewn Dulliau Ymchwil Gyfreithiol ynghyd â modiwlau hyfforddedig, a ddewisir o'r rhestr gyferbyn. Gall y traethawd hir fod ar unrhyw bwn cyfreithiol ar yr amod ei fod yn cael ei gymeradwyo gan Ysgol y Gyfraith.

Modiwl Gorfodol:

• Legal Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau cyfreithiol a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• Traethawd hir

Modiwlau dewisol - dewiswch 5:

- Competition Law
- Marine Insurance
- Intellectual Property Law
- International Banking Law
- International Commercial Arbitration
- International Sales Law
- Comparative Corporate Governance
- Global Trade Law
- Employment Law
- EU Internal Market Law
- Expert Evidence in Court
- International Climate Change Law & Policy
- Forensic Linguistics in Court

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol y Gyfraith Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law

Law and Banking LLM

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rydym yn derbyn ceisiadau gan raddedigion LLB (Anrhydedd Sengl a Chyd-anrhydedd) a phynciau cysylltiedig fel Cyfrifeg, Cyllid, Bancio, Astudiaethau Rheolaeth, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwyddorau Cymdeithas. Yn achos graddedigion LLB a rhai â gradd gysylltiedig, rydym fel rheol yn gofyn am o leiaf radd ail ddosbarth is o brifysgol a gymeradwyir. Bydd ceisiadau gan rai â graddau mewn disgyblaethau nad ydynt yn perthyn yn cael eu hystyried fesul achos. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol.

Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a factorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bwriad y cwrs hwn yw darparu addysg gyffredinol ond cynhwysfawr i chi mewn amrywiaeth o agweddau ar faes Cyfraith Bancio Rhyngwladol. Bydd y cwrs yn eich galluogi i feistrolu egwyddorion sylfaenol y ddisgyblaeth (a ystyrir o safbwynt rhyngwladol) ac i archwilio themâu mwy manwl gan gynnwys:

- Y Fframwaith Rheoleiddio
- Rheoleiddio/goruchwylio darbodus
- Banciau a Marchnadoedd Cyfalaf
- Bancio trawsffiniol
- Y cyfarwydddebau i atal gwyngalchu arian
- Cyllid Islamaidd

Bydd y rhaglen hon yn tynnu sylw at y sialensiau niferus sy'n wynebu rhai sy'n llunio polisiau bancio a bydd yn eich galluogi i drafod a dadlau atebion posibl i broblemau o'r fath. Bydd gennych ystod eang o fodiwlau i ddewis ohonynt - gan gynnwys llawer o'r Ysgol Busnes - gan eich galluogi i dderbyn gwybodaeth arbenigol o ddwy ddisgyblaeth wahanol.

Modiwlau gorfodol:

• Legal Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau cyfreithiol a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• International Banking Law

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth gadarn i chi o gyfraith a dulliau gweithredu bancio rhyngwladol modern.

• Traethawd hir

Modiwlau dewisol - dewiswch 6:

Modiwlau busnes - dewiswch 1 neu 2:

- Bank Financial Management
- International Banking
- Corporate Risk Management
- Islamic Finance
- Islamic Banking
- Investment Strategy and Portfolio Management

Modiwlau'r gyfraith - dewiswch 4 neu 5:

- Competition Law
- Marine Insurance
- International Commercial Arbitration
- Global Trade Law
- Comparative Corporate Governance
- Employment Law
- EU Internal Market Law

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd cyfleoedd cyflogaeth i raddedigion y rhaglen hon yn cynnwys gwaith gyda chwmnïau cyfreithiol rhyngwladol; banciau neu gwmnïau buddsoddi (fel cwnslers mewnol); banciau arbenigol neu fanciau canolog e.e. Banc Buddsoddi Ewropeaidd (EIB), EBRD, yr ECB (Banc Canolog yr Undeb Ewropeaidd), Banc Datblygu Affrica, yr IMF a Banc y Byd; awdurdodau rheoleiddio ariannol cenedlaethol a sefydliadau rhyngwladol fel Sefydliad Masnach y Byd a'r Undeb Ewropeaidd; llysoedd a thribiwnlysoedd rhyngwladol; 'melinau trafod' a chanolfannau ymchwil; a'r llywodraeth (e.e. y Weinyddiaeth Gyllid). Bydd yna bosibiliadau, wrth gwrs, i raddedigion sydd â thueddiad academaidd i ddilyn gyrfaedd mewn addysgu ac ymchwil.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rydym yn derbyn ceisiadau gan raddedigion Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol, LLB (Anrhydedd Sengl a Chyd-anrhydedd) a phynciau cysylltiedig fel Gwleidyddiaeth neu'r Gwyddorau Cymdeithas. Fel rheol, rydym yn gofyn am radd ail ddosbarth uwch (neu gyfwerth), ond bydd ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â gradd ail ddosbarth is a chymwysterau proffesiynol a/neu brofiad priodol hefyd yn cael eu hystyried. Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedruswydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynigir y radd LLM Cyfraith a Throseddeg ar y cyd â'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, gan roi gwybodaeth a sgiliau ar lefel ôl-raddedig i chi ym meysydd rhyngddisgyblaethol troseddeg a'r gyfraith. Mae'n adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth droseddegol a chyfreithiol er mwyn rhoi hyfforddiant arbenigol mewn troseddeg, cyfiawnder troseddol ac ymchwil i'r gyfraith. Byddwch yn datblygu gwedd ryngwladol ar drosedd, cyfiawnder a'r gyfraith trwy ddulliau ymddrin cenedlaethol a thraws-genedlaethol ac astudiaethau achos ar gymdeithasau eraill, yn ogystal ag astudio materion o bwys ym maes troseddeg a chyfraith gyfoes. Byddwch hefyd yn meithrin ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy.

Cynigir rhaglen debyg - MA Troseddeg a'r Gyfraith - gan yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas. Gweler tudalen 70 am fwy o fanylion.

Modiwlau gorfodol:

• Legal Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• Traethawd hir

Traethawd hir wedi'i seilio ar y Gyfraith.

Modiwlau dewisol:

Dewiswch 2 o'r canlynol:

- Forensic Linguistics in Court
- International Criminal Law
- International Human Rights Law
- International Law of Armed Conflict
- Expert Evidence in Court

Dewiswch 3 o'r canlynol:

- Troseddeg Fforensig
- Transnational Crime
- Key Issues in Criminology
- Comparative and International Criminal Justice

RHAGOLYGMON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol Y Gyfraith Bangor ragolygion rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law



Law of the Sea LLM

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Fel rheol rydym yn gofyn am o leiaf radd 2.ii mewn pwnc perthnasol gan brifysgol a gymeradwywyd. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedruswydd yn y Saesneg.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs hwn yn apelio at ymgeiswyr sydd â diddordeb yng Nghyfraith y Môr a Chyfraith Ryngwladol, ond nad ydynt o reidrydd eisiau astudio agweddau masnachol gradd mewn Cyfraith Forwrol.

Mae'r cwrs yn canolbwyntio'n bennaf ar Gyfraith Ryngwladol, gyda phwyslais arbennig ar Gyfraith y Môr. Bydd myfyrwyr yn meithrin arbenigedd yn y cysylltiad amlweddol rhwng gwahanol feysydd Cyfraith Ryngwladol, tra hefyd yn datblygu gwybodaeth arbenigol o'r gyfraith sy'n ymwneud â'r môr. Gellir addasu'r sgiliau a ddysgir ar y cwrs hwn i weithio mewn cyrff rhyngwladol (e.e. y Cenhedloedd Unedig), llysoedd a thribiwnlysoedd rhyngwladol, a chwmnïau cyfreithiol rhyngwladol; yn ogystal ag mewn swyddogaethau'n ymwneud â môr-

ladrad neu lygredd môr (e.e. Gwasanaethau Troseddau Masnachol yr ICC, y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol, Sefydliad Rheoli'r Môr a'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau).

Modiwlau gorfodol:

• Legal Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• Public International Law

Mae'r modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o Gyfraith Gyhoeddus Ryngwladol, sy'n hanfodol er mwyn symud ymlaen i astudio amrywiol feysydd arbenigol y ddisgyblaeth yn fanylach, megis Cyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol. Trwy'r modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn dysgu am werthoedd, egwyddorion a rheolau sylfaenol Cyfraith Gyhoeddus Ryngwladol.

• Law of the Sea

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar gyfraith ryngwladol y môr, gan roi sylw penodol i broblemau rheoleiddio sy'n dod i'r amlwg ar y môr. Cyflwynir Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (LOSC) i'r myfyrwyr, sydd mewn gwirionedd yn rheoleiddio'r mwyafrif o faterion ar y môr. Bydd myfyrwyr yn dysgu gwahaniaethu rhwng y gwahanol barthau morwrol a bennwyd gan LOSC a sut y gall pob parth effeithio'n wahanol ar y ffordd yr ymddrinnir â materion.

• Traethawd hir

Modiwlau dewisol - dewiswch 3:

- International Climate Change Law and Policy
- International Criminal Law
- International Law of Armed Conflict
- International Human Rights Law
- Carriage of Goods by Sea

RHAGOLYGMON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol Y Gyfraith Bangor ragolygion rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law

HYD Y CWRS

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Ionawr a mis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Fel rheol rydym yn gofyn am o leiaf radd 2.ii mewn pwnc perthnasol (e.e. Y Gyfraith, Busnes) gan brifysgol a gymeradwywyd. Ar y llaw arall, gellir eich derbyn os oes gennych gymhwyster proffesiynol addas neu brofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail eu rhinweddau unigol. Caiff profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd eu hystyried.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn yn rhoi gwybodaeth a sgiliau lefel uwch ym meysydd Cyfraith Forwrol a Chyfraith Fasnachol. Bydd myfyrwyr yn datblygu safbwyntiau rhyngwladol a masnachol ar faterion yn ymwneud â Chyfraith Forwrol, ac yn dysgu gweithredu gydag arbenigedd yn y rhyngwyneb amlochrog rhwng gwahanol feysydd y maes.

Bydd myfyrwyr yn meithrin dealltwriaeth eang o Gyfraith Forwrol, gan gynnwys ei hegwyddorion a'i gwerthoedd sylfaenol, y dylanwadau arni, prif reolau'r ddisgyblaeth a'r fframwaith a'r sefydliadau sy'n sail iddi; yn ogystal â dealltwriaeth o'r gwahanol feysydd o fewn y ddisgyblaeth, megis cyfraith forwrol wlyb a chyfraith forwrol sych. Meithrinnir ymwybyddiaeth feirniadol trwy astudio llenyddiaeth ddiweddaraf, deddfwriaeth ryngwladol, confensiynau rhyngwladol, cyfraith yr UE a chyfraith achos ryngwladol.

Modiwlau gorfodol:**• Legal Research Methods**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• Marine Insurance

Pwrpas y modiwl hwn yw edrych yn feirniadol ar y statudau a'r gyfraith achosion sy'n ymwneud â materion yswiriant morwrol.

• Carriage of Goods by Sea

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys dwy ran: cyfraith forwrol sy'n ymwneud â chludo nwyddau, a cholledion morwrol a'u canlyniad.

• Traethawd hir**Modiwlau dewisol - dewiswch 4:**

- Climate Change Law and Policy
- International Sales Law
- Intellectual Property Law
- Competition Law
- International Commercial Arbitration
- Global Trade Law
- Law of the Sea

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gan raddedigion o Ysgol Y Gyfraith Bangor ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 61 am ragor o wybodaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law

Public Procurement Law and Strategy LLM**HYD Y CWRS**

LLM: Blwyddyn llawn-amser. Derbynnir myfyrwyr i'r cwrs hwn ym mis Medi yn unig.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai sydd â gradd israddedig 2.ii neu uwch mewn meysydd fel Y Gyfraith, Busnes, Rheolaeth, Entrepreneuriaeth, Cyllid, Marchnata, Peirianeg (neu unrhyw ddisgyblaeth arall); NEU 3 blynedd o brofiad gwaith mewn maes yn ymwneud â chaffael (nid oes angen gradd); NEU gymhwyster proffesiynol addas (e.e. MCIPS).

Yn achos rhai sydd â gradd israddedig, er nad oes angen unrhyw fath penodol o radd arnom, mae croeso arbennig i geisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi graddio yn y meysydd a ganlyn: Y Gyfraith; Busnes; Rheolaeth; Entrepreneuriaeth; Cyllid; Marchnata, Peirianeg neu feysydd cysylltiedig.

Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr rhyngwladol ddarparu tystiolaeth o fedrusrwydd mewn Saesneg er mwyn bodloni gofynion fisa'r Deyrnas Unedig.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae Prifysgol Bangor yn ganolfan ymchwil ryngwladol o bwys ym maes gweithredu cyfraith a pholisiau cenedlaethol ac Ewropeaidd yng nghyd-destun cyfraith caffael cyhoeddus. Gan adeiladu ar y profiad helaeth hwn, rydym yn cynnig gradd LLM llawn-amser sy'n arbenigo mewn Cyfraith a Strategaeth Caffael Cyhoeddus. Mae prif amcanion addysgol y rhaglen yn cynnwys:

• Rhoi gwybodaeth a sgiliau ar lefel ôl-raddedig i ymgeiswyr ym maes Cyfraith a Strategaeth Caffael Cyhoeddus cenedlaethol (DU ac Iwerddon), Ewropeaidd a rhyngwladol (WTO, Banc y Byd ac UNCITRAL).

• Adeiladu sgiliau a gwybodaeth gyfreithiol arbenigol i alluogi ymgeiswyr i weithredu yn y man cyfarfod rhwng egwyddorion cyfreithiol

sy'n berthnasol ym maes Caffael Cyhoeddus ac amcanion strategol buddiannau i sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

• Darparu rhaglen hyblyg sy'n galluogi ymgeiswyr i ddatblygu safbwyntiau cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol ar faterion ac ymarfer cyfraith Caffael Cyhoeddus, a fydd yn agor maes cwbl newydd o gyfleoedd i raddedigion.

Elfen strategol o'r rhaglen yw cyflwyno dysgu o safbwynt caffael cyhoeddus ei hun ac o safbwynt cyflenwyr yn y sector preifat, er mwyn gwella dealltwriaeth o'r materion cymhleth y mae sefydliadau sy'n ymwneud â thendro yn y sector cyhoeddus yn eu hwynebu, ac er mwyn datblygu atebion mwy creadigol i gaffael cyhoeddus sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Cyflawnir hyn trwy opsiynau modiwl a gynlluniwyd yn ofalus ac addysgu cydweithredol yn cynnwys defnyddio arbenigwyr cyfraith a strategaeth gaffael academiaidd ac arbenigol.

Modiwlau gorfodol:**• Legal Research Methods**

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sylw i ddatblygu'r sgiliau a dulliau ymchwil angenrheidiol i alluogi astudio systemau cyfreithiol a materion cyfreithiol penodol ar lefel Meistr.

• National and European Public Procurement Law

Mae'r modiwl yn galluogi myfyrwyr i ddeall cyfundrefnau cenedlaethol a rhyngwladol caffael cyhoeddus yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig. Mae myfyrwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gânt i ystyried egwyddorion a'r broses gaffael yn eu gwledydd eu hunain. Yn benodol, mae myfyrwyr yn edrych ar yr egwyddorion a'r rheolau o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, Cyfarwyddbau Caffael yr UE, deddfwriaeth cenedlaethol ym maes caffael, a chyfraith achos yr UE a chenedlaethol ar y gweithdrefnau tendro a'r broses gaffael (graddfeydd amser, dogfennaeth, hysbysebu,

rhag-gymhwyso, gwahoddiad i dendro a gwerthuso, dyfarnu contractau a rhwymedïau cyflenwyr, etc.).

• Applied Procurement Research Projects

Mae'r APRP yn cynnwys project ymchwil ac ysgrifennu cyfreithiol ym maes Cyfraith Caffael Cyhoeddus. Trwy'r project mae myfyrwyr, gyda chefnogaeth goruchwyliwr, yn edrych ar ystod eang o themâu cyfredol mewn Cyfraith a Strategaeth Caffael Cyhoeddus.

Modiwlau dewisol: (dewiswch 3)

Sylwer y bydd modiwlau dewisol a gynhelir bob blwyddyn yn dibynnu ar ba staff academiaidd fydd ar gael i'w dysgu.

- International Procurement Regimes
- Procurement Relationships and Ethics
- Strategic Procurement and Leadership
- Risk Management in Public Procurement
- Sustainable and Social Procurement
- Contract Design and Management
- Innovation in Public Procurement
- Litigation Strategies and the Remedies Regime

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd y rhaglen hon o ddiddordeb i sawl categori o ymgeiswyr.

I rai sy'n gweithio mewn swydd yn ymwneud â chaffael naill ai yn y sectorau cyhoeddus neu breifat, bydd yn gyfrwng delfrydol i rai sy'n dymuno symud ymlaen yn gyflymach yn eu gyrfa.

Mae'r cwrs hefyd yn addas i rai nad ydynt eto mewn swydd llawn-amser, ond sydd ag awydd i ddilyn gyrfa yn y maes hwn. Gyda'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyfraith a strategaeth caffael bydd yn rhoi'r portffolio o sgiliau allweddol y bydd ar fyfyrwyr eu hangen i gael swyddi uwch ym maes caffael yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law

HYD Y CWRS

LLM: 2 flynedd, rhan-amser. Derbynnir myfyrwyr ym mis Ionawr yn unig.

Yn achos ymgeiswyr nad ydynt yn dymuno symud ymlaen i'r lefel Meistr, mae 2 gymhwyster gadael ar gael hefyd: Tystysgrif Ôl-raddedig a Diploma Ôl-raddedig, yn dibynnu ar nifer y modiwlau a gwblhawyd.

GOFYNYION MYNEDIAD

- gradd israddedig yn Y Gyfraith, Busnes, Rheolaeth, Entrepreneuriaeth, Cyllid, Marchnata, Peirianeg neu unrhyw ddisgyblaeth arall; NEU
- 3 blynedd o brofiad gwaith mewn maes cysylltiedig â chaffael (nid oes angen gradd); NEU
- gymhwyster proffesiynol addas (e.e. MCIPS).

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedruswydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 61 am ragor o fanylion

DISGRIFIAD O'R CWRS

Gan ganolbwyntio ar gyfraith, strategaeth ac ymarfer caffael, bydd y cwrs dysgu o bell newydd hwn yn rhoi'r sgiliau allweddol y bydd ar fyfyrwyr eu hangen i gael swyddi uwch ym maes caffael yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Byddwch yn ennill cymhwyster gwerthfawr ar lefel Meistr gydag arbenigedd mewn cyfraith, strategaeth ac ymarfer caffael, a fydd yn galluogi i rai sydd eisoes yn gweithio mewn proffesiynau'n ymwneud â chaffael i symud ymlaen yn gyflymach yn eu gyrfaedd.

Bydd rhai sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y maes hwn yn cael cyfle unigryw i gynyddu eu dealltwriaeth yn gyflym ac i fynd i mewn i'r proffesiwn ar lefel uwch.

Darperir y rhaglen gan y tîm amlddisgyblaethol arbenigol yn Sefydliad Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael Prifysgol Bangor, a gydnabyddir yn rhyngwladol, a'i chyfnerthu gan ddosbarthiadau meistr gan gyflwynwyr gwadd arbenigol.

Bydd y cwrs hwn, a gyflwynir o bell ac yn rhan-amser, yn apelio at ymgeiswyr sy'n dymuno aros mewn gwaith llawn-amser tra byddant yn astudio'n rhan-amser, neu rai na allant symud i fyw i'r DU er mwyn dilyn cwrs ôl-raddedig.

Modiwlau:

- Procurement Law and Practice
- Procurement Relationships and Ethics
- Contract Design and Management
- Procuring Innovation
- Strategic Issues in Procurement
- International Procurement Regulation
- Leadership and Risk Management
- Research Methods and Skills

Bydd gofyn hefyd i fyfyrwyr sy'n dymuno graddio gyda LLM gwblhau'n llwyddiannus broiect ymchwil cymhwysol ym maes caffael.

Sylwer bod y wybodaeth am fodiwlau'n gywir pan gafodd ei hargraffu. Gall y modiwlau a gynigir, neu eu cynnwys, newid yn dibynnu ar y galwadau ar aelodau staff. Ewch i'r wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen a'r modiwlau.

CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Arweinir cyflwyno'r rhaglen gan Sefydliad Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael Prifysgol Bangor, a gydnabyddir yn rhyngwladol, gyda'i dîm amlddisgyblaethol o athrawon ac academyddion uwch. Cyfoethogir y cwrs ymhellach gan ddarlithwyr gwadd arbenigol - nodwedd ganolog ym mhob modiwl. Bydd myfyrwyr hefyd yn elwa o'r cyfle i rwydweithio ag arweinwyr ac arloeswyr caffael yn Sefydliad Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael Prifysgol Bangor, sy'n cynnwys cyflwyniadau, gweithdai a seminarau gan weithwyr proffesiynol caffael blaenllaw o bob cwr o'r byd.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd y rhaglen hon yn denu rhai sy'n gweithio mewn swydd yn ymwneud â chaffael naill ai yn y sectorau cyhoeddus neu breifat, a bydd yn gyfrwng delfrydol i rai sy'n dymuno symud ymlaen yn gyflymach yn eu gyrfa. Mae'r cwrs hefyd yn addas i rai nad ydynt eto mewn swydd lawn-amser, ond sydd ag awydd i ddilyn gyrfa yn y maes deinamig hwn. Gyda'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyfraith, strategaeth ac ymarfer caffael bydd yn rhoi'r portffolio o sgiliau allweddol y bydd ar fyfyrwyr eu hangen i gael swyddi uwch ym maes caffael yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/law



PROFFIL STAFF

DR HAYLEY ROBERTS Darlithydd mewn Cyfraith Ryngwladol Cyhoeddus

Mae Dr Hayley Roberts yn gyfreithiwr rhyngwladol sydd ag arbenigedd yng nghyfraith y môr. Cyflawnodd ei hastudiaethau israddedig ym Mhrifysgol Bangor, lle graddiodd gyda LLB (Anrh) yn y Gyfraith cyn gwneud PhD yn yr un sefydliad, gan ymchwilio i warchodaeth gyfreithiol treftadaeth ddiwylliannol danddwyr yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Mae prif ddiddordebau ymchwil Dr. Roberts yn ymwneud â gwarchod treftadaeth ddiwylliannol danddwyr a datrys anghydfodau yn ymwneud â chyfraith y môr, ac mae'n gyd-arweinydd ar Grŵp Ymchwil Cyfraith y Môr a Newid yn yr Hinsawdd yn yr Ysgol. Mae ganddi hefyd ddiddordeb cyffredinol yn y berthynas rhwng cyfraith ryngwladol ac is-wladwriaethau datganoledig, a threfn derbyn plant a aned yn yr haf i ysgolion. Mae'n Gomisinydd i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac yn aelod o Arsyllfa Cymru ar Hawliau Plant.

Dysgir Dr Roberts fodiwlau sy'n ymwneud â chyfraith ryngwladol ar yr LLM, megis 'Cyfraith Ryngwladol Gyhoeddus' a 'Cyfraith y Môr'. Mae'n arweinydd ar gyfer graddau Cyfraith Forwrol LLM a Chyfraith y Môr LLM, a hi yw Cydlynnydd Darpariaeth Cymraeg yr Ysgol.

PhD, MPhil and LLM by Research

Mae Ysgol y Gyfraith Bangor yn cynnig goruchwyliaeth arbenigol i raddau PhD, MPhil a LLM trwy ymchwil mewn amrywiaeth o feysydd cyfreithiol. Am radd PhD, disgwylir i ymgeiswyr gyflwyno canlyniadau eu hymchwil mewn traethawd ymchwil sy'n gyfraniad gwreiddiol sylweddol at wybodaeth yn y maes pwnc a astudiwyd, a sefyll arholiad llafar (viva voce). Am radd MPhil, disgwylir i ymgeiswyr gwblhau rhaglen o ymchwil dan oruchwyliaeth yn llwyddiannus, a chyflwyno'r canlyniadau mewn traethawd ymchwil. Neu, yn hytrach na gwneud gradd LLM hyfforddedig am flwyddyn, gellwch wneud gradd LLM trwy Ymchwil am flwyddyn ar bwnc ymchwil penodol a chyflwyno traethawd hir 30,000 o eiriau.

Caiff pob myfyriwr ymchwil oruchwyliwr sydd â diddordeb ymchwil yn y pwnc astudio a ddewiswyd ganddynt. Bydd eich goruchwyliwr yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i chi ar eich dewis o bwnc; cyngor ar y llenyddiaeth yn eich maes a sut i fynd ati; dulliau ymchwil; fframwaith, cynnwys a chyflwyno traethawd ymchwil; gwerthuso drafftiau o'ch traethawd ymchwil yn feirniadol; ac, yn achos myfyrwyr PhD, cyngor ar baratoi at eich arholiad llafar.

Anogir darpar ymgeiswyr i ymgynghori â gwefan Ysgol Y Gyfraith i gael manylion staff academiaidd, eu harbenigedd a'u diddordebau ymchwil, a'r meysydd y mae'r Ysgol yn cynnig goruchwyliaeth ymchwil ynddynt: www.bangor.ac.uk/law/staff



Gwyddorau Cymdeithas

Gwyddorau Cymdeithas

Mae'r Gwyddorau Cymdeithas ym Mangor yn ganolfan lewyrchus ar gyfer addysgu ac ymchwil ym meysydd Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol, Polisi Cymdeithasol, Cymdeithaseg a Pholisi Iaith. Mae ein graddau Meistr yn cynnig hyfforddiant trylwyr yn egwyddorion ac ymarfer ymchwil gymdeithasol a gall myfyrwyr hefyd ddilyn eu diddordebau trwy ddewis eang o fodiwlau arbenigol. Rydym yn adnabyddus am ein dysgu trylwyr ac am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'n myfyrwyr.

Mae gennym hefyd enw da am ein gwaith ymchwil sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol ac mae cynnyrch yr ymchwil yn cael ei fwydo i mewn i'n cyrsiau yn barhaus. Mae llawer o gyhoeddiadau ac erthyglau gan staff wedi ennill bri yn rhyngwladol mewn meysydd penodol, ac mae'r un staff hefyd yn goruchwyllo myfyrwyr MA, MPhil a PhD yn eu meysydd arbenigol eu hunain. Mae hyn yn golygu y cewch eich dysgu gan diwtoriaid sy'n ymchwilio a chyhoeddi'n gyson mewn meysydd y byddwch chi'n eu hastudio.

Mae ein holl gynlluniau gradd yn cynnig hyfforddiant trwyadl yn egwyddorion sylfaenol gwyddorau cymdeithas, ystod eang o bynciau arbenigol, hyfforddiant mewn dadansoddi ymchwil gymdeithasol a pharatoad ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleodd gyrfaol.

Golwg gyffredinol o'r meysydd academiaidd yr ymdrinnir â hwy

Mae ein portffolio o raglenni Meistr yn adlewyrchu ein harbenigedd a'n hymrwymiad i addysgu ôl-raddedig o safon uchel. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o raddau MA, gan ganolbwyntio'n benodol ar Droseddeg a Chyfiawnder Troseddol; Polisi a Chynllunio Iaith*; Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol.

Mae ein staff Troseddeg yn cydweithredu â chydweithwyr ledled Cymru a thu hwnt yng Nghanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru (WCCSJ). Mae'r Ganolfan yn fan cyfarfod i academyddion ac ymarferwyr gyfnewid syniadau ar ymchwil a diwygio ymarfer. Mae WCCSJ hefyd yn cynnig cyfle i fyfyrwyr PhD drafod eu gwaith mewn cynhadledd neu weithdy.

Mae'r graddau Meistr trwy Ymchwil, MPhil a PhD yn raddau uwch a ddyfernir ar ôl cwblhau'n llwyddiannus hyfforddiant ac ymchwil uwch gan arwain at draethawd ymchwil. Nod gradd ymchwil yw darparu hyfforddiant eang ym maes gwyddor gymdeithasol, yn ogystal â hyfforddiant penodol mewn meysydd pwnc arbenigol sy'n berthnasol i'r project ymchwil. Drwodd

a thro, mae'r hyfforddiant yn darparu'r cyd-destun a'r sgiliau i'r myfyrwr gynnal ymchwiliad gwreiddiol, gan arwain at baratoi traethawd ymchwil sy'n gyfraniad annibynnol a gwreiddiol at wybodaeth.

Rhagolygon Gyrfa

Mae cymhwyster ôl-raddedig yn y Gwyddorau Cymdeithas yn paratoi graddedigion ar gyfer gyrfaedd o fewn sectorau mor amrywiol â chyfiawnder troseddol, gorfodi'r gyfraith, llunio a datblygu polisi, gwasanaethau ieuencid, polisi cymdeithasol ac asiantaethau'r llywodraeth.

Gall graddedigion Meistr hefyd barhau â rhaglen PhD ac, yn y diwedd, symud ymlaen i swyddi ymchwil a allai lywio polisi yn y dyfodol, ac i yrfaedd academiaidd mewn prifysgolion.

Cysylltiadau Ymchwil

Rydym yn aelod o WISERD (Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru), menter ar y cyd rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. Cenhadaeth WISERD yw cryfhau'r adnoddau sy'n ymwneud â gwyddorau cymdeithas ledled Cymru trwy gydweithredu, cynnal projectau ar y cyd a chreu cysylltiadau gyda chanolfannau yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae'n dod â gwyddonwyr cymdeithasol o bob rhan o Gymru at ei gilydd i ddatblygu darlun manylach am bobl Cymru trwy gasglu, dadansoddi a lledaenu data mewn meysydd fel gweithgarwch a thwf economaidd, addysg, cyfranogiad cymdeithasol, iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r holl wybodaeth am fodiwlau'n gywir adeg argraffu'r llyfryn ond fe all newid. Edrychwch ar y wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Gofynion iaith Saesneg

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Fel rheol rydym yn gofyn am:

Ar gyfer **MA Criminology and Law:**

- IELTS 6.5 (dim un elfen yn is na 6.0)

Ar gyfer yr holl raglenni **MA** eraill:

- IELTS 6.0 (dim un elfen yn is na 5.5)

Ar gyfer **Graddau ymchwil (PhD, MPhil, MRes):**

- IELTS 6.5 (dim un elfen yn is na 6.0)

Gall ymgeiswyr nad ydynt wedi cyrraedd y lefel ofynnol ddilyn cyrsiau iaith Saesneg yn ELCOS, Canolfan Iaith Saesneg y Brifysgol, cyn dechrau'r rhaglen academiaidd.

RHESTR CYRSIAU:

MA

- Comparative Criminology and Criminal Justice
- Criminology and Law
- Criminology and Sociology
- Sociology
- Language Policy and Planning*
- Social Policy

MARes

- Criminology and Criminal Justice, Social Policy, Sociology

PhD/MPhil

- Criminology and Criminal Justice
- Social Policy, Sociology

* Mae hwn yn gwrs cyfrwng Cymraeg gyda llawer o opsiynau dwyieithog. Gweler y wefan am ddisgrifiad o'r cwrs.

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382085

E-bost: socialsciences.pg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/

Comparative Criminology and Criminal Justice MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser. Mae ar gael yn rhan-amser hefyd. Gellir dechrau'r rhaglen hon naill ai ym mis Ionawr neu fis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd anrhydedd sengl neu gyd-anrhydedd (2.ii da, neu gyfwerth yn achos deiliaid graddau o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig) mewn Troseddeg, Cymdeithaseg, Y Gyfraith, Gwyddor Gwleidyddiaeth, Astudiaethau Cymdeithasol, Polisi Cymdeithasol, Seicoleg neu ddisgyblaeth academaidd gysylltiedig.

Gellir derbyn myfyrwyr sydd â phrofiad proffesiynol perthnasol hefyd. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd yn y categori hwn ddarparu tystiolaeth gadarn yn eu cais a gellir eu cyfweld cyn gwneud cynnig iddynt.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 71 am ragor o fanylion

DISGRIFIAD O'R CWRS

Tra bod Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn un o bynciau mwyaf poblogaidd gwyddorau cymdeithas, mae'r dull cymharol yn ymwneud yn fwy treiddgar â'r pwnc. Mae gan fyfyrwyr y fantais o raglen hyblyg, gan eu galluogi i ddatblygu gwedd ryngwladol ar drosedd a chyfiawnder drwy ddulliau trawswladol ac astudiaethau achos ar gymdeithasau eraill a/neu faterion blaenllaw ym maes troseddeg a chyfraith gyfoes.

MODIWLAU GORFODOL:

• Research Strategy and Design

Mae'r modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif fathau dulliau ymchwil meintiol, ansoddol a chymysg yn y gwyddorau cymdeithas, yn cynnwys llythrennedd ystadegol sylfaenol.

• Research Process and Meaning

Mae'r modiwl yn cyflwyno amrywiaeth o ddulliau ymchwil ansoddol, gan gynnwys arsylwadau, dadansoddi cynnwys a thechnegau cyfweld, i fyfyrwyr.

• Traethawd hir

40 i 60 credyd o blith:

- Transnational Crime
- Key Issues in Criminology
- Comparative & International Criminal Justice

Modiwlau dewisol ychwanegol:

- Health Policies in Britain
- Key Issues in Social Policy
- Nationalism and Minorities
- Antisemitism and the Holocaust
- The Inner City

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd graddedigion yn dod o hyd i waith mewn amrywiaeth o sefydliadau sy'n delio ag agweddau ar orfodi'r gyfraith, megis partneriaethau atal troseddau cymunedol, yr heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf. Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn cyflogi troseddegwyr. Gall graddedigion hefyd weithio i gefnogi dioddefwyr troseddau, rhai sy'n gadael carchar, neu bobl ifanc sydd mewn perygl. Mae astudiaethau pellach yn llwybr arall, gan gynnwys PhD a swyddi dilynol mewn addysgu ac ymchwil, neu hyfforddiant i ddilyn gyrfa fel cyfreithiwr. Ar wahân i hyn, gall cymhwyster mewn gwyddor gymdeithas arwain at weithio mewn gwleidyddiaeth a'r cyfryngau, neu fentrau busnes a chymdeithasol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Criminology and Law MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser. Mae ar gael yn rhan-amser hefyd. Gellir dechrau'r rhaglen hon naill ai ym mis Ionawr neu fis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd gyntaf (gydag o leiaf ddosbarth 2.ii da) mewn Troseddeg, Y Gyfraith neu bwnc tebyg.

Gellir hefyd dderbyn myfyrwyr sydd â phrofiad proffesiynol perthnasol ym meysydd Troseddeg neu'r Gyfraith. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd yn y categori hwn ddarparu tystiolaeth gadarn yn eu cais a gellir eu cyfweld cyn gwneud cynnig iddynt.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 71 am ragor o fanylion

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r radd MA Troseddeg a'r Gyfraith, a gynhelir ar y cyd ag Ysgol y Gyfraith Bangor, yn adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth droseddegol a chyfreithiol er mwyn darparu hyfforddiant arbenigol mewn ymchwil ym meysydd troseddeg, cyfiawnder troseddol a'r gyfraith. Mae'r rhaglen yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu gwedd ryngwladol ar drosedd, cyfiawnder a'r gyfraith trwy ddulliau cenedlaethol a thrawswladol ac astudiaethau achos ar gymdeithasau eraill a/neu faterion blaenllaw ym maes troseddeg a chyfraith gyfoes.

Cynigir rhaglen debyg, LLM Y Gyfraith a Throseddeg, gan Ysgol y Gyfraith Bangor. Gweler tudalen 67 am fwy o fanylion.

Modiwlau gorfodol:

• Key Issues in Criminology

Bydd y modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant arbenigol mewn troseddeg a chyfiawnder troseddol ac mae'n ymdrin â throseddau sy'n arbennig o berthnasol i'r DU a Chymru, e.e. troseddau a phlismaon gwledig, caethwasiaeth fodern, troseddau gyrru, ond hefyd wersi y gellir eu dysgu o droseddau a'r ymatebion iddo mewn awdurdodaethau eraill.

• Comparative and International Criminal Justice

Yn y modiwl hwn edrychir yn feirniadol ar yr arfer o astudio asiantaethau a sefydliadau cyfiawnder troseddol yn gymharol.

• Transnational Crime

Bydd y modiwl hwn yn archwilio sawl agwedd ar droseddau ac ymddygiad troseddol trawswladol. I ddechrau, ceir trafodaeth ar derfysgaeth, troseddau gwladol a throseddau trefnedig cyn mynd ymlaen i edrych ar wahanol fathau o weithgaredd troseddol trawswladol.

• Traethawd hir

Modiwlau dewisol:

- Forensic Linguistics in Court
- International Criminal Law
- International Human Rights Law
- International Law of Armed Conflict
- Expert Evidence in Court

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd graddedigion yn dod o hyd i waith mewn amrywiaeth o sefydliadau sy'n delio ag agweddau ar y gyfraith a throsedd, megis partneriaethau atal troseddau cymunedol, yr heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf. Mae astudiaethau pellach yn llwybr arall, gan gynnwys PhD a swyddi dilynol mewn addysgu ac ymchwil, neu hyfforddiant i ddilyn gyrfa fel cyfreithiwr. Ar wahân i hyn, gall y cymhwyster arwain at weithio mewn gwleidyddiaeth, neu fentrau busnes a chymdeithasol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Criminology and Sociology MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser. Mae ar gael yn rhan-amser hefyd. Gellir dechrau'r rhaglen hon naill ai ym mis Ionawr neu fis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd anrhydedd sengl neu gyd-anrhydedd (2.ii da, neu gyfwerth yn achos deiliad graddau o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig) mewn Troseddeg, Cymdeithaseg, Y Gyfraith, Gwyddor Gwleidyddiaeth, Astudiaethau Cymdeithasol, Polisi Cymdeithasol, Seicoleg neu ddisgyblaeth academiaidd gysylltiedig.

Gellir derbyn myfyrwyr sydd â phrofiad proffesiynol perthnasol hefyd. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd yn y categori hwn ddarparu tystiolaeth gadarn yn eu cais a gellir eu cyfweld cyn gwneud cynnig iddynt.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 71 am ragor o fanylion

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn yn cyfuno arbenigedd Prifysgol Bangor mewn Troseddeg a Chymdeithaseg ac yn archwilio cyd-destun cymdeithasegol materion yn ymwneud â Throseddeg. Astudir amrywiaeth eang o bynciau Troseddeg a

Chymdeithaseg er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sbectrwm eang o bynciau yn y meysydd hyn, gan gynnwys trosedd; sefydliadau a gweinyddiaethau ym maes cyfiawnder troseddol; achosion cymdeithasol trosedd a chanlyniadau hynny; newid cymdeithasol a strwythurau cymdeithasol; diwylliant a hunaniaeth; a materion cysylltiedig.

Mae natur eang ond arbenigol y radd hon yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu gwybodaeth a sgiliau uwch ac arbenigol mewn ymchwil troseddol a chymdeithasegol.

Modiwlau gorfodol:

• Research Strategy and Design

Mae'r modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif fathau dulliau ymchwil meintiol, ansoddol a chymysg yn y gwyddorau cymdeithas, yn cynnwys llythrennedd ystadegol sylfaenol.

• Research Process and Meaning

Mae'r modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif fathau dulliau ymchwil ansoddol a chymysg yn y gwyddorau cymdeithas, yn cynnwys llythrennedd sylfaenol mewn dadansoddi data ansoddol.

• Traethawd hir

Modiwlau dewisol:

- Comparative and International Criminal Justice
- Transnational Crime
- Nationalism and Minorities
- Key Issues in Criminology
- Antisemitism and the Holocaust
- The Inner City
- Researching Community
- Karl Marx: Society, Politics and History

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd graddedigion yn dod o hyd i waith mewn amrywiaeth o sefydliadau sy'n delio ag agweddau ar weithredu'r gyfraith, o bartneriaethau atal troseddau cymunedol, i'r heddlu a'r gwasanaethau carchardai a phrawf. Mae astudiaethau pellach yn llwybr arall, gan gynnwys PhD a swyddi dilynol mewn addysgu ac ymchwil. Ar wahân i hyn, gall cymhwyster mewn gwyddor gymdeithas arwain at weithio mewn gwleidyddiaeth a'r cyfryngau, neu fentrau busnes a chymdeithasol.

I gael manylion pellach, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Sociology MA

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser. Mae ar gael yn rhan-amser hefyd. Gellir dechrau'r rhaglen hon naill ai ym mis Ionawr neu fis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd gyntaf dda mewn Cymdeithaseg neu bwnc cysylltiedig. Gellir derbyn myfyrwyr sydd â phrofiad proffesiynol perthnasol hefyd. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd yn y categori hwn ddarparu tystiolaeth gadarn yn eu cais a gellir eu cyfweld cyn gwneud cynnig iddynt.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 71 am ragor o fanylion uage proficiency. See page 71 for more details.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bwriedir y radd hon i fyfyrwyr sydd â diddordeb cyffredinol mewn Cymdeithaseg ac sy'n dymuno diweddar, ymestyn a dyfnhau eu gwybodaeth a deall datblygiadau cyfredol yn y maes. Nod y rhaglen yw rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ehangu eu gwybodaeth am y

ddisgyblaeth drwy ymwneud ag ymchwil gyfoes a thrwy gynnal astudiaeth hanesyddol a chymharol.

Modiwlau gorfodol:

• Research Strategy and Design

Mae'r modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif fathau dulliau ymchwil ansoddol a chymysg yn y gwyddorau cymdeithas, yn cynnwys llythrennedd ystadegol sylfaenol.

• Research Process and Meaning

Mae'r modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif fathau dulliau ymchwil ansoddol a chymysg yn y gwyddorau cymdeithas, yn cynnwys llythrennedd sylfaenol mewn dadansoddi data ansoddol.

• Traethawd hir

40 i 80 credyd o blith:

- Researching Community
- Nationalism and Minorities
- Antisemitism and the Holocaust
- Karl Marx: Society, Politics and History

Modiwlau dewisol:

- Transnational Crime
- Key Issues in Criminology
- Comparative & International Criminal Justice
- Health Policies
- Key Issues in Social Policy
- The Inner City

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd graddedigion yn cael swyddi mewn amrywiaeth o sectorau sy'n gwerthfawrogi sgiliau damcaniaethol, dadansodol a threfnus allweddol. Mae astudiaethau pellach yn llwybr arall, gan gynnwys PhD a swyddi dilynol mewn addysgu ac ymchwil. Gall MA mewn Cymdeithaseg arwain at weithio mewn gwleidyddiaeth a'r cyfryngau, neu fentrau busnes a chymdeithasol.

I gael manylion pellach, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/



PROFFIL STAFF

DR RHIAN HODGES Darlithydd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol

Graddiodd Rhian mewn BA Cymdeithaseg gyda Pholisi Cymdeithasol (Dosbarth Cyntaf) Prifysgol Bangor yn 2005 cyn derbyn Ysgoloriaeth ESRC 1+3 i astudio MA a PhD hefyd ym Mhrifysgol Bangor. Cwblhaodd MA Ymchwil Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol yn 2006 a PhD Cymdeithaseg gyda Pholisi Cymdeithasol yn 2010. Testun ei doethuriaeth oedd cymhellion rhieni dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yng Nghwm Rhymni. Mae Dr Hodges yn Ddarlithydd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor ers 2009 ac y mae'n Ddarlithydd Cysylltliol Coleg Cymraeg Cenedlaethol bellach. Ers 2011, mae'n Cyfarwyddo'r

MA Polisi a Chynllunio Ieithyddol ac yn ymddiddori ym meysydd astudio allweddol y maes megis siaradwyr newydd, addysg cyfrwng ieithoedd lleiafrifol, defnydd a throsglwyddo iaith gan gynnwys defnydd iaith gymunedol ac yn y gweithle. Mae Dr Hodges yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, Cymrawd ymchwil WISERD, yn aelod o Fwrdd Golygyddol GWERDDON, yn aelod o COST New Speakers Network ac yn aelod o Sefydliad Materion Cymreig. Mae hi wedi bod ar sawl taith Cyfnewid Erasmus i Wlad y Basg lle mae'n darlithio ar bwnc Cynllunio Ieithyddol yng Nghymru ym Mhrifysgol Donostia.

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser. Mae ar gael yn rhan-amser hefyd. Gellir dechrau'r rhaglen hon naill ai ym mis Ionawr neu fis Medi.

GOFYNIION MYNEDIAD

Fel rheol 2.i mewn Polisi Cymdeithasol neu ddisgyblaeth academaidd gysylltiedig. Gellir derbyn myfyrwyr sydd â phrofiad proffesiynol perthnasol hefyd. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd yn y categori hwn ddarparu tystiolaeth gadarn yn eu cais a gellir eu cyfweld cyn gwneud cynnig iddynt.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedruswydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 71 am ragor o fanylion

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae polisiâu cymdeithasol yn newid o hyd. Mae'r rhaglen radd hon yn cymryd y datblygiadau i ystyriaeth ac yn eu cysylltu â ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Cyflwynir safbwyntiau damcaniaethol a goblygiadau methodolegol. Trafodir ystod o faterion cyfoes yn ymwneud â pholisi cymdeithasol. Cymherir polisiâu a dulliau gweithredu o fewn cymdeithasau ac ar eu traws. Tynnir sylw at ddimensiynau moesegol polisi cymdeithasol a darperir hyfforddiant ymchwil arbenigol.

Modiwlau gorfodol:

• Research Strategy and Design

Mae'r modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif fathau dulliau ymchwil ansoddol a chymysg yn y gwyddorau cymdeithas, yn cynnwys llythrennedd ystadegol sylfaenol.

• Research Process and Meaning

Mae'r modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif fathau dulliau ymchwil ansoddol a chymysg yn y gwyddorau cymdeithas, yn cynnwys llythrennedd sylfaenol mewn dadansoddi data ansoddol.

• Key Issues in Social Policy

Mae'r modiwl hwn yn ehangu a dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion allweddol mewn polisi cymdeithasol cyfoes. Gwneir cysylltiadau rhwng dadansoddiad damcaniaethol mewn lles ac ymholi empirig mewn polisi cymdeithasol, ac archwiler materion, dadleuon a chysyniadau allweddol wrth ddadansoddi a gwerthuso polisi cymdeithasol.

• Traethawd hir

60 credyd o blith:

- Researching Community
- Policy Research & Evaluation
- Health Policies
- Nationalism and Minorities
- The Inner City
- Karl Marx: Society, Politics and History

RHAGOLYOGON GYRFA

Y sectorau lles ac iechyd yw prif faes cyflogaeth graddedigion y rhaglen hon. Mae meysydd eraill o'r gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn denu graddedigion polisi cymdeithasol. Ar wahân i hyn, mae cymhwyster mewn gwyddor cymdeithas yn agor lluo o gyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth a'r cyfryngau, neu â mentrau busnes a chymdeithasol.

I gael manylion pellach, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Mae Prifysgol Bangor wedi cael ei rhestru ymhlith yr 20 prifysgolion orau yn y DU ar gyfer Polisi Cymdeithasol. Complete University Guide 2020

Criminology / Criminal Justice / Social Policy / Sociology PhD/MPhil/MARes

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd llawn-amser,
6 blynedd rhan-amser;
MPhil: 2 flynedd llawn-amser,
4 blynedd rhan-amser;
MARes: blwyddyn llawn-amser,
2 flynedd rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

MARes: Y meini prawf ar gyfer mynediad i'r rhaglen fel rheol yw o leiaf radd 2.ii neu gyfwerth, cynnig boddhaol ar gyfer ymchwil, a gallu'r Ysgol i oruchwylio'r traethawd hir arfaethedig yn effeithiol.

PhD/MPhil: Mae angen gradd anrhydedd dda mewn disgyblaeth gysylltiedig. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr heb radd Meistr mewn disgyblaeth berthnasol ddilyn rhaglen hyfforddiant ymchwil yn y flwyddyn gyntaf. Dylai ymgeiswyr gyflwyno amlinelliad o'u hymchwil a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwr y Cwrs.

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedruswydd yn y Saesneg. Gweler tudalen 71 am ragor o fanylion.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r PhD, MPhil a MARes yn raddau uwch a ddyfernir ar ôl cwblhau'n llwyddiannus hyfforddiant ac ymchwil uwch gan arwain at draethawd ymchwil. Nod gradd ymchwil yw darparu hyfforddiant eang ym maes gwyddor gymdeithasol, yn ogystal â hyfforddiant penodol mewn meysydd pwnc arbenigol sy'n berthnasol i'r project ymchwil. Drwodd a thro, mae'r

hyfforddiant yn darparu'r cyd-destun a'r sgiliau i gyflawni ymchwil gwreiddiol, gan arwain at baratoi traethawd ymchwil sy'n gyfraniad annibynnol a gwreiddiol at wybodaeth.

Rydym yn darparu amgylchedd cyffrous a chefnogol ar gyfer hyfforddiant ôl-radd. Mae'r pwyslais ar grwpiau bach, cysylltiadau gwaith agos rhwng myfyrwyr a goruchwylwyr ymchwil, a datblygu cyfranogiad proffesiynol llawn yn y maes pwnc. Yn achos myfyrwyr ymchwil, gallwn ddarparu rhaglen hyfforddiant ymchwil ESRC lawn a goruchwyliaeth arbenigol o ansawdd uchel ar draws sbectwm eang o bynciau.

Mae'r MARes yn rhaglen blwyddyn, a gyflawnir yn gyfan gwbl trwy ymchwil ar bwnc a gynigiwyd gan yr ymgeisydd ac a gymeradwywyd gan y brifysgol. Penodir goruchwylwr a fydd yn rhoi goruchwyliaeth ymchwil ffurfiol i'r ymgeisydd am gyfnod o 12 mis. Ar ddiwedd y cyfnod, bydd disgwyl i chi gyflwyno darn o waith oddeutu 40,000-50,000 o eiriau.

Y cyfnod cofrestru ar gyfer yr MPhil yw 2 flynedd llawn-amser (4 blynedd yn rhan-amser). Dyfernir yr MPhil ar sail cyflwyno traethawd ymchwil 60,000 o eiriau o safon dderbyniol, a pherfformiad boddhaol mewn arholiad viva voce sy'n cynnwys arholwr allanol.

Y cyfnod cofrestru ar gyfer y PhD yn 3 blynedd llawn-amser (6 blynedd yn rhan-amser). Dyfernir y PhD ar sail cyflwyno traethawd ymchwil o ddim mwy na 100,000 o eiriau o

safon dderbyniol, a pherfformiad boddhaol mewn arholiad viva voce sy'n cynnwys arholwr allanol.

Mae myfyrwyr graddedig diweddar wedi gwneud gwaith ymchwil ar y pynciau a ganlyn:

- Swyddogaeth UNESCO yn natblygiad y maes diwylliannol a chynnal amrywiaeth ddiwylliannol yn Swltaniaeth Oman
- Dewisiadau cerddoriaeth a hunaniaeth ddiwylliannol
- Newidiadau mewn tlodi bwyd yng Nghymru
- Effaith ailstrwythuro polisi anabledd
- Gwragedd a adewir ar ôl: Astudiaeth ar effeithiau dynion yn symud dramor i weithio ar eu gwragedd yn Bangladesh
- Gwneud cysylltiadau? - Effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl system drafndiaeth integredig Cymru gyfan
- Digartrefedd ymysg ieuenctid Gogledd Cymru
- Pam fod cyfathrebu ym maes cyfiawnder ieuenctid yn bwysig?
- Effaith gweithgareddau milwriaethus ar y sector olew a nwy a goroesiad Nigeria fel cenedl
- Banciau bwyd yng Nghymru

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae gan ddeiliad graddau uwch mewn Gwyddorau Cymdeithas ragolygon rhagorol i gael swyddi mewn ystod eang o feysydd. Gweler tudalen 71 am ragor o wybodaeth.

I gael manylion pellach, gweler:

www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences/postgraduate-courses/

Addysg a Datblygiad Dynol

Mae gan Brifysgol Bangor enw da ym maes addysg athrawon. Mae gennym hefyd bartneriaethau cadarn gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i ddarparu amgylcheddau hyfforddi amrywiol a chefnogol. O dan arweiniad y staff brwdfrydig, mae'r Ysgol hefyd yn cynnig amrywiaeth dda o gyrsiau blaengar eraill sy'n arwain at amryw o gymwysterau ôl-radd. Gallwch ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog. Yng nghydestun Ewropeaidd mae'r arbenigedd dwyieithog hwn yn rhoi dimensiwn cyffrous i'n holl gyrsiau ac yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu cysylltiadau Ewropeaidd.

Rydym yn cynnig awyrgylch gyfeillgar ac mae myfyrwyr o bob rhanbarth a gwahanol gefndiroedd yn ymgartrefu'n gyflym. Mae'r Ysgol yn cynnig amgylchedd gwaith a chymdeithasol cyfoethog gydag adnoddau heb eu hail i'ch astudiaethau.

Rydym yn cymryd rhan rheolaidd mewn llawer o waith datblygu, yn cynnwys maes addysg cyfrwng Cymraeg.

Staff a chyfleusterau

I'ch helpu gyda'ch astudiaethau rydym yn darparu amrywiaeth o adnoddau dysgu a gefnogir gan staff profiadol. Yn ein Llyfrgell Addysg mae gennym gasgliad helaeth o lyfrau a chylchgronau ac mae llawer o'r cyfnodolion ar gael ar-lein yn llawn. Mae gennym hefyd labordai cyfrifiadurol ar y safle ac ystafelloedd astudio ôl-radd pwrpasol ar gyfer myfyrwyr llawn amser lle gallant astudio, cynnal seminarau ac ymgynnull i drafod eu hymchwil mewn amgylchedd dysgu â gefnogir.

Golwg gyffredinol ar y meysydd academiaidd

Ers bron i ddeugain mlynedd, mae Bangor wedi cynnig Meistr yn y Celfyddydau hyblyg, rhan-amser ar ffurf modiwlau sy'n diwallu anghenion proffesiynol a phersonol athrawon, gweithwyr iechyd, staff gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r Ysgol Addysg yn cynnig dau gynllun hyblyg gydag Astudiaethau Addysg ar lefel Meistr, sef rhaglen lawn-amser (gyda lleoliad) a rhaglen ran-amser.

Rydym yn cynnig goruchwyliaeth ymchwil PhD, MPhil ac EdD llawn amser a rhan amser mewn ystod eang o feysydd addysgol sy'n canolbwyntio ar feysydd arbenigedd ymchwil sy'n cynnwys dwyieithrwydd/addysg ddwyieithog, cynhwysiant/anghenion addysgol arbennig ac agweddau proffesiynol ar addysgu mewn ysgolion ac mewn addysg uwch.

CaBan – Partneriaeth Gogledd Cymru gyda'r dysgwr yn ganolbwynt iddi

Mae CaBan yn ganolfan gydweithredol newydd rhwng Prifysgol Bangor, Prifysgol Caer, ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith a GwE a sefydlwyd i ddarparu addysg gychwynnol athrawon yng ngogledd Cymru. Mae'r cydweithrediad newydd ac unigryw hwn yn dod â rhagoriaeth dau sefydliad addysg athrawon sefydledig i fodel newydd sy'n elwa o'r ddealltwriaeth o amgylcheddau addysgu Cymru a Saesneg ac yn cadw'r pwyslais ar baratoi darpar athrawon ar gyfer yr amgylchedd addysgu yng Nghymru. Yr hyn sy'n unigryw yw bod holl grwpiau'r bartneriaeth wedi chwarae rhan bwysig yn llunio cyfres o raglenni cynradd ac uwchradd rhagorol ar gyfer Addysg Athrawon, ar lefel israddedig ac ôl-raddedig, sy'n cymryd i ystyriaeth yr hyn sy'n ofynnol i baratoi athrawon rhagorol ar gyfer Cymru a thu hwnt.



RHESTR O'R CYRSIAU:

Tystysgrif Addysg i Raddedigion - TAR*

- Addysg Gynradd
- Addysg Uwchradd



Mae'r meysydd pwnc yn cynnwys:

- Celf
- Bioleg
- Cemeg
- Dylunio a Thechnoleg
- Saesneg
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Technoleg Gwybodaeth
- Mathemateg
- Ieithoedd Modern
- Cerddoriaeth
- Gweithgareddau Awyr Agored
- Addysg Gorfforol
- Ffiseg
- Addysg Grefyddol

MA

- Astudiaethau Addysg (15 mis, llawn amser)
- Astudiaethau Addysg (hyd at 4 blynedd, rhan-amser)

MSc

- Applied Innovation Design

EdD

- Rhaglen Doethuriaeth mewn Addysg

*All subjects can be combined with Outdoor Activities

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382629

E-bost: education@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/education



Yn y 10 uchaf ar gyfer ansawdd a dwyster ymchwil

Complete University Guide 2020

Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Addysg Gynradd (yn arwain at Statws Athro Cymwysedig)

HYD Y CWRS

TAR: Blwyddyn llawn-amser.



yn

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys 3 modiwl gyda 60 credyd ar lefel 7 (lefel Meistr):

cynnydd o fannau cychwyn personol yn cael ei ystyried ar sail unigol.

GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd gyntaf sy'n berthnasol i'r cwricwlwm cynradd yn ogystal â gradd B neu uwch mewn TGAU Iaith Saesneg a Mathemateg TGAU a gradd C neu uwch mewn TGAU Gwyddoniaeth pan wneir cais.

Yn achos ymgeiswyr sy'n cael lle ar y cwrs, byddwn yn cynnal prawf cyfatebiaeth os nad oes gennych y TGAU neu gymwysterau cyfwerth.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs TAR yn eich paratoi i ddysgu mewn ysgolion cynradd. Mae'n gwrs dwys 38 wythnos a gyflwynir trwy'r bartneriaeth CaBan i raddedigion gyda'r nod o ddatblygu a meithrin y sgiliau addysgu a dysgu sydd eu hangen i fod yn athro/athrawes ysgol gynradd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r rhan o'r cwrs a dreulir mewn ysgolion yn cynnwys 24 wythnos mewn rhwydwaith o ysgolion partneriaeth, a bwriedir i'r lleoliadau roi profiadau cyferbyniol. Mae cyswllt agos rhwng y darlithoedd a'r seminarau yn y brifysgol a'r ysgolion rhwydwaith â'r profiad dysgu hwn. Cewch eich cefnogi a'ch asesu yn yr ysgol gan fentoriaid profiadol a bydd gennych gyswllt rheolaidd â'ch tiwtoriaid.

Mae'n bosib dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Profiad Ysgol

60 credyd ar lefel 6

Cewch gyfle i gynyddu'ch hyder a datblygu eich sgiliau addysgu yn raddol yn yr ystafell ddosbarth a lleoliadau eraill, dysgu am ddatblygiad ac anghenion plant, eu dysgu a'r cwricwlwm, i gyd gyda chefnogaeth athrawon a mentoriaid profiadol yn ein hysgolion arweinïol ac ysgolion rhwydwaith ac yn y brifysgol.

Bydd y sgiliau addysgu a enillir yn cael eu gwerthfawrogi a gellir eu trosglwyddo y tu hwnt i Gymru; yn arbennig, caiff SAC a geir o gwrs sydd wedi'i achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg ei dderbyn yn Lloegr hefyd.

Trwy brofiad ysgol byddwch yn dysgu trwy ganolbwyntio ar arsylwi athrawon profiadol iawn a byddwch yn datblygu hyder i ddysgu grwpiau a dosbarthiadau cyfan ar y cyd ac yn annibynnol.

Astudiaethau Proffesiynol, Pedagogiaidd a Chraidd mewn Addysg Gynradd

30 credyd ar lefel 7

Yn y modiwl hwn byddwch yn ystyried: amrywiaeth y lleoliadau addysgol; dylanwadau diwylliannol, cymdeithasol ac emosiynol ar ddatblygiad a dysgu plant; dulliau o reoli ymddygiad, cynllunio ar gyfer dysgu plant a chynllunio ar gyfer asesu'r dysgu; polisi cyfredol a swyddogaeth ymchwil wrth ddatblygu ymarfer addysgol. Bydd sgiliau iaith Cymraeg personol a dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru hefyd yn cael eu datblygu yn y modiwl hwn. O ran yr iaith Gymraeg, bydd

Astudiaethau Pwnc mewn Addysg Gynradd

30 credyd ar lefel 7

Trwy sesiynau gweithdy yn yr ysgol a'r brifysgol byddwch yn archwilio dysgu, addysgu ac asesu ar draws yr ystod o bynciau cynradd a meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r rhain yn cynnwys: lechyd a lles; llythrennedd, iaith a chyfathrebu; Mathemateg a rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg; a chelfyddydau mynegiannol. Byddwch yn edrych yn fanwl ar bedagogeg y pynciau yn ogystal â dulliau trawsgwricwlaidd o ddysgu. Yn ogystal, byddwch yn dysgu sut i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol plant ar draws y cwricwlwm. Ar gyfer y modiwl hwn byddwch yn gwneud ymchwiliad proffesiynol i ymarfer ar raddfa fach.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd hyfforddeion llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau addysgu sy'n cwrdd â'r safonau statudol ar gyfer ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). Byddwch wedi datblygu'r sgiliau dysgu priodol sy'n eich galluogi i ddod yn ymarferwyr adfyfyrliol a all, wrth gynllunio ac addysgu, ddadansoddi, syntheseiddio, defnyddio a rheoli, a gwerthuso deunyddiau a gweithdrefnau ac ymarfer proffesiynol. Bydd y sgiliau trosglwyddadwy a gewch trwy'r cwrs hwn yn fuddiol trwy gydol eich gyrfa.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/addysg

Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Addysg Uwchradd (yn arwain at Statws Athro Cymwysedig)

HYD Y CWRS

TAR: Blwyddyn yn llawn-amser.



GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd gyntaf sy'n berthnasol i'r cwricwlwm cynradd yn ogystal â gradd B neu uwch mewn TGAU Iaith Saesneg a Mathemateg TGAU.

Yn achos ymgeiswyr sy'n cael lle ar y cwrs, byddwn yn cynnal prawf cyfatebiaeth os nad oes gennych y TGAU neu gymwysterau cyfwerth.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs TAR yn eich paratoi ar gyfer dysgu mewn ysgolion uwchradd. Mae'n gwrs dwys 38 wythnos a gyflwynir trwy'r bartneriaeth CaBan i raddedigion gyda'r nod o ddatblygu a meithrin y sgiliau addysgu a dysgu sydd eu hangen i fod yn athro/athrawes ysgol gynradd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r rhan o'r cwrs a dreulir mewn ysgolion yn cynnwys 24 wythnos mewn rhwydwaith o ysgolion partneriaeth, a bwriedir i'r lleoliadau roi profiadau cyferbyniol. Mae cyswllt agos rhwng y darlithoedd a'r seminarau yn y brifysgol a'r ysgolion rhwydwaith â'r profiad dysgu hwn. Cewch eich cefnogi a'ch asesu yn yr ysgol gan fentoriaid profiadol a bydd gennych gyswllt rheolaidd â'ch tiwtoriaid.

Mae'n bosib dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys 3 modiwl gyda 60 credyd ar lefel 7 (lefel Meistr):

Profiad Ysgol

60 credyd ar lefel 6

Cewch gyfle i gynyddu'ch hyder a datblygu eich sgiliau addysgu yn raddol yn yr ystafell ddosbarth a lleoliadau eraill, dysgu am ddatblygiad ac anghenion plant, eu dysgu a'r cwricwlwm, i gyd gyda chefnogaeth athrawon a mentoriaid profiadol yn ein hysgolion arweinïol ac ysgolion rhwydwaith ac yn y brifysgol.

Bydd y sgiliau addysgu a enillir yn cael eu gwerthfawrogi a gellir eu trosglwyddo y tu hwnt i Gymru; yn arbennig, caiff SAC a geir o gwrs sydd wedi'i achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg ei dderbyn yn Lloegr hefyd.

Trwy brofiad ysgol byddwch yn dysgu trwy ganolbwyntio ar arsylwi athrawon profiadol iawn a byddwch yn datblygu hyder i ddysgu grwpiau a dosbarthiadau cyfan ar y cyd ac yn annibynnol.

Astudiaethau Proffesiynol, Pedagogiaidd a Chraidd mewn Addysg Uwchradd

30 credyd ar lefel 7

Yn y modiwl hwn byddwch yn ystyried: amrywiaeth y lleoliadau addysgol; dylanwadau diwylliannol, cymdeithasol ac emosiynol ar ddatblygiad a dysgu plant; dulliau o reoli ymddygiad, cynllunio ar gyfer dysgu plant a chynllunio ar gyfer asesu'r dysgu; polisi cyfredol a swyddogaeth ymchwil wrth ddatblygu ymarfer addysgol. Bydd sgiliau iaith Cymraeg personol a dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru hefyd yn cael eu datblygu yn y modiwl hwn. O ran yr iaith Gymraeg, bydd cynnydd o fannau cychwyn personol yn cael ei ystyried ar sail unigol.

Astudiaethau Pwnc mewn Addysg Uwchradd

30 credyd ar lefel 7

Trwy sesiynau gweithdy a gweithgaredd cydweithredol yn yr ysgol a'r brifysgol byddwch yn archwilio dysgu, addysgu ac asesu yn eich pwnc arbenigol. Byddwch hefyd yn archwilio'r meysydd dysgu a phrofiad sydd fwyaf berthnasol i'ch pwnc arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys: lechyd a lles; llythrennedd, iaith a chyfathrebu; Mathemateg a rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg; a chelfyddydau mynegiannol. Byddwch yn edrych yn fanwl ar bedagogeg eich pwnc arbenigol yn ogystal â dulliau trawsgwricwlaidd o ddysgu. Yn ogystal, byddwch yn dysgu sut i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn eich pwnc. Ar gyfer y modiwl hwn byddwch yn gwneud ymchwiliad proffesiynol i ymarfer ar raddfa fach.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd hyfforddeion llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau addysgu sy'n cwrdd â'r safonau statudol ar gyfer ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). Byddwch wedi datblygu'r sgiliau dysgu priodol sy'n eich galluogi i ddod yn ymarferwyr adfyfyrliol a all, wrth gynllunio ac addysgu, ddadansoddi, syntheseiddio, defnyddio a rheoli, a gwerthuso deunyddiau a gweithdrefnau ac ymarfer proffesiynol. Bydd y sgiliau trosglwyddadwy a gewch trwy'r cwrs hwn yn fuddiol trwy gydol eich gyrfa.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/addysg

Astudiaethau Addysg MA

HYD Y CWRS

MA: 15 mis yn llawn-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd 2.ii a gorau oll os oes gennych brofiad gwaith perthnasol fel athro/darlithydd neu gynorthwydd dysgu. Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf fod â chanlyniad IELTS o 6.5 neu uwch, heb unrhyw sgôr unigol yn is na 6.0. Gall myfyrwyr sydd â sgorau is ddilyn cwrs Saesneg cyn-sesiynol yn ELCOS, Canolfan Iaith Saesneg y Brifysgol. Gellir gofyn i ymgeiswyr ddod i gael eu cyfnewid yn bersonol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae ein cwrs llawn amser yn rhaglen 15 mis i bobl sydd eisiau gwneud gradd MA trwy astudiaeth ddwys lawn-amser. Mae'r cwrs wedi ei gynllunio i apelio at fyfyrwyr cartref a myfyrwyr rhyngwladol.

Modiwlau:

- Datblygu'r Cwricwlwm (30 credyd)
- Asesu (30 credyd)
- Dulliau Ymchwil mewn Addysg (30 credyd)
- Traethawd Hir (60 credyd)
- Modiwl lleoliad (bydd myfyrwyr yn cael cyfnod ar leoliad mewn ysgolion lleol) (20 credyd)
- Arweinyddiaeth Addysgol

Modiwlau iaith Saesneg:

Mae gan fyfyrwyr rhyngwladol y dewis o gymryd modiwlau iaith Saesneg yn y canlynol fel rhan o'u rhaglen MA:

- Academic Writing and Grammar
- Advanced Vocabulary Use and Reading
- Speaking and Listening

Some teaching may take place at the weekend and late afternoon.

Lleoliadau

Cewch eich lleoli naill ai mewn ysgol gynradd, uwchradd, meithrin neu goleg addysg bellach lle byddwch yn arsylwi dysgu yn yr ystafell ddosbarth, y strategaethau dysgu a ddefnyddir gan athrawon a chael profiad uniongyrchol o system addysg y DU. Bydd lleoliadau hefyd yn eich galluogi i adfyfrio ar eich astudiaethau ac arsylwi sut mae'r theori yn cael ei rhoi ar waith, a fydd yn helpu'ch datblygiad pellach a'ch cymhwysedd proffesiynol.

Rhaid i bob myfyrwr gwblhau'r modiwl lleoliad yn llwyddiannus i basio'r cwrs.

*Rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn dod â'r holl ddogfennaeth ar gyfer gwiriad cofnodion troseddol ar ddechrau'r cwrs. Ni ellir lleoli myfyrwyr mewn ysgol heb y gwiriad cofnodion troseddol gofynnol.

Modiwlau craidd:

- Dulliau Ymchwil
- Lleoliad
- Traethawd hir

CYMHWYSTER YMADAEL

Gallwch adael y rhaglen gyda Thystysgrif Ôl-radd, ar ôl ennill 60 credyd, neu gyda Diploma Ôl-radd ar ôl ennill 120 credyd.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae galw mawr am ein graddedigion mewn sawl maes cyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael swyddi mewn ysgolion a phrifysgolion. Mae rhai yn gweithio i gwmnïau fel hyfforddwyr i'r staff. Mae rhai yn cael swyddi fel gweinyddwyr a swyddogion addysg yn adrannau'r llywodraeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/addysg

Astudiaethau Addysg MA (rhan-amser)

HYD Y CWRS

MA: hyd at 4 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae'n rhaid bod gan ymgeiswyr naill ai radd gyntaf, cymhwyster cyfatebol cydnabyddedig, neu o leiaf dair blynedd o brofiad proffesiynol perthnasol.

Gofynnir i ymgeiswyr roi enw canolwr a all dystio i allu'r ymgeisydd i astudio ar lefel Meistr. Yn achlysurol gellir gofyn i ymgeiswyr ddod am gyfnewid cyn y gellir cadarnhau cynnig o le iddynt.

Gall rhai modiwlau bennu gofynion mynediad penodol ychwanegol, er enghraifft, profiad blaenorol o addysgu.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r Rhaglen MA ran-amser sydd wedi ennill ei blwyf yn gadarn erbyn hyn yn rhoi cyfleoedd hyblyg i chi astudio modiwlau mewn ystod eang o feysydd pwnc i wella'ch datblygiad proffesiynol eich hun. Mae'r cynllun o bum penwythnos y flwyddyn y mae'r rhaglen Feistr wedi'i seilio arno yn addas i bobl leol ac i rai sy'n teithio ymhellach, ac mae'n cynnig awyrgylch gefnogol a chyfeillgar i astudio ynddi.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

- Dyslexia Theory
- Mental Health
- Research Methods in Education
- Teaching of Dyslexic learners
- Educational Leadership
- Counselling in Education
- SEN: Responding to Pupils

Mae cwblhau pedwar modiwl hyfforddedig yn llwyddiannus yn eich galluogi i symud ymlaen i'ch traethawd hir a gradd Meistr lawn. Mae tystysgrif ôl-radd, neu ddiploma ôl-radd, ar gael fel cymhwyster ymadael i'r myfyrwyr sydd eisiau astudio'r modiwlau hyfforddedig yn unig.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ar y cwrs hwn yn athrawon gweithredol, cwnselwyr neu weithwyr cymdeithasol y mae cymhwyster lefel Meistr yn ffordd wych o ddatblygu eu gyrfaedd. Gyda dewis rhydd o fodiwlau, gallwch ddewis y meysydd pwnc sy'n berthnasol i'r gwaith rydych eisoes yn ei wneud, neu i'r gwaith rydych chi'n anelu at ei wneud. Bydd y radd Meistr ran-amser hon mewn Astudiaethau Addysg yn rhoi'r hyder a'r gallu i chi ysgwyddo cyfrifoldebau newydd, neu i ddechrau cyfeiriad hollol wahanol yn eich gyrfa.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/addysg



Applied Innovation Design MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn fel myfyriwr llawn amser; hefyd ar gael yn rhan-amser dros 2 flynedd.

GOFYNION MYNEDIAD

Yn ddelfrydol, dylai fod gan ymgeiswyr radd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uchel mewn pwnc cysylltiedig fel Dylunio, Seicoleg neu Fusnes, neu gymwysterau/profiad cyfatebol. Dylai fod gan ymgeiswyr hefyd dystiolaeth o gefndir neu ddiddordeb mewn dylunio, neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â dylunio.

Ar gyfer ymgeiswyr Rhyngwladol IELTS: 6.5

DISGRIFIAD O'R CWRS

Beth yw Dylunio Arloesi Cymhwysol? Mae'r byd yn newid, gallwch naill ai ganiatáu i newid ddigwydd i chi neu gallwch fod yn rhan allweddol o'r newid. Bydd y cwrs Dylunio Arloesi Cymhwysol yn eich paratoi i gymryd swyddogaeth arweiniol/weithredol wrth alluogi newid ym mha bynnag faes a ddewiswch, trwy ddefnyddio theori ac arferion masnachol cyfredol ar sail profiad. Bydd y cwrs hwn yn eich cyflwyno i'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i lywio, rhwyfo a siglo'r cwch mewn perthynas â gweithgareddau arloesi cymhwysol.

Mae'r cwrs yn cynnwys dau semester yn astudio, sy'n cynnwys projectau dylunio; astudiaeth academiaidd; a'r opsiwn i fynd ar leoliad diwydiannol sy'n canolbwyntio ar ymchwil, gan arwain at broiect ymchwil terfynol, annibynnol. Gall y project ymchwil terfynol ddilyn tri llwybr, gyda ffocws ar gyflwyno rhywbeth masnachol, entrepreneuriaeth neu wasanaeth ymgynghori

masnachol, yn seiliedig ar ddyheadau gyrfa a maes diddordeb unigolyn.

Modiwlau'r Cwrs:

- Design Thinking - Process and Facilitation
- Design Thinking - Strategy
- Research Methods for Design
- Design Project
- MSc Traethawd hir (with Research, Artefact & Report, and Strategic Planning routes)

Mae modiwlau dewisol yn cynnwys:


- Parametric CAD with Advanced Surface Modelling
- CAD Finite Element Analysis for Industry
- Applied Digital Graphics
- Nudge and Behaviour Change
- Consumer Psychology: Theory
- Applied Consumer Psychology

CAREERS AND EMPLOYABILITY

Bwriad y Meistr mewn Dylunio Arloesi Cymhwysol yw gwella eich rhagolygon a'ch cyfleoedd gyrfa, gan gynnig yr hyblygrwydd i addasu'r cwrs i'r maes neu ddiwydiant sydd o ddiddordeb i chi, trwy ddewis projectau a chanolbwyntio ar aseiniadau. Gall myfyrwyr ddewis astudio naill ai'n llawn amser neu'n rhan-amser, a all gynnwys astudio ochr yn ochr â chyflogaeth mewn swydd gysylltiedig. Bydd graddedigion y cwrs yn gallu arwain ar arloesi a newid dylunio, mewn cyd-destunau masnachol; cael swydd fel ymarferwr dylunio, yn ogystal â lansio mentrau entrepreneuriaidd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/addysg
Email: applieddesign@bangor.ac.uk



1^{af} ar gyfer
Boddhad Myfyrwr
*The Complete University Guide 'Arts & Design
League Table 2020'.*

Doethuriaeth mewn Astudiaethau Addysg EdD

HYD Y CWRS

EdD: 3 blwyddyn yn llawn-amser, 5 mlynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, gofynnir bod ymgeiswyr y rhaglen EdD wedi astudio ar lefel Meistr eisoes.

Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf fod â chanlyniad IELTS o 6.5 neu uwch, heb unrhyw sgôr unigol yn is na 6.0.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynnig ymchwil a chael eu cyfnewid yn bersonol neu trwy ddulliau eraill.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Rhan 1 - Modiwlau hyfforddedig

Bydd myfyrwyr llawn-amser yn astudio chwe modiwl yn y flwyddyn gyntaf a bydd myfyrwyr rhan-amser yn astudio chwe modiwl yn y ddwy flynedd gyntaf. Bydd y chwe modiwl yn cynnwys:

Modiwlau Gorfodol:

- Research Methods in Education
- Thesis Proposal

Modiwlau Dewisol:

Byddwch yn dewis 4 modiwl lefel-7 o'r rhai a gynigir (i gael manylion, gweler y Rhaglen MA mewn Astudiaethau Addysg ar dudalen 105). Dysgir y modiwlau hyn yn ystod dyddiau'r wythnos neu ar benwythnosau yn dibynnu a ydych chi'n fyfyrwr llawn amser neu'n rhan-amser.

Rhan Dau - Traethawd Ymchwil

Rhaid eich bod wedi cwblhau Rhan 1 yn llwyddiannus cyn y gallwch symud ymlaen i Ran 2. Mae'r traethawd ymchwil yn waith manwl ar bwnc arbenigol y mae myfyrwyr llawn amser yn ei gwblhau o fewn 2-4 blynedd neu mae myfyrwyr rhan amser yn ei gwblhau o fewn 3-5 mlynedd. Disgwylir i chi gyflwyno traethawd ymchwil sy'n bodloni'r meini prawf a bennwyd gan Prifysgol Bangor. Dylai fod hyd at 50,000 o eiriau. Bydd yn ofynnol i chi amddiffyn eich gwaith mewn arholiad llafar gyda dau arholwr yn bresennol (un mewnol ac un allanol) wedi'u penodi gan y Coleg.

CYMWYSTERAU YMADAEL

Gallwch adael y rhaglen gydag radd EdM ar ôl ennill 180 credyd yn Rhan 1.

RHAGOLYOGON GYRFA

Caiff gradd EdD ei hystyried yr un peth â gradd PhD ac mae galw mawr amdanynt mewn cymdeithas heddiw. Mae llawer o'n graddedigion yn gweithio mewn ysgolion a phrifysgolion. Mae rhai yn cael swyddi fel gweinyddwyr a swyddogion addysg yn adrannau'r llywodraeth. Bydd rhai hefyd yn gweithio mewn gwahanol ddiwydiannau.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/addysg



©Ysgol John Bright

Ysgol Gwyddorau Iechyd

Mae'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi myfyrwyr ôl-radd sy'n dod i astudio gyda gwybodaeth, sgiliau, profiad, gwerthoedd a chredoau sydd ganddynt yn barod, a chaiff y rhain eu cymryd fel man cychwyn ar gyfer datblygu. Mae'r Ysgol yn lle cyfeillgar a chefnogol i astudio. Rydym yn ymfalchïo mewn cefnogi myfyrwyr mewn amgylchedd sy'n sefydlu ac yn cynnal safon uchel o ansawdd a rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu yn ogystal ag ymchwil.

Trosolwg o feysydd academiaidd

Rydym yn cynnig ystod o lwybrau ôl-radd sy'n cynnwys rhaglenni cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru hynny yw, llwybrau sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol neu ddatblygiad proffesiynol pellach i fyfyrwyr sydd eisoes â chymhwyster proffesiynol. Gall pob grŵp gweithwyr iechyd proffesiynol ddefnyddio'r llwybrau hyn (e.e. meddygaeth, nyrsio a'r proffesiynau perthynol i iechyd), a hefyd staff sy'n gweithio mewn swyddi cysylltiedig ym maes rheoli'r gwasanaeth iechyd; gofal cymdeithasol; a'r sector gwirfoddol.

Datblygwyd ein rhaglenni MSc mewn cydweithrediad â sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU ac mewn ymateb i'n profiad a'n gwaith yn rhyngwladol. Mae hyn yn sicrhau perthnasedd a hygyrddedd ein rhaglenni. Mae pob cwrs yn amlddisgyblaethol a rhyngbroffesiynol, sy'n eich galluogi i ddefnyddio amrywiaeth o brofiadau clinigol a phrofiadau sy'n canolbwyntio ar wasanaeth. Mae llawer o rhaglenni'n cynnwys elfennau theori ac ymarfer; mae'r rhain wedi'u cynllunio i ymateb i'r newidiadau a ddaeth yn sgil ymchwil, newidiadau mewn cymdeithas, anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd mae Sefydliad Iechyd Ymchwil a Meddygol Bangor yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous i gymryd rhan mewn rhaglen ymchwil ôl-radd ar gyfer PhD, MPhil neu MSc trwy Ymchwil. Mae'n darparu amgylchedd a rhaglen hyfforddi ragorol i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd iechyd ac ymchwil meddygol sy'n galluogi twf personol a phroffesiynol. Mae'r pum grŵp ymchwil yn cynrychioli cronfa sylweddol o arbenigedd a diddordebau a meysydd diddordeb posibl ar gyfer astudiaethau ôl-radd.

Mae ein staff yn cyfuno ystod eang o ddulliau addysgu a dysgu o fewn rhaglenni academiaidd. Mae dysgu cyfunol yn cynnig dull hyblyg o ddysgu, sy'n rhoi dewisiadau i fyfyrwyr ynghylch pryd, ble a sut maent yn dysgu. Ar ben hynny, mae hyn yn rhoi cyfle da i wella dysgu myfyrwyr am realiti gwaith mewn amgylcheddau clinigol ac iechyd.

Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor

Lansiodd Prifysgol Bangor Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR) yn 2016 er mwyn adeiladu ar ein rhaglen ymchwil arloesol, gan ddarparu llwyfan gydgysylltiedig ar gyfer ymchwil penodedig ym maes iechyd a gwaith ymchwil ôl-radd yn yr ysgol Gwyddorau Iechyd. Mae BIHMR yn datblygu sylfaen sydd wedi ei sefydlu o ragoriaeth ymchwil ac yn canolbwyntio ar chwe grŵp ymchwil craidd: Heneiddio a Dementia@ Bangor (yn cynnwys y Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia.) Gweithredu@ BU, Sefydliad Gogledd Cymru ar gyfer hap-dreialon iechyd (NWORTH), y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME), Canolfan Ymchwil Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru (NWCPCR) a'r Ganolfan Iechyd Meddwl a Chymdeithas (CFMHS).

Gweler diwedd yr adran am ragor o wybodaeth am ein grwpiau ymchwil.

Staff a chyfleusterau

Daw staff o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol ac mae ein hymchwilyr a'n darlithwyr profiadol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a lles wedi ymrwymo i'n nod canolog o helpu myfyrwyr i gael y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol ar gyfer cyflawni gwaith academiaidd ac ymarfer clinigol. Mae gennym gysylltiadau cryf â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill yng ngogledd Cymru ac rydym hefyd yn cynnal cynadleddau, seminarau a gweithdai ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol allweddol. Caiff pob un o'n rhaglenni eu cydgynhyrchu gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a phartneriaid eraill i sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau y mae ein myfyrwyr yn eu hennill yn berthnasol i gyflogwyr yn y dyfodol.

Rhoddir cyfle i'n myfyrwyr gael profiad clinigol mewn cyd-destun dwyieithog. Byddwch yn cael llawer o gyfleoedd i brofi ymarfer clinigol ac addysg ddwyieithog, gan gyfoethogi'ch profiad dysgu a'ch cyflogadwydd yn y dyfodol.

Mae gennym gasgliad helaeth yn y llyfrgell iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gennym Gynllun Achredu Dysgu Blaenorol, fel y gall profiadau academiaidd blaenorol gael eu hachredu.

RHESTR O'R CYRSIAU:

Datblygiad Proffesiynol Parhaus
• BSc Health Studies*

Modiwl cymwysterau Lefel 6 a Lefel 7

PgDip

• Nyrsio Oedolion

Tystysgrif i Raddedigion

• Chronic Disease*
• Emergency Practitioner*
• General Practice Nursing*

MSc/PgDip/PgCert

• Advanced Clinical Practice#
• Advanced Clinical Practice AHP
• Advanced Healthcare Practice*
• Advanced HEMS
• Ageing - Research & Practice*
• Applied Health Research (e-learning)*
• Dementia Studies
• Leading Quality Improvement
• Midwifery Studies*
• Non-surgical Aesthetic Medicine
• Palliative Care*
• Public Health and Health Promotion

MA

• Social Work

PG Cert

• Acute Medical Care*
• Acute Surgical Care*
• Contraception and Associated Health*
• Critical Care
• Diabetes Care and Management*
• Examination of the Newborn*
• Intensive Care Nursing*
• Legal & Ethical Concepts in Healthcare*
• Mental Health*
• Optimising Breastfeeding*
• Optimising Childbirth*
• Palliative Care Practice

MSc by Research

• Ageing and Dementia Studies
• Health Economics
• Implementation

PhD/MPhil#

• Health Sciences* #
• Health Economics*
• Implementation*
• Primary Care*
• Ageing and Dementia*
• Health and Social Care*

DHLTH

• Professional Doctorate in Healthcare*
• Professional Doctorate in Public Health*
• Professional Doctorate in Ageing & Dementia*

Cynghorir myfyrwyr rhyngwladol i gysylltu â'r ysgol cyn gwneud cais

*Gweler y wefan am fanylion y cyrsiau.

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 383123
E-bost: health@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/health-sciences

Adult Nursing PgDip

HYD Y CWRS

PgDip: 2 flynedd yn llawn-amser

GOFYNION MYNEDIAD

Er mwyn gwneud cais am Ddiploma Ôl-radd Nyrsio Oedolion, fel rheol bydd ymgeisydd wedi cael gradd anrhydedd 2.i mewn iechyd neu bwnc cysylltiedig o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf, ac yn gallu dangos 700 awr o brofiad yn gysylltiedig â gofal iechyd.

Mae'r NMC hefyd yn gofyn am dystiolaeth o 'Iechyd Da a Chymeriad Da', ac yn ychwanegol at gael geirada cefnogol i'r cais, mae'r Ysgol wedi mabwysiadu'r geirada Cymeriad Da Cymru Gyfan. Asesir Cymeriad Da ymhellach trwy adroddiad llawn/cliriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r PGDip hwn mewn Nyrsio Oedolion yn arwain at gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gall graddedigion cael llwybr wedi'i ariannu dros ddwy flynedd i nyrsio gan ennill cymhwyster ôl-radd ar yr un pryd. Mae'r cymhwyster ôl-radd hwn wedi'i anelu at raddedigion sy'n dymuno datblygu a chymhwyso'r wybodaeth a gafwyd trwy eu gradd israddedig a dilyn gyrfa yn cyflwyno gwasanaethau gofal iechyd uniongyrchol. Nod y cwrs hwn yw paratoi nyrsys cofrestredig sy'n gallu cynnig gofal tosturiol o ansawdd rhagorol, gwell arweinyddiaeth, rheolaeth ac sydd â sgiliau rhyngbroffesiynol ac ymchwil, er mwyn dylanwadu ar ymarfer ac ysgogi newid.

Bydd myfyrwyr yn graddio o'r rhaglen fel nyrsys oedolion, gyda'r wybodaeth, y sgiliau, y gallu a'r gwerthoedd angenrheidiol i fodloni'r gofynion statudol ar gyfer cofrestru.

Sylwer: Gan fod hon yn rhaglen a ariennir gan y Gwasanaeth Gweithlu, Addysg a Datblygu (WEDS) ni fydd myfyrwyr rhyngwladol yn gallu gwneud cais am y rhaglen astudio hon.

Modiwlau:

Blwyddyn 1

- Principles of Adult Nursing
- Legal & Ethical Concepts
- Adults with Chronic Conditions
- Physiology & Pathophysiology
- Nursing Practice 1PGD

Blwyddyn 2

- Adults with Complex Needs
- Lead, Innovate and Implement
- Clinical Decision Making & Evidence Based Practice
- Nursing Practice 2 PGD

RHAGOLYCON GYRFA

Gall myfyrwyr sy'n cwblhau Diploma Ôl-radd Nyrsio Oedolion gofrestru eu statws proffesiynol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chwilio am swydd fel nyrs gofrestredig. Disgwylir i'r rhai sy'n gallu cofrestru gyda'r NMC weithio yng Nghymru am gyfnod o ddwy flynedd yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfraddau cyflogadwyedd yn uchel o gymharu â graddedigion eraill. (Ar hyn o bryd mae 100% o raddedigion yr holl raddau nyrsio israddedig mewn swydd broffesiynol/rheoli ar ôl 6 mis (KIS)), o ystyried y cymhwysedd a'r cymhwyster proffesiynol sy'n gysylltiedig â gradd. Mae cyfleoedd gyrfa ar ôl eu cyflogi fel nyrs gofrestredig yn rhagorol a gallant arwain at gyfleoedd dyrchafu mewn ymarfer clinigol/arbenigedd, ymchwil neu addysg.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

Advanced Clinical Practice MSc/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, 3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Sylwch: Dim ond gweithwyr proffesiynol cymwys sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Bydwreigiaeth Cenedlaethol (NMC) neu'r Cyngor Gweithwyr Proffesiynol Iechyd a Gofal (HCPC) yn y DU a all cael eu derbyn i'r cwrs hwn. Mae mynediad i'r rhaglen MSc Ymarfer Clinigol Uwch yn gofyn am radd gyntaf berthnasol mewn pwnc perthnasol gan sefydliad cydnabyddedig. Bydd gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd yn cael eu hystyried yn unigol gan yr ysgol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Datblygwyd y rhaglen i wella gwybodaeth broffesiynol am brosesau ffisiolegol a phathoffisiolegol sydd, ynghyd â ffenomenau cymdeithasol a seicolegol, yn sail i iechyd a chlefyd. Y nod yw datblygu ôl-raddedigion annibynnol sydd â gwybodaeth a sgiliau proffesiynol uwch a all gyfrannu at foderneiddio'r GIG a sefydliadau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

Modiwlau craidd:

• Physiology and Pathophysiology

Datblygwyd y modiwl hwn i wella eich gwybodaeth am brosesau ffisiolegol a phathoffisiolegol sydd, ynghyd â ffenomenau cymdeithasol a seicolegol, yn sail i iechyd a chlefyd.

• Consultation Skills[#]

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar gyfathrebu a defnyddio model meddygol ar gyfer cymryd hanes clinigol. Mae'r ymgynghoriad yn rhyngweithio preifat a chartrefol a bwriad y modiwl hwn yw herio ymarfer ac amlygu materion fel ymgysylltu effeithiol a rhwystrau i gyfathrebu therapiwtig.

• Physical Examination and Diagnostics^{##}

Bwriad y modiwl hwn yw rhoi sgiliau i ymarferwyr fel y gallant arwain mynediad uwch mewn ystod o amgylcheddau gofal iechyd.

• Research Methods or e-Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn gyflwyniad i ddulliau ymchwil ac yn cyflwyno llwyfan i chi gymryd rhan mewn dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol a datblygu'r gallu i ddefnyddio technegau ymchwil penodol.

• Traethawd hir – project ymchwil dan oruchwyliaeth (20,000 o eiriau)

Mae'r Modiwlau Dewisol (yn dibynnu ar gofrestru) yn cynnwys:

- Dementia
- Leadership in Context
- Ill Adult/Medical Management
- Pharmacology and Non-Medical Prescribing
- Diabetes Management
- Work-based Learning
- Renal Nursing
- Professional Development Portfolio
- Accountability in Health & Social Care
- Social and Behavioural Sciences
- Epidemiology
- Introduction to Health Economics
- Public Health Nutrition
- Emergency Practitioner

RHAGOLYCON GYRFA

Datblygwyd y cwrs MSc hwn mewn cydweithrediad â sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y DU ac mae'n cynnwys cymwyseddau a aseswyd yn yr amgylchedd clinigol. Cynlluniwyd y cwrs ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n dymuno astudio ar lefel uwch i gynyddu eu gwybodaeth, sgiliau a'u priodolddau fel y gallant gyfrannu at heriau iechyd a gofal cymdeithasol yr oes sydd ohoni.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

[#] Mentor yn y lleoliad ymarfer yn cymeradwyo

^{##} Mae modiwlau'n gofyn am o leiaf 60 awr o log clinigol a chwblhau cymwyseddau clinigol perthnasol yn llwyddiannus i orffen y modiwl.

Advanced Clinical Practice (AHP) MSc/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: 3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Sylwch: Dim ond gweithwyr proffesiynol cymwys sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn y DU a all cael eu derbyn i'r cwrs hwn. Mae mynediad i'r rhaglen hon yn gofyn am radd gyntaf dda mewn pwnc perthnasol gan sefydliad cydnabyddedig. Bydd gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd yn cael eu hystyried ar sail unigol gan yr ysgol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Datblygwyd y rhaglen i wella gwybodaeth broffesiynol gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig sydd â diddordeb mewn gwneud gwaith ymarferydd clinigol uwch. Y nod yw datblygu ôl-raddedigion annibynnol sydd â gwybodaeth a sgiliau proffesiynol uwch a all gyfrannu at foderneiddio'r GIG newydd a sefydliadau eraill yn y DU.

Modiwlau craidd:

• Leadership in Context

Mae'r modiwl hwn yn archwilio prosesau sy'n ymwneud ag arwain a hwyluso gweithredu newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol gan dynnu ar amrywiaeth o theori a thystiolaeth

• Developing Advanced Practice

Mae'r modiwlau dysgu cyfunol hyn yn hwyluso datblygiad gwybodaeth a sgiliau sy'n ofynnol i fod yn Ymarferydd Uwch trwy ganolbwyntio ar y pedwar Piler Ymarfer Uwch a datblygu'r Portffolio Ymarfer Uwch.

• Research Methods or e-Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn gyflwyniad i ddulliau ymchwil ac yn cyflwyno llwyfan i chi gymryd rhan mewn dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol a datblygu'r gallu i ddefnyddio technegau ymchwil penodol.

• Traethawd hir – project ymchwil dan oruchwyliath (20,000 o eiriau)

Mae modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Physiology and Patho-physiology
- History Taking and Consultation Skills
- Physical Examination and Diagnostics
- Epidemiology
- Introduction to Health Economics
- Accountability in Health and Social Care
- Ill Adult Management
- Non-medical Prescribing
- Diabetes Management
- Nutrition
- Professional Development Portfolio
- Work-based Learning
- Dementia

RHAGOLYCON GYRFA

Datblygwyd y cwrs hwn mewn cydweithrediad â sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y DU ac mae'n cynnwys cymwyseddau a asesir yn yr amgylchedd clinigol. Cynlluniwyd y cwrs ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig sy'n dymuno astudio ar lefel uwch i gynyddu eu gwybodaeth, sgiliau a'u priodoleddau fel y gallant gyfrannu at heriau iechyd a gofal cymdeithasol yr oes sydd ohoni.

Advanced HEMS MSc/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: 3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae angen gradd 2:1 neu ddosbarth cyntaf. Os oes gennych radd 2.ii, bydd eich addasrwydd yn seiliedig ar eich datganiad personol a'ch geirada. Bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu: geiradaon a datganiad personol cryf ac o leiaf un o'r canlynol (mae llythyr cefnogaeth y cyflogwr yn debygol o gyflawni un o'r meini prawf isod):

- Tystiolaeth y bydd gennych fynediad at leoliadau clinigol i gwblhau elfennau craidd y cwrs
- Cadarnhad gan ysbyty (e.e. contract er anrhydedd y Bwrdd Iechyd, llythyr gan Glinigwr Arweiniol Adranol) y rhoddir caniatâd i'r myfyriwr fynd i theatrau/ICU i gwblhau elfennau gofal critigol allweddol o'r rhaglen NEU
- Cadarnhad gan wasanaeth ambiwlans awyr y bydd gan y myfyriwr fynediad at leoliad clinigol am ddigon o amser i gwblhau elfennau cyn-ysbyty allweddol y rhaglen.

Os cewch eich dewis, gofynnir i chi ddod i gael cyfweiliad gan bersonél academiaidd y brifysgol a staff clinigol i gadarnhau eich addasrwydd fel ymgeisydd.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y rhaglen hon yw darparu fframwaith academiaidd cadarn i unigolion sy'n hyfforddi i fod yn ymarferwyr uwch mewn meddygaeth awyr. Mae'r cwrs yn cynnwys gofal cyn-ysbyty ac adfer, gan gynnwys rheoli cleifion difrifol wael sydd angen trosglwyddiad lefel 3 rhwng ysbytai. Bwriedir y cwrs ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol profiadol sy'n dymuno ffurfioli a datblygu eu hymarfer, a bydd gofyn i ddysgwyr ddatblygu o fewn lleoliadau ymarfer credadwy. Bwriedir i'r cwrs fod yn heriol, a bydd gofyn i ddysgwyr ddangos hyfiedredd mewn asesiad clinigol wedi'i dargedu, diagnosteg gyflym, therapiwteg a rheolaeth glinigol yn yr amgylchedd cyn-ysbyty.

Bydd modiwlau craidd yn cynnwys:

- History Taking and Consultation Skills
- Physical Examination and Diagnostics
- Core elements in prehospital care
- Retrieval Medicine 1
- Retrieval Medicine 2

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/



Dementia Studies MSc/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, 3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd gyntaf dda mewn pwnc perthnasol gan sefydliad cydnabyddedig. Pynciau gradd sy'n dderbyniol ar gyfer pob rhaglen: Nyrsio, Bydwreigiaeth, Therapi Galwedigaethol/ Iaith a Lleferydd, Ffisiotherapi, Meddygaeth/ Deintyddiaeth, Seicoleg, Radiograffeg, Parafeddygon. Safon iaith Saesneg - gofynnwn am sgôr IELTS o 6 heb unrhyw elfen unigol yn is na 5.5 (neu gymhwyster cyfatebol). Nid yw hyn yn berthnasol i bob darpar ymgeisydd, gofynnwch am gyngor oherwydd gall eich gradd Baglor fod yn ddigonol i fodloni'r gofyniad hwn. Bydd gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd yn cael eu hystyried ar sail unigol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r rhaglen hon yn adeiladu ar safbwyntiau damcaniaethol a thystiolaeth ymchwil presennol sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol cymhwysol ym maes gofal dementia. Mae'n archwilio'n feirniadol theori, ymarfer a pholisi cyfredol er mwyn datblygu dulliau priodol o roi gofal dementia o ddisgyblaethau rheoli iechyd meddwl, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cwrs yn ceisio datblygu fframwaith i fyfyrwyr ymwneud â gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r teulu i bobl â dementia ar draws lleoliadau aciwt a chymunedol amrywiol. Mae'n gosod asesiad, cynllunio gofal ac ymyriadau

fel strategaethau sy'n ymateb i gymhlethdod dementia fel profiad byw, yn cynnwys rhoi sylw i ymyriadau therapiwtig dwyieithog er mwyn datblygu rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaeth.

Modiwlau craidd:

• Positioning in Dementia Care

Mae'r modiwl hwn yn ceisio gwella dealltwriaeth o'r gwahanol drafodaethau sy'n ymwneud â gofal dementia a hyrwyddo ymwybyddiaeth o effaith trafodaethau o'r fath ar natur a fformat darparu gofal.

• Dementia: Managing Complex Transitions

Bydd y modiwl hwn yn rhoi gwybodaeth a sgiliau i fyfyrwyr weithio'n effeithiol gyda phobl â dementia a gofalwyr teuluol, yn ystod cyfnodau o argyfwng neu wrth wynebu cymhlethdod, cynnwrf, newid neu drosglwyddo.

• Communication in Dementia Care

Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddadansoddi'n feirniadol swyddogaeth cyfathrebu mewn perthynas â deall profiad byw gyda dementia, ymwneud â pherson â dementia a gyda'r asesiadau sy'n digwydd o fewn gofal dementia, gan roi ystyriaeth ofalus i gyfathrebu'n ddwyieithog.

• Culturally Sensitive Care

Mae'r modiwl e-ddysgu hwn wedi'i gynllunio i ganolbwyntio ar ddealltwriaeth o gymhlethdod iaith a'i chyd-destun diwylliannol o fewn gofal dementia. Mae'n ceisio archwilio ac adfyfrio

ar sut mae pobl yn 'lleoli' eu hagwedd tuag at iaith o fewn trafodaeth glinigol fel 'gweithred' sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cynnwys cysyniadau tosturi ac urddas.

• Leadership in Context

Mae'n edrych ar brosesau sy'n ymwneud ag arwain a hwyluso gweithredu newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol gan dynnu ar theori a thystiolaeth amrywiol.

• Research Methods or e-Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn gyflwyniad i ddulliau ymchwil ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymwneud â dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol a datblygu'r gallu i ddefnyddio technegau ymchwil penodol.

• Traethawd hir – project ymchwil dan oruchwyliaeth (20,000 o eiriau)

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r rhaglen hon yn darparu dysgu sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ac yn archwilio'n feirniadol y theori a'r ymarfer sy'n fframio dulliau cyfoes o reoli iechyd a gofal cymdeithasol i bobl â dementia. Nid yw'n cynnwys unrhyw leoliadau na chymwyseddau clinigol, sy'n golygu ei fod yn addas ar gyfer ymgeiswyr lleol a rhyngwladol sydd eisiau astudio ar y lefel hon fel gofyniad gyrfa neu ar gyfer cynnydd academaidd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

Non-surgical Aesthetic Medicine MSc/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: 3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae ymgeiswyr angen gradd 2.i neu ddosbarth 1af mewn nyrsio, meddygaeth, deintyddiaeth neu fferylliaeth, a rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru gyda'r Corff Statudol Rheoleiddio Proffesiynol (PRSB) perthnasol, gydag o leiaf 2 flynedd o brofiad ar ôl cymhwyso. Mewn rhai amgylchiadau, gellir ystyried ceisiadau hefyd gan Weithwyr Proffesiynol Iechyd cysylltiedig sydd wedi cofrestru gyda PRSB ac sydd ag o leiaf 2 flynedd o brofiad ar ôl cymhwyso.

Rhaid i ymgeiswyr nodi a darparu tystiolaeth o fynediad at leoliad clinigol priodol ac athrawon ymarfer. Safon iaith Saesneg - gofynnwn am sgôr IELTS o 6.0 heb unrhyw elfen unigol yn is na 5.5 (neu gymhwyster cyfatebol).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MSc mewn Meddygaeth Esthetig An-lawfeddygol yn paratoi meddygon, nyrsys, deintyddion a fferyllwyr sydd wedi'u cofrestru yn y DU i ddarparu ymarfer esthetig an-lawfeddygol diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae blwyddyn un yn adlewyrchu'r safonau ymarfer newydd ac arloesol seiliedig ar dystiolaeth, a ddatblygwyd gan arbenigwyr mewn ymateb i'r Adolygiad o Reoliadau Ymyriadau Cosmetig gan yr Adran Iechyd (2013), a Gofynion Cymhwyster Cyflenwi Gweithdrefnau Cosmetig gan Addysg Iechyd Lloegr (2014).

Ym mlwyddyn un, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig yn barod i ymgymryd â swyddogaethau clinigol, annibynnol fel ymarferwyr esthetig an-lawfeddygol. Bydd y rhaglen yn datblygu gwybodaeth y gweithiwr proffesiynol ynglŷn ag anatomeg wyneb a heneiddio a bydd yn sicrhau bod yr ymarferydd yn datblygu'r cymhwysedd i ddarparu ymarfer esthetig an-lawfeddygol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddefnyddio tocsin botwlinwm a

llenwyr croenol nad ydynt yn barhaol. Mae blwyddyn dau yn rhoi cyflwyniad i ddulliau ymchwil, gan baratoi ymarferwyr ar gyfer y modiwl traethawd hir MSc ym mlwyddyn tri. Gall ymarferwyr hefyd ddewis o amrywiaeth o fodiwlau ychwanegol, gan gynnwys Non-medical prescribing, Advanced non-surgical aesthetic practice neu Legal and ethical concepts, a fwriedir i wneud y defnydd gorau o gymhwysedd a gwybodaeth yr ymarferydd arbenigol.

Mae'r flwyddyn olaf yn cynnig cyfle i ymarferwyr gwblhau darn cyfoes o ymchwil neu ymholiad ysgolheigaidd, mewn perthynas â meddygaeth esthetig an-lawfeddygol. Bydd cwblhau'r modiwl traethawd hir yn llwyddiannus yn arwain at ddyfarnu MSc mewn Meddygaeth Esthetig An-lawfeddygol.

Modiwlau craidd: (Sylwch: gall y modiwlau newid)

- Professional Standards, Assessment and Decision Making in Non-surgical Aesthetic Medicine
- Safe Administration & Management of Non-surgical Aesthetic Medicine (includes 40 hours of clinical practice)
- e-Research
- Research Thesis / Traethawd hir

Modiwlau Dewisol:

- Non-medical Prescribing (nurses and pharmacists only)
- Advancements in Non-surgical Aesthetic Medicine
- Legal and Ethical Concepts
- Advancing Professional Knowledge

Caiff elfennau hyfforddedig y rhaglen eu cyflwyno ar ein campws yn Wrecsam gan gyfadrann arbenigol, a gydnabyddir yn rhyngwladol am ddarparu addysgu ac ymchwil rhagorol, a chydag arbenigedd mewn meddygaeth esthetig an-lawfeddygol.

Hefyd, mae gan Arweinydd y Rhaglen brofiad helaeth mewn meddygaeth esthetig an-lawfeddygol, ac mae wedi chwarae rhan weithredol yn natblygiad safonau ymarfer addysgol amrywiol y DU ar gyfer ymarfer esthetig an-lawfeddygol.

Cyflwynir darlithoedd trwy amryw o ddulliau addysgu modern, wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o brofiad dysgu myfyrwyr, gan gynnwys e-ddarlithoedd ar-lein, byrddau trafod a 40 awr o ddysgu ymarferol yn seiliedig ar ymarfer. Mae'r dull hyblyg, cyfunol hwn o addysgu yn sicrhau bod myfyrwyr yn aml yn gallu ymroi trwy ddulliau ymarferol, gan leihau'r angen i fynd i gampws y brifysgol. Mae'r PgCert hefyd yn darparu gweithdy labordy cyrff marw dewisol, wedi'i gynllunio i wella profiad dysgu myfyrwyr ymhellach mewn perthynas ag anatomeg yr wyneb dynol.

Gall rhai modiwlau dewisol, er enghraifft, Non-medical Prescribing, Advancing Aesthetic Practice neu Advancing Knowledge, fabwysiadu amrywiaeth o strategaethau addysgu a dysgu cyfunol, gan gynnwys addysgu wyneb yn wyneb, seminarau a byrddau trafod.

RHAGOLYCON GYRFA

Gall gyrfa mewn meddygaeth esthetig an-lawfeddygol breifat ddarparu gyrfa oedd ymreolaethol ac annibynnol i ymarferwyr a gall hefyd arwain at swyddi mewn clinigau preifat neu ysbytai, fel ysbytai sy'n darparu triniaethau esthetig an-lawfeddygol. Ar ben hynny, gyda'r nifer cynyddol o ymarferwyr a ragwelir yn mynd mewn i feddygaeth esthetig an-lawfeddygol, mae cyfleoedd yn cynnwys addysgu, mentoriaeth neu gymryd rhan strategol mewn diwydiant yn llawer mwy tebygol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser, 3 blynedd yn rhan-amser. Mae dysgu o bell (ar-lein) ar gael hefyd.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae ymgeiswyr angen gradd israddedig 2(ii) neu uwch o amrywiaeth eang o bynciau. Rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gyda datganiad personol cadarn sy'n nodi pam mae ymgeiswyr eisiau astudio'r cwrs hwn ym Mhrifysgol Bangor; mae angen geirfa boddhaol hefyd (gan academydd a/neu gyflogwr, yn dibynnu ar amgylchiadau'r ymgeisydd).

Gellir ystyried derbyn ymgeisydd o dan amgylchiadau eraill, er enghraifft, yn meddu ar o leiaf 3 blynedd o brofiad gwaith perthnasol, geirfaon a datganiad personol cadarn a thystiolaeth o astudiaeth ddiweddar neu ddatblygiad proffesiynol (i ddangos gallu i astudio ar lefel 7).

Safon iaith Saesneg i fyfyrwyr rhyngwladol - gofynnwn am sgôr IELTS o 6 heb unrhyw elfen unigol yn is na 5.5 (neu gymhwyster cyfatebol).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bwriedir y cwrs ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn iechyd cyhoeddus, a hybu iechyd a lles. Gan adlewyrchu natur amrywiol iechyd y cyhoedd a hybu iechyd, cynlluniwyd y cwrs hwn i ddiwallu anghenion dysgu unigolion o ystod eang o gefndiroedd academiaidd a galwedigaethol. Bydd myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer gwella iechyd a lles unigolion a phobl o wahanol ddiwylliannau trwy: hybu iechyd ac atal afiechydon; datblygu sgiliau

i arwain a rheoli newid; ac asesu, cynllunio a gwerthuso ymyriadau polisi ac ymarfer. Mae cynnwys y cwrs yn canolbwyntio ar y ffactorau sy'n sail i iechyd y cyhoedd a hybu iechyd, epidemioleg, economeg iechyd, ymchwil, a'r gwyddorau cymdeithasol ac ymddygiadol.

Modiwlau craidd:**• Social & Behavioural Sciences**

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y dylanwadau cymdeithasol, seicolegol, gwleidyddol a diwylliannol sy'n effeithio ar bolisi ac ymarfer hybu iechyd ac iechyd cyhoeddus.

• Health Economics

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y gwahanol ddulliau ar gyfer cyllido a darparu gofal iechyd ledled y byd.

• Epidemiology

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar epidemioleg a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio ym maes iechyd y cyhoedd a hybu iechyd.

• Principles & Practice of Public Health Promotion

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y materion sy'n effeithio ar ymarfer ym maes iechyd y cyhoedd, addysg iechyd a hybu iechyd.

• Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn gyflwyniad i ddulliau ymchwil ac yn rhoi cyfle i chi ymwneud â dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol a datblygu'r gallu i ddefnyddio technegau ymchwil penodol.

• Traethawd hir - Cwblhau project ymchwil dan oruchwyliath (20,000 o eiriau)

Modiwl dewisol (Sylwch: gall y dewis o fodiwlau a pha rai sydd ar gael newid)

Mae'n ofynnol hefyd i fyfyrwyr gwblhau 1 modiwl dewisol, er enghraifft:

- Advancing Knowledge
- Global Health
- Leadership in Context
- Legal and Ethical Issues
- Public Health Nutrition
- Work-based Learning

RHAGOLYCON GYRFA

Mae nifer o opsiynau gyrfa i raddedigion sydd â sylfaen ym maes iechyd y cyhoedd a hybu iechyd. Mae cyn-fyfyrwyr wedi cael swyddi yn y byd academiaidd, datblygu cymunedol, economeg iechyd, addysg iechyd, hybu iechyd, addysg uwch, datblygu economaidd, iechyd yr amgylchedd, hybu iechyd/gwella iechyd, arweinyddiaeth a chynllunio, maeth, iechyd y cyhoedd, ymchwil, hyfforddiant ac ymwneud ag ieuencid. Mae'r swyddi hyn mewn nifer o wahanol leoliadau gan gynnwys cyrff anllwydoraethol, gwasanaethau cyhoeddus a'r llywodraeth, a'r sectorau gwirfoddol. Er bod y swyddi a'r lleoliadau'n amrywiol, mae pob un yn canolbwyntio ar amddiffyn a gwella iechyd unigolion a phoblogaethau.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

Social Work MA**HYD Y CWRS**

MA: 2 flynedd yn llawn-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd sengl neu gydanrhydedd 2.ii neu uwch. Ystyrir ymgeiswyr gyda gradd 2(ii) sy'n gallu dangos profiad perthnasol, helaeth a chryf a barodd am o leiaf chwe mis (llawn-amser cyfatebol). Gorau oll os yw darpar fyfyrwyr wedi cael profiadau amrywiol o weithio gyda gwahanol fathau o anghenion, boed hynny mewn swyddogaeth gyflogedig, wirfoddol neu bersonol.

Rydym hefyd angen TGAU Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf) gradd C neu gymhwyster cyfatebol. Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol.

Bydd rhaid i bob ymgeisydd basio gwiriadau y bernir eu bod yn angenrheidiol i gofrestru fel myfyriwr gwaith cymdeithasol gyda Chyngor Gofal Cymru (yn cynnwys gwiriadau o ran iechyd a chollfarnau troseddol).

Hefyd, rhoddir cyfweiliad i'r holl ymgeiswyr i ganfod pa mor addas a chymwys dynt ar gyfer astudio ac ymarfer.

Mae'n fanteisiol cael gar a thrwydded yrru lawn gan fod angen gyrru i'r rhan fwyaf o'r lleoliadau dysgu ymarfer.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r tîm MA Gwaith Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy i ddatblygu, cyflwyno a rheoli'r rhaglen Gwaith Cymdeithasol hon. Mae'r awdurdodau lleol

sy'n bartneriaid yn cymryd rhan yn y broses recriwtio, dewis myfyrwyr, addysgu ac asesu. Mae'r partneriaid, yn ogystal ag asiantaethau cyflogi eraill, yn darparu lleoliadau gan sicrhau eich bod yn datblygu dealltwriaeth gref o ymarfer gwaith cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, ochr yn ochr â'ch datblygiad academiaidd.

Derbynnir pob myfyriwr gan un o'r awdurdodau lleol (Gwynedd, Conwy neu Fôn), mewn trefniant sy'n cefnogi eich datblygiad i fod yn weithiwr cymdeithasol medrus. Byddwch yn gwneud 200 diwrnod o ddysgu trwy ymarfer wedi'i rannu'n 2 leoliad o 100 diwrnod yr un. Bydd y rhan fwyaf o leoliadau o fewn y tair sir, ond bydd rhai myfyrwyr yn medru manteisio oddi wrth gyfleoedd ymhellach i ffwrdd.

Mae'r rhaglen yn cynnig cyfle i astudio yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r brifysgol a'i phartneriaid wedi ymrwngwng i ddarparu cyfleoedd dysgu dwyieithog, yn ystod cyfnodau dysgu yn y brifysgol ac yn ystod lleoliadau. Bydd tiwtoriaid Cymraeg yn cael eu dyrannu i fyfyrwyr Cymraeg a byddant yn cael eu hannog i astudio eu modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cyflwyno pob gwaith a asesir yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd myfyrwyr yn cael eu hannog i ddatblygu eu dealltwriaeth o gyd-destun gwleidyddol, economaidd ac ieithyddol gweithio yng Nghymru.

Modiwlau**Blwyddyn 1:**

- Social Policy for Social Work Practice
- Knowledge and Skills Base for Social Work
- The Life Course

- Values and Ethics for Social Work Practice
- The Research Process
- Law for Social Work 1
- 100 day placement

Blwyddyn 2:

- Social Work Traethawd hir
- Social Work with Children, Young People and Families
- Social Work with Adults
- Law for Social Work 2
- Literature Review
- Traethawd hir
- 100 day placement

RHAGOLYCON GYRFA

Ar ôl cymhwyso, byddwch yn gallu gweithio mewn amrywiaeth eang o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol, gan weithio'n aml gyda gweithwyr proffesiynol eraill, megis therapyddion galwedigaethol neu seicolegwyr, mewn timau amlddisgyblaethol. Yn ogystal â lleoliadau gwaith cymdeithasol statudol fel timau plant a theuluoedd, timau pobl hŷn a thimau iechyd meddwl cymunedol, gall gweithwyr cymdeithasol gael eu cyflogi mewn ysbys, mewn projectau datblygu cymunedol, gyda sefydliadau anstatudol (efallai'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches), neu'n gweithio gyda rhieni ifanc sydd angen cefnogaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

Leading Quality Improvement MSc/PGDip/PGCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, 3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd 2 (ii) Anrhydedd neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol neu 3 blynedd o brofiad proffesiynol gyda gallu amlwg i astudio ar Lefel 7. Bydd yn bosib trosglwyddo credydau ac achrediad am ddysgu blaenorol (hyd at 40 credyd ar Lefel 7).

Ymgeiswyr rhyngwladol - Gofyniad iaith Saesneg - IELTS 6. Dim elfen yn is na 5.5. (neu gymhwyster cyfwerth) NEU ofyniad penodol iaith Saesneg y wlad AC mae'n rhaid i'r cais gynnwys datganiad personol.

Caiff myfyrwyr eu derbyn i'r rhaglen drwy'r flwyddyn, felly rydym yn eich annog i gyflwyno cais yn gynnar.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Byddwch yn dod yn arbenigwr mewn gwella ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar effeithiolrwydd (e.e. defnyddio tystiolaeth); effeithlonrwydd (e.e. dibynadwyedd gwasanaeth); a derbynioldeb (e.e. profiad y defnyddiwr gwasanaeth). Gan ddefnyddio ymchwil blaenllaw yn seiliedig ar dystiolaeth byddwn yn sicrhau y gallwch chi, fel y genhedlaeth nesaf o arbenigwyr gwella ac arloesi, ddefnyddio'r dystiolaeth hon wrth ymarfer - gwireddu ymchwil, a chael effaith uniongyrchol ar ansawdd gwasanaethau rheng flaen.

Mae'r rhaglen hon yn rhoi fframwaith trylwyr i chi ar gyfer datblygu a chyfuno gwybodaeth a sgiliau empirig, proffesiynol a sefydliadol fel sail i wella ansawdd gofal iechyd.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o ymchwil berthnasol a dulliau ysgolheigaidd sy'n berthnasol i wella ansawdd mewn gofal iechyd a gwybodaeth deallus am sut y gall canlyniadau'r defnydd hwn wella prosesau a chanlyniadau gwasanaeth a datblygu polisi a syniadau am ymchwil.

Bydd hyn yn eich galluogi i hyrwyddo gwelliannau mewn nifer o leoliadau gofal iechyd modern er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Modiwlau craidd:

• Advancing Knowledge

Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr werthuso'n feirniadol ac adfyfrio ar sut y gellir defnyddio strategaethau a dulliau cymhleth i ehangu eu gwybodaeth broffesiynol a'u dealltwriaeth, gan wneud synnwyr o sut i ddefnyddio gwybodaeth gymhleth a gwrthgyferbyniol ar gyfer datblygu gwelliannau yn y gwasanaeth.

• Approaches in Health Quality

Mae'n edrych ar sut mae ansawdd gofal iechyd yn cael ei ddylanwadu a sut y gellir ei fesur a'i werthuso'n effeithiol.

• Leadership in Context

Mae'n edrych ar brosesau sy'n ymwneud ag arwain a hwyluso gweithredu newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol gan ddefnyddio theori a thystiolaeth amrywiol.

• Evidence for Improvement

Mae'n edrych ar y gwahanol safbwyntiau damcaniaethol a natur tystiolaeth ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys datblygu a defnyddio sgiliau chwilio am wybodaeth, rheoli a gwerthuso beirniadol.

• Research Methods OR E-Research Methods

Mae'n rhoi cyflwyniad i ddulliau ymchwil ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymwneud â dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol a datblygu'r gallu i ddefnyddio technegau ymchwil penodol.

• Traethawd hir

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i'r myfyrwr gwblhau darn o ymchwil (cynradd, eilaidd neu'n seiliedig ar lenyddiaeth) neu ymholiad ysgolheigaidd ac mae ar gael i fyfyrwr fel opsiwn dwyieithog neu Saesneg.

• Work-based Learning

Mae'n rhoi cefnogaeth ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol, trwy weithredu (neu adolygu) project gwella wrth ymarfer. Mae'n canolbwyntio ar broblemau mewn sefyllfaoedd gwaith go iawn i'ch helpu chi i ddatblygu atebion cyraeddadwy. Yn fyr, mae'r modiwl hwn yn ceisio lleihau'r bwlch rhwng theori ac ymarfer.

RHAGOLYCON GYRFA

Bwriad y cwrs hwn yw cefnogi dilyniant academaidd, proffesiynol a gyrfa gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n gweithio ym maes arweinyddiaeth glinigol a swyddi o ansawdd o fewn sefydliadau gofal iechyd yn y DU ac yn rhyngwladol, neu sy'n anelu at weithio yn y meysydd hyn. Bydd dysgu o fewn y rhaglen hefyd yn berthnasol iawn i weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol a meysydd polisi cysylltiedig, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn swyddi arwain.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

Non-medical Prescribing Levels 7 Award (40 credits)

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y modiwl hwn yn galluogi nyrsys, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, radiograffwyr, podiatryddion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i ddatblygu fel rhagnodwyr annibynnol cymwys ac i gyrraedd y safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HPCP). Bydd pawb fydd yn cymryd y cwrs hwn yn gwneud asesiad damcaniaethol a chyfnod o ymarfer dan oruchwyliad ymarferydd meddygol penodedig.

Byddai nyrsys a fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd gofal sylfaenol ac eilaidd yn elwa o wneud y modiwl hwn. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r arbenigedd iddynt o fewn eu cylch gwaith a'u maes ymarfer penodol i gael eu cofrestru'n llawn fel rhagnodwyr annibynnol gyda'u corff rheoleiddio. Byddai hyn yn eu galluogi i weithio'n annibynnol gan ddarparu gwell gofal i gleifion yn cael eu trin gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol.

CYLLID

Mae nifer cyfyngedig o leoedd wedi'u comisiynu ar gael i staff y GIG. Rydym yn eich cynghori i wneud cais yn gynnar.

Mae Cymhwyster Lefel 6 mewn Rhagnodi Annibynnol ar gael hefyd. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar y wefan. www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/



Professional Doctorate in Healthcare DHLTH

HYD Y CWRS

DHLTH: 3 blwyddyn yn llawn-amser neu 5 mlynedd yn rhan-amser.

Mae ymarfer gofal iechyd lefel uwch yn cyfuno theori a thystiolaeth o ymchwil gyda mathau eraill o wybodaeth, yn cynnwys estheteg, moeseg a gwybodaeth broffesiynol personol sydd wedi'i lleoli mewn gwahanol gyd-destunau sefydliadol a gwleidyddol.

Mae'r rhaglen hon yn arbennig o berthnasol i weithwyr iechyd proffesiynol sydd mewn swyddi clinigol neu drefnu uwch sy'n cyfuno elfennau o ymarfer, ymchwil a gwella gwasanaeth mewn gofal iechyd. Yr hyn sy'n greiddiol i'r rhaglen yw gwyddor gweithredu sy'n canolbwyntio ar gau'r bwlch rhwng tystiolaeth a pholisi a darparu gwasanaeth. Mae'n galluogi gweithwyr proffesiynol i astudio gradd PhD mewn maes arbenigol sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'w harbenigedd a fydd yn eu galluogi i sicrhau newid mewn polisiau ac ymarfer yn y sector gofal iechyd.

Bydd y rhaglen PhD hon yn canolbwyntio ar wyddor gweithredu newid mewn lleoliad clinigol, gyda'r dystiolaeth a'r data sydd wedi cael eu hymchwilio a'u casglu ar y rhaglen ddoethuriaeth yn rhoi'r sylfaen ar gyfer cychwyn a gweithredu'r newid, yn cynnwys rheoli newid. Gan fod y rhaglen Ddoethur hon yn cynnwys elfen hyfforddedig, derbynir myfyrwyr ar bywntiau penodol yn ystod y flwyddyn er mwyn iddyn ddilyn rhaglen o gyrsiau hyfforddedig yn ystod Blwyddyn 1 a 2.

Mae'r rhaglen Doethuriaeth Broffesiynol yn caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio'r dysgu yn eu hymarfer proffesiynol wrth astudio'r pwnc i'r dyfnder â PhD damcaniaethol. Nodweddion allweddol y rhaglen hon yw canolbwyntio ar gynnwys sy'n berthnasol i'r diwydiant a'i ddefnyddio mewn amgylchedd proffesiynol yn y byd go iawn.

Modiwlau craidd

Mae'r cwrs wedi'i rannu'n ddwy ran - elfen hyfforddedig a phroject ymchwil sy'n arwain at draethawd ymchwil 60,000 o eiriau. Mae'r asesiadau'n cynnwys gwerthuso ymarfer proffesiynol/diwydiannol, adroddiadau, projectau a phortffolios.

• Advancing Knowledge

Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr werthuso'n ffridiadol ac adfyfrio ar sut y gellir defnyddio strategaethau a dulliau cymhleth i ehangu eu gwybodaeth broffesiynol a'u dealltwriaeth, gan wneud synnwyr o sut i ddefnyddio gwybodaeth cymhleth a gwrthgyferbyniol ar gyfer datblygu gwelliannau yn y gwasanaeth.

• Evidence for Improvement

Mae'n galluogi myfyrwyr i wella eu theori a'u hymarfer wrth weithredu tystiolaeth o ymchwil (ac o ffynonellau eraill) mewn ymarfer a/neu bolisi i wella effeithiolrwydd gwasanaeth, effeithlonrwydd a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth.

• Research Methods OR E-Research Methods

Mae'n rhoi cyflwyniad i ddulliau ymchwil ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymwneud â dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol a datblygu'r gallu i ddefnyddio technegau ymchwil penodol.

• Approaches in Health Quality

Mae'n edrych ar sut mae ansawdd gofal iechyd yn cael ei ddylanwadu a sut y gellir ei fesur a'i werthuso'n effeithiol.

• Advancing Skills Development

Mae'n rhoi cyfleoedd unigryw i ymarferwyr lefel uwch gryfhau a gwella sgiliau proffesiynol trwy ddysgu gweithredol, a dosbarthiadau meistr.

• Leadership in Context

Mae'n edrych ar brosesau sy'n ymwneud ag arwain a hwylyso gweithredu newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol gan ddefnyddio theori a thystiolaeth amrywiol.

• Evidence for Improvement

Mae'n edrych ar y gwahanol safbwyntiau damcaniaethol a natur tystiolaeth ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys datblygu a defnyddio sgiliau chwilio am wybodaeth, rheoli a gwerthuso beirniadol.

Modiwlau Dewisol:

Gall myfyrwyr ddewis hyd at 60 credyd o fodiwlau ar Lefel Academaidd 7 yn y Coleg.

Os bydd myfyrwyr yn dymuno gadael y rhaglen yn hytrach na chwblhau'r Ddoethuriaeth Gofal Iechyd Proffesiynol gellir cwblhau'r cymhwyster ymadael MSc mewn Gweithredu trwy opsiwn traethawd hir.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

MSc by Research

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

O ystyried y disgwyliadau uchel, rhaid bod gan ymgeiswyr o leiaf gradd 2.i neu uwch neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol. Rhaid bod gan fyfyrwyr rhyngwladol hefyd IELTS o 7.0 neu uwch (heb unrhyw elfen unigol o dan 6.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r rhaglen hon yn rhan annatod o gymuned o ymchwilwyr sy'n cynrychioli ystod o feysydd ymchwil arbenigol iawn a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol am ragoriaeth. Gall myfyrwyr ar y rhaglen hon ddewis llwybr penodol yn y rhaglen MSc trwy Ymchwil sy'n adlewyrchu eu meysydd diddordeb a'u dyheadau i ddatblygu gyrfa yn y dyfodol. Un o gryfderau penodol y rhaglen yw ei bod yn galluogi myfyrwyr i gynnwys eu hastudiaethau o fewn nifer o lwybrau neu leoli eu rhaglen o fewn thema ehangach adsefydlu, gan weithio ar draws timau. Mae'r llwybrau ac unedau ymchwil pwrpasol fel a ganlyn:

- Ageing and Dementia Studies
- Health Economics
- Implementation M

COURSE DETAILS

Bydd ffurf arloesol y rhaglen MSc trwy Ymchwil yn darparu llwybr pwrpasol ar gyfer myfyrwyr o safon uchel (a all fod â chwestiwn ymchwil neu nod penodol mewn golwg ac) sy'n barod i wneud ymchwil annibynnol a fydd yn arwain at astudio ar lefel PhD. Neu byddai'n briodol i

fyfyrwyr sydd eisiau cymhwyster annibynnol seiliedig ar ymchwil sy'n addas ar gyfer gyrfa mewn ymchwil gyda sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith ar ôl graddio.

Mae'r MSc trwy Ymchwil yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwr wneud darn sylweddol o ymchwil annibynnol sy'n rhan annatod o feysydd ymchwil penodedig yn yr Ysgol. Fel y nodwyd yn gynharach, mae nifer o feysydd arbenigol yn rhan annatod o dimau ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol ac sydd ag enw da o ran arbenigedd mewn meysydd arbenigol. Mae'r rhain yn cynnig amrywiaeth hyblyg o gyfleoedd i ddarparu fyfyrwyr, yn amrywio o gyfuno tystiolaeth a gweithredu i ddeall cymhlethdod dementia a datblygu gwasanaethau priodol. Mae arbenigedd timau ymchwil yn galluogi myfyrwyr i archwilio gwahanol feysydd diddordeb, adfyfrio ar gwestiynau ymchwil a all ganolbwyntio ar ofal sylfaenol, sensitifrwydd iaith a diwyllianol neu werthuso economaidd a threialon clinigol.

Mae'r ymchwil amlddisgyblaethol a gynhelir yn yr Ysgol yn cynrychioli amrywiaeth sylweddol o safbwyntiau clinigol a damcaniaethol sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ôl-radd archwilio nifer o gwestiynau neu nodau ymchwil posibl. Yn bwysig, defnyddir ystod o fethodolegau, yn cynnwys dulliau realistig, nifer o fethodolegau ymchwil ansoddol fel damcaniaeth seiliedig, ethnograffeg a gwaith astudiaeth achos yn ogystal â dulliau seiliedig ar brofion a dulliau cymysg. Mae natur y gweithgareddau ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd yn galluogi cydweithio ar draws unedau ymchwil a meysydd ymchwil arbenigol yn yr Ysgol, fel

y gall project ôl-radd ar gyfer yr MSc trwy Ymchwil ddefnyddio arbenigedd o nifer o feysydd gwahanol. Yn y modd hwn mae'r profiad ôl-radd yn yr MSc trwy Ymchwil yn cael ei gyfoethogi gan sgôp y cydweithio ac integreiddio trawsddisgyblaethol.

Mae'r MSc trwy Ymchwil yn cynnwys 180 credyd ac mae'n rhaid i'r ymchwil annibynnol fod o safon y gellir ei gyhoeddi mewn cyfnodolyn o ansawdd uchel a adolygir gan gymheiriaid. Yn ogystal â chefnogaeth gan oruchwylywyr y project ymchwil bydd cyfle hefyd i astudio modiwlau hyfforddedig ar lefel ôl-radd yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, yn cynnwys rhai ar ddulliau ymchwil, cyfuno a gweithredu tystiolaeth neu bynciau clinigol, yn ogystal â mynd i weithdai a chyrsiau a ddarperir ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd gan y brifysgol. Nid oes rhaid cael modiwlau hyfforddedig neu gyrsiau a gwblheir fel rhan o'r credydau ar gyfer yr MSc trwy Ymchwil ac nid oes rhaid eu cynnwys ond maent yn rhoi 'gwerth ychwanegol' wrth ddatblygu portffolio o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i astudio ymchwil ôl-radd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch mewn pwnc perthnasol. Neu gall profiad hir a phriodol mewn ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd neu mewn swydd sy'n canolbwyntio ar ymchwil fod yn berthnasol. Safon iaith Saesneg - gofynnwn am sgôr IELTS o 7.0 neu uwch (heb unrhyw elfen unigol yn is na 7.0).

DISGRIFIAD O'R CWRSS

Rydym yn cynnig addysg ac ymchwil arloesol i fodloni gofynion gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol heddiw. Mae'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, sy'n enwog am ddarparu cyrsiau rhagorol a chynnal ymchwil o ansawdd uchel, yn cynnig ystod o gyfleoedd ôl-radd i fyfyrwyr y DU a myfyrwyr rhyngwladol.

PhD/MPHil

Mae graddau ymchwil yn rhoi cyfle unigryw i fyfyrwyr ddatblygu rhaglen ymchwil annibynnol a fydd yn cyfrannu at wybodaeth yn eu maes proffesiynol, a rhoi cyfleoedd unigryw i ddatblygu'n bersonol a datblygu gyrfa.

Ageing and Dementia Studies MSc by Research,**Dementia Services Development Centre**

Mae Heneiddio a Dementia@Bangor a'r Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia (DSDC) yn canolbwyntio ar ymchwil yn ymwneud â phobl sy'n byw gyda dementia. Cynhelir ymchwil ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru gyda'r ganolfan ymchwil ym Mangor yn arwain Rhwydwaith Ymchwil Dementia a Chlefydau Niwroddirymiol Cymru (NEURODEM Cymru) ond ceir cysylltiadau cydweithio cryf hefyd gydag ymchwilwyr ar draws y DU, Ewrop a rhannau eraill o'r byd. Mae'r DSDC yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau ymchwil am heneiddio a dementia, a gellir dosbarthu'r rhain yn fras i'r categorïau a ganlyn: (i) gofal dementia (yn cynnwys afiechyd Alzheimer, gofal gan deuluoedd ac ymyriadau seicogymdeithasol); (ii) gerontoleg; a (iii) lles a gwytnwch gydol oes.

Health Economics MSc by Research, The Centre for Health Economics & Medicines Evaluation

Sefydlwyd y Ganolfan, a elwir hefyd yn CHEME, yn 2001 ac mae'n un o dair canolfan economeg iechyd yng Nghymru. Gwneir ymchwil ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru ond mae cysylltiadau cydweithio cryf hefyd ag ymchwilwyr gwasanaethau iechyd ledled y DU ac Ewrop.

Mae CHEME yn weithredol ar draws ystod eang o ddiddordebau ymchwil economeg iechyd a gellir dosbarthu'r rhain yn fras i'r categorïau a ganlyn (i) gwerthuso economaidd ochr yn ochr â threalon clinigol; (ii) ffarmacoeconomeg; a (iii) gwerthuso'r gwasanaeth iechyd. Mae gan y Ganolfan hefyd gysylltiadau agos iawn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae ganddi arbenigedd ymchwil mewn economeg iechyd cancer, dementia, anableddau golwg ac iechyd gwledig.

Health Sciences MSc by Research, The N.WORTH Trials Unit

Mae'r MSc trwy Ymchwil yn cynnwys cydrannau hyfforddedig sef: Dulliau Ymchwil, modiwlau Cyflwyniad i Economeg Iechyd a chwrs preswyl byr ar Economeg Iechyd y Cyhoedd neu Ffarmacoeconomeg. Sefydlwyd N.WORTH, neu Sefydliad Hap-Dreialon Gogledd Cymru (mewn iechyd a gofal cymdeithasol), yn 2002 ac mae'n un o'r ddau ar bymtheg o unedau treialon

clinigol gwreiddiol, wedi eu hachredu'n llawn gan UKCRC, a gofrestrwyd yn 2007 i gydnabod eu bod yn gallu darparu'r sbectrwm llawn o arbenigedd sy'n ofynnol i ddarparu ymchwil glinigol o ansawdd uchel a'r gallu i gydlynu'n ganolog treialon aml-ganolfan i'r safonau uchaf. Mae N.WORTH yn gweithredu ar draws ystod eang o ddiddordebau ymchwil clinigol, iechyd a gofal cymdeithasol trwy gydweithio ag arbenigwyr ymchwil-weithredol mewn disgyblaethau fel gofal cancer, iechyd plant, dementia, deintyddiaeth, iechyd meddwl, obstetreg, oncoleig, fferylliaeth ac iechyd y cyhoedd. Er bod angen i fyfyrwyr gynhyrchu ymchwil annibynnol, gall Uned Treialon N.WORTH roi llawer o gyngor a chefnogaeth lle bo'n briodol yn cynnwys cynllunio a rheoli projectau, casglu a rheoli data, sicrhau ansawdd a chydymffurfio a dadansoddi.

Implementation MSc by Research, Implement @Bangor: Bridging knowledge and practice

Ei genhadaeth yw datblygu cymuned o ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol a gydnabyddir yn rhyngwladol i greu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio wrth ei weithredu a pham. Yn aml mae bwlch rhwng yr hyn sy'n hysbys a'r hyn sy'n cael ei weithredu'n arferol yn y gwasanaethau iechyd a chyhoeddus yn fwy eang. Diben Implement@BU yw datblygu gwybodaeth a theori i bontio'r bwlch hwn a gwella canlyniadau drwy hyrwyddo gwyddoniaeth ac ymarfer drwy feysydd gwaith allweddol:

- Partneriaeth, cydweithio a chydgyhyrchu
- Datblygu a phrofi theorïau
- Gwerthuso gweithredu ymyriad
- Arloesi methodolegol
- Gwella gwasanaeth

Mae Implement@BU wedi llwyddo i ddenu symiau sylweddol o incwm ymchwil rhyngwladol a chenedlaethol i gyllido rhaglen o ymchwil ar weithredu, yn cynnwys gweithio ar draws sefydliadau; ei ddefnyddio mewn amodau a grwpiau penodol, megis pobl sydd wedi cael strôc a phobl hŷn, a throsglwyddo theori ac ymarfer gweithredu i wasanaethau cyhoeddus eraill, yn cynnwys yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol.

Primary Care MSc by Research, North Wales Centre for Primary Care Research (NWPCRC)

Ei nod yw cynnal ymchwil gofal sylfaenol o ansawdd uchel sy'n cael effaith ar ymarfer clinigol a pholisi iechyd. Y prif feysydd strategol yw:

- Cancer mewn gofal sylfaenol - 'Diagnose Quickly, Follow Up Safely and Survive Well'
- Ymchwil cyhyrsgerbydol ac adsefydlu

Cyn Tachwedd 2011 ni oedd isadran Gogledd Cymru o Adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd. Mae ein prif ganolfan ar y campws yn Wrecsam yng ngogledd-ddwyrain Cymru, er bod rhai o'n staff wedi'u lleoli ym Mangor.

Rydym yn gweithio'n agos gyda:

- Clinigwyr, yn lleol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac mewn mannau eraill
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Ymchwilwyr blaenllaw mewn Canolfannau a Sefydliadau eraill ym Mhrifysgol Bangor
- Ymchwilwyr blaenllaw mewn prifysgolion yn y DU ac yn rhyngwladol

Mae gan NWPCRC arbenigedd methodolegol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cyfuno tystiolaeth (yn cynnwys syntheses realaidd), hap-dreialon, astudiaethau epidemiolegol ac

astudiaethau ansoddol.

PAM DEWIS BANGOR?

Mae ein hymchwil arloesol yn canolbwyntio ar gynhyrchu, cyfuno a defnyddio gwybodaeth gan hyrwyddo datblygiadau mewn gwyddor gweithredu. Yn y modd yma, defnyddir ein hymchwil i gynhyrchu tystiolaeth o ansawdd uchel a datblygu gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd a chost effeithiolrwydd ymyriadau, gwasanaethau a sefydliadau. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar sicrhau dealltwriaeth o ofal iechyd o amryw o safbwyntiau gan gynnwys datblygu dulliau sy'n ceisio ennyn diddordeb pobl mewn dehongli eu profiadau eu hunain. Rydym hefyd yn datblygu ac yn defnyddio dulliau ymchwil newydd i gywain yr hyn rydym yn ei wybod, ac i ennyn gwell dealltwriaeth o sut a pham y mae tystiolaeth a gwybodaeth yn cael eu defnyddio, a pham nad ydynt yn cael eu defnyddio, mewn ymarfer. Rhan o'r hyn y mae'r ymchwil yn canolbwyntio arno yw ystyried y cyd-destun diwylliannol a sensitifrwydd iaith fel rhan o gymhlethdod ymarfer gofal iechyd. Mae nifer o resymau am fanteisio ar y cyfle i wneud ymchwil ôl-radd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd:

- Amgylchedd academiaidd croesawgar a chefnogol;
- Goruchwylwyr profiadol sy'n arwain yn eu meysydd academiaidd a phroffesiynol;
- Cefnogaeth unigol gan dimau goruchwyllo sy'n rhannu eu harbenigedd i helpu eich ymchwil;
- Swyddfa benodol a mynediad at dechnoleg gwybodaeth;
- Sylw i'ch hyfforddiant ymchwil a datblygu sgiliau eraill fel arweinyddiaeth a rheoli projectau.

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Gan weithio gyda chanolfannau ymchwil BIHMR yn ogystal ag ar draws y Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad a phrifysgolion eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, rydym wedi adeiladu enw da am ein hymchwil mewn ymarfer ar sail tystiolaeth, sensitifrwydd diwylliannol ac ymwybyddiaeth iaith, ac amodau cymhleth gydol oes. Gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon, mae ein harweinwyr rhaglenni a'n goruchwylwyr profiadol yn cyflwyno cyrsiau clinigol cyfoes a pherthnasol a phrofiadau goruchwyllo i fyfyrwyr o amrywiaeth o leoliadau a phroffesiynau.

Mae ein partneriaethau â chanolfannau ymchwil, practis ac unedau polisi sydd gyda'r gorau yn y byd yn rhoi cyfleoedd i addysgu ar y cyd, goruchwyllo a phrojectau cydweithredol. Rydym hefyd wedi ymrwngto i sicrhau datblygiad personol a phroffesiynol pob myfyrwr ar draws ein rhaglenni.

Rydym hefyd yn annog ymgeiswyr i gysylltu â'r Gweinyddwr: Dr. Siôn Williams (sion.williams@bangor.ac.uk) yn y lle cyntaf i gofrestru eu diddordeb yn y Rhaglen Ymchwil Ôl-radd mewn Gofal Iechyd. Yna gallwn sicrhau bod yr aelod mwyaf priodol o'r staff ymchwil yn cysylltu â chi'n bersonol i drafod eich diddordebau, a rhoi gwybod i chi am gyfleoedd newydd megis efridiaethau. I gael rhagor o wybodaeth a chyn gwneud ymholiad ymhellach neu wneud cais, rydym yn eich cyngori i edrych ar wefan Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd a'r adran BIHMR yn benodol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/postgraduate-courses/

Ysgol Gwyddorau Meddygol

Rydym yn cynnig cyfleoedd ôl-radd rhagorol, yn cynnwys ymchwil meddygol arloesol, mae'r Ysgol yn cynnwys y sefydliad North West Cancer Research (NWCRI) ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae gan yr Ysgol gysylltiadau ymchwil ac addysgol agos ag Ysgolion Meddygol yn Lerpwl a Chaerdydd.

Datblygwyd ein rhaglenni mewn ymateb i anghenion gweithwyr presennol ac yn y dyfodol mewn Meddygaeth, Gwyddorau Meddygol a phroffesiynau cysylltiedig.

Mae'r Ysgol yn gartref i adran Bangor o'r sefydliad North West Cancer Research sy'n cyfuno ymchwilwyr sylfaenol a chlinigol o brifysgolion Bangor, Lancaster a Lerpwl gyda chanolfan ragoriaeth ymchwil fodern.

Staff

Rydym yn cyflogi nifer o staff academiaidd clinigol ac anghlinigol sy'n cymryd rhan mewn ymchwil o safon fyd-eang ac sydd gyda'r gorau yn y byd. Mae gan ein staff academiaidd lawer o brofiad mewn dysgu myfyrwyr ôl-radd meddygol ac anfeddygol yn y brifysgol a lleoliadau gwasanaeth iechyd. Caiff ein haddysgu ei lywio gan yr ymchwil addysgol ddiweddaraf ar y cyd â Chanolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT) y brifysgol.

Golwg gyffredinol ar feysydd academiaidd

Mae gan Brifysgol Bangor hanes o ragoriaeth mewn ymchwil ac addysgu ym maes meddygol ac iechyd. Mae'r Ysgol Gwyddorau Meddygol yn parhau i ddatblygu ac adeiladu ar y cryfderau hyn, gan gyfuno ymchwil arloesol gydag addysg feddygol a biofeddygol.

Mae ein hymchwil yn ymdrin â meysydd heneiddio, clefyd cronig, diabetes, clefyd cardiofasgwlar, canser ac ymchwil glinigol blaengar mewn lleoliadau aciwt. Rydym yn ceisio integreiddio meddygaeth glinigol gyda bioleg foleciwlaidd a chelloedd. Mae meysydd ymchwil penodol eraill yn cynnwys llwybrau trosglwyddo signal, bioleg canser y colon a'r rhefr, bioleg bôn-gelloedd, marcwyr canser, ymwrthedd i gyffuriau, imiwnoleg ac atgyweirio DNA sy'n ategu'r arbenigedd clinigol a'r ymchwil rheng flaen.

Felly gall yr Ysgol gynnig ystod o gyfleoedd ôl-radd yn cynnwys gwyddor sylfaenol, ymchwil biofeddygol ac ymchwil glinigol rheng flaen sy'n golygu ymchwil mewn labordai ac ymchwil mewn ysbtyai.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc by Research

- Master of Science by Research

MSc/PgDip/PgCert

- Genomics and Precision Medicine
- Medical and Molecular Biology with Genetics
- Biomedical Science (IBMS Accredited)

MRes/PgDip/PgCert

- Molecular Medicine

MSc/MRes/PgDip/PgCert

- Clinical Sciences

PgCert

- Medical Education Practice (Higher Education Academy Accredited)

MSc

- Physician Associate Studies

PhD/MPhil

- Research Studentships

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 383244

E-bost: medsciences@bangor.ac.uk

Research: j.a.wakeman@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/sms

Biomedical Science MSc/PGDip/PGCert (IBMS Accredited)

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

Mynediad trwy lwybr academiaidd: bydd ymgeiswyr wedi cael, neu ar y ffordd i gael, gradd BSc 2:2 (neu uwch), mewn pwnc gwyddorau bywyd cysylltiedig â meddygaeth, gan Sefydliad Addysg Uwch cydnabyddedig.

Lefel iaith Saesneg. IELTS (neu gymhwyster cyfatebol) 7.0 yn gyffredinol neu uwch.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y rhaglen Gwyddor Biofeddygol MSc yn rhoi persbectif amlddisgyblaethol o'r maes patholeg, geneteg feddygol a rheoli clefydau presennol ac sy'n datblygu. Bydd y rhaglen hon yn rhoi sylfaen eang o wybodaeth wyddonol i fyfyrwyr ynghylch iechyd ac afiechyd o bwys mewn diagnosteg fodern.

Mae'r modiwlau hyn wedi eu cynllunio i ddarparu profiad damcaniaethol ac ymarferol blaengar a chaiff myfyrwyr eu dysgu am sut i ymchwilio i wahanol gyflyrau meddygol gan gynnwys canser, anaf tocsicolegol, gwenwyn bwyd, anemia, llid yr ymennydd a chlefyd y galon.

Modiwlau Gorfodol:

- Blood Sciences
- Cell and Molecular Pathology
- Infectious Sciences

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i agor cyfleoedd datblygu gyrfa ym meysydd Gwyddor Biofeddygol sy'n datblygu mewn perthynas â disgyblaethau patholeg craidd i bobl sydd eisoes yn gweithio yn y sector clinigol/gofal iechyd ac sy'n astudio gyda ni'n rhan amser. Bydd graddedigion sy'n ystyried llwybrau cyflogaeth newydd mewn sefyllfa dda i fynd i swyddi cefnogi, gweithredu a datblygu ym maes cynhyrchu a gwerthu offer diagnostig sy'n ehangu'n gyflym yn ogystal â llwybrau ffarmacolegol. Bydd y rhaglen hon hefyd yn galluogi'r rhai sy'n ystyried gyrfaeodd mewn ymchwil ar draws sefydliadau meddygol a chlinigol, sefydliadau academiaidd a diwydiant ddechrau yn y swyddi hyn. DS Er mwyn ymarfer mewn labordy GIG fel Gwyddonydd Biofeddygol cofrestredig, bydd angen gradd isradd Gwyddor Biofeddygol achrededig yn gyntaf.

LINKS WITH INDUSTRY

Trwy ein cysylltiad â'r Sefydliad North West Cancer Research, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae pob myfyrwr yn elwa o ddod i gysylltiad cryf â gweithwyr proffesiynol wrth eu gwaith sy'n defnyddio ymarfer diagnosteg cyfredol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences

Os oes gennych gwestiynau ychwanegol am agweddau academiaidd ar y cwrs, e-bostiwch medsciences@bangor.ac.uk +44 (0) 1248 383244



4ydd am
Ansawdd
Ymchwil
Complete University
Guide 2020

MSc by Research

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser. Ar gael yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

O ystyried y disgwyliadau uchel, rhaid bod gan ymgeiswyr o leiaf gradd 2.i neu uwch neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol. Rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol hefyd fod â IELTS 6.0 neu uwch.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y rhaglen MSc trwy Ymchwil yn darparu llwybr pwrpasol ar gyfer myfyrwyr o safon uchel (a all fod â nod ymchwil penodol mewn golwg ac) sy'n barod i wneud ymchwil annibynnol a fydd yn arwain at astudio ar lefel PhD. Neu bydd yn briodol i fyfyrwyr sydd eisiau cymhwyster annibynnol seiliedig ar ymchwil sy'n addas ar gyfer gyrfa mewn ymchwil gyda

sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith ar ôl graddio.

Mae'r MSc trwy Ymchwil yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwr wneud darn sylweddol o ymchwil annibynnol ac arloesol ym maes gwyddorau meddygol modern (180 credyd). Y disgwyliad arferol yw y dylai'r ymchwil annibynnol fod o safon gyhoeddadwy mewn cyfnodolyn o ansawdd uchel a adolygir gan gymheiriaid.

Yn ogystal â chefnogaeth goruchwylwyr y project ymchwil a chyd ymchwilwyr proffesiynol ac ôl-radd ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Meddygol bydd cyfle hefyd i astudio modiwlau hyfforddedig ar lefel ôl-radd yn ogystal â mynd i weithdai a chyrsiau a ddarperir ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd gan Uned Datblygu Academiaidd y brifysgol.

Ni fydd unrhyw fodiwlau a chyrsiau hyfforddedig ychwanegol yn cyfrif fel credydau tuag at y cymhwyster hwn neu unrhyw gymhwyster arall ond, os nodir eu bod o werth datblygiadol gan y myfyrwr a'r tîm goruchwyllo, byddant yn darparu' sgiliau a'r wybodaeth ychwanegol sydd eu hangen i wneud ymchwil ôl-radd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences

Clinical Sciences MSc/MRes/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser. Ar gael yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Rhaid bod ymgeiswyr wedi cael gradd gyntaf gan brifysgol gydnabyddedig.

Rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol hefyd fod â IELTS o 6.0 neu uwch (heb unrhyw sgôr unigol o dan 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn yn cynnig dilyniant o raddau nad ydynt yn ymwneud â'r gwyddorau i fyfyrwyr sy'n dymuno datblygu diddordeb academiaidd yn y gwyddorau clinigol.

Modiwlau Craidd:

• Applied Anatomy & Histopathology

Nod y modiwl hwn yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o anatomeg macro a micro o'r systemau wrinol, gastroberfeddol, y galon, resbiradol ac ysgerbydol ym maes iechyd ac afiechyd. Bydd myfyrwyr yn edrych ar anatomeg organau gwahanol systemau'r corff, ac yn edrych ar ficro anatomeg y strwythurau hynny trwy histoleg.

• Metrology and Health

Mae metroleg iechyd yn sail i ddefnyddio technegau diagnostig a therapiwtig yn ddiabynadwy ac yn effeithlon. Mae datblygu technolegau newydd yn hanfodol i wella gofal iechyd a diogelu cleifion ac i gyfyngu ar wariant ar iechyd. Hefyd, mae deddfwriaeth yn gofyn am fwy a mwy o sylweddau a thechnegau i'w cynnwys gan fetroleg megis trwy ddiagnosteg fel y'u nodir yng nghyfarwydddeb dyfeisiau meddygol diagnostig 98/79/EC.

• Therapeutics

Therapiwteg yw'r gangen o feddygaeth sy'n delio'n benodol â thrin afiechydon a'r gelfyddyd a'r wyddor o iachau. Mae hyn yn cynnwys ffarmacoleg sy'n cyfeirio at ddefnyddio cyffuriau a'r dull o'u rhoi wrth drin afiechydon. Yn benodol, mae'n edrych ar y ffordd y gall rhoi cyffuriau gael effeithiau eraill ar y corff.

• Clinical Physiology

• Molecular Pathology

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences



Genomics and Precision Medicine MSc/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser. Ar gael yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Mynediad trwy lwybr sefydliadau ieuchyd: bydd rhaid i ymgeiswyr sydd ddim yn meddu ar radd gael cymwysterau perthnasol a/neu brofiad gwaith perthnasol a sylweddol a ystyrir o safon foddhaol at ddibenion addysg ar lefel ôl-radd.

Mynediad trwy lwybr academiaidd: bydd rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd BSc (2.ii neu uwch), mewn maes pwnc gwyddor bywyd sy'n gysylltiedig â meddygaeth.

Gofynion iaith Saesneg (o leiaf): IELTS 6.0 (dim elfen o dan 5.5)

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae technolegau genetig a genomig newydd yn ein galluogi i ddatblygu dealltwriaeth lawer mwy manwl o'r cysylltiad rhwng ein genynnau ac ieuchyd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cydnabyddiaeth ryngwladol bod gan y technolegau hyn y potensial i chwyldroi meddygaeth ac ieuchyd y cyhoedd. Fodd bynnag, er mwyn gwreiddu'r weledigaeth hon, rydym angen pobl gyda'r sylfaen wybodaeth arbenigol, y dealltwriaeth a'r setiau sgiliau ar gyfer defnyddio a chyflwyno meddygaeth genomig a manwl mewn sefydliadau meddygol a chlinigol, sefydliadau academiaidd a diwydiant.

Mae'r rhaglen hon yn gysylltiedig â strategaeth Cymru gyfan Llywodraeth Cymru i gynniig hyfforddiant ac addysg mewn pynciau sy'n

gysylltiedig â Meddygaeth Genomig a Manwl i gefnogi datblygiad gweithwyr clinigol, a gweithwyr cysylltiedig â'r maes clinigol yng Nghymru. Bydd y cwrs yn rhoi cyfle i ddatblygu dealltwriaeth sylfaenol o'r technolegau platform a ddefnyddir mewn dadansoddi genomig, defnyddio sgiliau dadansoddi data genomig i ddehongli canlyniadau a data sy'n berthnasol yn glinigol ac i gleifion ac, yn bwysig, adrodd a chyfleu canfyddiadau yn gywir ac yn foesebol i gydweithwyr a chleifion.

Mae cynllun modiwlau y rhaglen a'r fformat cyflwyno yn addas i weithwyr gofal ieuchyd proffesiynol a myfyrwyr, sydd yn y maes clinigol neu'n gysylltiedig â'r maes, neu'n mynd mewn i'r maes, ledled Cymru.

Modiwlau:

- Bioinformatics & Genomic Data
- Core Genomic Technologies
- Ethical Legal & Social Considerations
- Human Genetics & Genomics
- Genomics & Cancer
- Genomics & Infectious Disease
- Genomics & Inherited Disease
- Pharmacogenomics & Stratified Healthcare
- Traethawd hir

RHAGOLYOGON GYRFA

Bydd graddedigion Genomig a Meddygaeth Fanwl o Brifysgol Bangor yn cael eu paratoi ar gyfer gyrfa yn y maes cyffrous hwn o feddygaeth sy'n tyfu. Byddwch mewn sefyllfa dda i werthuso'n feiriniadol llenyddiaeth gyhoeddedig mewn perthynas â phersbectif y claf a'r gofalwr o feddyginiaeth genomig a gwneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â defnyddio genomig a meddygaeth fanwl mewn cyd-destun clinigol. Byddwch hefyd yn gallu cyflawni swyddi cefnogi, gweithredu a datblygu, ac ymchwil ym maes Meddygaeth Fanwl Genomig sy'n tyfu'n gyflym; mewn sefydliadau meddygol a chlinigol, sefydliadau academiaidd a diwydiant.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences

Medical Molecular Biology with Genetics MSc/PgDip/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser; PgDip: 30 wythnos yn llawn-amser. Ar gael yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen o leiaf gradd BSc cyfwerth â gradd 2.ii yn y DU mewn pwnc gwyddorau biolegol perthnasol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ymgeiswyr 25 oed neu hŷn sydd â llawer o brofiad gwaith/academaidd perthnasol. Meini prawf iaith Saesneg (o leiaf): IELTS 6.0 yn gyffredinol (dim elfen yn is na 5.5). Asesiad Prifysgol Bangor o hyfedredd Saesneg.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y rhaglen hon yw cyflwyno gradd ôl-radd integredig iawn sy'n adeiladu'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r arbenigedd ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer symud ymlaen i ymchwil PhD moleciwlaidd meddygol a / neu gyflogaeth mewn diagnosteg foleciwlaidd neu'r diwydiant meddygol.

Bydd graddedigion llwyddiannus wedi datblygu arbenigedd pwnc manwl a set o sgiliau ymarferol allweddol sy'n ofynnol ar gyfer cymhwyso bioleg foleciwlaidd fodern yn llwyddiannus yn y gwyddorau meddygol ac ymchwil feddygol. Bydd graddedigion llwyddiannus hefyd wedi ennill y sgiliau trosglwyddadwy sy'n ofynnol i addasu ac optimeiddio methodolegau gwyddonol yn annibynnol, dehongli a gwerthuso'n feirniadol llenyddiaeth a data gwyddonol a gynhyrchwyd a chyhoeddwyd ganddynt eu hunain a defnyddio agwedd hunandibynnol yn bennaf tuag at waith labordy, astudio ac ymchwil.

Modiwlau:

• Research Skills

Bydd y modiwl hwn yn ymdrin â chynllunio projectau ymchwil, methodolegau ymchwil amrywiol, dulliau casglu data, offerynnau, offer dadansoddi data a dadansoddi data meintiol ac ansoddol. Ei nod yw darparu setiau o sgiliau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar naill ai project labordy neu gasglu data.

• Human Molecular Genetics

Nod y modiwl hwn yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a phenodol am fioleg foleciwlaidd gysylltiedig â meddygaeth ac mae'n angenrheidiol fel cefndir ar gyfer modiwlau mwy arbenigol y radd.

• Human Immunology and Disease

Mae darlithoedd y modiwl hwn yn disgrifio swyddogaethau'r system imiwnedd ddynol yn natblygiad, dilyniant a thriniaeth atwtoimiwnedd a chanser a sut caiff imiwnoleg ei harneisio i ddatblygu a gwella triniaeth afiechydon dynol allweddol.

• Laboratory Molecular Research

Mae'r modiwl ymarferol hwn mewn labordy am bythefnos yn darparu llwyfan i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth fanwl a defnyddio technegau bioleg foleciwlaidd allweddol yn ymarferol, megis: meithrin meinwe dynol, echdynnu RNA, synthesis cDNA, clonio treuliad ensymau cyfyngu, dulliau trawsnewid E.coli a dethol cytrefi.

• Stem Cells, Disease & Therapy

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i fioleg bôn-gelloedd a nodweddau llwybrau signalau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw bôn-gelloedd.

• Molecular Diagnostics

Mae'r modiwl Molecular Diagnostics wedi'i gynllunio i roi'r cyfle i fyfyrwyr ymestyn eu gwybodaeth ddamcaniaethol a'u dealltwriaeth o eneteg foleciwlaidd ac imiwno-adnabod i'w defnyddio'n ymarferol yn y labordy, eu defnyddio mewn prognosis clinigol a monitro cleifion Lewcemia Myeloid Cronig ac mewn ymchwil academiaidd, i ganfod biofarcwyr protein newydd. Bydd y modiwl yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol a phrofiad ymarferol mewn diagnosteg foleciwlaidd, a ddefnyddir mewn clinig, mewn gwyddorau biofeddygol ac mewn ymchwil.

• Traethawd hir

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys darn sylweddol o ymchwil wyddonol a arweinir gan ragdybiaeth. Ei nod yw darparu llwyfan i fyfyrwyr ddefnyddio'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r profiadau o'u defnyddio, a ddatblygwyd yn y modiwlau diploma, i ymdrin â phwnc ymchwil penodol yn arbrofol.

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i astudiaethau PhD yn ogystal ag i gyflogaeth - rydym wedi lleoli cyn-fyfyrwyr yng Ngholeg Imperial Llundain, Labordy Sainsbury ym Mhrifysgol East Anglia, Reliance Industries ym Mumbai, India a Siemens Diagnostic Healthcare yn y DU.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences

HYD Y CWRS

MRes: Blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Meini prawf academiaidd: O leiaf gradd BSc cyfwerth â gradd 2.ii yn y DU mewn pwnc gwyddorau biolegol perthnasol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ymgeiswyr 25 oed neu hŷn sydd â llawer o brofiad gwaith/academaidd perthnasol.

Gofynion iaith Saesneg (o leiaf): IELTS 6.0 (dim elfen o dan 5.5)

DISGRIFIAD O'R CWRS

Prif nod y rhaglen hon yw datblygu Sgiliau Ymchwil Gwyddonol myfyrwyr ôl-radd blaengar sy'n bwriadu cael gyrfa mewn ymchwil wyddonol. Bydd y rhaglen yn cyfuno ymchwil labordy â chynnwys hyfforddiedig cefnogol ac integreiddiol penodol i alluogi'r myfyrwr i ddechongli a chyfluo canfyddiadau gwyddonol yn effeithiol. Nod y rhaglen yw datblygu sgiliau ymchwil a dadansoddi trylwyr, cysyniad o ymarfer diogel mewn labordy a'r gallu i ddechongli a gwerthuso'n feirniadol y llynyddiaeth wyddonol a'r data a gynhyrchwyd ganddynt eu hunain. Anogir creadigrwydd a gwreiddioldeb yn null myfyrwyr o wneud ymchwil mewn labordy. Bydd graddedigion llwyddiannus hefyd yn ennill sgiliau cyflogadwyedd ehangach gan gynnwys aml-ddisgyblaethedd, rheoli data, rhifedd, ystadegau, trosi ymchwil i ymarfer ac mewn dadansoddi data in silico sy'n angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y sectorau academaidd a diwydiannol.

Modiwlau craidd:

- MRes Research Project
- Research Skills

Mae modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Laboratory Molecular Research
- Human Molecular Genetics
- Haematology
- Diagnostic Cellular Pathology
- Human immunology & disease
- Stem cells, disease and therapy
- Molecular Diagnostics

RHAGOLYSGON GYRFA

Bydd gan raddedigion llwyddiannus y wybodaeth, dealltwriaeth a'r gallu i ddilyn gyrfa mewn ymchwil foleciwlaidd yn gysylltiedig â meddygaeth ar lefel PhD, neu fel gwyddonwyr technegol arbenigol/canolig mewn sefydliadau biofeddygol/meddygol academaidd, meddygol neu ddiwydiannol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences

**Medical Education Practice PgCert/MA (MA subject to validation)****HYD Y CWRS**

Mae nifer o lwybrau i gwblhau'r rhaglen hon gan gynnwys opsiynau llawn-amser a rhan amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, dylai ymgeiswyr ar y cwrs hwn fod yn weithwyr proffesiynol ym maes meddygaeth a gyrfaedd iechyd cysylltiedig gyda rhywfaint o brofiad o oruchwylio a/neu addysgu yn eu gwaith bob dydd, neu fynediad at hynny. Bydd gradd, cymhwyster lefel gradd, neu gymhwyster proffesiynol wedi'i ategu gan brofiad perthnasol fel rheol yn rhan o broffil yr ymgeisydd.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs hwn yn darparu fframwaith lle gall addysgwyr clinigol adolygu'n feirniadol a datblygu safbwyntiau damcaniaethol a sgiliau ymarferol wrth hwyluso profiad eu myfyrwyr/hyfforddeion. Bydd y cwrs yn cynnwys dysgu gweithredol ac adfyfyriol ac yn sicrhau integreiddio theori gyfoes ac ymarfer. Bydd y rhaglen hon yn rhoi mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o addysg feddygol i addysgwyr clinigol gan gynnwys:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o faterion penodol sydd ar flaen y gad o ran theori ac ymarfer mewn addysg feddygol.
- Dealltwriaeth feirniadol o ofyniad asesiadau perfformiad clinigol ac arfarniad ar gyfer ffitrwydd i ymarfer.
- Dealltwriaeth feirniadol o'r prosesau gosod safonau.
- Dealltwriaeth feirniadol o egwyddorion sylfaenol addysgeg oedolion dda.
- Gallu gwerthuso nodau asesu ac effaith asesu ar ddysgu myfyrwyr.
- Gallu gwerthuso perthnasedd, dilysrwydd a

dibynadwyedd methodolegau asesu.

- Gallu adolygu'n feirniadol ac adfyfyrio ar ddysgu oedolion cyfoes a llynyddiaeth addysg feddygol mewn perthynas â defnyddio technoleg efelychu addysgu a'i defnyddio i'ch profiad efelychu ymarfer eich hun.
- Adolygu materion moesegol sy'n ymwneud â hwyluso addysgu a dysgu mewn cyd-destun clinigol.

Mae Modiwlau Gorfodol yn cynnwys:**• Clinical Performance**

Mae'r modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o sawl cysyniad allweddol yn ymwneud â theori asesu perfformiad clinigol. Bydd hyn yn cynnwys cysyniadau dibynadwydd a dilysrwydd yn ogystal â gosod safonau.

• Learning, Teaching and Settings Evaluation

Mae'r modiwl hwn yn ymwneud ag asesiad beirniadol o addysgu mewn lleoliad clinigol. Cynlluniwyd ar gyfer meddygon ac ymarferwyr cymwys eraill yn y proffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth. Bydd myfyrwyr yn cael y cysyniadau a'r sgiliau beirniadol sy'n ofynnol i werthuso addysgu deunydd clinigol mewn sbectrwm eang o leoliadau. Disgwylir i fyfyrwyr arsylwi a gwerthuso addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol, yn cynnwys yr addysgu byddant yn ei gael mewn modiwlau eraill.

• Teaching and Technology

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r amodau sy'n sail i grwpiau weithredu'n effeithiol ym maes addysg a'r gweithle. Canolbwynt ymarferol sydd i'r modiwl.

Ar gyfer yr elfen PGCert mae modiwlau eraill yn cynnwys:

- Research Skills
- Leadership
- Curriculum Planning
- Project

RHAGOLYSGON GYRFA

Bydd y cwrs hwn yn gwella cyflogadwyedd ac yn gwella datblygiad gyrfa.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences



Physician Associate Studies MSc

HYD Y CWRS

2 flynedd yn llawn-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Dylai fod gan ymgeiswyr radd 2: neu uwch mewn pwnc gwyddor bywyd sy'n gysylltiedig â meddygaeth e.e. Gwyddorau Meddygol; Gwyddorau Biofeddygol neu fod â gradd 2:ii mewn gradd gwyddor bywyd gyda gradd uwch mewn pwnc perthnasol e.e. MSc Gwyddorau Clinigol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Diffinnir Cynorthwydd Meddygon fel rhywun sy'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol newydd sydd, er nad yw'n feddyg, yn gweithio i'r model meddygol, gyda'r agweddau, y sgiliau a'r sylfaen wybodaeth i ddarparu gofal a thriniaeth gyfannol o fewn y tîm meddygol cyffredinol a/neu'r tîm meddygaeth teulu o dan lefelau goruchwylio diffiniedig.

Er mwyn bod yn gymwys i sefyll yr arholiad Cynorthwydd Meddygon cenedlaethol, mae angen cwblhau Diploma ôl-radd 2 flynedd mewn Astudiaethau Cynorthwydd Meddygon yn llwyddiannus. Mae cyllid Bwrsariaeth GIG Llywodraeth Cymru ar gael i dalu am y ffioedd ac i roi rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer costau byw.

Mae'r rhaglen Cynorthwydd Meddygon ym Mangor yn cynnwys rhaglen lleoliad integredig o ddysgu yn y gwaith a fydd yn darparu dysgu trwy brofiad blaengar mewn ystod o leoliadau clinigol fel y gall myfyrwyr gyrraedd y safonau gwybodaeth a dealltwriaeth mewn ymarfer clinigol, yn cynnwys strwythurau rheoleiddio, cymwyseddau proffesiynoldeb a chlinigol a ddisgwyli'r gan Gynorthwydd Meddygon.

Caiff y lleoliadau eu rhannu i grwpiau yn ôl y penawdau pwnc clinigol canlynol:

- General Hospital Medicine
- Front Door Medicine
- Mental Health
- General Surgery
- Obstetrics & Gynaecology
- Paediatrics (acute setting)
- Community Medicine

Yn ystod y cwrs byddwch yn dysgu sut i nabod a rheoli cyfllau meddygol cyffredin a chymhleth fel rhan o dîm aml-broffesiynol, gwneud penderfyniadau annibynnol ar sail gwybodaeth am broblemau clinigol a chael eich hyfforddi i integreiddio gwybodaeth ac ymarfer clinigol.

Nod y rhaglen yw rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr o'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r technolegau a ddefnyddir mewn ymarfer clinigol yn y meysydd a ganlyn:

- Y system gardiofasgwlaidd
- Y system resbiradol
- Y system gastroberfeddol
- Y system cyhyrsgerbydol
- System atgenhedlu benywaidd
- System arenol a genitowrinol
- Llygaid
- Croen
- Diagnosteg a therapiwteg
- Niwroleg

Cewch eich dysgu yn y brifysgol gan ddarlithwyr a hefyd gan glinigwyr ar gyfer y cydrannau academaidd. Bydd eich lleoliadau clinigol mewn un o'r ystybai ledled gogledd Cymru ac yn y gymuned mewn meddygfeydd.

Modiwlau Gorfodol:

Year 1

- Clinical Anatomy
- Clinical Physiology
- Diagnostic Sciences
- Vocational Skills
- Therapeutics and Pharmacology
- Public Health and Epidemiology

Year 2

- Leadership and Teaching
- Applied Anatomy
- Applied Physiology
- Applied Diagnostic Sciences
- Applied Vocational Skills
- Advanced Therapeutics and Pharmacology

RHAGOLYGON GYRFA

Bydd graddedigion llwyddiannus sydd hefyd wedi cwblhau'r arholiadau cenedlaethol mewn sefyllfa dda i weithio ym maes gofal sylfaenol neu eilaidd fel Cynorthwydd Meddygon.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences

Research Studentships PhD/MPhil

Mae gennym ddiddordeb bob amser i glywed gan ddarpar fyfyrwyr PhD sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid. Gellir gweld rhestr o staff academaidd ar y wefan, neu, cysylltwch â medsciences@bangor.ac.uk gydag amlinelliad o'ch cynnig ymchwil, gan gynnwys cyllid gwirioneddol neu ddarpar gyllid, a bydd academydd priodol yn cael ei bennu.

Mae diddordebau ymchwil diweddar yn cynnwys:

- Rheumatic diseases
- Inflammatory arthritis
- Systemic lupus erythematosus
- Behavioural (cognitive) neurology
- Sensorimotor integration (on eye and limb movements)
- Higher order sensory processing
- Neuro-ophthalmology
- Neuro-rehabilitation
- Cardiac imaging using fMRI
- Developing the use of magnetic resonance imaging and rendering
- Effects of antipsychotic medication on neutrophil morphology and oxidative stress
- Use of quantitative structural activity relations in cellular responses to antipsychotics
- Parkinson's disease
- Dementia and neurodegenerative diseases
- Evidence based healthcare
- Translation of research evidence to practice
- Patient reported outcome following hip replacement surgery
- Smell and taste pathophysiology, assessment and management

- Assessment of endoscopic sinus surgery
- Transnasal fibreoptic flexible laryngo oesophagoscopy
- Catabolic effects of rheumatic diseases and effect on muscle mass and function
- Autoimmune rheumatic diseases - prognosis, and assessment of treatment
- Assessment of novel anti rheumatic treatment
- Respiratory medicine
- Orthopaedic surgery
- Cardiac imaging and intervention
- Cortical processes and cardiovascular output
- Cardiology and nuclear medicine
- Clinical research into the assessment and development of new anti-cancer drugs
- Assessment of the effects of chemotherapy
- Intensive care medicine
- Chronic disease patient care
- Cardio-vascular risk factors in the severely mentally ill
- Genetic predictors of antidepressant response
- Mental illness in primary care patients
- Diabetes and vascular disease

Ymchwil Feddygol Sylfaenol:

- The genetics and molecular aetiology of cancer development / oncogenesis
- Molecular mechanisms of disease related DNA repair pathways
- The molecular basis of the cell division cycle (using human cells and model systems)
- The molecular basis of cancer drug resistance
- Molecular mechanisms of chromosomal translocations Molecular regulation of Ffônemere biology

- The role of human germ line genes in cancer development
- The identification of new cancer-specific drug targets
- The development of patient stratification strategies
- Human stem cell biology
- Human cancer stem cell biology
- The molecular basis for human gut homeostasis
- Molecular cancer immunology
- Molecular autoimmunity
- Epidemiology of disease
- Bacterial Antibiotic Resistance

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/medicalsciences

Ysgol Seicoleg

Fel myfyriwr ôl-radd Seicoleg, byddwch yn gweithio gydag ymchwilwyr o fri rhyngwladol ac yn defnyddio cyfleusterau ymchwil gwych. Mae aelodau ein staff academiaidd yn dysgu'n dda ac maent hefyd yn gwneud ymchwil o'r ansawdd uchaf sy'n dylanwadu ar y sector cyhoeddus (yn enwedig gweithgareddau iechyd a chlinigol) yn ogystal ag mewn diwydiant ac yn y byd academiaidd.

Rydym yn un o adrannau Seicoleg mwyaf y wlad ac mae gennym gymuned ôl-radd lewyrchus sy'n cynnwys dros 200 o fyfyrwyr Meistr a dros 60 o fyfyrwyr PhD. Rydym yn adran wirioneddol rhyngwladol gyda staff a myfyrwyr sy'n hanu o dros 20 o wledydd ledled y byd, wedi eu denu gan ein henw da am ragoriaeth ym maes ymchwil a dysgu.

Yn ogystal â safonau academiaidd uchel, rydym yn cynnig safonau uchel o gefnogaeth ac arweiniad i fyfyrwyr ac yn ymfalchïo yn y ffaith bod ein hamgylchedd cyfeillgar yn aml yn cael ei nodi fel cryfder mawr. Ceir nifer o gymdeithasau myfyrwyr academiaidd a chymdeithasol yn yr adran, sy'n ychwanegu llawer at brofiad cyffredinol myfyrwyr. Rydym wedi ein gosod yn gyson yn y 10 uchaf yn y DU am foddhad myfyrwyr yn seiliedig ar yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr blynyddol.

Gyrfaedd a Chyflogadwyedd

Rydym yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a'u rhagolygon gyrfa. Ein nod yw hwyluso cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol personol a gweithio'n agos gyda chynllun Gwobr Cyflogadwyedd Bangor a Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor i gynnig cydnabyddiaeth ffurfiol a brofiad gwaith defnyddiol mewn meysydd perthnasol. Trwy'r amryw weithgareddau cyd-gwricwlaidd sydd ar gael, gallwch gyfnerthu'r sgiliau generig a phwnc-benodol sy'n rhan o'ch rhaglen, a datblygu portffolio cryf a chystadleuol.

Staff a chyfleusterau

Mae gan staff a myfyrwyr fynediad at nifer fawr o labordai ymchwil arbenigol gan gynnwys sganiwr MRI 3T, labordai TMS, ERP, cewyll faraday, labordy anatomeg yr ymennydd, cyfleusterau tracio llygaid a meithrinfa ar y safle gyda chyfleusterau arsylwi yn ogystal â dwsinau o labordai cyfrifiaduron.

Ym Mangor, byddwch yn astudio o dan arweiniad academyddion sydd ag enw da yn rhyngwladol ac yn gallu defnyddio cyfleusterau ymchwil sy'n well na'r rhai sydd ar gael yn y mwyafrif o adrannau eraill, naill ai yn y DU neu'n rhyngwladol.

Trosolwg ar feysydd academiaidd

Mae ein rhaglenni ôl-radd yn ymdrin â nifer o feysydd arbenigol sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o arbenigedd ymchwil yn yr adran. Mae gennym dros 50 o aelodau staff academiaidd, y mae llawer ohonynt yn arbenigwyr blaenllaw yn y byd neu'n enwog yn eu meysydd yn rhyngwladol. Gellir dod â meysydd ymchwil yr aelodau staff ynghyd yn y categorïau cyffredinol canlynol:

- Seicoleg Ymddygiad, Iechyd a Chlinigol
- Iaith, Dwyieithrwydd a Datblygiad Gwybyddol Development
- Canfyddiad, Gweithredu a Chof
- Niwrowyddoniaeth Gymdeithasol

Mae gennym nifer o ganolfannau ymchwil o fri, yn cynnwys:

- Canolfan Niwrowyddoniaeth Wybyddol Wolfson
- Uned Ddelweddu'r Ymennydd Bangor
- Canolfan Dyslecsia Miles
- Canolfan Ymchwil ac Ymarfer Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Canolfan Ymyrraeth Gynnar ar Sail Tystiolaeth

Mae'r canolfannau hyn, yn ogystal â bod ar flaen y gad o ran ymchwil academiaidd yn y meysydd hyn, yn cynnig cyfle unigryw i chi wneud gwaith project sy'n ymdrin ag elfennau damcaniaethol ac ymarferol pwysig.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MA/PgDip/PgCert

- Psychology

MSc

- Applied Behaviour Analysis
- Applied Behaviour Analysis with Practicum
- Clinical and Health Psychology
- Counselling
- Neuroimaging
- Positive Behaviour Support
- Principles of Clinical Neuropsychology
- Psychological Research
- Psychology
- Consumer Psychology with Business
- Applied Marketing Science

MA/MSc/PgDip/PgCert

- Mindfulness-Based Approaches
- Teaching Mindfulness-Based Courses

MRes/PgCert

- Psychology*

MSc by Research

- Psychology*

PhD

- Psychology

DClinPsy

- Clinical Psychology

* Gweler y wefan am fanylion y cyrsiau.

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 388453
E-bost: psychology@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/psychology
@PsychBangor

Cafodd 89% o'n gweithgaredd ymchwil ei gategoreiddio fel naill ai 'gyda'r orau yn y byd' neu'n 'rhagorol yn rhyngwladol'.

REF 2014

Neuroimaging MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser.
Gellir astudio'r cwrs yn rhan-amser hefyd.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae'n rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu gyd-anrhydedd mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth gysylltiedig (Cyfrifiadureg, Ffiseg, Mathemateg, Peirianeg, Bioleg, Gwyddorau Meddygol neu faes pwnc cysylltiedig), gydag o leiaf gradd dosbarth 2.i.

Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwyr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfiedredd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.5 (heb unrhyw elfen yn is na 6.0) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academaidd addas ar gyfer y rhaglen.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bwriad y rhaglen yw rhoi'r wybodaeth gefndirol a'r sgiliau technegol i chi er mwyn eich galluogi i gynllunio, dadansoddi a gwerthuso ymchwil ym maes delweddu. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar dechnegau yn seiliedig ar ddolweddu cyseiniant magnetig (MRI), gan gynnwys MRI swyddogaethol, delweddu anatomegol, delweddu tensor trylediad, a sbectrosgopeg. Trafodir technegau delweddu gan gyfeirio at gymwysiaid biofeddygol perthnasol. Mae'r MSc yn cynnwys pedwar modiwl ar niwroddelweddu. Mae dau ohonynt yn canolbwyntio ar agweddau methodolegol. Mae'r ddau arall yn rhoi cyflwyniad manwl i dechnegau delweddu arbenigol a ddefnyddir i ddeall bioleg gweithrediad yr ymennydd ar adegau o iechyd a chlefyd.

Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu eich sgiliau ymarferol, gan eich paratoi at waith pellach ym maes niwroddelweddu. Mewn labordy

cyfrifiadurol pwrpasol, byddwch yn dysgu ac yn ymarfer technegau dadansoddi a delweddu. O dan oruchwyliath staff academaidd rhagorol, byddwch yn ymwneud â chynllunio astudiaeth ddolweddu, i'w chynnal gan ddefnyddio'r sganiwr MRI 3T mewnol.

Modiwlau Gorfodol:

• Introduction to Neuroimaging

Bydd y modiwl hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol i chi ar sail ffisiolegol a niwrolegol niwroddelweddu.

• Advanced Neuroimaging Concepts

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cipolwg i chi ar fecanweithiau cellog, metabolaidd ac electroffisiolegol signalau swyddogaethol.

• Advanced Research Methods

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau ystadegol sydd eu hangen arnoch i wneud a gwerthuso ymchwil seicolegol yn gyffredinol.

• Introduction to Neuroimaging Analysis and Advanced Neuroimaging Analysis

Cynhelir yr hyfforddiant mewn agweddau methodolegol ar niwroddelweddu dros y ddau semester cyntaf er mwyn darparu dealltwriaeth dda o gynllunio a dadansoddi MRI.

• Traethawd Hir Ymchwil

Byddwch yn cynllunio, casglu, dadansoddi a dehongli data o'ch project delweddu eich hun, ar bwnc y cytunwyd arno gyda'ch goruchwyliwr. Cyflwynir hwn fel traethawd ymchwil ffurfiol a chaiff ei gyflwyno mewn cynhadledd ymchwil dan arweiniad myfyrwyr. Bydd myfyrwyr hefyd yn cyflwyno eu hymchwil mewn cynhadledd.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol sydd ar gael:

- Clinical Neuropsychology
- Practical Programming
- Methods in Cognition and Brain Research

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau ymchwil helaeth gyda chyrff a chwmnïau allanol, a gânt eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod y modiwlau yn berthnasol i'r gwaith a'r amgylchedd ymchwil bydd y graddedigion yn rhan ohono.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r rhaglen yn arbennig o addas i'r canlynol:

- myfyrwyr sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa academaidd ym maes niwroddelweddu
- myfyrwyr sydd eisiau swydd fel ymchwilydd mewn diwydiant neu labordy academaidd sy'n ymwneud ag ymchwil trosiadol
- gweithwyr meddygol proffesiynol, sydd eisiau datblygu sgiliau mewn maes technoleg ac ymchwil newydd
- myfyrwyr sydd â chefnidir mewn ffiseg, mathemateg neu wyddoniaeth gyfrifiadurol sydd eisiau mynd i faes niwrowyddoniaeth wybyddol neu glinigol
- myfyrwyr sydd â chefnidir mewn seicoleg neu fioleg sydd am wella eu sgiliau technegol ar gyfer gyrfa ym maes niwrowyddoniaeth.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Clinical Psychology DClInPsy

HYD Y CWRS

DClInPsy: 3 blynedd yn llawn-amser

GOFYNION MYNEDIAD

Cyn gwneud cais, dylech eisoes feddu ar radd anrhydedd sengl neu gyd-anrhydedd ddosbarth I neu II(i) mewn Seicoleg (neu radd drosi) a ddylai eich gwneud yn gymwys i gofrestru am aelodaeth siartredig i raddedigion gyda Chymdeithas Seicolegol Prydain. Oherwydd lefel y gystadleuaeth, ni fyddwn yn eich rhoi ar y rhestr fer am gyfweiliad os nad ydych wedi cwblhau eich gradd gyntaf eto. Bydd gan ymgeiswyr o leiaf blwyddyn o brofiad clinigol neu ymchwil perthnasol â thâl. Bydd gennych hefyd ddau dystlythyr cefnogol a bydd eich ffurflen gais wedi ei llenwi i safon uchel. Rydym yn awyddus i groesawu ymgeiswyr o bob cefndir ac rydym hefyd yn gyflogwr hyderus o ran anabledd.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r rhaglen ddioethurol hon yn gynllun ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor. Mae gan seicolegwyr clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gysylltiadau gwaith agos â'r rhaglen a'r Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor. Ar hyn o bryd mae tua 120 o seicolegwyr clinigol cymwysedig yn gweithio yng ngogledd Cymru, ym meysydd iechyd meddwl oedolion, oedolion hŷn, anableddau dysgu, seicoleg glinigol plant a'r glasoed, seicoleg glinigol ffensiog, niwroseicoleg a seicoleg iechyd glinigol. Mae bron pob un o'r clinigwyr yn ymwneud â'r rhaglen trwy addysgu, goruchwylio (clinigol/ymchwil), asesu gwaith academaidd ac eistedd ar bwyllograu.

Mae Rhaglen Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru yn rhan annatod o adran seicoleg academaidd brif ffrwd sydd â sgôr uchel am ymchwil ac addysgu ac mae'n ganolfan ragoriaeth i hyfforddiant mewn ymarfer clinigol. Mae'r ysgol yn arbennig o gryf ym meysydd seicoleg glinigol ac iechyd, niwroseicoleg wybyddol, dadansoddi ymddygiad cymwysedig a seicoleg dysgu a datblygol. Mae'r Ysgol Seicoleg yn rhan o'r Coleg Gwyddorau Dynol sydd hefyd yn cynnwys yr Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, yr Ysgol Gwyddorau Meddygol a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer. Mae hyn yn dod ag arbenigedd a diddordeb mewn ymchwil iechyd nghyd gan alluogi rhannu strategaethau ymchwil ar y cyd a gweithgareddau hyfforddi cysylltiedig ag iechyd yng nghyd-destun dysgu proffesiynol.

Bydd Rhaglen Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru yn hyfforddi ymgeiswyr mewn sgiliau clinigol ac academaidd ac ymchwil. Byddwch yn cael eich hyfforddi i ddefnyddio sgiliau therapiwtig penodol sy'n cynnwys Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT). Mewn cydweithrediad agos â'r Ganolfan Ymchwil ac Ymarfer Ymwybyddiaeth Ofalgar Dyrhirysgol Bangor, sef prif sefydliad y DU ar gyfer cyflwyno rhaglenni hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar, byddwch yn dysgu am therapiau sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar. Dysgir therapi ymddygiad dilechdidol gan Michaela Swales, a gydnabyddir yn rhyngwladol am ei harbenigedd yn y maes ac sy'n arwain y tîm hyfforddi therapi ymddygiad dilechdidol cenedlaethol. Cewch hefyd hyfforddiant mewn therapi derbyn ac ymrwymiad, sy'n cael ei ymarfer mewn amrywiaeth eang o leoliadau gan seicolegwyr clinigol yng ngogledd Cymru.

Mae ein Cyfarwyddwr Academaidd, Dr Elizabeth Burnside, yn un o nifer fach o hyfforddwyr derbyn ac ymrwymiad a adolygir gan gymheiriaid yn y DU.

Yn ystod ein hymwelid achredu diwethaf ym mis Ionawr 2019, achredwyd y rhaglen eto gan y BPS a'i hail-ddilysu gan Brifysgol Bangor. Cawsom ein canmol am ymwneud a brwdfrydedd y seicolegwyr clinigol lleol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, y cyfraniad seicolegol a seicotherapiwtig at y gymuned ranbarthol a darparu gwasanaethau, integreiddiad ac ymrwymiad ein grŵp cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, y gwaith allymestyn arloesol i ysgolion uwchradd, ein hymrwymiad at ddiwallu anghenion y boblogaeth leol a'r systemau cymorth aml-haenog sydd ar gael i'r hyfforddeion.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ennill Doethuriaeth mewn Seicoleg Glinigol fydd yn eu gwneud yn gymwys i wneud cais i gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd ac i gael statws siartredig gyda Chymdeithas Seicoleg Prydain. Gyda'r cymhwyster hwn byddwch yn gallu gweithio yn y GIG.

Am ragor o fanylion, gweler: nwcpp.bangor.ac.uk

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych ragor o gwestiynau. Edrychwch hefyd ar wefan Clearing House: www.leeds.ac.uk/chpccp i gael mwy o wybodaeth am y broses ymgeisio.

Psychology MA

HYD Y CWRS

MA: Blwyddyn yn llawn-amser.
Gellir astudio'r cwrs yn rhan-amser hefyd.

GOFYNION MYNEDIAD

Rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd dda mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth berthnasol arall, gydag isafswm dosbarth gradd o 2.ii. Os nad oes gennych radd Seicoleg, efallai y cewch eich ystyried hefyd, anogir chi i gysylltu â'r ysgol.

Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfiedredd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.0 (heb unrhyw elfen yn is na 5.5) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academaidd addas ar gyfer y rhaglen.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs hwn yn cynnig astudiaeth uwch mewn seicoleg gyda phwyslais ar ragoriaeth mewn ymchwil a sgiliau ysgrifennu beirniadol. Yn dilyn dau semester o astudio academaidd, byddwch yn ysgrifennu adolygiad annibynnol ar lenyddiaeth mewn maes seicoleg sydd o ddiddordeb penodol i chi. Gall hwn fod yn syniad neu'n theori rydych eisoes yn ei ddatblygu, neu efallai mewn maes y byddwch yn datblygu diddordeb ynddo yn ystod y cwrs. Bydd goruchwyliwr academaidd yn eich helpu i ddatblygu eich syniadau a mirieino eich sgiliau ysgrifennu, gan roi cefnogaeth gyda'r adolygiad lenyddiaeth.

Rhennir modiwlau cynnwys rhwng modiwlau craidd ymchwil sylfaenol, sy'n rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o dechnegau arbrofol seicolegol a modiwlau dewisol sy'n rhoi cyfle i chi ddilyn eich maes diddordeb. Dysgir

modiwlau gan academyddion ymchwil o'r radd flaenaf ac rydym yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu rhagorol i chi trwy ddefnyddio adnoddau dysgu, cyfryngau ac amgylcheddau arloesol. Mae rhai modiwlau dewisol yn cyfuno dosbarthiadau israddedigion ac ôl-raddedigion ac felly'n cynnig awyrgylch cyfoethog a bywiog ar gyfer dysgu a rhyngweithio cymdeithasol.

Amcanion y Rhaglen

- Rhoi sylfaen i chi mewn seicoleg ac ymchwil seicolegol
- Rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i werthuso ymchwil ac astudiaeth seicolegol yn feirniadol
- Rhoi dealltwriaeth i chi o brosesau ac ystyron seicolegol mewn meysydd y mae gennych ddiddordeb ynddynt
- Datblygu'r sgiliau allweddol sydd eu hangen arnoch i wneud ymchwil seicolegol o ansawdd uchel (ysgrifennu gwyddonol, dadansoddiad beirniadol, disgrifio canfyddiadau ymchwil, etc.)
- Eich galluogi i gynhyrchu traethawd ysgrifenedig sy'n dangos eich gallu i ddeall, gwerthuso ac integreiddio ymchwil seicolegol yn glir ac yn gydllynol.

Modiwl craidd:

• MA Traethawd hir

Byddwch yn paratoui adolygiad llenyddiaeth ar bwnc yr ydych yn cytuno â'ch goruchwyliwr arno ac yn datblygu cynnig y byddwch yn ei ddatblygu fel dadl.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Theoretical Models in Clinical Psychology
- Bilingualism: Research and Methods
- Biological Bases of Neurodevelopmental

Disorders

- Methods in Cognition and Brain Research
- Advanced Research Methods
- Nudges and Behaviour Change
- Topics in Child Health and Wellbeing
- Research Methods Skills

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau ymchwil helaeth gyda chyrff a chwmnïau allanol, a gânt eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod y modiwlau yn berthnasol i'r gwaith a'r amgylchedd ymchwil bydd y graddedigion yn rhan ohono.

RHAGOLYCON GYRFA

Argymhellir yr MA mewn Seicoleg yn arbennig i raddedigion sydd am ddilyn gyrfa yn y dyniaethau sy'n gysylltiedig â seicoleg, y proffesiynau gofal iechyd a gwyddorau cymdeithas fel newyddiaduraeth wyddonol, rheoli busnes, seicoleg alwedigaethol, marchnata a gofal meddygol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Psychology MSc

HYD Y CWRS:

MSc: 1 flwyddyn llawn-amser, gellir ei astudio'n rhan-amser hefyd.

GOFYNION MYNEDIAD

Rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd dda mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth berthnasol arall, gydag isafswm dosbarth gradd o 2.ii. Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfiedredd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.0 (heb unrhyw elfen yn is na 5.5) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academaidd addas ar gyfer y rhaglen.

DISGRIFIAD O'R CWRSS

Mae'r cwrs wedi ei ddatblygu ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth a'u gallu ym maes Seicoleg yn gyffredinol. Gall hefyd fod yn ddewis da i unigolion sydd eisiau datblygu eu sgiliau proffesiynol ac academaidd, ond nad ydynt yn bwriadu dilyn gyrfa ymchwil mewn seicoleg. Bydd y rhaglen hefyd yn caniatáu i fyfyrwr deitwra eu gradd yn ôl eu diddordebau, gan astudio modiwlau o'n hamrywiaeth eang o fodiwlau arbenigol o'r radd flaenaf.

Yn gyffredinol, ein nod yw darparu amgylchedd addysgu a dysgu o ansawdd uchel trwy ddefnyddio'r offer dysgu diweddaraf, cyrsiau a ddysgir gan dîm, ac ymchwil wedi ei fentora'n agos gydag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd mewn seicoleg.

Modiwlau Gorfodol:

• Research Methods Skills

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau ystadegol sydd eu hangen arnoch i wneud a gwerthuso ymchwil seicolegol yn gyffredinol.

• Traethawd Hir Ymchwil

Byddwch yn casglu, dadansoddi a dehongli data, ac yn cyflwyno project empirig, mewn pwnc rydych wedi cytuno arno â'ch goruchwyliwr, mewn traethawd ymchwil ffurfiol. Bydd myfyrwr hefyd yn cyflwyno eu hymchwil mewn cynhadledd.

Modiwlau Dewisol:

- Methods in Cognitive and Brain Research
- Bilingualism: Research and Methods
- Clinical Neuropsychology I and II
- Practical Programming
- Theoretical Models in Clinical Psychology
- Topics in Child Health and Wellbeing
- Advanced Research Methods

- Nudges and Behaviour Change
- Introduction to Neuroimaging
- Introduction to Neuroimaging Analysis
- Biological Bases of Neurodevelopmental Disorders

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau ymchwil helaeth gyda chyrff a chwmnïau allanol, a gânt eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod y modiwlau yn berthnasol i'r gwaith a'r amgylchedd ymchwil bydd y graddedigion yn rhan ohono.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r cwrs yn gorgyffwrdd â'r MSc mewn Ymchwil Seicolegol, ond yn lle pwysleisio sgiliau ymchwil, bydd y rhaglen hon yn grymuso myfyrwr ag amrywiaeth o sgiliau proffesiynol. Mae'r sgiliau hyn yn werthfawr, ac mae galw mawr amdanynt, mewn amrywiaeth o wahanol feysydd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Yn y 20 uchaf ar gyfer Ansawdd Ymchwil

Complete University Guide 2020

Psychology PhD

HYD Y CWRS

PhD: 3 flynedd llawn-amser, 5 blynedd rhan-amser;

GOFYNION MYNEDIAD

Disgwylir i chi feddu ar radd israddedig mewn seicoleg neu bwnc cysylltiedig, gyda o leiaf gradd dosbarth 2.i neu gyfwerth. Os nad oes gennych radd MSc eisoes, yna byddem fel arfer yn disgwyl ichi gwblhau gradd o'r fath cyn dechrau'r rhaglen PhD.

Myfyrwyr rhyngwladol: Gofynnir am IELTS 6.5 (heb unrhyw elfen dan 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

PhD (neu doethuriaeth) yw'r cymhwyster academiaidd uchaf sydd ar gael. Nod gradd PhD yw darparu sylfaen gref mewn meysydd arbenigol iawn trwy ymchwili. Ei fwriad yw eich galluogi i fod yn ymchwilydd ym maes seicoleg, gan gyfrannu at wybodaeth academiaidd a datblygu gwaith o ansawdd y gellir ei gyhoeddi'n rhyngwladol. Mae Seicoleg Bangor yn cynnig goruchwyliaeth PhD yn y meysydd canlynol:

- Language, Bilingualism and Cognitive Development

- Perception, Action and Memory
- Social Neuroscience
- Clinical, Health and Behavioural Psychology

Bydd adnoddau ymchwil a chyfrifiadura o'r radd flaenaf ar gael i chi ynghyd â'r cyfle i astudio gyda staff academiaidd byd-enwog. Yn REF 2014, dyfarnwyd bod 89% o'n gwaith ymchwil gyda'r gorau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol.

DEWIS PWNC A GORUCHWYLIWR YMCHWIL

Mae angen goruchwyliaeth gan o leiaf un aelod staff academiaidd yn yr ysgol ar bob myfyriwr PhD/MPhil, ac os ydych yn ystyried astudio am PhD/MPhil, bydd gennych syniad da eisoes o'r maes neu'r thema benodol rydych eisiau ei ymchwilio. Er mwyn dod o hyd i oruchwyliwr sydd â'r arbenigedd perthnasol, dylech edrych ar ein tudalennau staff yn gyntaf (www.bangor.ac.uk/psychology/staff) am ddadansoddiad o faes arbenigedd pob aelod staff academiaidd. Ar ôl i chi ddod o hyd i ymchwilydd sydd â'r un diddordebau ymchwil â chi, yn fras, dylech gysylltu â hwy'n uniongyrchol naill ai i holi am broiectau sy'n bodoli eisoes neu i gyflwyno 'briff' ymchwil cryno sy'n amlinellu eich cynnig. Os


yw'r academydd yn mynegi diddordeb mewn goruchwyllo eich PhD, yna gallwch drafod eich syniadau ymhellach a datblygu cynnig ymchwil llawn. Ar y cam hwn, dylech wneud cais ffurfiol ar-lein am le ar y rhaglen PhD/MPhil.

CYLLID

Yn ystod eich astudiaeth PhD, bydd angen cyllid arnoch i dalu am ffioedd dysgu, rhai o'ch costau ymchwil, a'ch lwfans byw. Gellir cael cyllid i astudio PhD trwy gynlluniau cystadleuol a weithredir yn yr Ysgol Seicoleg a chan asiantaethau llywodraeth y DU/UE (www.bangor.ac.uk/psychology/study-with-us/postgraduate-funding). Efallai y bydd hefyd yn bosib dod o hyd i gyllid allanol cyn cysylltu â'r ysgol (e.e. gan eich cyflogwr neu'r llywodraeth) ac efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn penderfynu hunan-ariannu eu hastudiaeth ddoethurol. Ymhob achos, rydym yn croesawu mynegiant o ddiddordeb gennych a'r cyfle i'ch goruchwyliwr enwebedig ystyried eich cynnig ymchwil.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology



Applied Marketing Science MSc

HYD Y CWRS

Hyd y Cwrs: MSc blwyddyn yn llawn-amser, 2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd dda mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth berthnasol arall, gydag o leiaf dosbarth gradd o 2.ii. Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwyr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfedredd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.0 (heb unrhyw elfen yn is na 5.5) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academaidd addas ar gyfer y rhaglen.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r amgylchedd marchnata modern yn newid ac o ganlyniad, felly hefyd y sgiliau sydd eu hangen ar farchnatwyr i lwyddo. Mae marchnata wedi dod yn bwnc gwirioneddol ryngddisgyblaethol ac er mwyn lwyddo mae angen i farchnatwyr bellach ddeall pynciau mor amrywiol â strategaeth, seicoleg, y cyfryngau, dylunio, rhaglennu cyfrifiadurol, ystadegau a hyd yn oed dylunio cynnyrch.

Er bod yr amgylchedd marchnata wedi newid, nid yw'r ffordd rydym yn hyfforddi marchnatwyr wedi newid. Dysgir y mwyafrif o raddau marchnata gan ysgolion busnes ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar strategaeth. Ond mae'r cwrs hwn yn un o'r cyrsiau marchnata gwirioneddol rhyngddisgyblaethol cyntaf, lle

gallwch ddewis astudio modiwlau Seicoleg, Busnes, Dylunio Cynnyrch, y Cyfryngau a Pheirianneg; gan sicrhau bod gennych y sgiliau ymarferol y bydd eu hangen arnoch ar gyfer y farchnad fodern.

Wrth gynllunio'r modiwlau ar gyfer y cwrs hwn, gwnaethom ddadansoddi dros 50 o wahanol fanylebau swydd ar gyfer swyddogaethau marchnata iau a chanolradd, gan edrych i weld pa sgiliau sy'n hanfodol a dymunol. Yn y modiwl Seicoleg Defnyddwyr Cymhwysol, mae pob myfyrwr yn gweithredu fel seicolegydd defnyddwyr ymgynghorol, gan ymdrin â briff ymchwil a osodwyd gan gleient masnachol go iawn.

Modiwlau:

Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio'r cwrs hwn gwblhau dau fodiwl craidd, Seicoleg Defnyddwyr: Theori a Seicoleg Defnyddwyr Gymhwysol. Mae marchnata yn ddisgyblaeth amrywiol ac ar y cwrs hwn gallwch ddewis canolbwyntio ar yr elfennau sydd o fwyaf o ddiddordeb i chi. Os ydych yn meddwl am yrfa mewn ymchwil i'r farchnad gallwch ddewis astudio modiwlau fel: Ystadegau Uwch, Dadansoddeg Marchnata a Rhaglennu Cyfrifiadurol. Os ydych yn fwy creadigol ac y byddai'n well gennych weithio ym maes datblygu cynnyrch neu hysbysebu, gallwch ddewis astudio modiwlau sy'n arbenigo mewn: Prototeipio, Adobe Photoshop, Adobe Illustrator.

Mae'r modiwlau eraill yn cynnwys:

- Procio a Newid Ymddygiad
- Strategaeth Farchnata
- Dadansoddiad Marchnata
- Rhaglennu Ymarferol
- Graffeg Ddigidol Gymhwysol
- Meddylfryd Dylunio - Proses a Hwyluso
- Meddylfryd Dylunio - Strategaeth

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan y tîm seicoleg defnyddwyr ym Mhrifysgol Bangor gysylltiadau rhagorol â diwydiant a defnyddir hwy fel man cychwyn i fyfyrwyr yn y farchnad swyddi. Mae gan fyfyrwyr meistr y dewis i weithio ochr yn ochr ag academyddion sy'n ymwneud â phrojectau ymgynghori, gan roi cyfle i fyfyrwyr gydweithio ag amrywiaeth o gleientiaid.

RHAGOLYOGON GYRFA

Os oes gennych ddiddordeb gweithio ym maes hysbysebu, brandio, marchnata digidol, ymchwil i'r farchnad neu fanwerthu, dyma'r cwrs i chi. Cynlluniwyd y cwrs hwn yn benodol i roi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnoch i lwyddo fel: Rheolwyr brand, cynllunwyr cyfrifon, cyfarwyddwyr deall defnyddwyr, rheolwyr marchnata a llawer mwy.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Applied Behaviour Analysis with Practicum MSc

HYD Y CWRS

MSc: 2 flynedd llawn-amser, 2-3 blynedd rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2(ii) neu gyfwerth o leiaf. Gall ymgeiswyr hŷn (25+ ar ddechrau'r cwrs) heb radd ond sydd â phrofiad perthnasol hefyd gael mynediad ar lefel y dystysgrif. Gall profiad clinigol perthnasol gynnwys gwaith â thâl neu waith gwirfoddol mewn ysgolion, cartrefi gofal, gwasanaethau oedolion, gwasanaethau iechyd meddwl ac ati a bydd cyfarwyddwr y cwrs yn ei adolygu. Ar ôl cwblhau'r cwrs tystysgrif yn llwyddiannus, byddai ymgeiswyr o'r fath yn gymwys i symud ymlaen i'r diploma a lefelau mwy. IELTS: Gofynnir am 6.0 (heb unrhyw elfen dan 5.5). Rhaid cyflwyno ceisiadau electronig i'r ysgol erbyn 1 Mai bob blwyddyn. Cysylltir ag ymgeiswyr posib sy'n bodloni'r holl feini prawf eraill i gael cyfweiliad byr - naill ai'n bersonol neu drwy gyfrwng telegynadleda. Cynigir lleoedd erbyn diwedd mis Mehefin.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i ddatblygu gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol uwch o egwyddorion sylfaenol dadansoddi ymddygiad a chymhwyso'r egwyddorion i sefyllfaoedd clinigol ac ymchwil. Datblygwyd y rhaglen gan ddadansoddwyr ymddygiad ardystiedig y bwrdd mewn cydweithrediad â'r Behavior Analysts Certification Board (BACB). Mae'n cynnwys eu rhestr dasgau gyfan ac mae'r BACB yn cydnabod ei fod yn darparu'r meini prawf cymhwysedd o ran cynnwys sy'n angenrheidiol i sefyll yr arholiad BCBA llawn os dymunwch.

Mae rhan un yn cynnwys modiwlau hyfforddedig sydd wedi eu cynllunio ar sail rhestr dasgau y BACB. Mae rhan dau yn astudiaeth ymchwil glinigol, a gynllunir mewn cydweithrediad â'ch goruchwyliwr ymchwil â chymhwyster BCBA. Ceir hefyd dewis i nifer fach o fyfyrwyr gwblhau interniaeth glinigol dros ddwy flynedd sy'n bodloni safonau profiad y BACB.

PROSPECTWS ÔL-RADD PRIFYSGOL BANGOR 36

Mae'r modiwlau gorfodol yn cynnwys:

- **Principles of Learning & Behaviour Change I**
Mae'r modiwl hwn yn gosod y sylfaen i ddeall dadansoddi ymddygiad ar sail ddamcaniaethol ac athronyddol.
- **Principles of Learning & Behaviour Change II**
Mae'r modiwl hwn yn dysgu dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r gweithdrefnau sylfaenol a ddefnyddir mewn ymyriadau dadansoddi ymddygiad cymhwysol. Rhoddir pwyslais ar gymhwyso elfennau sylfaenol newid ymddygiad yn ymarferol.
- **Ethics and Professional Conduct**
Mae'r modiwl hwn yn dysgu sgiliau a gwybodaeth ymarferol uwch mewn ystyriaethau moesegol mewn lleoliadau clinigol.
- **Positive Behavioural Support I**
Mae'r modiwl hwn yn archwilio dulliau ymddygiadol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau bywyd cyffredin i bobl ag anableddau dysgu sy'n dangos ymddygiad heriol.
- **Advanced Behavioural Research Methods and Proposal**
Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg ar gynlluniau pynciau unigol, cynlluniau grŵp, technegau casglu a dadansoddi data, gwerthuso tystiolaeth ymchwil a rhoi data mewn graffiau.
- **Behaviour Analysis Across the Lifespan**
Bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth uwch o ddulliau ymddygiadol o ymdrin ag iaith a'u goblygiadau cymhwysol.
- **Practicum**
Gall myfyrwyr sy'n dechrau'r cwrs MSc blwyddyn mewn Dadansoddiad Ymddygiad Cymhwysol wneud cais i wneud y cwrs MSc 18 mis gyda practicum hefyd a bydd hyn yn cyflawni'r gofyniad o ran profiad gwaith cymhwysol a byddant yn gymwys i sefyll arholiadau'r BACB. Mae hyn yn cynnwys gwneud 2000 awr o waith dan oruchwyliath (10-20 awr yr wythnos yn ddi-dâl) mewn lleoliad ymarferol a drefnir gan y cwrs yn lle traethawd ymchwil. Trefnir y lleoliad gan y brifysgol a darperir goruchwyliath gan ddadansoddwr ymddygiad

ardystiedig y bwrdd ac ni all myfyrwyr gwblhau'r practicum mewn lleoliad o'u dewis. Gwahoddir ceisiadau ysgrifenedig ym mis Medi bob blwyddyn gan fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar yr MSc Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol, ac mae'r broses ymgeisio yn cynnwys cyfweiliadau a datganiadau ysgrifenedig. Dim ond niell cyfyngedig o leoedd sydd ar gael a chânt eu dyfarnu ar sail gystadleuol.

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Mae'r tîm yn cydlynu'r Grŵp Dadansoddiad Arbrofol o Ymddygiad, y sefydliad hynaf sydd wedi ymroi i ddadansoddi ymddygiad yn Ewrop. Mae llawer o'r tîm yn ddadansoddwyr ymddygiad gweithredol, yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau fel ysgolion, cartrefi, gwasanaethau oedolion a lleoliadau gofal iechyd. Mae llawer o'n myfyrwyr yn gwneud projectau traethawd ymchwil cymhwysol mewn lleoliadau lle mae dadansoddwyr ymddygiad yn gweithio, gan wneud ein cysylltiadau â lleoliadau clinigol yn gryf. Mae gan y cwrs hefyd gysylltiadau cryf â sefydliadau allanol, elusennau ac awdurdodau, fel Ambitious about Autism, The Sharland Foundation, awdurdodau addysg lleol yng ngogledd Cymru, a'r Northumberland Tyne and Wear Foundation NHS Trust.

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn gadael y cwrs ar ôl bodloni elfen hyfforddedig y meini prawf cymhwysedd i sefyll arholiad ardystio dadansoddwr ymddygiad ardystiedig y bwrdd a gynigir gan y Behavior Analyst Certification Board (BACB). Mae'r BACB yn gorff proffesiynol rhyngwladol sy'n goruchwylio'r proffesiwn dadansoddi ymddygiad. Mae cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am bobl sydd wedi cymhwyso fel dadansoddwr ymddygiad ardystiedig, ac mae gan ein myfyrwyr fantais amlwg wrth geisio hyfforddiant uwch a chyflogaeth bellach mewn meysydd sy'n delio ag ymddygiad heriol, darpariaethau addysgol arbennig ac anableddau datblygiadol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, 2-3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig 2(ii) neu gyfwerth o leiaf. Gall ymgeiswyr hŷn (25+ ar ddechrau'r cwrs) heb radd ond sydd â phrofiad perthnasol hefyd gael mynediad i'r cwrs ar lefel tystysgrif. Gall profiad clinigol perthnasol gynnwys gwaith â thâl neu waith gwirfoddol mewn ysgolion, cartrefi gofal, gwasanaethau oedolion, gwasanaethau iechyd meddwl ac ati a bydd cyfarwyddwr y cwrs yn ei adolygu fel y bo'n briodol. Ar ôl cwblhau'r cwrs tystysgrif yn llwyddiannus, bydd ymgeiswyr o'r fath yn gymwys i symud ymlaen i'r diploma a'r lefel meistir.

IELTS: Gofynnir am 6.0 (heb unrhyw elfen dan 5.5). Rhaid cyflwyno ceisiadau electronig i'r ysgol erbyn 1 Mai bob blwyddyn. Cysylltir ag ymgeiswyr posib sy'n bodloni'r holl feini prawf eraill i gael cyfweiliad byr gyda chyfarwyddwr y cwrs. Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal naill ai'n bersonol neu trwy gyfrwng telegynadledda. Cynigir lleoedd erbyn diwedd mis Mehefin.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i ddatblygu gwybodaeth theoretig ac ymarferol uwch o egwyddorion sylfaenol dadansoddi ymddygiad a chymhwyso'r egwyddorion o fewn sefyllfaoedd clinigol ac ymchwil. Datblygwyd y rhaglen gan ddadansoddwyr ymddygiad ardstiedig y bwrdd (BCBA) mewn cydweithrediad â'r Behavior Analysts Certification Board (BACB). Mae'n cynnwys eu rhestrau tasgau cyfan ac mae'r BACB yn cydnabod ei fod yn darparu'r meini prawf cymhwysedd cynnwys sy'n angenrheidiol i sefyll yr arholiad BCBA llawn os dymunwch.

Mae rhan un yn cynnwys modiwlau hyfforddedig sydd wedi eu cynllunio ar sail rhestr dasgau y BACB. Ar ôl cwblhau rhan un, byddwch yn symud ymlaen i ran dau - astudiaeth ymchwil glinigol, a gynllunir mewn cydweithrediad â'ch goruchwyliwr ymchwil â chymhwyster BCBA. Ceir hefyd dewis i nifer fach o fyfyrwyr gwblhau interniaeth glinigol dros ddwy flynedd sy'n bodloni safonau profiad y BACB. Cewch eich dysgu trwy gyfuniad o weithdai, seminarau, pecynnau hyfforddi arbenigol ar gyfrifiadur a phrofiad ymchwil

ymarferol. Rydym yn cynnig amgylchedd addysgu a dysgu o ansawdd uchel sy'n ysgogol yn ddeallusol ac sy'n defnyddio egwyddorion dadansoddi ymddygiad.

Efallai y byddwch yn dewis cymryd nifer llai o fodiwlau ar gyfer tystysgrif ôl-radd neu ddiploma, neu at ddibenion DPP.

Mae'r modiwlau gorfodol yn cynnwys:

• Principles of Learning & Behaviour Change I

Mae'r modiwl hwn yn gosod y sylfaen i ddeall dadansoddi ymddygiad ar sail ddamcaniaethol ac athronyddol a goblygiadau'r egwyddorion hyn wrth drin problemau ymddygiad.

• Principles of Learning & Behaviour Change II

Mae'r modiwl hwn yn cynnig dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r gweithdrefnau sylfaenol a ddefnyddir mewn ymyriadau dadansoddi ymddygiad cymhwysol. Rhoddir pwyslais ar gymhwyso elfennau sylfaenol newid ymddygiad yn ymarferol.

• Ethics and Professional Conduct

Mae'r modiwl hwn yn dysgu sgiliau a gwybodaeth ymarferol uwch mewn ystyriaethau moesegol mewn lleoliadau clinigol.

• Positive Behavioural Support I

Mae'r modiwl hwn yn archwilio dulliau ymddygiadol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau bywyd cyffredin i bobl ag anableddau dysgu sy'n ymddwyn mewn modd heriol.

• Advanced Behavioural Research Methods and Proposal

Mae'r modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o ddilysrwydd arbrolfodol a'i berthynas â chynllunio arbrolfodol wrth ddadansoddi ymddygiad. Mae'n rhoi trosolwg ar gynlluniau pynciau unigol, cynlluniau grŵp, technegau casglu a dadansoddi data, gwerthuso tystiolaeth ymchwil a rhoi data mewn graffiau.

• Behaviour Analysis Across the Lifespan

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth uwch o ddulliau ymddygiadol o ymdrin ag iaith a'u goblygiadau cymhwysol.

• Research Thesis

Yn y modiwl hwn, byddwch yn casglu, dadansoddi a dehongli data, ac yn cyflwyno eich project empirig mewn traethawd ymchwil ffurfiol.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae'r tîm yn cydlynw'r Grŵp Dadansoddiad Arbrolfodol o Ymddygiad, y sefydliad hynaf sydd wedi ymroi i ddadansoddi ymddygiad yn Ewrop. Mae llawer o'r tîm yn ddadansoddwyr ymddygiad gweithredol, yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau fel ysgolion, cartrefi, gwasanaethau oedolion a lleoliadau gofal iechyd. Mae llawer o'r myfyrwyr yn gwneud projectau traethawd ymchwil cymhwysol mewn lleoliadau lle mae dadansoddwyr ymddygiad yn gweithio, gan wneud ein cysylltiadau â lleoliadau clinigol yn gryf. Mae gan y cwrs hefyd gysylltiadau cryf â sefydliadau allanol, elusennau ac awdurdodau, fel Ambitious about Autism, The Sharland Foundation, awdurdodau addysg lleol yng ngogledd Cymru, a'r Northumberland Tyne and Wear Foundation NHS Trust.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn gadael y cwrs ar ôl bodloni elfen hyfforddedig y meini prawf cymhwysedd i sefyll arholiad ardstio dadansoddi ymddygiad ardstiedig y bwrdd a gynigir gan y Behavior Analyst Certification Board (BACB). Mae'r BACB yn gorff proffesiynol rhyngwladol sy'n goruchwyllo'r proffesiwn dadansoddi ymddygiad. Mae cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am bobl sydd wedi cymhwyso fel dadansoddwyr ymddygiad ardstiedig, ac mae gan ein myfyrwyr fantais amlwg wrth geisio hyfforddiant uwch a chyflogaeth bellach mewn meysydd cyflogaeth sy'n delio ag ymddygiad heriol, darpariaethau addysgol arbennig ac anableddau datblygiadol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:
www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

“Mae'r Ysgol Seicoleg yn amgylchedd rhyfeddol o gyfeillgar, cymdeithasol a hamddenol. Trwy gydol fy amser ym Mangor, mae'r gefnogaeth a gefais gan diwtoriaid a myfyrwyr wedi bod yn anhygoel.”

RAFID ALAM,
MRes Psychology



Consumer Psychology with Business MSc

HYD Y CWRS

MA/MSc: Blwyddyn yn llawn-amser.
Gellir astudio'r cwrs yn rhan-amser hefyd.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd dda mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth berthnasol arall, gyda dosbarth gradd o 2.ii o leiaf. Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwyr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfderedd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.0 (heb unrhyw elfen yn is na 5.5) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academiaidd addas ar gyfer y rhaglen.

DISGRIFIAD O'R CWRS

A ydych erioed wedi meddwl pam rydych yn gallu cofio hysbyseb o'ch plentyndod ond heb syniad pa hysbysebion a welsoch ddoe? Neu efallai eich bod wedi bod mewn archfarchnad ac wedi meddwl tybed pam mae pob un o'r cymeriadau cartŵn ar focs grawnfwyd yn edrych am i lawr. Os felly, mae'n debyg bod gennych ddiddordeb mewn seicoleg defnyddwyr. Mae seicoleg defnyddwyr yn gangen newydd o seicoleg sy'n astudio sut mae teimladau, credoau a chanfyddiadau yn dylanwadu ar y ffordd mae defnyddwyr yn prynu ac yn ymwneud â nwyddau a gwasanaethau. Mae'r ddisgyblaeth newydd gyffrous hon yn defnyddio dealltwriaeth ac ymchwil seicolegol i helpu marchnatwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Mae'r semester cyntaf yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth ddamcaniaethol ragorol i chi am seicoleg defnyddwyr a maes economeg ymddygiadol. Yn yr ail semester, bydd y pwyslais yn newid i ochr fusnes y cwrs, pan

fydd myfyrwyr yn cael dewis pa fodiwlau i'w hastudio. Ond yn wahanol i'r mwyafrif o raddau meistr, yn ogystal â dysgu'r theori, caiff myfyrwyr hefyd gyfle a chefnogaeth i roi eu sgiliau a'u gwybodaeth am seicoleg defnyddwyr ar waith.

Mae pob myfyrwr yn cwblhau modiwl ymgynghori, lle maent yn gweithredu fel seicolegydd defnyddwyr ymgynghorol. O dan oruchwyliath seicolegydd defnyddwyr proffesiynol, mae myfyrwyr yn rheoli ac yn ymdrin â briff ymchwil dilyn a ddarperir gan fusnes.

Modiwlau Gorfodol:

• Consumer Psychology: Theory

Mae'r modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth ddatblygedig i chi o seicoleg defnyddwyr a sut mae hyn yn gysylltiedig â brandio, ymchwil i'r farchnad a marchnata.

• Nudges and Behaviour Change

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar faes economeg ymddygiadol sy'n tyfu'n gyflym a sut gellir defnyddio egwyddorion seicoleg i newid ymddygiad defnyddwyr.

• Applied Consumer Psychology

Yn y modiwl hwn, cewch brofiad ymarferol o weithredu fel seicolegydd defnyddwyr masnachol, gan ymdrin â briff ymchwil go iawn a bennwyd gan gleient masnachol.

• Traethawd Hir Ymchwil

Yn y modiwl hwn, byddwch yn casglu, dadansoddi a dehongli data, ac yn cyflwyno project empirig mewn traethawd ymchwil ffurfiol.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Marketing Strategy
- New Venture Creation
- International Marketing
- Finance for Managers
- Global Brand Management
- International Strategic Management
- Contemporary Issues in Management
- Organisations and People
- Advanced Research Methods
- Psychology Disciplinary Elop*
- International Marketing Communication
- Consumers in Global and Digital
- Knowledge Management

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan y tîm seicoleg defnyddwyr ym Mhrifysgol Bangor gysylltiadau rhagorol â diwydiant a defnyddir hwy fel man cychwyn i fyfyrwyr yn y farchnad swyddi. Mae gan fyfyrwyr meistr yr opsiwn i weithio ochr yn ochr ag academyddion sy'n ymwneud â phrojectau ymgynghori, gan roi cyfle i fyfyrwyr gydweithio ag amrywiaeth o gleientiaid.

RHAGOLYCON GYRFA

Os oes gennych ddiddordeb gweithio ym maes hysbysebu, brandio, marchnata digidol, ymchwil i'r farchnad neu fanwerthu, dyma'r cwrs i chi. Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae ein graddedigion wedi mynd i weithio mewn 35 o wahanol wledydd ac erbyn hyn maent yn gweithio fel rheolwyr brand, cynllunwyr cyfrifon, cyfarwyddwyr dealltwriaeth defnyddwyr, rheolwyr marchnata a llawer mwy.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Positive Behaviour Support MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, 2-3 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd mewn Seicoleg neu faes pwnc cysylltiedig (e.e. addysg arbennig, therapï lleferydd ac iaith), fel arfer gydag o leiaf dosbarth 2 (ii) neu brofiad clinigol cyfatebol.

IELTS: Gofynnir am 6.0 (heb unrhyw elfen dan 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Datblygwyd y cwrs hwn gan ddadansoddwyr ymddygiad ardystiedig y bwrdd (BCBA) mewn cydweithrediad â'r Behavior Analysts Certification Board (BACB). Mae Cefnogaeth Ymddygiadol Gadarnhaol (PBS) yn enghraifft o ddadansoddiad ymddygiad mewn lleoliad ymarfer penodol (a weithredir fel arfer i oedolion ag anableddau deallusol neu mewn lleoliadau addysg arbennig) ac ar hyn o bryd mae'n unigryw yn y DU.

Bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gysyniadol ddatblygedig o Ddadansoddiad Ymddygiad Cymhwysol (ABA) a chefnogaeth ymddygiad cadarnhaol, damcaniaethau ymddygiad sy'n berthnasol i ddatblygu a thrin anhwylderau seicolegol a gwybodaeth ddatblygedig o gefnogaeth ymddygiad cadarnhaol a methodoleg ymchwil. Byddwch yn cael dealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad cymwyseddau allweddol wrth ddefnyddio egwyddorion ymddygiad mewn lleoliadau clinigol gan ddefnyddio'r model cefnogi

ymddygiad cadarnhaol a chynnal ymchwil ymddygiad cymhwysol yn ystod y traethawd ymchwil. Bydd graddedigion yn cael gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o theori ac ymarfer ABA a PBS.

Bydd ymgeiswyr MSc llwyddiannus yn gadael y cwrs gyda meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr arholiad ardystio BCBA llawn.

Modiwlau Gorfodol:

• Principles of Learning & Behaviour Change I

Mae'r modiwl hwn yn gosod y sylfaen i ddeall dadansoddiad ymddygiad ar sail ddamcaniaethol ac athronyddol a goblygiadau'r egwyddorion hyn wrth drin problemau ymddygiad.

• Principles of Learning & Behaviour Change II

Mae'r modiwl hwn yn cynnig dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r gweithdrefnau sylfaenol a ddefnyddir mewn ymyriadau dadansodol ymddygiad cymhwysol. Rhoddir pwyslais ar gymhwyso elfennau sylfaenol newid ymddygiad ymarferol.

• Ethics and Professional Conduct

Mae'r modiwl hwn yn dysgu sgiliau a gwybodaeth ymarferol uwch mewn ystyriaethau moesegol mewn lleoliadau clinigol.

• Positive Behavioural Support I

Mae'r modiwl hwn yn archwilio dulliau ymddygiadol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau bywyd cyffredin i bobl ag anableddau dysgu sy'n ymddwyn mewn modd heriol.

• Advanced Behavioural Research Methods and Proposal

Mae'r modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o ddilysrwydd arbrofol a'i berthynas â chynllunio arbrofol wrth ddadansoddi ymddygiad. Mae'n rhoi trosolwg ar gynlluniau pynciau unigol, cynlluniau grŵp, technegau casglu a dadansoddi data, gwerthuso tystiolaeth ymchwil a rhoi data mewn graffiau.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae arbenigwyr ym maes cefnogi ymddygiad cadarnhaol ymhlith staff y cwrs sy'n ymwneud â hysbysu polisiâu a chyhoeddiadau ynglŷn â'r modd mae cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn cyd-fynd â chyd-destun y DU a sut gellir ei ddarparu.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn gadael y cwrs ar ôl bodloni elfen hyfforddiedig y meini prawf cymhwysedd i sefyll arholiad ardystio dadansoddwr ymddygiad ardystiedig y bwrdd a gynigir gan y Behavior Analyst Certification Board (BACB). Mae cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am bobl sydd wedi cymhwyso fel dadansoddwr ymddygiad ardystiedig, ac mae gan ein myfyrwyr fantais amlwg wrth geisio hyfforddiant uwch a chyflogaeth bellach mewn meysydd cyflogaeth sy'n delio ag ymddygiad heriol, darpariaethau addysgol arbennig ac anableddau datblygiadol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser.
Gellir astudio'r cwrs yn rhan-amser hefyd.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth berthnasol arall, gyda dosbarth gradd o 2.ii o leiaf. Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwyr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfiedredd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.5 (heb unrhyw elfen yn is na 6.0) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academiaidd addas ar gyfer y rhaglen.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae ein MSc mewn Ymchwil Seicolegol yn eithriadol am ei bwyslais deul ar wyddoniaeth seicolegol sylfaenol a materion cymhwysol. Bydd y cwrs yn rhoi amrywiaeth eang o sgiliau ymchwil ymarferol i chi, cyfle i wneud astudiaeth uwch mewn seicoleg fodern, a chyfle i ddysgu sut caiff y wybodaeth hon ei chymhwyso mewn lleoliadau diwydiannol neu glinigol. Mae'r cwrs wedi cael ei gydnabod gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) fel un sy'n darparu'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n hanfodol i ymchwil gwyddorau cymdeithas a fydd yn eich helpu wrth chwilio am gyfle i wneud PhD. Bydd y cwrs hwn yn cynnig profiad ymchwil cynhwysfawr o weithio gydag ymchwilwyr o safon ryngwladol, a chyfle eithriadol i weld sut gellir rhoi seicoleg fodern ar waith.

Mae'r cwrs yn cynnwys dwy ran. Mae rhan un yn cynnwys modiwlau hyfforddedig dros ddau semester. Mae'n ofynnol i chi gymryd tri modiwl 'cynnwys', pob un wedi ei gynllunio i ddarparu

gwybodaeth a hyrwyddo eich dealltwriaeth mewn maes craidd penodol o seicoleg. Byddwch hefyd yn cymryd tri modiwl 'sgiliau' sydd wedi eu cynllunio i'ch helpu i ddatblygu sgiliau ymchwil. Yn ogystal, byddwch yn cymryd dau fodiwl tiwtorial gyda'ch goruchwyliwr lle byddwch yn datblygu cynnig ymchwil ar gyfer eich traethawd ymchwil.

Ar ôl cwblhau rhan un yn llwyddiannus, byddwch yn mynd ymlaen i ran dau (yn y trydydd semester). Ar yr adeg honno, byddwch yn cwblhau ac yn ysgrifennu eich traethawd ymchwil.

Y traethawd ymchwil yw 'calon' yr MSc ac mae'n brofiad ymchwil dwys mewn cydweithrediad â'ch goruchwyliwr sy'n eich galluogi i roi eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar waith. Wrth wneud eich project traethawd ymchwil, byddwch yn datblygu sgiliau newydd fel cynllunio, gweithio cydweithredol, a'r sgiliau academiaidd sy'n hanfodol i ddeall ac adrodd ar ganfyddiadau i eraill.

Modiwlau Gorfodol:

• Research Rotation

Byddwch mewn dau labordy gwahanol ac yn dysgu cyfoeth o wybodaeth ddamcaniaethol a sgiliau ymarferol a fydd yn eich galluogi i gynhyrchu eich ymchwil eich hun o safon uchel.

• Traethawd Hir Ymchwil

Yn y modiwl hwn, byddwch yn casglu, dadansoddi a dehongli data, ac yn cyflwyno eich project empirig mewn traethawd ymchwil ffurfiol.

• Advanced Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn rhoi sgiliau i chi yn y technegau ystadegol a ddefnyddir wrth astudio seicoleg.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Introduction to Neuroimaging
- Clinical Neuropsychology I and II
- Consumer Psychology: Theory
- Practical Programming
- Bilingualism: Research and Method
- Biological Bases of Psychological Disorders
- Topics in Child Health & Wellbeing
- Methods in Cognition and Brain Research
- Nudges and Behaviour Change
- The Psychology of Language

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY


Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau ymchwil helaeth gyda chyrff a chwmnïau allanol, a gânt eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod y modiwlau yn berthnasol i'r gwaith a'r amgylchedd ymchwil bydd y graddedigion yn rhan ohono.

RHAGOLYCON GYRFA

Os ydych eisiau arbenigo mewn maes penodol o Seicoleg cyn ymgymryd â PhD neu os ydych yn chwilio am swydd fel cynorthwyydd ymchwil yna mae'r radd Meistr hon sydd wedi ei hachredu gan ESRC yn addas i chi. Mae hefyd yn darparu sgiliau ymchwil cyffredinol rhagorol y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o swyddi os nad ydych yn meddwl gwneud PhD.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology



HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser;
Gellir astudio'r cwrs yn rhan-amser hefyd.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd dda mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth berthnasol arall, gyda dosbarth gradd o 2.ii o leiaf. Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwyr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfiedredd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.0 (heb unrhyw elfen yn is na 5.5) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academiaidd addas ar gyfer y rhaglen.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs yn rhoi sylfaen gref o wybodaeth i chi yn y meysydd canlynol sy'n berthnasol i niwroseicoleg glinigol:

- Damcaniaeth niwroseicolegol a thystiolaeth o astudiaethau clinigol ac arbrofol
- Anhwylderau niwroseicolegol, gan gynnwys eu seiliau mewn niwroanatomi a niwropatholeg, a'u heffaith ar unigolion a theuluoedd
- Asesiad niwroseicolegol
- Adsefydliad niwroseicolegol
- Dulliau Ymchwil
- Gwneud ymchwil niwroseicolegol.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth eang o'r technegau diweddaraf i ddeall cysylltiadau ymddygiad yr ymennydd, gan gynnwys mapio gweithredoedd swyddogaethol yn yr ymennydd gyda photensialau cysylltiedig â digwyddiadau (ERP), ysgogiad magnetig trawsgreuanol (TMS) a delweddu cyseiniant magnetig swyddogaethol (fMRI).

Modiwlau Gorfodol:

• Clinical Neuropsychology I

Mae'r modiwl hwn yn eich cyflwyno i syndromau niwroseicolegol sy'n dilyn niwed i'r ymennydd ac i amrywiaeth o wahanol brofion a dulliau asesu.

• Clinical Neuropsychology II

Mae'r modiwl hwn yn dysgu'r ffeithiau sylfaenol sy'n ymwneud ag epidemioleg, patholeg, cyflwyniad clinigol, meini prawf diagnostig, a sequeleae niwroseiciatreg anhwylderau niwrolegol a seiciatryddol cyffredin.

• Traethawd Hir Ymchwil

Yn y modiwl hwn byddwch yn casglu, dadansoddi a dehongli eich data, ac yn cyflwyno eich project empirig mewn traethawd ymchwil ffurfiol.

• Advanced Research Methods

Mae'r modiwl hwn yn dysgu sgiliau i chi yn y technegau ystadegol a ddefnyddir wrth astudio seicoleg.

• Biological Bases of Neurodevelopmental Disorders

Mae'r modiwl hwn yn rhoi persbectif integredig i fyfyrwyr ar anhwylderau niwroddatblygiadol sy'n pwysleisio cyfraniad bioleg at ymddygiad

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Introduction to Neuroimaging
- Behavioural Neurology
- Applied Psychology in Context
- Theoretical Models in Clinical Psychology
- Introduction to Neuroimaging Analysis

RESEARCH LINKS/LINKS WITH INDUSTRY

Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau ymchwil helaeth gyda chyrff a chwmnïau allanol, a gânt eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod y modiwlau yn berthnasol i'r gwaith a'r amgylchedd ymchwil bydd y graddedigion yn rhan ohono.

RHAGOLYCON GYRFA

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, bydd gennych y sgiliau i ymgymryd ag astudiaeth ôl-radd bellach gan arwain at PhD, neu i weithio ym maes ymchwil niwroseicolegol. Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen ragorol os ydych yn chwilio am swydd ym maes gofal iechyd, er enghraifft fel seicolegydd cynorthwyol neu gynorthwydd adsefydlu, ac i symud ymlaen i hyfforddiant proffesiynol, er enghraifft ym maes seicoleg glinigol neu feysydd cysylltiedig. Bydd gweithwyr iechyd proffesiynol sefydledig sy'n dilyn y cwrs yn gweld ei fod yn rhoi cyfle gwerthfawr am ddatblygiad proffesiynol parhaus, a allai gyfrannu at ddatblygiad gyrfa yn y dyfodol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology



Clinical and Health Psychology MSc

HYD Y CWRS

MSc: 1 flwyddyn llawn-amser, gellir ei astudio'n rhan-amser hefyd.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rhaid meddu ar radd anrhydedd sengl neu radd gydanrhydedd dda mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth berthnasol arall, gyda dosbarth gradd o 2.ii o leiaf. Rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwyr rhyngwladol, ond rhaid dangos hyfderedd yn y Saesneg sy'n cyfateb i sgôr IELTS o 6.0 (heb unrhyw elfen yn is na 5.5) a bydd disgwyl i chi ddangos bod gennych gefndir academiaidd addas ar gyfer y rhaglen. Bydd ymgeiswyr sydd â graddau o safon gyfatebol mewn disgyblaeth gysylltiedig, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys (e.e. seicolegwyr clinigol, seiciatrïddion, therapyddion galwedigaethol) ac sydd â phrofiad clinigol perthnasol, hefyd yn cael eu hystyried.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i gymhwyso dealltwriaeth seicolegol i anawsterau sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol. Cewch eich cyflwyno i'r theori a'r wybodaeth sy'n sail i ymarfer effeithiol ym maes seicoleg glinigol ac iechyd, byddwch yn ystyried hyn mewn perthynas ag amrywiaeth o gyflyrau, yn ennill dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddulliau ymchwil a ddefnyddir gan seicolegwyr clinigol, ac yn gwneud eich project ymchwil eich hun mewn maes perthnasol.

Bydd cysylltiadau agos yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol a gwasanaethau lleol y GIG yn rhoi cyfle i chi ymchwilio i seicoleg glinigol gydwethredol. Mae ymchwilwyr yn yr ysgol yn defnyddio amrywiaeth eang o'r technegau diweddaraf i ddeall cysylltiadau ymddygiad yr ymennydd, gan gynnwys mapio

gweithredoedd swyddogaethol yn yr ymennydd gyda photensialau cysylltiedig â digwyddiadau (ERP), ysgogiad magnetig trawsgruanol (TMS) a delweddau cyseiniant magnetig swyddogaethol (fMRI). Mae hyn yn rhoi cyfle i chi ddefnyddio'r offer a'r technegau diweddaraf.

Modiwlau Gorfodol:

• Professional Skills in Psychology

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg ar seicoleg gymhwysol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac yn rhoi gwybodaeth greiddiol am y modd y cymhwysir gwybodaeth seicolegol, a'r materion proffesiynol cysylltiedig. Mae'n rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau proffesiynol ymhellach ochr yn ochr â gyrfa sefydledig neu fel man cychwyn i yrfa mewn lleoliadau clinigol ac iechyd.

• Theoretical Models in Clinical Psychology

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar y modelau damcaniaethol allweddol y mae ymarfer seicoleg glinigol yn seiliedig arnynt, ac yn dangos sut mae'r modelau hyn yn dylanwadu ar ymarfer clinigol

• Advanced Research Methods

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau ystadegol sydd eu hangen arnoch i wneud a gwerthuso ymchwil seicolegol.

• Traethawd Hir Ymchwil

Byddwch yn casglu, dadansoddi a dehongli data, ac yn cyflwyno project empirig, mewn pwnc rydych wedi cytuno arno â'ch goruchwyliwr, mewn traethawd ymchwil ffurfiol. Bydd myfyrwyr hefyd yn cyflwyno eu hymchwil mewn cynhadledd.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Positive Psychology Practice
- Applied Forensic Psychology

- Topics in Child Health and Wellbeing
- Global Early Childhood
- Research Methods Skills
- Biological Bases of Neurological Disorders
- Clinical Neuropsychology I & II

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau ymchwil helaeth gyda chyrrff a chwmnïau allanol, a gânt eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod y modiwlau yn berthnasol i'r gwaith a'r amgylchedd ymchwil bydd y graddedigion yn rhan ohono.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r cwrs hwn yn addas i'r rhai sy'n anelu at ddoethuriaeth broffesiynol mewn seicoleg glinigol neu swyddi cysylltiedig eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithiol. Mae'r MSc yn rhoi sylfaen yn y wybodaeth a'r sgiliau allweddol sydd eu hangen ar y rhai sy'n bwriadu chwilio am swydd fel y rhai sydd eisoes wedi eu cyflogi fel seicolegwyr cynorthwyol (neu swyddi tebyg). Mae'r MSc hefyd yn baratoad rhagorol os ydych yn awyddus i ddilyn gyrfa ym maes ymchwil, gyda'r cyfle i astudio dulliau ac ystadegau ymchwil ac i ysgrifennu traethawd ymchwil mewn maes sy'n berthnasol yn glinigol. Mae ehangder ac amrywiaeth y dulliau asesu yn cefnogi'r sgiliau datblygu sy'n ddeniadol i gyflogwyr, megis ymgymryd â gwaith grŵp/gweithgareddau arwain, arddangos sgiliau astudio annibynnol, dadansoddi beirniadol a gwerthuso a'r gallu i ddatrys problemau. Mae gan fyfyrwyr fynediad at wasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd canolog ac aelod staff penodol yn yr Ysgol Seicoleg a all gynnig cefnogaeth a chyngor yn ymwneud â materion gyrfa neu gyflogadwyedd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Counselling MSc

HYD Y CWRS

MSc: 2 flynedd yn llawn-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

Bydd ymgeiswyr yn meddu ar un o'r cymwysterau academiaidd canlynol:

- Gradd israddedig dosbarth 2.ii neu uwch mewn Seicoleg neu Gwnsela (neu bwnc cysylltiedig)
- NEU radd israddedig dosbarth 2.ii neu uwch mewn pwnc digyswllt A thystysgrif mewn cwnsela
- NEU profiad proffesiynol perthnasol A thystiolaeth o allu academiaidd at lefel ôl-radd

Os mai Saesneg yw ail iaith yr ymgeisydd, yna bydd gofyn iddynt hefyd feddu ar IELTS o 7 a thystiolaeth glir o sgiliau cyfathrebu trwy gyfrwng y Saesneg yn y cyfweiliad.

Bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr gwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a bydd cael eu derbyn ar y cwrs yn dibynnu ar eu ffitrwydd i ymarfer gydag oedolion bregus.

Rhaid i ymgeiswyr lwyddo mewn cyfweiliad strwythuredig yn asesu eu haddasrwydd ar gyfer y cwrs ac ymarfer proffesiynol fel cwnselydd. Mae'r cyfweiliad strwythuredig hwn yn un o ofynion Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Nod y cwrs hwn yw eich paratoi chi at chwarae rhan weithredol fel aelod o'r proffesiwn

cwnsela/seicotherapi. Mae'r cwrs hwn yn edrych ar amrywiaeth o ddulliau seicolegol a dulliau therapiwtig i ddarparu hyfforddiant cyfannol mewn cwnsela. Byddwch yn dysgu am y dull dyneiddiol a therapi sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y dull seicodynamiig a therapi seicdreiddiol, y dull ymddygiadol a therapi ymddygiad, a'r dull gwybyddol a therapi gwybyddol. Byddwch hefyd yn cael eich cyflwyno i sawl dull integreiddiol, megis CBT, REBT a TA. Yn ogystal, byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu a'ch helpu i gyflwyno'r technegau therapiwtig yn eich ymarfer. Bydd y cwricwlwm helaeth hwn yn eich paratoi i weithio gyda chleientiaid mewn amrywiol leoliadau, ac yn rhoi pecyn cymorth i chi o dechnegau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dulliau sy'n canolbwyntio ar berthynas. Bydd y cwrs hwn hefyd yn cynnwys sylfaen gadarn mewn seicoleg ac ymchwil, fel y byddwch yn graddio gyda'r holl sgiliau sydd eu hangen arnoch i ymgeisio am astudiaeth ar lefel doethuriaeth neu weithio mewn ymarfer sy'n seiliedig ar ddulliau empirig.

Modiwlau Gorfodol:

Yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs, byddwch yn ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o seicoleg, cwnsela, ymchwil ac iechyd meddwl trwy'r modiwlau gorfodol canlynol:

- Research Skills
- Therapeutic Process and Context
- Approaches and Therapies 1 and 2
- Research Methods and Statistics
- Research Practice

- Mental Health and Wellbeing
- Counselling Skills 1 and 2

Yn ystod ail flwyddyn y cwrs, cewch gyfle unigryw i ddewis dau fodiwl o'r amrywiaeth eang o opsiynau sydd ar gael yn yr Ysgol Seicoleg. Gall yr opsiynau hyn gynnwys cyrsiau mewn Ymwybyddiaeth Ofalgar, Seicoleg Glinigol, Niwroseicoleg, a Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol. Bydd yr hyfforddiant arbenigol ychwanegol hwn yn rhoi mantais ychwanegol i chi fel deiliad neu cwnsela, a bydd yn eich arfogi ymhellach â'r sgiliau sydd eu hangen i ragori yn eich gyrfa.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae un o bob pedwar oedolyn yn cael o leiaf un anhawster iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn benodol, a materion iechyd meddwl yw achos unigol mwyaf anabledig yn y DU (Mental Health Taskforce Strategy, Chwefror 2016). Mae'r GIG wedi ymrwymo i drawsnewid gofal iechyd meddwl ledled y DU ac wedi addo buddsoddi mwy na biliwn o funnoedd y flwyddyn erbyn 2020/21. O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn a'r angen cynyddol am gefnogaeth iechyd meddwl, mae cyfleoedd am swyddi cwnsela yn debygol o gynyddu yn y dyfodol agos. Bydd graddedigion o'r cwrs hwn mewn sefyllfa arbennig o dda i lwyddo yn y farchnad hon.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Mindfulness-Based Approaches MA/MSc

HYD Y CWRS

Rhaglen Meistr ran-amser yw hon, gyda'r rhan fwyaf o'r modiwlau 30 credyd yn cael eu dysgu dros bum penwythnos, wedi eu gwasgaru ar draws y flwyddyn academaidd. Gellir cwblhau'r radd Meistr lawn mewn 3 blynedd, neu hyd at 5 mlynedd ar y mywyaf.

GOFYNIION MYNEDIAD

Fel rheol bydd ymgeiswyr yn meddu ar y canlynol: gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth cydnabyddedig, yn ogystal â phrofiad personol o ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar ar y ffurf a ddysgir mewn Dulliau Gweithredu Ymwybyddiaeth Ofalgar Gofynnwn hefyd eich bod wedi bod ar gwrs MBSR neu MBCT 8 wythnos.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cyflwynir ein dysgu yn yr arddull ryngweithiol, gyfranogol, gydweithredol a ddefnyddir wrth ddysgu dulliau sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar mewn cyd-destunau eraill. Mae opsiwn i astudio modiwlau a fydd yn arwain at ennill 'The Certificate of Competence in Teaching MBSR/MBCT'. Sef yr ardstiad uchaf i athrawon yn y DU ar hyn o bryd.

Bwriad y radd MSc/MA mewn Dulliau Gweithredu Ymwybyddiaeth Ofalgar yw rhoi sylfaen wybodaeth brofiadol a damcaniaethol gadarn i chi fel sail i ymarfer proffesiynol, addysgu ac ymchwil yn y maes hwn.

Mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio i ymestyn eich profiad personol o'r arfer o ymwybyddiaeth ofalgar, gwybodaeth am MBAs, a'ch sgiliau a'ch dealltwriaeth wrth ddysgu'r rhain.

Modiwlau Gorfodol:

• Foundation in Mindfulness-Based Approaches

Mae'r modiwl hwn yn dyfnhau eich profiad personol o ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar ac yn rhoi sylfaen ddamcaniaethol ymwybyddiaeth ofalgar i chi.

• Research Module

Mae'r modiwl hwn yn eich helpu i baratoi at eich traethawd ymchwil. Mae'n cynnwys dysgu sut i ddarllen a beirniadu papur ymchwil, cynllunio eich project ymchwil, yn ogystal â'ch arfogi â gwybodaeth o'r corff ymchwil ar ddulliau sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar.

• Thesis Module

Traethawd ymchwil o hyd at 20,000 o eiriau yn cyflwyno project ymchwil unigol ar bwnc sy'n berthnasol i ddulliau sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar.

Modiwlau Dewisol (gweler ein prosectws ar-lein diweddaraf am fanylion):

- Teaching 1
- Teaching 2
- The Buddhist Background to Mindfulness-

Based Courses

- Mindfulness and the Brain

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau dysgu ac ymchwil helaeth â chyrff allanol, yn enwedig mewn cysylltiad â defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar mewn cyd-destunau fel gofal iechyd a gofal cymdeithasol, addysg ac yn y gwaith. Defnyddir y cysylltiadau hyn yn llawn i sicrhau bod y rhaglenni'n berthnasol i'r cyd-destunau amrywiol y bydd graddedigion yn ymuno â hwy.

RHAGOLYCON GYRFA

Gallai'r cwrs hwn eich galluogi i ddatblygu eich gyrfa mewn sawl ffordd. Mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar yn eu bywydau proffesiynol ac mae rhai yn datblygu busnesau ac yn dysgu ymwybyddiaeth ofalgar yn llawn-amser. Gall fyfyrwyr ddewis mynd ymlaen i astudioeth ôl-radd bellach gan arwain at PhD. I weithwyr proffesiynol cymwys ym maes iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg, mae'r cwrs yn cynnig cyfle cyffrous am ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler: www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Teaching Mindfulness-Based Courses MA

HYD Y CWRS

PgDip: 4-5 blynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Fel rheol bydd ymgeiswyr yn meddu ar y canlynol: gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth cydnabyddedig, yn ogystal â phrofiad personol o ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar ar y ffurf a ddysgir yn Dulliau Gweithredu Ymwybyddiaeth Ofalgar Gofynnwn hefyd eich bod wedi bod ar gwrs MBSR neu MBCT 8 wythnos.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynlluniwyd y cwrs hwn i roi sylfaen wybodaeth gref yn seiliedig ar brofiad a damcaniaeth, ynghyd â hyfforddiant llawn, mewn dysgu Therapi Gwybyddol sy'n Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar (MBCT) neu ddysgu Lleihau Straen ar sail Ymwybyddiaeth Ofalgar (MBSR) yng nghyd-destun proffesiynol y myfyriwr ei hun. I weithwyr proffesiynol cymwys ym maes iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg, mae'n rhoi cyfle i ennill cymhwyster academaidd, a Certificate of Competence in Teaching MBSR/MBCT, a ddyfennir gan y Ganolfan Ymchwil ac Ymarfer Ymwybyddiaeth Ofalgar, sy'n uchel ei chld am safonau rhagoriaeth yn y maes hwn. Mae rhaglen y cwrs yn cynnwys pedwar modiwl gorfodol y mae'n rhaid eu cymryd y naill ar ôl y llall dros bedair blynedd, gyda'r tri chyntaf yn cael eu cyflwyno dros bum penwythnos y flwyddyn, tra bod elfen ddysgu'r modiwl terfynol yn cael ei chyflwyno mewn bloc preswyl 7 niwrnod.

Defnyddir y flwyddyn gyntaf (modiwl Sylfaen) i ddatblygu a dyfnhau eich ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar personol eich hun ac i ddysgu am ddamcaniaethau allweddol sy'n sail i ymwybyddiaeth ofalgar. O hynny ymlaen, bydd y rhaglen yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael dealltwriaeth fanwl ac ymarfer wrth ddysgu'r cwrs ymwybyddiaeth ofalgar 8 wythnos; hefyd, i gael eu hasesu ar sgiliau ymarferol a ddysgwyd yn y grŵp dysgu, yn ogystal ag ar eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn dadansoddiad beirniadol o'r damcaniaethau a'r rhesymeg sy'n sail i gyrtsau sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar. Yn y modiwl olaf, Project Dysgu Ymwybyddiaeth Ofalgar, caiff fyfyrwyr eu hasesu trwy eu recordiadau o ddysgu cwrs sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar yn eu cyd-destun proffesiynol eu hunain, yn ogystal â thrwy waith ysgrifenedig.

Modiwlau Gorfodol:

• Foundation in mindfulness-based approaches

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys profiad personol o ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar ynghyd â datblygiad o ddealltwriaeth o resymeg yr MBAs.

• Teaching 1

Mae'r modiwl hwn yn datblygu sgiliau craidd a dealltwriaeth wrth ddarparu MBAs.

• Teaching 2

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys datblygu sgiliau ymhellach a dyfnhau dealltwriaeth wrth gyflwyno MBAs.

• Mindfulness Teaching Project

Yn y modiwl hwn byddwch yn cymryd rhan mewn proses ddatblygu sy'n integreiddio ac yn adeiladu ar ddysgu personol, damcaniaethol a seiliedig ar sgiliau blaenorol mewn materion sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth ofalgar.

Modiwlau Dewisol:

- Buddhist Background
- Mindfulness and the Brain
- Research

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen hon gysylltiadau dysgu ac ymchwil helaeth â chyrff allanol, yn enwedig mewn cysylltiad â defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar mewn cyd-destunau fel gofal iechyd a gofal cymdeithasol, addysg ac yn y gwaith. Defnyddir y cysylltiadau hyn yn llawn i sicrhau bod y rhaglenni'n berthnasol i'r cyd-destunau amrywiol y bydd graddedigion yn ymuno â hwy.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r cwrs hwn yn rhoi hyfforddiant llawn i chi ddod yn athro neu'n athrawes MBSR neu MBCT yn eich cyd-destun proffesiynol eich hun. Mae gennych gyfle i ennill y cymhwyster dysgu ymwybyddiaeth ofalgar uchaf sydd ar gael yn y DU ar hyn o bryd; y Certificate of Competence in Teaching. Cyrsiau sy'n Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar. Mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar yn eu bywydau proffesiynol ac mae rhai yn datblygu busnesau ac yn dysgu ymwybyddiaeth ofalgar yn llawn amser.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler: www.bangor.ac.uk/go/pg/psychology

Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ynglŷn â'r Ysgol

• **1af yng Nghymru/7fed yn y DU am ymchwil mewn Gwyddorau Chwaraeon gyda 100% o ymchwil naill ai gyda'r gorau yn y byd neu ar lefel ryngwladol** (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU, 2014). Mae ein hymchwilyr i gyd yn dysgu hefyd, felly mae hyn yn arwain at ddysgu rhagorol a llawn ysbrydoliaeth gyda modiwlau'n seiliedig ar ymchwil a phrofiad dan oruchwyliaeth i ddatblygu eich sgiliau cefnogi cymhwysol. Mae'r ysgol yn 6ed yn y DU am Ansawdd Ymchwil (Complete University Guide 2020).

• **Bodddhad Myfyrwyr Uchel** – Mae'r ysgol yn gyson uchel am foddhad myfyrwyr yn yr Arolwg Profiad Ôl-raddedig Hyfforddiedig (PTES). Dywedodd 97% eu bod yn cael eu hannog i gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â'r modd y caiff y cwrs ei redeg a dywedodd 96% fod y cwrs wedi ei drefnu'n dda ac yn rhedeg yn ddi-drafferth. Rydym yn y 7fed safle yn sector y DU am foddhad myfyrwyr (CUG 2020).

• **Datblygu Sgiliau** – Cytunodd 91% o'r ymatebwyr i'n harolwg diweddaraf fod eu rhaglenni Meistr wedi datblygu eu sgiliau ymchwil (Arolwg Profiad Ôl-raddedig Hyfforddiedig, 2019). Dywedodd 94% hefyd eu bod bellach yn fwy hyderus ynglŷn â dysgu annibynnol.

• **Mae ein lleoliad unigryw yn wych ar gyfer gweithgareddau awyr agored**, ac mae gennym gyfleusterau chwaraeon a hamdden helaeth sydd i gyd ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer wedi bod yn dysgu rhaglenni MSc o safon uchel ers 2000 ac mae'n denu tua 45 o fyfyrwyr y flwyddyn o'r DU ac o dramor, gan gynnwys myfyrwyr o'r UDA, Singapore, Bahrain, Pakistan, Malaysia, Tsieina ac India.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau gradd, yn cynnwys rhaglenni MSc hyfforddiedig a graddau MRes mwy ymchwil-ddwys - felly, beth bynnag rydych eisiau ei ddysgu, mae gennym radd sy'n addas i chi.

Mae staff wedi ymrwymo i gynnal ansawdd uchel eu hymchwil ond maent wedi ymrwymo hefyd i ddysgu a rhoi cefnogaeth broffesiynol i fyfyrwyr. Mae'r ymchwil a wnânt yn uniongyrchol berthnasol i'r hyn maent yn ei ddysgu ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig.

Mae'r ysgol yn rhoi pwys mawr ar y profiad cyffredinol a gaiff ein myfyrwyr ac yn ymfalchïo yn ein gofal dros ein myfyrwyr. Mewn cymuned academaidd agos a chyfeillgar, nod yr ysgol yw darparu amgylchedd dysgu heriol a difyr sy'n groesawgar ac yn gefnogol i'r holl fyfyrwyr.

Cyfleusterau

Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn adeilad rhestredig Gradd II hynod hardd ar lannau'r Feni ac mae'n cynnwys pob math o adnoddau i astudio chwaraeon, iechyd ac ymarfer yn wyddonol. Mae ganddi nifer helaeth o labordai yn cynnwys yr offer diweddaraf ar gyfer ffisioleg chwaraeon ac ymarfer, seicoleg, rheolaeth dros symudiadau a dadansoddi mudiant. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys:

• Canolfan Gweithgareddau Corfforol ar gyfer Iechyd a Lles, labordai ffisioleg ymarfer corff a

labordai adsefydlu gyda pheiriant uwchsain a dynamometr isocinetig;

- siambr amgylcheddol – i alluogi profi amodau eithafion tymheredd a lleithder
- siambr hypocsia – i alluogi profion ymchwil ar amodau uchder;
- sganiwr pelydr-x egni deuol (DEXA) – i fesur cyfansoddiad meinwe.
- labordy dadansoddi mudiant – gyda'r system ddiweddaraf o 12 camera marcwyr goddefol i ffilmio er mwyn dadansoddi symudiadau'r corff i gyd, a system farcwyr gweithredol er mwyn ffilmio a dadansoddi symudiadau llai gwahanol rannau o'r corff;
- labordai profi seicoleg, yn cynnwys efelychu gyrru ac ystafelloedd arsylwi/cyfweld;
- labordai bioleg celloedd a biocemeg

Trosolwg ar feysydd academiaidd

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth lawn o raddau ôl-radd ymchwil a hyfforddiedig mewn gwyddor chwaraeon, iechyd ac ymarfer, o raglenni sy'n arbenigo mewn gwyddorau perfformio ac iechyd, i raddau gydag elfen alwedigaethol gryfach (e.e. MSc mewn Adsefydlu trwy Ymarfer). Bydd y radd a ddewiswch yn dibynnu ar eich diddordebau penodol a pha yrfa y gobeithiwch ei dilyn.

Cysylltiadau Ymchwil

Yn maes adsefydlu trwy ymarfer ac atal afiechydon, mae Grŵp Ymchwil Iechyd ac Ymarfer yr ysgol yn cydweithredu â byrddau GIG lleol, elusennau meddygol (e.e. Arthritis Care and Research), a chynghorau ymchwil (e.e. Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd). Mae projectau blaenorol yn cynnwys treialon ymarfer, maeth a chyffuriau i frwydro yn erbyn cyhyrau'n dirywio ymhlith cleifion arthritid, ymchwilio i drafferthion anadlu ymhlith cleifion ag apnoea cwsg a dadansoddi achosion blinder ymhlith cleifion â chlefyd cronig yr arennau.

Mae Grŵp Ymchwil Eithafion yr ysgol yn cydweithredu â'r Weinnyddiaeth Amddiffyn (e.e. Byddin Prydain), elusennau ymchwil (e.e. teithiau meddygol) a thimau chwaraeon rhyngwladol (e.e. Rygbi Seland Newydd). Mae projectau blaenorol yn cynnwys ymchwilio i effeithiau diffyg egni ar berfformiad yn ystod hyfforddiant milwrol llafurus ac achosion salwch mynyddoedd aciwt ymhlith cerddwyr. Yn ddiweddar rydym hefyd wedi ymchwilio i ddiffyg fitamin D a haearn ymhlith aelodau'r fyddin a hefyd arferion cynhesu wrth i chwaraewyr rygbi baratoi at gemau. Mewn seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff, mae Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit yr ysgol yn cydweithredu â'r Weinnyddiaeth Amddiffyn (e.e. Grŵp Hyfforddi Cychwynnol, Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn), gyda UK Sport a chwaraeon unigol (e.e. Bwrdd Criced Cymru a Lloegr, Rugby Football Union). Mae projectau blaenorol wedi cynnwys gwella arddulliau arweinyddiaeth yn ystod hyfforddiant milwrol cychwynnol, adnabod talent a deall prosesau datblygiadol athletwyr mwyaf llwyddiannus tîm Prydain Fawr.

Mae staff hefyd wedi rhoi cefnogaeth broffesiynol i nifer o gyrff chwaraeon a llywodraethu rhyngwladol. Ymhlith y rhain mae'r British Gymnastic Association, Chwaraeon Cymru, National Ice Skating Association, Orienteering Federation, Canŵ Cymru, a'r Welsh Yachting Association.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc/PgCert

- Applied Sport Science
- Applied Sport and Exercise Physiology
- Exercise Rehabilitation

MSc

- Sport and Exercise Psychology (BPS Accredited)
- Performance Psychology*

MRes/PgCert

- Sport and Exercise Physiology
- Sport and Exercise Psychology
- Sport and Exercise Science

PhD/MPhil/MSciRes

- Sport, Health and Exercise Sciences

*Subject to validation

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 388256

E-bost: sport@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/sport

@SportSciBangor

Mae rhai aelodau staff hefyd wedi cyfrannu eu harbenigedd at y British Olympic Association. Yn seiliedig ar ansawdd uchel ei hymchwil, mae'r ysgol wedi datblygu rhagoriaeth mewn gweithgareddau menter ac arloesi. Mae'r gweithgareddau hyn, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth, yn cynnwys yr ysgol wrth ddatblygu cysylltiadau cynhyrchiol a chydweithredol gyda'r sectorau cyhoeddus/preifat, cymunedau lleol ac asiantaethau eraill. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnig cyfle i weithio gyda busnesau lleol i hwyluso profiadau myfyrwyr o ansawdd uchel, gwneud ymchwil perthnasol a chymwys a chyfrannu at y gymuned leol. Mae enghreifftiau o bartneriaid presennol yn cynnwys Snowdonia Active, Outdoor Partnership, Outlook Expeditions, Cyngor Chwaraeon Cymru a Rygbi Gogledd Cymru (Rygbi Rhanbarthol Gogledd Cymru).

Rhagolygon Cyflogadwydd a Gyrfa

Bydd rhaglenni ôl-raddedig yr ysgol yn paratoui myfyrwyr at yrfa fel gwyddonwyr chwaraeon, gan weithio gyda thimau o athletwyr a pherfformwyr elitaidd i fireinio eu hyfforddiant; gwneud ymchwil gwyddor chwaraeon; gweithio yn y sector iechyd cyhoeddus, er enghraifft ym maes therapi chwaraeon neu ffisiotherapi; neu'n gweithio yn y diwydiant iechyd/ffitrwydd yn gyffredinol. Mae astudiaeth ôl-radd a gyrfa ddysgu (ar ôl cwblhau tystysgrif addysg ôl-raddedig), ymchwil a darlithio yn lwybrau galwedigaethol eraill.

Mae'r rhaglen adsefydlu trwy ymarfer wedi ei hanelu at raddedigion Gwyddor Chwaraeon neu Iechyd, sydd â diddordeb mewn datblygu eu harbenigedd a'u sylfaen wybodaeth ym maes ymarfer corff ac adsefydlu.

Cyllid

Cynigir y canlynol i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i astudio ar unrhyw raglen ôl-radd hyfforddiedig:

Cyllid o'r radd flaenaf - Gwobr Ragoriaeth (Myfyrwyr Cartref/UE yn unig)

Bydd yr ysgol yn gwobrwyo rhagoriaeth academiaidd trwy gynnig ysgoloriaeth gwerth £1000 i nifer gyfyngedig o fyfyrwyr Cartref/UE hunangyllidol sy'n ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf (neu gyfwerth). Ewch i'r wefan am ragor o fanylion.

Cynorthwywyr Graddedig

Mae pob ymgeisydd ôl-radd hyfforddiedig (Cartref/UE/Rhyngwladol, llawn-amser a rhan-amser) yn gymwys i YMGEISIO i fod yn gynorthwydd graddedig. Telir cynorthwywyr graddedig i weithio gyda staff academiaidd mewn amrywiaeth o weithgareddau addysgu, dysgu ac asesu i gefnogi dysgu myfyrwyr israddedig am hyd at 60 awr bob blwyddyn academiaidd.

Sut mae cynorthwywyr graddedig yn cefnogi datblygiad gyrfa

Mae rhaglenni ôl-raddedig yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr yn eu maes penodol, ynghyd ag amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy, ac agwedd annibynnol at ddysgu sy'n eu cadw ar flaen y gad yn eu dewis yrfa. Mae swyddogaeth cynorthwydd yn nodwedd arloesol sy'n caniatáu i fyfyrwyr roi rhywfaint o'u dysgu ar waith trwy gefnogi gweithgareddau'r ysgol, helpu i ddatblygu eu sgiliau cefnogi cymhwysol personol a gwella eu CVs â phrofiad uniongyrchol i gefnogi eu cyflogadwydd yn y dyfodol.

Mae cynorthwywyr graddedig o'r ysgol wedi mynd ymlaen i weithio fel darlithwyr a chynorthwywyr ymchwil mewn AB/AU, athrawon, ffisiotherapyddion ac arbenigwyr adsefydlu trwy ymarfer, hyfforddwyr/tywyswyr awyr agored a pharafeddygon.

I gael rhagor o wybodaeth am fwrsariaethau a chynorthwywyr yr ysgol, ewch i:
www.bangor.ac.uk/sport/bursaries.php.en

Y broses ymgeisio

Ceisiadau MSc

Gellir ymgeisio ar-lein yn gyflym ac yn hawdd:
www.bangor.ac.uk/courses/postgrad/taught/application.php.en

Ceisiadau MRes

Dylai ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn ymgymryd â rhaglen MRes nodi a chysylltu â goruchwyliwr posib o'r rhestr staff sydd ar gael yn: www.bangor.ac.uk/sport, i drafod y posibilrwydd o oruchwyliath.

Yna dylent ddilyn y broses ymgeisio ar-lein, a geir yn:

www.bangor.ac.uk/courses/postgrad/research/index.php.en

Yn ogystal, dylai myfyrwyr baratoi amlinelliad byr o'u maes ymchwil arfaethedig i gyd-fynd â'u ffurflen gais.



Applied Sport Science MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, astudio rhan-amser ar gael hefyd

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii o leiaf mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth). Gellir hefyd ystyried myfyrwyr sydd â gradd o faes academaidd gwahanol. Caiff gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd yn cael eu hasesu ar sail unigol. Cysylltwch â ni. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol o dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar chwaraeon a pherfformiad. Cynlluniwyd y cwrs i fod yn hyblyg ac yn berthnasol i anghenion a diddordebau unigol y myfyrwr, gyda phwyslais cryf ar gymhwyso theori i ymarfer proffesiynol.

Modiwlau Gorfodol:

- **Profiad dan Oruchwyliaeth** – rhoi goruchwyliaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cefnogi cymhwysol personol naill ai mewn ffisioleg neu seicoleg chwaraeon ac ymarfer; neu adsefydlu trwy ymarfer. Bydd cynnwys y modiwl hwn yn benodol i fyfyrwyr yn bennaf ac yn cynnwys gweithgareddau (gweithdai, darllen dan gyfarwyddyd, gwaith i gleientiaid) a fydd yn datblygu sgiliau cefnogi cymhwysol personol yr unigolyn.
- **Research Project** – y nod yw galluogi myfyrwyr i grynhoi gwybodaeth a chymwyseddau a enillwyd yn ystod elfennau hyfforddedig y cyrsiau MSc i gynhyrchu astudiaeth ymchwil ysgolheigaidd a manwl.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- **Exercise is Medicine** – mae'r modiwl hwn yn archwilio sail ddamcaniaethol heneiddio ar

sawl system ffisiolegol yn y corff, yn ogystal â defnyddio ymarfer corff i drin amrywiaeth o gyflyrau patholegol. Rhoddir cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau ymarferol allweddol mewn profion ymarfer corff clinigol yn unol â'r canllawiau cyfredol. Bydd myfyrwyr hefyd yn dysgu am gleifion gyda chlefyd awto-imiwnedd llidiol. Bydd sesiynau ymarferol ychwanegol yn helpu myfyrwyr i archwilio technegau a ddefnyddir ar gyfer delweddu pibellau gwaed mewn ymchwil cardiofasgwlaidd. (*yn amodol ar ddilysu)

- **Performance Psychology** – 'straen a pherfformiad', gwyntwch meddwl a 'dynameg grŵp', yw'r prif feysydd damcaniaethol sy'n sail i'r modiwl hwn. Nodau'r modiwl hwn yw caniatáu i fyfyrwyr ddeall y damcaniaethau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn, a chymhwyso theori seicoleg chwaraeon i sefyllfaoedd bywyd go iawn.
- **Exercise Psychology** – nod y modiwl hwn yw archwilio rhai o'r prif faterion damcaniaethol ac ymarferol mewn seicoleg ymarfer corff cymhwysol.
- **Performance Physiology** – y prif nod yw darparu fframwaith ffisiolegol i gael gwell dealltwriaeth ar lefel ôl-raddedig o berfformiad chwaraeon ac ymarfer.
- **Sports Injury Rehabilitation** – yn darparu trosolwg damcaniaethol o adsefydlu. Gwneir hyn trwy ystyried nifer o wahanol anafiadau sy'n effeithio ar wahanol feinweoedd a rhannau o'r corff. Er y bydd y cwrs yn canolbwyntio ar drin athletwyr elitaidd, gellir defnyddio'r un egwyddorion ar bob lefel.
- **Psychology of Injury and Rehabilitation** – nod y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i wneud y canlynol: Datblygu ehangder a dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o'r modelau sy'n arwain ymchwiliad i ragfynegi anaf chwaraeon o safbwynt seicogymdeithasol ac i ddatblygu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol adsefydlu yn dilyn anafiadau chwaraeon o safbwynt seicolegol.
- **Effective Coach Practice** – defnyddir dull

dysgu ar sail problemau. Ymhlith y sgiliau a addysgir neu a ymarferir mae'r canlynol: nodi a mabwysiadu strategaethau ar gyfer arfer gorau wrth hyfforddi, integreiddio theori ac egwyddor rhaglennu symudiad a chaffael sgiliau ag arfer hyfforddi ac argymhell ymyriadau i gyflymu dysgu trwy drin yr amgylchedd hyfforddi yn effeithiol.

- **Psychology of Effective Coaching** – mae'r berthynas rhwng athletwr a'i hyfforddwr yn aml yn berthynas gymhleth iawn. Mae'r hyfforddwr a'r athletwr eisiau sicrhau llwyddiant ond yn aml mae ganddynt syniadau gwahanol ynglŷn â sut i gyflawni hynny. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar brosesau seicolegol a gwybyddir y berthynas rhwng athletwr a'i hyfforddwr.

Ymhlith yr opsiynau eraill mae'r canlynol:

- Traethawd hir Proposal
- Advanced Research Skills
- Research Methods
- Research Project Proposal

RHAGOLYCON GYRFA

Mae holl raglenni ôl-raddedig yr ysgol wedi eu cynllunio (gyda hyfforddiant pellach lle bo hynny'n briodol) i wella rhagolygon gyrfa graddedigion Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer. Mae rhai o ôl-raddedigion Bangor wedi cael swyddi yn y sefydliadau canlynol: Sefydliadau chwaraeon y wlad, cyrff llywodraethu cenedlaethol, yr Olympic Medical Institute, timau a sefydliadau chwaraeon proffesiynol, y diwydiant ffitrwydd, y GIG (ysbytai ac ymddiriedolaethau gofal sylfaenol), dysgu ac addysg (ar ôl cwblhau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig). Mae astudiaeth ôl-raddedig bellach (h.y. ymchwil doethurol) yn llwyr galwedigaethol arall.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/applied-sport-science-msc

Applied Sport and Exercise Physiology MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, astudiaeth ran-amser ar gael hefyd

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii o leiaf mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth).

Gellir hefyd ystyried myfyrwyr sydd â gradd o faes academaidd gwahanol. Caiff gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd eu hasesu ar sail unigol. Cysylltwch â ni.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar ffisioleg chwaraeon ac ymarfer. Cynlluniwyd y cwrs i fod yn hyblyg ac yn berthnasol i anghenion a diddordebau unigol y myfyrwr, gyda phwyslais cryf ar gymhwyso theori i ymarfer proffesiynol.

Modiwlau Gorfodol:

- **Exercise is Medicine** – mae'r modiwl hwn yn archwilio sail ddamcaniaethol heneiddio ar sawl system ffisiolegol yn y corff, yn ogystal â defnyddio ymarfer corff i drin amrywiaeth o gyflyrau patholegol. Rhoddir cyfle i fyfyrwyr

ddatblygu sgiliau ymarferol allweddol mewn profion ymarfer corff clinigol yn unol â'r canllawiau cyfredol. Bydd myfyrwyr hefyd yn dysgu am gleifion gyda chlefyd awto-imiwnedd llidiol. Bydd sesiynau ymarferol ychwanegol yn helpu myfyrwyr i archwilio technegau a ddefnyddir i ddelweddu pibellau gwaed mewn ymchwil cardiofasgwlaidd. (*yn amodol ar ddilysu)

- **Performance Physiology** – y prif nod yw darparu fframwaith ffisiolegol i gael gwell dealltwriaeth ar lefel ôl-raddedig o berfformiad chwaraeon ac ymarfer.
- **Supervised Experience** – rhoi goruchwyliaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cefnogi cymhwysol personol naill ai mewn ffisioleg neu seicoleg chwaraeon ac ymarfer; neu adsefydlu trwy ymarfer. Bydd cynnwys y modiwl hwn yn benodol i fyfyrwyr yn bennaf ac yn cynnwys gweithgareddau (gweithdai, darllen dan gyfarwyddyd, gwaith i gleientiaid) a fydd yn datblygu sgiliau cefnogi cymhwysol personol yr unigolyn.
- **Sports Injury Rehabilitation** – yn darparu trosolwg damcaniaethol ar adsefydlu. Gwneir hyn trwy ystyried nifer o wahanol anafiadau sy'n effeithio ar wahanol feinweoedd a rhannau o'r corff. Er y bydd y cwrs yn canolbwyntio ar drin athletwyr elitaidd, gellir defnyddio'r un egwyddorion ar bob lefel.
- **Research Project** – nod y project ymchwil yw galluogi myfyrwyr i grynhoi gwybodaeth a chymwyseddau a enillwyd yn ystod elfennau

hyfforddedig y cyrsiau MSc i gynhyrchu astudiaeth ymchwil ysgolheigaidd a manwl.

Ymhlith yr opsiynau eraill mae'r canlynol:

- Traethawd hir Proposal
- Advanced Research Skills
- Research Methods
- Research Project Proposal

RHAGOLYCON GYRFA

Mae holl raglenni ôl-raddedig yr ysgol wedi eu cynllunio (gyda hyfforddiant pellach lle bo hynny'n briodol) i wella rhagolygon gyrfa graddedigion Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer Corff. Mae gyrfaedd ôl-raddedigion Bangor yn cynnwys: Sefydliadau chwaraeon y wlad, cyrff llywodraethu cenedlaethol, yr Olympic Medical Institute, timau a sefydliadau chwaraeon proffesiynol, y diwydiant ffitrwydd, y GIG (ysbytai ac ymddiriedolaethau gofal sylfaenol), dysgu ac addysg (ar ôl cwblhau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig). Mae astudiaeth ôl-raddedig bellach (h.y. ymchwil doethurol) yn llwyr galwedigaethol arall.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/applied-sport-and-exercise-physiology-msc

Exercise Rehabilitation MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, astudiaeth ran-amser ar gael hefyd

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii o leiaf mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth).

Gellir hefyd ystyried myfyrwyr sydd â gradd o faes academiaidd gwahanol. Caiff gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd eu hasesu ar sail unigol. Cysylltwch â ni.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol o dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd rhaglen y cwrs yn gweddu i raddedigion Gwyddorau Chwaraeon neu Therapi Corfforol sydd â diddordeb mewn adsefydlu trwy ymarfer yn benodol. Cynlluniwyd y cwrs i fod yn hyblyg ac yn berthnasol i anghenion a diddordebau unigol y myfyrwr, gyda phwyslais cryf ar gymhwyso theori i ymarfer proffesiynol.

Modiwlau Gorfodol:

- **Exercise is Medicine** – mae'r modiwl hwn yn archwilio sail ddamcaniaethol heneiddio ar sawl system ffisiolegol yn y corff, yn ogystal â defnyddio ymarfer corff i drin amrywiaeth o gyflyrau patholegol. Rhoddir cyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau ymarferol allweddol mewn profion ymarfer corff clinigol yn unol â'r canllawiau cyfredol. Bydd

myfyrwyr hefyd yn dysgu am gleifion gyda chlefyd awto-imiwnedd lliidiol. Bydd sesiynau ymarferol ychwanegol yn helpu myfyrwyr i archwilio technegau a ddefnyddir ar gyfer delweddu pibellau gwaed mewn ymchwil cardiofasgwlaidd. (**yn amodol ar ddilysu*)

- **Supervised Experience** – rhoi goruchwyliaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cefnogi cymhwysol personol naill ai mewn ffisioleg neu seicoleg chwaraeon ac ymarfer; neu ymarfer adsefydlu. Bydd cynnwys y modiwl hwn yn benodol i fyfyrwyr yn bennaf ac yn cynnwys gweithgareddau (gweithdai, darllen dan gyfarwyddyd, gwaith i gleientiaid) a fydd yn datblygu sgiliau cefnogi cymhwysol personol yr unigolyn.
- **Exercise Psychology** – nod y modiwl hwn yw archwilio rhai o'r prif faterion damcaniaethol ac ymarferol mewn seicoleg ymarfer corff cymhwysol.
- **Research Project** – od y project ymchwil yw galluogi myfyrwyr i grynhoi gwybodaeth a chymwyseddau a enillwyd yn ystod elfennau hyfforddiedig y cyrsiau MSc i gynhyrchu astudiaeth ymchwil ysgolheigaidd a manwl.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- **Sports Injury Rehabilitation** – yn darparu trosolwg damcaniaethol o adsefydlu. Gwneir hyn trwy ystyried nifer o wahanol anafiadau sy'n effeithio ar wahanol feinweoedd a rhannau o'r corff. Er y bydd y cwrs yn canolbwyntio ar drin athletwyr elitaidd, gellir defnyddio'r un egwyddorion ar bob lefel.
- **Psychology of Injury and Rehabilitation** – nod y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i ddatblygu ehangder a dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o'r modelau

sy'n arwain ymchwiliad i ragfynegi anaf chwaraeon o safbwynt seicogymdeithasol ac i ddatblygu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol adsefydlu yn dilyn anafiadau chwaraeon o safbwynt seicolegol. Bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gymhwyso ymyriadau seicolegol, mewn lleoliad adsefydlu; y broses o ddychwelyd i gystadlu, a'r rhesymau y tu ôl i fethiant rhai athletwyr i ailsefydlu.

Ymhlith yr opsiynau eraill mae'r canlynol:

- Traethawd hir Proposal
- Advanced Research Skills
- Research Methods
- Research Project Proposal

RHAGOLYGO GYRFA

Mae holl raglenni ôl-raddedig yr ysgol wedi eu cynllunio (gyda hyfforddiant pellach lle bo hynny'n briodol) i wella rhagolygon gyrfa graddedigion Gwyddor Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer. Mae gyrfaeidd ôl-raddedigion Bangor yn cynnwys: Sefydliadau chwaraeon y wlad, cyrff llywodraethu cenedlaethol, yr Olympic Medical Institute, timau a sefydliadau chwaraeon proffesiynol, y diwydiant ffitrwydd, y GIG (ysbytai ac ymddiriedolaethau gofal sylfaenol), addysgu ac addysg (ar ôl cwblhau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig). Mae astudiaeth ôl-raddedig bellach (h.y. ymchwil doethurol) yn llwybr galwedigaethol arall.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/exercise-rehabilitation-msc

Sport and Exercise Psychology MSc (British Psychological Society BPS accredited)

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, astudiaeth ran-amser ar gael hefyd

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii o leiaf mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth). Mae ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar Sylfaen Graddedigion ar gyfer Aelodaeth Siartredig yn gymwys i wneud cais am y rhaglen hon, ond ni fydd eu cymhwyster wedi ei achredu gan y BPS.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol o dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r ysgol yn falch o fod y cyntaf i ennill achrediad hyfforddiant proffesiynol ôl-raddedig y BPS ar gyfer y rhaglen MSc hon. Nod y cwrs yw darparu cam un o'r hyfforddiant sy'n ofynnol i ennill statws siartredig ac aelodaeth lawn o is-adran Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer BPS ar gyfer ymgeiswyr sy'n meddu ar GBC.

Modiwlau Gorfodol:

- **Supervised Experience** – rhoi goruchwyliaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cefnogi cymhwysol personol naill ai mewn ffisioleg neu seicoleg chwaraeon ac ymarfer; neu ymarfer adsefydlu. Bydd cynnwys y modiwl hwn yn benodol i fyfyrwyr yn bennaf ac yn cynnwys gweithgareddau (gweithdai, darllen dan gyfarwyddyd, gwaith i gleientiaid) a fydd yn datblygu sgiliau cefnogi cymhwysol personol yr unigolyn.

- **Effective Coach Practice** – defnyddir dull dysgu ar sail problemau. Ymhlith y sgiliau a addysgir neu a ymarferir mae'r canlynol: nodi a defnyddio strategaethau ar gyfer arfer gorau wrth hyfforddi, integreiddio theori ac egwyddorion rhaglennu symudiad a chaffael sgiliau ag arfer hyfforddi ac argymell ymyriadau i gyflymu dysgu trwy drin yr amgylchedd hyfforddi yn effeithiol.
- **Psychology of Effective Coaching** – mae'r berthynas rhwng athletwr a'i hyfforddwr yn aml yn berthynas gymhleth iawn. Mae'r hyfforddwr a'r athletwr eisiau sicrhau llwyddiant ond yn aml mae ganddynt syniadau gwahanol ynglŷn â sut i gyflawni hynny. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar brosesau seicolegol a gwybyddol y berthynas rhwng athletwr a'i hyfforddwr.
- **Performance Psychology** – 'straen a pherfformiad', 'gwytnwch meddwl' a 'dynameg grŵp', yw'r prif feysydd damcaniaethol sy'n sail i'r modiwl hwn. Nodau'r modiwl hwn yw caniatáu i fyfyrwyr ddeall y damcaniaethau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn, a chymhwyso theori seicoleg chwaraeon i sefyllfaeidd bywyd go iawn.
- **Exercise Psychology** – nod y modiwl hwn yw archwilio rhai o'r prif faterion damcaniaethol ac ymarferol mewn seicoleg ymarfer corff cymhwysol.
- **Research Project** – nod y project ymchwil yw galluogi myfyrwyr i grynhoi gwybodaeth a chymwyseddau a enillwyd yn ystod elfennau hyfforddiedig y cyrsiau MSc i gynhyrchu astudiaeth ymchwil ysgolheigaidd a manwl.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Traethawd hir Proposal
- Advanced Research Skills
- Research Methods
- Research Project Proposal

RHAGOLYGO GYRFA

Mae holl raglenni ôl-raddedig yr ysgol wedi eu cynllunio (gyda hyfforddiant pellach lle bo hynny'n briodol) i wella rhagolygon gyrfa graddedigion Gwyddor Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer. Mae gyrfaeidd ôl-raddedigion Bangor yn cynnwys: Sefydliadau chwaraeon y wlad, cyrff llywodraethu cenedlaethol, yr Olympic Medical Institute, timau a sefydliadau chwaraeon proffesiynol, y diwydiant ffitrwydd, y GIG (ysbytai ac ymddiriedolaethau gofal sylfaenol), dysgu ac addysg (ar ôl cwblhau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig). Mae astudiaeth ôl-raddedig bellach (h.y. ymchwil doethurol) yn llwybr galwedigaethol arall.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/sport-and-exercise-psychology-bps-accredited-msc



Sport and Exercise Physiology MRes/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, astudiaeth ran-amser ar gael hefyd

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii o leiaf mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth).

Gellir hefyd ystyried myfyrwyr sydd â gradd o faes academiaidd gwahanol. Caiff gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd eu hasesu ar sail unigol. Cysylltwch â ni.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol o dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynlluniwyd y rhaglen hon i roi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o egwyddorion a chymhwyso dulliau cynllunio ymchwil a dulliau dadansodol sy'n berthnasol i'r astudiaeth wyddonol o ffisioleg chwaraeon ac ymarfer. Mae'r rhaglen yn hwyluso integreiddio theori ac ymarfer proffesiynol, a thrwy gydol y rhaglen mae'r broses ymchwil a'r pwyslais ar annibyniaeth myfyrwyr wrth ddysgu yn dod yn fwyfwy pwysig.

Modiwlau Gorfodol:

- **Performance Physiology** – y prif nod yw darparu fframwaith ffisiolegol i gael gwell dealltwriaeth ar lefel ôl-raddedig o berfformiad chwaraeon ac ymarfer.
- **Advance Research Skills** – darparu dealltwriaeth feirniadol o gynllunio ymchwil a dadansoddi data. Paratoi myfyrwyr at gwblhau eu modiwlau astudio annibynnol neu gynigion Meistr, a'u modiwl traethawd hir.
- **Presentations in Statistics** – pwrpas y modiwl yw rhoi dealltwriaeth fanwl a gwerthfawrogiad beirniadol o weithdrefnau ystadegol i fyfyrwyr.
- **Peer Reviewing Scientific** – prif bwrpas y modiwl yw rhoi dealltwriaeth fanwl a gwerthfawrogiad beirniadol i fyfyrwyr o gyhoeddi papurau gwyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid.
- **Research Project** – nod y project ymchwil yw galluogi myfyrwyr i grynhoi gwybodaeth a chymwysterau a enillwyd yn ystod elfennau hyfforddedig y cyrsiau MSc i gynhyrchu astudiaeth ymchwil ysgolheigaidd a manwl.

RHAGOLYCON GYRFA

Efallai y cewch gyfle i baratoi at hyfforddiant profiad goruchwyllo y British Association of Sport and Exercise Sciences (BASES), sydd fel arfer yn rhagofyniad achrediad proffesiynol y gymdeithas.

Mae BASES hefyd yn trefnu cynhadledd flynyddol i fyfyrwyr. Mae cyn-fyfyrwyr MSc wedi ennill gwobrau am y 'Best Postgraduate Verbal Presentation' a'r 'Best Postgraduate Poster Presentation' yng nghynadleddau BASES i fyfyrwyr. Mae'r gwobrau hyn yn agored i fyfyrwyr MSc, MRes a PhD o holl brifysgolion y DU.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/sport-and-exercise-physiology-mres-pgcert

Sport and Exercise Psychology MRes/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, astudiaeth ran-amser ar gael hefyd

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii o leiaf mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth).

Gellir hefyd ystyried myfyrwyr sydd â gradd o faes academiaidd gwahanol. Caiff gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd eu hasesu ar sail unigol. Cysylltwch â ni.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynlluniwyd y rhaglen hon i roi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o egwyddorion a chymhwyso dulliau cynllunio ymchwil a dulliau dadansodol sy'n berthnasol i'r astudiaeth wyddonol o seicoleg chwaraeon ac ymarfer. Mae'r rhaglen yn hwyluso integreiddio theori ac ymarfer proffesiynol, a thrwy gydol y rhaglen mae'r broses ymchwil a'r pwyslais ar annibyniaeth myfyrwyr wrth ddysgu yn dod yn fwyfwy pwysig.

Modiwlau Gorfodol:

- **Advance Research Skills** – darparu dealltwriaeth feirniadol o gynllunio ymchwil a dadansoddi data. Paratoi myfyrwyr at gwblhau eu modiwlau astudio annibynnol neu gynigion Meistr, a'u modiwl traethawd hir.
 - **Presentations in Statistics** – pwrpas y modiwl yw rhoi dealltwriaeth fanwl a gwerthfawrogiad beirniadol o weithdrefnau ystadegol i fyfyrwyr.
 - **Peer Reviewing Scientific** – prif bwrpas y modiwl yw rhoi dealltwriaeth fanwl a gwerthfawrogiad beirniadol i fyfyrwyr o gyhoeddi papurau gwyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid.
 - **Research Project** – nod y project ymchwil yw galluogi myfyrwyr i grynhoi gwybodaeth a chymwysterau a enillwyd yn ystod elfennau hyfforddedig y cyrsiau MSc i gynhyrchu astudiaeth ymchwil ysgolheigaidd a manwl.
- Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:**
- **Psychology of Injury and Rehabilitation** – nod y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i wneud y canlynol: Datblygu ehangder a dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o'r modelau sy'n arwain ymchwil i ragfynegi anaf chwaraeon o safbwynt seicogymdeithasol ac i ddatblygu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol adsefydlu yn dilyn anafiadau chwaraeon o safbwynt seicolegol. Bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gymhwyso ymyriadau seicolegol, mewn lleoliad adsefydlu; y broses o ddychwelyd i gystadlu, a'r rhesymau y tu ôl i fethiant rhai athletwyr i ailsefydlu.
 - **Effective Coach Practice** – defnyddir dull dysgu ar sail problemau. Ymhlith y sgiliau a addysgir neu a ymarferir mae'r canlynol: nodi a mabwysiadu strategaethau ar gyfer arfer gorau wrth hyfforddi, integreiddio theori ac egwyddor rhaglennu symudiad a chaffael sgiliau ag arfer hyfforddi ac argymell ymyriadau i gyflwynu dysgu trwy ymdrin â'r amgylchedd hyfforddi yn effeithiol.
 - **Psychology of Effective Coaching** – mae'r berthynas rhwng athletwr a'i hyfforddwr yn aml yn berthynas gymhleth iawn. Mae'r hyfforddwr a'r athletwr eisiau sicrhau llwyddiant ond yn aml mae ganddynt syniadau gwahanol ynglŷn â sut i gyflawni hynny. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar brosesau seicolegol a gwybyddol y berthynas rhwng

athletwr a'i hyfforddwr.

- **Performance Psychology** – 'straen a pherfformiad', 'gwytnwch meddwl' a 'dynameg grŵp', yw'r prif feysydd damcaniaethol sy'n sail i'r modiwl hwn. Nodau'r modiwl hwn yw caniatáu i fyfyrwyr deall y damcaniaethau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn, a chymhwyso theori seicoleg chwaraeon i sefyllfaoedd bywyd go iawn.
- **Exercise Psychology** – nod y modiwl hwn yw archwilio rhai o'r prif faterion damcaniaethol ac ymarferol mewn seicoleg ymarfer corff cymhwysol.
- **Performance Physiology** – y prif nod yw darparu fframwaith ffisiolegol i gael gwell dealltwriaeth ar lefel ôl-raddedig o berfformiad chwaraeon ac ymarfer.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae gyrfaedd posib yn y dyfodol yn cynnwys:

- Astudio am PhD (ym Mhrifysgol Bangor neu rywle arall)
- Darlithydd mewn addysg bellach neu addysg uwch
- Athro/athrawes
- Ffisiotherapi
- Cynorthwydd ymchwil (prifysgolion a'r GIG)
- Technegydd arbenigol labordy (e.e. clybiau chwaraeon, ysbytai)
- Gwasanaethau Heddlu a'r Lluoedd Arfog
- Gwaith Gofal Cymdeithasol
- Ymgynghorydd

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/sport-and-exercise-psychology-mres-pgcert

Sport and Exercise Science MRes/PgCert

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser, astudiaeth ran-amser ar gael hefyd

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd 2.ii o leiaf mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth).

Gellir hefyd ystyried myfyrwyr sydd â gradd o faes academiaidd gwahanol. Caiff gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd eu hasesu ar sail unigol. Cysylltwch â ni.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynlluniwyd y rhaglen hon i roi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o egwyddorion a chymhwyso dulliau cynllunio ymchwil a dulliau dadansoddi sy'n berthnasol i'r astudiaeth wyddonol o seicoleg chwaraeon ac ymarfer. Mae'r rhaglen yn hwyluso integreiddio theori ac ymarfer proffesiynol, a thrwy gydol y rhaglen mae'r broses ymchwil a'r pwyslais ar annibyniaeth myfyrwyr wrth ddysgu yn dod yn fwyfwy pwysig.

Modiwlau Gorfodol:

- **Advance Research Skills** – darparu dealltwriaeth feirniadol o gynllunio ymchwil a dadansoddi data. Paratoi myfyrwyr at gwblhau eu modiwlau astudio annibynnol neu gynigion Meistr, a'u modiwl traethawd hir.
- **Presentations in Statistics** – pwrpas y modiwl yw rhoi dealltwriaeth fanwl a gwerthfawrogiad beirniadol o weithdrefnau ystadegol i fyfyrwyr.
- **Peer Reviewing Scientific** – prif bwrpas y modiwl yw rhoi dealltwriaeth fanwl a

gwerthfawrogiad beirniadol i fyfyrwyr o gyhoeddi papurau gwyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid.

- **Research Project** – nod y project ymchwil yw galluogi myfyrwyr i gynhoi gwybodaeth a chymwysterau a enillwyd yn ystod elfennau hyfforddiedig y cyrsiau MSc i gynhyrchu astudiaeth ymchwil ysgolheigaidd a manwl.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- **Performance Psychology** – 'straen a pherfformiad', 'gwytnwch meddwl' a 'dynameg grŵp', yw'r prif feysydd damcaniaethol sy'n sail i'r modiwl hwn. Nodau'r modiwl hwn yw caniatáu i fyfyrwyr ddeall y damcaniaethau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn, a chymhwyso theori seicoleg chwaraeon i sefyllfaoedd bywyd go iawn.
- **Exercise Psychology** – nod y modiwl hwn yw archwilio rhai o'r prif faterion damcaniaethol ac ymarferol mewn seicoleg ymarfer cymhwysol.
- **Performance Physiology** – y prif nod yw darparu fframwaith ffisiolegol i gael gwell dealltwriaeth ar lefel ôl-raddedig o berfformiad chwaraeon ac ymarfer.
- **Sports Injury Rehabilitation** – yn darparu trosolwg damcaniaethol o adsefydlu. Gwneir hyn trwy ystyried nifer o wahanol anafiadau sy'n effeithio ar wahanol feinweoedd a rhannau o'r corff. Er y bydd y cwrs yn canolbwyntio ar drin athletwyr elitaid, gellir defnyddio'r un egwyddorion ar bob lefel.
- **Psychology of Injury and Rehabilitation** – nod y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i wneud y canlynol: Datblygu ehangder a dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o'r modelau sy'n arwain ymchwil i ragfynegi anaf chwaraeon o safbwynt seicogymdeithasol ac i ddatblygu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol adsefydlu yn dilyn anafiadau chwaraeon o safbwynt seicolegol. Bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gymhwyso

ymyriadau seicolegol, mewn lleoliad adsefydlu; y broses o ddychwelyd i gystadlu, a'r rhesymau y tu ôl i fethiant rhai athletwyr i ailsefydlu.

- **Effective Coach Practice** – defnyddir dull dysgu ar sail problemau. Ymhlith y sgiliau a addysgir neu a ymarferir mae'r canlynol: nodi a mabwysiadu strategaethau ar gyfer arfer gorau wrth hyfforddi, integreiddio theori ac egwyddor rhaglennu symudiad a chaffael sgiliau ag arfer hyfforddi ac argymhell ymyriadau i gyflymu dysgu trwy drin yr amgylchedd hyfforddi yn effeithiol.
- **Psychology of Effective Coaching** – mae'r berthynas rhwng athletwr a'i hyfforddwr yn aml yn berthynas gymhleth iawn. Mae'r hyfforddwr a'r athletwr eisiau sicrhau llwyddiant ond yn aml mae ganddynt syniadau gwahanol ynglŷn â sut i gyflawni hynny. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar brosesau seicolegol a gwybyddol y berthynas rhwng athletwr a'i hyfforddwr.

RHAGOLYSGON GYRFA

Mae gyrfaeoddd posib yn y dyfodol yn cynnwys:

- Astudio am PhD (ym Mhrifysgol Bangor neu rywle arall)
- Darlithydd mewn addysg bellach neu addysg uwch
- Athro/athrawes
- Ffisiotherapi
- Cynorthwydd ymchwil (prifysgolion a'r GIG)
- Technegydd arbenigol labordy (e.e. clybiau chwaraeon, ysbytai)
- Gwasanaethau Heddlu a'r Lluoedd Arfog
- Gwaith Gofal Cymdeithasol
- Ymgynghorydd

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/sport-and-exercise-sciences-mres-pgcert

Sport, Health and Exercise Sciences PhD, MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser; MPhil: Blwyddyn yn llawn-amser

GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus radd anrhydedd dosbarth gyntaf neu radd Meistr, neu gyfwerth, mewn disgyblaeth gysylltiedig. Gellir derbyn ymgeiswyr sydd â gradd anrhydedd ail ddosbarth uchaf, neu gyfwerth, os gallant gyflwyno tystiolaeth o'u gallu i astudio ar y lefel hon.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, gyda diddordebau ymchwil mewn:

Seicoleg chwaraeon/perfformiad dynol:

- Stress and performance
- Application of social cognitive theories to sport and performance
- Mental imagery
- Self-talk
- Group dynamics
- Leadership
- Personality and emotion regulation
- Risk-taking
- The application of all of the above in business, military and other contexts

Seicoleg ymarfer/ymddygiad iechyd:

- Participation motivation
- Self-regulation
- Implicit processes

Ffisioleg ymarfer

- Clinical exercise physiology
- Performance physiology
- Muscle wasting in chronic disease
- Rehabilitation in chronic disease
- Fatigue
- Psychobiology of physical exertion
- Skeletal muscle function and biochemistry
- Cardio-vascular physiology
- Exercise and immune function; diet and exercise
- Hydration/dehydration and exercise
- Physiology of extreme environments

Datblygu arbenigedd (talent) trwy:

- Skill Acquisition
- Talent Identification
- Visual control of movement
- Motor programming
- Attention
- Perception and action
- Feedback processing

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/phd.php.en>



HYD Y CWRS

MSc: Dysgu o bell yn rhan-amser dros 3 blynedd.

GOFYNION MYNEDIAD

Caiff ymgeiswyr gyda'r cefndiroedd canlynol eu hystyried:

- Gallant ddangos y potensial i weithio ar lefel Meistr a meddu ar brofiad sy'n berthnasol i gwsrs sy'n ymwneud â disgyblaeth Seicoleg Perfformiad.
- Athletwyr a hyfforddwy'r proffesiynol sy'n gweithio neu sydd â phrofiad sylweddol o wirfoddoli am dair blynedd o leiaf.
- Gweithwyr proffesiynol sydd wedi bod yn gweithio mewn maes ac eithrio chwaraeon, megis y lluoedd arfog, gwasanaethau brys a busnes, ers tair blynedd o leiaf.
- O leiaf gradd 2.2 anrhydedd mewn pwnc perthnasol (neu gyfwerth). Gellir hefyd ystyried myfyrwyr sydd â gradd o faes academaidd gwahanol. Caiff gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau ac eithrio gradd eu hasesu ar sail unigol.
- Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.0 neu uwch (dim sgôr unigol dan 5.5) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y radd MSc hon mewn Seicoleg Perfformiad yn eich paratoi'n well at berfformio fel hyfforddwr, athletwr, neu weithio fel seicolegydd perfformiad cymhwysol ym maes chwaraeon, busnes, y lluoedd arfog neu'r celfyddydau perfformio. Cyflwynir cynnwys y cwrs gan staff o'r Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit. Mae'r Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit wedi ei leoli yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r radd ar-lein mewn Seicoleg Perfformiad wedi ei modelu ar elfennau seicolegol y rhaglen radd MSc Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer, a achredir gan y BPS, a ddarperir gan y Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit ar hyn o bryd.

Bydd rhan gyntaf y radd yn cymhwyso theori i ymarfer lle bynnag y bo modd ac yn ymdrin â phynciau sy'n ymwneud â pherfformiad, er enghraifft; personoliaeth, gwytnwch tîm ac unigol, straen a pherfformiad, cymhelliant, gwytnwch meddyliol, cydlyniant tîm a dynameg, arweinyddiaeth, perthynas hyfforddwr-athletwyr, hyfforddiant sgiliau seicolegol, cyflymu datblygiad sgiliau, adnabod a datblygu talent, a nodweddion unigol sy'n ymwneud â pherfformiad uchaf. I gwblhau'r radd, bydd myfyrwyr yn cael cyfle i wneud projectau ymchwil cymhwysol neu ddamcaniaethol neu draethawd hir ar bwnc o'u dewis.

Modiwlau Gorfodol:

- **Research Methods** – Dyma gyfle ymarferol gwyb i ddysgu am gynllunio ymchwil a dadansoddi data, sgiliau sy'n hanfodol i ddarllen ac ysgrifennu deunydd ymchwil, yn ystod eich cwrs gradd a thu hwnt. Cyflwynir y modiwl mewn modd bywiog, proffesiynol a chyfeillgar iawn gan ymchwilwyr byd-enwog. Byddant yn eich cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i wneud eich rhaglen ymchwil eich hun, ac i werthuso sgiliau eraill. Er gwaethaf amheuan posib am gynllunio a dadansoddi ymchwil, mae myfyrwyr yn hoff iawn o'r modiwl hwn yn y pen draw!
- **Research Project Proposal** – Dylai eich cynnig project fod yn seiliedig ar gwestiwn ymchwil, sydd wedi ei gynllunio i ateb cwestiwn effeithiol a pherthnasol, nad yw wedi ei ateb yn sylfaen dystiolaeth gwyddorau chwaraeon gyfredol. Bydd y modiwl hwn yn gymorth i'ch paratoi at y modiwl Project Ymchwil, lle cewch gyfle i gael cymeradwyaeth foeseogol i wneud eich project arfaethedig.
- **Advanced Research Skills** – yn darparu dealltwriaeth feirniadol o gynllunio ymchwil a dadansoddi data i baratoi myfyrwyr at gwblhau eu modiwlau astudio annibynnol neu gynigion Meistr, a'u modiwl traethawd hir.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- **Performing Under pressure** – Disgwylir i hyfforddwy'r chwaraeon a seicolegwyr feddu ar y gallu i gael y gorau o athletwyr mewn sefyllfaedd o bwysau uchel – mae hyn yn rhan allweddol o gylch gwaith hyfforddwr/seicolegydd. Cynlluniwyd y modiwl hwn yn benodol o amgylch hyn. Byddwn yn esbonio'n union sut a pham mae pwysau yn dylanwadu ar berfformiad gan ddefnyddio'r damcaniaethau seicoleg chwaraeon diweddaraf ac ymchwil fecanistig. Byddwn hefyd yn manylu ar sut gall seicolegwyr a hyfforddwy'r ymyrryd i atal tanberfformio dan bwysau ac annog perfformiadau personol gorau. Bydd y modiwl yn gysylltiedig ag astudiaethau achos go iawn athletwyr elitaidd y mae arweinwyr y cwrs wedi bod yn rhan ohonynt.
- **Accelerating Expertise** – Mae'r modiwl hwn yn defnyddio dull dysgu sy'n seiliedig ar broblemau er mwyn egluro'r atebion niwlog i'r cwestiwn 'sut i ddatblygu arbenigedd?' Bydd y theori yn canolbwyntio ar egwyddorion prosesu gwybyddol a meithrin sgiliau a bydd yn adlewyrchu'r materion hanfodol a nodwyd yn y llenyddiaeth. Yna caiff hyn ei gymhwyso i faes o ddewis y myfyrwyr er mwyn darparu atebion ymarferol i'r cwestiwn 'sut i gyflymu arbenigedd?'

- **How motivation really works** – Mae cymhelliant dynol yn ganolog i'n dealltwriaeth o amgylcheddau perfformiad uchel a pherfformiad uchel felly p'un a ydych yn hyfforddwr, athletwr neu'n ymarferydd, mae'n hanfodol deall y gwahanol fathau o gymhelliant i berfformwyr, pa ddylanwad y mae hyn yn ei gael ar berfformiad ac iechyd a sut gellir llunio amgylcheddau chwaraeon i ddylanwadu ar gymhelliant, iechyd a pherfformiad.
- **Talent Development** – Trwy gydol y cwrs, byddwn yn rhoi sylw i oblygiadau ymchwil datblygu talent gyfredol ar hyfforddi. Wrth wneud hyn byddwn yn gwneud cysylltiadau rhwng gwyddoniaeth graidd a phrofiad ymarferol arweinwyr y cwrs yn gweithio gyda chwaraeon elit (e.e. UK Sport), i fapio'r agweddau ar daith ddatblygiadol athletwyr sy'n arwain at berfformiad chwaraeon rhagorol; bydd y dull hwn yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw 'talent' a sut gallwn ei ddatblygu.

Ymhlith yr opsiynau eraill mae'r canlynol:

- Individual Performance Psychology
- Psychology of Team Performance
- Psychological Skills training
- Coach Athlete Relationship

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd y radd hon yn dysgu'r sgiliau angenrheidiol i fyfyrwyr allu gweithio ym maes seicoleg perfformiad cymhwysol ar mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau yn cynnwys chwaraeon, y lluoedd arfog, y gwasanaethau brys a busnes.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/sport-health-and-exercise-sciences/postgraduate-courses/



Gwyddorau Biolegol

Rydym yn cynnig ystod o gyrsgiau ôl-raddedig ac yn ymfalchïo yn ein awyrgylch gefnogol a chyfeillgar, safon ryngwladol ein hymchwil ac ansawdd uchel ein haddysgu.

Staff a chyfleusterau

Mae gennym ystod eang o arbenigedd a chyfleusterau sy'n ymwneud â phopeth o'r meysydd moleciwlaidd i feysydd ecosystemau ac organebau cyfan Gwyddorau Biolegol, gan gynnwys y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) sydd newydd agor, a Gerddi Botaneg Treborth, wedi'u lleoli ar lan y Fenai, sy'n cynnig gerddi wedi'u tirlunio, ac ystod o gynffynedd glawelltiroedd a choetiroedd. Rydym yn anarferol o ran y ffaith bod gennym ein Hamgueddfa Byd Natur ein hunain sy'n cynnwys casgliad mawr o greaduriaid ag asgwrn cefn a di-asgwrn-cefn a hefyd acwariwm môr helaeth, ac acwariwm dŵr croyw newydd.

Fel myfyriwr ôl-radd, gallwch astudio Graddau Meistr hyfforddedig blwyddyn o hyd mewn Bioleg Foleciwlaidd gyda Biotechnoleg. Mae gradd MScRes blwyddyn, sy'n wahanol i'r rhaglenni Meistr hyfforddedig trwy roi mwy o bwyslais ar y project ymchwil, ar gael yn y Gwyddorau Biolegol.

Golwg gyffredinol ar y meysydd academiaidd

Mae graddau ymchwil ar gael mewn pynciau sy'n cynnwys ystod llawn ein harbenigedd ymchwil, gan gynnwys ecoleg dŵr, ecoleg foleciwlaidd ac esblygiad; biocemeg gwlypdiroedd a gwyddorau planhigion; ffisioleg anifeiliaid, niwroffisioleg, ymddygiad a chadwraeth; microbiolog, parasitolog, primatolog a biotechnoleg.

Rydym yn derbyn cefnogaeth ariannol sylweddol gan y Cyngorau Ymchwil, elusennau, adrannau llywodraeth a diwydiannau ym Mhrydain a thramor. Mae ein diddordebau amrywiol yn hwyluso cyfnewid syniadau a thechnegau rhyngddisgyblaethol yn helaeth, ac yn hyrwyddo cydweithredu yn y Brifysgol a chyda chydweithwyr mewn sefydliadau a diwydiant.

Gwyddorau Biolegol

Gofynion yng nghyswllt yr iaith Saesneg

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Y gofynion Saesneg isafswm yw:

- IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol yn is na 5.5) neu gyfwerth.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc

- Molecular Biology with Biotechnology

MScRes

- Biological Sciences
- Environmental Microbiology and Biotechnology

PhD/MPhil

- Biological Sciences

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 351151

E-bost: sns@bangor.ac.uk

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/biology>



HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad, mae angen gradd anrhydedd dda mewn pwnc biolegol perthnasol. Bydd ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, heb gymwysterau ffurfiol, ond sydd â phrofiad diwydiannol, masnachol, ymchwil neu brofiad perthnasol arall, yn cael eu hystyried. Am ofynion iaitth Saesneg, gweler tudalen 110.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Ymhlith y pynciau dan sylw mae fectorau trawsnewid planhigion sy'n seiliedig ar plasmid *Agrobacterium Ti*, a datblygu cynyddu trawsenydd; dadansoddi dilyniannau DNA trwy ddulliau biowybodeg; defnyddio codau bar DNA mewn pysgod; bioadferiad, biofwyno a defnyddio bacteria i ddiraddio llygryddion organig newydd a thechnolegau bôn-gelloedd, a gwneud diagnosis o glefyd genetig gan ddefnyddio polymorffau niwcleotid sengl. Byddwch yn cymryd rhan mewn ymarferion labordy sydd wedi'u cynllunio i'ch cyflwyno i dechnegau hanfodol mewn bioleg foleciwlaidd a biotechnoleg. Mae gan mwyafrif y modiwlau elfen ymarferol gysylltiedig. Bydd y project ymchwil yn cael ei gynnal o dan oruchwyliath uniongyrchol staff.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

• Techniques of Molecular Biology & Biotechnology

Bydd y cwrs yn dechrau gyda hyfforddiant mewn dulliau sydd wedi'u cynllunio i echdynnu a dadansoddi DNA ac RNA, cyfyngu ar fapio ensymau plasmidau, a dadansoddi polymorffau DNA dynol ac olion bysedd DNA. Bydd myfyrwyr yn ennill profiad o ddefnyddio'r holl dechnegau ac offer a ddefnyddir mewn labordy bioleg foleciwlaidd fodern - electrofforesis gel, PCR ac ati. .

• Marine Biotechnology

Mae biotechnoleg y môr wedi bod yn hanfodol bwysig i ddyframaeth ledled y byd, ac yn parhau i fod yn bwysig. Mae ffocws cyfredol y diwydiant bellach wedi'i seilio'n gadarn ar dechnolegau modern, gan gynnwys strategaethau darganfod cyffuriau newydd ar gyfer cyfansoddion fferyllol a allai fod yn bwysig, yn ogystal â gwella'r cynnyrch mewn dyframaeth trwy gynyddu twf ac iechyd stoc i'r eithaf gan ddefnyddio technolegau moleciwlaidd.

• Environmental and Industrial Biotechnology

Mae hyn yn ymdrin ag agweddau ar biotechnoleg ficrobaidd diwydiannol, gan gynnwys defnyddio micro-organebau i fynd i'r afael â llygredd olew y môr, ac i ddiraddio llygryddion organig clorinedig; Metagenomeg; Rhyngweithiadau rhwng microbau a meffônau; Biofwyno; Biobrosesu a Bioadferiad mwynau.

• Plant Biotechnology

Mae hyn yn ymdrin ag agweddau ar biotechnoleg planhigion, gan gynnwys trawsnewid planhigion, cynyddu a addaswyd yn enetig a bioleg *Agrobacterium* gan gynnwys adeiladu fectorau plasmid Ti. Bydd bioleg tomatos trawsenydd yn cael sylw manwl yn ogystal â rhai enghreifftiau o gnyddu trawsenydd sydd wedi'u cynllunio i roi buddion i iechyd. Ymdrinnir hefyd â dulliau modern o fridio planhigion gan gynnwys dadansoddiad QTL a dewis gyda chymorth marcior mewn perthynas â bridio i weld a allent wrthsefyll straen anfiotig.

• Bioinformatics Tools for Gene & Protein Analysis

Pwrpas y modiwl hwn yw dysgu myfyrwyr meistr ac ymchwil ôl-radd sut i ddefnyddio offer biowybodeg ar-lein i ddadansoddi (i) DNA ac RNA, (ii) Genomau a (iii) Proteinau. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol ar gyfer cwblhau projectau ymchwil modern yn llwyddiannus, ac yn darparu sgiliau defnyddiol trosglwyddadwy i fyfyrwyr ôl-radd. Mae'r strategaeth addysgu yn defnyddio dysgu ar sail problemau mewn cyfuniad â thri gweithdy..

• Recombinant Protein Expression

Yn y modiwl hwn, astudir strategaethau ar gyfer cynhyrchu proteinau ailgyfunol mewn bacteria gan gynnwys fectorau mynegiad plasmid, y dewis o hyrwyddwyr sydd wedi'u cynllunio i yrru mynegiad, trawsnewid a dewis bacteria ailgyfunol, a dadansoddi proteinau ailgyfunol ar geliau polyacrylamid.

• Project Preparation

Mae'r modiwl hwn yn eich galluogi i gael y wybodaeth wyddonol benodol, sgiliau ymarferol a galluoedd ysgrifennu gwyddonol i baratoi ar gyfer project ymchwil sylweddol wedi'i seilio ar ddamcaniaethau, a chynhyrchu traethawd ymchwil terfynol.

• Research Project

Mae'r project yn mynd i'r afael â chwestiwn neu bwnc biolegol trwy arbrofi ymarferol mewn labordy. Bydd gwaith arbrofol yn cael ei wneud naill ai fel unigolyn neu fel aelod o grŵp bach sy'n ymchwilio i agweddau cysylltiedig ar un pwnc.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i astudiaethau PhD yn ogystal ag i gyflogaeth - rydym wedi gosod cyn-fyfyrwyr yng Ngholeg Imperial Llundain, Labordy Sainsbury ym Mhrifysgol East Anglia, Reliance Industries ym Mumbai, India, a Siemens Diagnostic Healthcare ym Mhrydain.

Am fanylion pellach am y cwrs, gwelwch:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/biology>

Biological Sciences Gradd Meistr trwy Ymchwil MScRes

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser neu ran-amser pro-rata.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad mae angen gradd anrhydedd dda mewn pwnc biolegol perthnasol gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan unrhyw sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r Ysgol yn cefnogi ymchwil helaeth a thrwyadl mewn nifer o feysydd, yn cynnwys ecoleg dŵr, ymddygiad anifeiliaid, endocrinoleg, egniëg a ffisioleg, ecoleg foleciwlaidd, geneteg pysgodfeydd, bioddiraddio microbaidd a bioasferiad, genomeg micro-organebau a phlanhigion, systemau a thechnoleg planhigion, biogeocemeg gwlyptiroedd, a niwrowyddoniaeth a datblygiad cymharol. Mae graddau ymchwil ar gael mewn pynciau sy'n rhwneud â sbectrwm llawn ein harbenigedd ymchwil. Fe'i cefnogir gan ystod o asiantaethau cyllido cenedlaethol a rhyngwladol ac mae cysylltiadau â phartneriaid diwydiannol ac academaidd ledled y byd.

Mae'r rhaglenni MScRes yn raddau blwyddyn yn llawn-amser trwy ymchwil (hefyd ar gael yn rhan-amser), sy'n wahanol i gyrsgau Meistr hyfforddedig traddodiadol gan eu bod yn raddau sy'n seiliedig ar ymchwil, ac felly'n rhoi pwyslais ar y project ymchwil. Bydd y radd hon yn rhoi hyder a chymhwysedd i chi yn y sgiliau ymchwil diweddaraf, ac yn eich galluogi i wneud cais am raglenni hyfforddiant ymchwil pellach (PhD), neu i wneud cais uniongyrchol am swyddi

ymchwil mewn prifysgolion neu sefydliadau ymchwil.

MScRes: Nid oes credydau ar gyfer y radd MScRes, a chaiff ei harholi trwy'r traethawd hir yn unig, gan gynnwys arholiad viva voce.

Oherwydd y ffocws cryf ar y project ymchwil ar gyfer y radd hon, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i chi fod wedi trefnu pwnc gyda goruchwyliwr penodol, yr ydych chi'ch dau'n cytuno arno, cyn i chi wneud cais. Mae yna ystod eang o bynciau posib, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddiddordebau ymchwil staff yn: www.bangor.ac.uk/cns/research. Gallwch hefyd fynd at Ysgol y Graddedigion i gael cyngor pellach.

Byddwch yn treulio'r tri mis cyntaf yn mireinio'ch cynnig project ac yn cynnal adolygiad trylwyr o'r Llenyddiaeth. Byddwch hefyd yn cyflwyno'ch cynnig i weddill y garfan a'r goruchwyliwr. Bydd yr adborth a gewch chi'n eich galluogi i wella'r project a'r traethawd ymchwil. Bydd disgwyl i chi hefyd fanteisio ar y rhaglen hyfforddiant a ddarperir gan Goleg y Gwyddorau Naturiol ac Ysgol y Graddedigion ac Ysgol Ddoethurol y Brifysgol mewn sgiliau pwnc-benodol a generig ôl-raddedig.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae cysylltiadau staff cenedlaethol a rhyngwladol helaeth yn golygu eich bod yn aml yn gallu cynnal eich projectau ymchwil ar y cyd ag ymgynghoriaethau masnachol, cynghorau lleol, sefydliadau amgylcheddol (e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, RSPB, Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain

- llawer ohonynt â swyddfeydd rhanbarthol wedi'u lleoli ym Mangor), a sefydliadau ymchwil y llywodraeth (e.e. Canolfan Ecoleg a Hydroleg) yn y Deyrnas Gyfunol, a thramor (mae projectau blaenorol wedi cynnwys gwaith maes yn India'r Gorllewin, Affrica, y Maldives, ac amryw o wledydd Ewropeaidd).

RHAGOLYOGON GYRFA

Yn ogystal â dod o hyd i gyflogaeth benodol yn seiliedig ar y wybodaeth arbenigol a gafwyd yn ystod hyfforddiant ôl-raddedig, bydd eich cyflogadwydd cyffredinol yn cael ei wella gan dystiolaeth o'ch gallu i weithio'n annibynnol, i feddwl yn ddadansodol ac yn flaengar, a chysyniadu a chwestiynu. Yn ystod eich astudiaethau, byddwch hefyd yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau proffesiynol hanfodol fel sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm ac arweinyddiaeth dda, a gwella'ch profiad ymarferol. Mae'r rhai sydd wedi graddio yma yn y gorffennol wedi mynd ymlaen i yrfaoedd mewn ymchwil (yn y byd academaidd a sefydliadau ymchwil) yn ogystal ag ymgynghoriaethau amgylcheddol masnachol, DEFRA, awdurdodau dŵr, cyhoeddi gwyddonol, penseiri tirwedd a llawer o rai eraill.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/biology>

Biological Sciences PhD/MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad, mae angen gradd anrhydedd dda mewn pwnc biolegol perthnasol neu gyfatebol. Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr o dramor ddangos cymhwysedd yn y Saesneg i lefel dderbyniol. Gweler tudalen 110 am fanylion.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r Ysgol yn cefnogi ymchwil helaeth a thrwyadl mewn nifer o feysydd, yn cynnwys ecoleg dŵr, ymddygiad anifeiliaid, endocrinoleg, egniëg a ffisioleg, ecoleg foleciwlaidd, geneteg pysgodfeydd, bioddiraddio microbaidd a bioasferiad, genomeg micro-organebau a phlanhigion, systemau a thechnoleg planhigion, biogeocemeg gwlyptiroedd, a niwrowyddoniaeth a datblygiad cymharol. Mae graddau ymchwil ar gael mewn pynciau sy'n rhwneud â sbectrwm llawn ein harbenigedd ymchwil. Fe'i cefnogir gan ystod o asiantaethau cyllido cenedlaethol a rhyngwladol ac mae cysylltiadau â phartneriaid diwydiannol ac academaidd ledled y byd.

I gael PhD, sydd fel rheol yn cymryd 3 blynedd yn llawn-amser, mae disgwyl i chi wneud ymchwil annibynnol a fydd yn gwneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth am y pwnc penodol hwnnw, a chyflwyno honno ar ffurf traethawd ymchwil. Mae'r MPhil fel rheol yn cymryd 2 flynedd i'w gwblhau'n llawn-amser, ac mae hefyd yn cynnwys ymchwil annibynnol a chwblhau traethawd ymchwil, ond gall hyn fod yn estyniad o'r wybodaeth bresennol yn hytrach na chyfraniad gwreiddiol. Treulir chwe mis cyntaf eich PhD neu MPhil yn mireinio cynnig eich project, ac yn cynnal adolygiad llenyddiaeth trylwyr, a fydd yn cyfrannu at eich traethawd ymchwil terfynol. Byddwch hefyd yn cyflwyno'ch cynnig i weddill y garfan a'r staff goruchwylio. Bydd yr adborth a gewch chi'n eich galluogi i wella'ch project terfynol.

Bydd disgwyl i chi hefyd fanteisio ar y rhaglen hyfforddiant a ddarperir gan Ysgol Graddedigion y Coleg ac Ysgol Ddoethurol y Brifysgol mewn sgiliau pwnc-benodol a generig ôl-raddedig. Rydym yn derbyn cefnogaeth ariannol sylweddol gan y Cynghorau Ymchwil, elusennau, adrannau'r llywodraeth a diwydiannau ym Mhrydain a thramor. Mae ein diddordebau amrywiol yn hwyluso cyfnewid syniadau a thechnegau rhyngddisgyblaethol yn helaeth, ac yn hyrwyddo cydweithredu yn yr Ysgol a chyda chydweithwyr mewn sefydliadau a diwydiant.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/biology>

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad mae angen gradd gyntaf dda (2.ii neu uwch) mewn pwnc biolegol perthnasol gan brifysgol, neu gymhwyster tebyg gan unrhyw sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Mi wnawn ni ystyried myfyrwyr aeddfed sydd heb radd hefyd ond sydd â phrofiad diweddar a pherthnasol sylweddol (e.e. diwydiannol).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MSc trwy Ymchwil mewn Microbioleg a Biotechnoleg Amgylcheddol yn rhaglen amser-llawn am flwyddyn sy'n wahanol i raglen Meistr hyfforddedig o ran ei bod yn rhoi mwy o bwyslais ar ymchwil, ac mae'n cael ei harholi'n debycach i PhD, trwy arholiad viva voce (llafar), yn hytrach na graddio gwaith cwrs a thraethawd hir. Bydd y radd hon yn rhoi hyder a chymhwysedd i chi yn y sgiliau ymchwil diweddaraf (gan gynnwys sgiliau generig megis chwilio llenyddiaeth, agweddau cyfreithiol a moesegol, cynllunio projectau, ysgrifennu cynigion grant, a thrin data ystadegol) a bydd yn eich galluogi chi i wneud cais am hyfforddiant ymchwil pellach (PhD), neu i wneud cais uniongyrchol am swyddi ymchwil mewn prifysgolion neu sefydliadau ymchwil.

Byddwch yn treulio'r tri mis cyntaf yn mireinio'ch cynnig project ac yn cynnal adolygiad trylwyr o'r Llenyddiaeth. Byddwch hefyd yn cyflwyno'ch cynnig i weddill y garfan a'r goruchwylwyr. Bydd yr adborth a gewch chi'n eich galluogi i wella'r project a'r traethawd ymchwil. Bydd disgwyl i chi hefyd fanteisio ar y rhaglen hyfforddiant a ddarperir gan Goleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg ac Ysgol y Gradddegion ac Ysgol Ddoethurol y Brifysgol mewn sgiliau pwnc-benodol a generig ôl-raddedig.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am arbenigeddau ymchwil a manylion cyswllt staff ar dudalennau Ymchwil yr Ysgol Gwyddorau Naturiol a'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB), y project adeiladu gallu ymchwil (£7.8M) a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar ddefnydd biotechnolegol o ficro-organebau eithafoffilig, eu hensymau a'u metabolynnau. Yn ogystal â chynnig cefnogaeth gref ar gyfer gweithgareddau ymchwil, mae'r Ysgol yn cynnig cyfleoedd rhagorol i fyfyrwyr gynnal gwaith project dan oruchwylwyr rhyngwladol cydnabyddedig a phrofiadol sy'n gysylltiedig hefyd â'r CEB.

Mae'r enghreifftiau o bynciau projectau posib yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt):- darganfod ensymau newydd o berthnasedd diwydiannol o ficro-organebau eithafoffilig a'u cymunedau;


- tyfu archaea eithafoffilig (e.e. hyperacidoffilig);
- microbioleg diraddiad petrolewm yn amgylcheddau'r môr: eu meithrin ac astudiaethau OMICS);
- defnyddio bacteria'r môr sy'n diraddio olew (ensymau, syrffactyddion, biopolymerau, osmolytau);
- dadansoddiad meithriniad-annibynnol (metagenomaidd) o gyfansoddiad tacsonomeg a photensial gweithrediadol cymunedau microbiad;
- ymchwilio i rôl micro-organebau'r môr a'u hensymau yn nhynged plastigau polyester synthetig
- defnyddio technolegau proteomeg i ddarganfod ensymau (egwyddorion cyffredinol, paratoi samplau a threuliad enzymatig protinau, dadansoddiad LC-MS o gymysgeddau peptid a dadansoddi data (biowybodeg);

- defnyddio technolegau metabolomeg i ddarganfod ensymau (egwyddorion cyffredinol, paratoi samplau, modd targedu a darganfod, dadansoddiad LC-MS o gymysgeddau metabolit cymhleth a dadansoddi data (biowybodeg);
- defnyddio technolegau lipidomig i gymunedau o ficrobiaid (egwyddorion cyffredinol, paratoi samplau, tynnu lipidau, modd targedu a darganfod, dadansoddiad LC-MS o gymysgeddau metabolit cymhleth a dadansoddi data (biowybodeg);

Bydd y myfyrwyr hefyd yn elwa o'r cysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol helaeth sydd gennym â sefydliadau'r sector wladol a phreifat.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>



Coedwigaeth, Gwyddorau'r Amgylchedd, Daearyddiaeth, Cadwraeth ac Ecoleg

Mae ein hymchwil ryngwladol yn canolbwyntio ar ecoleg a rheoli coedwigoedd; gwyddorau'r amgylchedd a phridd; systemau amaethyddol; amaethgoedwigaeth; cadwraeth bioamrywiaeth; ecosystemau trofannol a dalgylchoedd afonydd.

Mae ein henw da o ran ymchwil yn amlwg yn nifer y projectau ymchwil rydyn ni'n eu cynnal; ar hyn o bryd mae gennym fwy na 60 o fyfyrwyr yn gwneud ymchwil ar gyfer eu PhD. Maent hwy'n cyflawni eu gwaith dros gyfnod o dair blynedd gan arwain at gynhyrchu thesis a nifer o bapurau gwyddonol. Mae'r casgliad hwn o ôl-raddedigion sy'n ymwneud â phynciau amgylcheddol a rheoli adnoddau yn golygu bod Bangor yn rym sylweddol o ran ymchwil fyd-eang yn y maes. Rydym yn denu ysgolheigion ar ymweliad o bob cwr o'r byd, sydd yn eu tro'n cyfrannu at awyrgylch bywiog ac ysgogol.

Cyfleusterau

Mae gennym ystod eang o gyfleusterau modern gan gynnwys Canolfan Ymchwil bwrpasol, ychydig filltiroedd y tu allan i'r ddinas, sy'n gartref i arbrefion hir-dymor mewn coedwigaeth, amaethgoedwigaeth, newid yn yr hinsawdd, bridio crydau ac ecoleg. Rydym hefyd yn cynnal canolfannau ymchwil mawr eraill a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn genedlaethol fel Canolfan yr Amgylchedd Cymru, Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a'r Ganolfan Ynni Effeithlon Smart.

Mae ein lleoliad yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i astudio yn y disgyblaethau yr ydym yn ymdrin â hwy, yn enwedig yr amgylchedd naturiol, y defnydd o dir a chadwraeth. Mae Parc Cenedlaethol Eryri lai nag 20 munud o'r Brifysgol ac mae'n cynnig 'labordy byw' i lawer o'n haddysgu a'n hymchwil.

Golwg gyffredinol ar feysydd academiaidd

Rydym yn cynnig ystod eang o raglenni gradd gan gynnwys rhaglenni Meistr mewn Amaethgoedwigaeth; Cadwraeth a Rheoli Tir; Coedwigaeth Amgylcheddol. Rydym hefyd yn cynnig rhaglenni dysgu o bell ôl-raddedig hyfforddedig mewn coedwigaeth a diogelu'r cyflenwad bwyd. Cynigir graddau ymchwil mewn ystod eang o bynciau amgylcheddol.

Mae llawer o'n rhaglenni wedi eu hachredu gan gyrff proffesiynol, yn gynnwys ein rhaglenni coedwigaeth sydd wedi eu hachredu gan Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF) a'n rhaglenni amgylcheddol sydd wedi eu hachredu gan Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd. Mae'r cwrs Rheolaeth Amgylcheddol hefyd wedi'i achredu gan yr Institute of Environmental Management and Assessment (IEMA) ac mae rhai modiwlau unigol hyd yn oed yn rhoi aelodaeth gyswllt o'r Sefydliad.

Mae'r mathau o ymchwil a wneir yn amrywio'n fawr ar draws sbectrwm yr amgylchedd a defnydd tir. Gwneir llawer o'n hymchwil dramor ac mae gennym brojectau mewn gwledydd mor bell oddi wrth ei gilydd â Fietnam, Ethiopia a Pheriw.

Mae rhai enghreifftiau o'n projectau cyfredol yn cynnwys:

- Ecosystemau Antartig – rhannu adnoddau rhwng planhigion a microbau
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dod o briddoedd mawnaidd tir isel
- Cynnal ac adfer amrywiaeth fioddiwylliannol safleoedd cysegredig brodorol yn Ne Ethiopia.
- Gwarchod a rheoli adnoddau naturiol, yn wyneb heriau hinsawdd sy'n newid yn Bangladesh.

Gofynion yng nghyswllt yr iaith Saesneg

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg.

Y gofynion Saesneg isafswm ar gyfer myfyrwyr llawn-amser ar y campws yw:

- IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol yn is na 5.5) neu gyfwerth.

Ar gyfer cyrsiau PhD/MPhil:

- IELTS 6.5 (heb unrhyw sgôr unigol yn is na 6.0)

Ar gyfer MSc Dysgu o Bell:

- IELTS 6.5 (heb unrhyw sgôr unigol yn is na 6.0)

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc

- Conservation and Land Management
- Environmental and Business Management
- Environmental Forestry
- Forestry and Environmental Management
- Agroforestry and Food Security

MScRes

- Environmental Science

MSc by Distance-Learning

- Forestry
- Tropical Forestry
- Agroforestry and Food Security

MBA

- Environmental Management

PhD/MPhil

- Agriculture and Crop & Soil Science
- Agroforestry
- Conservation
- Soil & Environmental Science
- Ecology
- Forestry
- Renewable Materials
- Geography
- Biocomposites

* see website for details

gweler y manylion yn y prosepctws Cymraeg / see the Welsh-medium prospectus for details.

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 382281

E-bost: sns@bangor.ac.uk

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser;
Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd dda mewn maes pwnc perthnasol i gael mynediad i'r cwrs hwn. Anogir ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn, sydd â phrofiad perthnasol mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, cadwraeth neu ddefnydd tir. Croesewir ceisiadau gan bobl â chefnidiroedd eraill a chânt eu hystyried ar sail unigol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn wedi'i fwriadu ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb cryf yn yr amgylchedd, ac sydd am gynyddu eu gwybodaeth am faterion cadwraeth. Mae'r cwrs yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â defnydd cynaliadwy o gefn gwlad. Mae'n archwilio cynefinoedd, bywyd gwylt a thirweddau, a'r ffactorau naturiol a dynol sy'n dylanwadu arnynt. Ar ben hynny, mae'r cwrs yn archwilio'r modd y gellir rheoli gweithgareddau economaidd, megis ffermio a choedwigaeth, mewn modd sy'n dderbyniol o safbwynt yr amgylchedd, a'r modd y gellir cynnwys mwynhad pobl o gefn gwlad o fewn dull integredig o reoli tir.

Mae'r rhan hyfforddedig o'r cwrs yn rhoi cyfle i archwilio ystod eang o bynciau yn fanwl a datblygu sgiliau ac arbenigedd personol.

Defnyddir ystod o ddulliau asesu gan gynnwys adroddiadau, cyflwyniadau, ysgrifennu ymarferol ac arholiadau ar-lein ac ysgrifenedig. Neilltuir y cyfnod o fis Mehefin i fis Medi ar gyfer cynhyrchu traethawd hir ar bwnc ymchwil a ddewiswyd gennych mewn ymgynghoriad â'ch goruchwyliwr academaidd.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

• Conservation Science

Mae'r modiwl hwn yn adolygu'r cysyniadau allweddol, sy'n sail i gadwraeth a rheolaeth poblogaethau, cynefinoedd a gwarchodfeydd natur rhywogaethau sengl.

• Botanical Ecology and Ecosystem Services

Mae'r modiwl hwn yn archwilio statws cadwraeth cyfredol peillwyr pryfed a'u grwpiau planhigion cyfatebol.

• Agriculture and the Environment

Mae'r modiwl hwn yn adolygu effaith systemau ac arferion amaethyddol ar yr amgylchedd a'r egwyddorion gwyddonol dan sylw.

• Management Planning

Mae'r modiwl hwn yn eich galluogi i ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd mewn modiwlau eraill i ysgrifennu cynllun rheoli 'cynnwys isafswm' System Rheoli Cadwraeth (CMS) ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

• Natural Resource Management

Mae'r modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth ddamcaniaethol i fyfyrwyr o'r dull systemau o reoli adnoddau naturiol i ddarparu gwasanaethau ecosystemau amrywiol, yn ogystal â gwybodaeth ymarferol o'r ffyrdd y gall rheolwyr adnoddau naturiol dynnu ar amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth iddynt hwythau ac eraill gael gwybod am effeithiau ymyriadau rheoli tir.

• Research Planning and Communication

Bydd y modiwl hwn yn datblygu eich dealltwriaeth o rôl gwyddoniaeth a'r broses wyddonol wrth lunio a mynd i'r afael â chwestiynau sy'n berthnasol i'r cyd-destun, a rhoi gwybod am y cynnyrch gwyddonol i

wahanol gynulleidfaoedd. Yn ystod y modiwl, bydd myfyrwyr yn dyfeisio, yn cynnal ac yn ysgrifennu astudiaeth wyddonol sy'n berthnasol i bolisi.

• Field Visit

Prif bwrpas y daith fydd gwerthfawrogi'r ystod o weithgarwch y mae gwahanol sefydliadau cadwraeth yn ymgymryd â nhw, er mwyn deall eu gwahanol amcanion a chyfyngiadau rheoli. Mae teithiau maes blaenorol wedi ymweld â ffermydd, coedwigoedd a gwarchodfeydd a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt yr Alban, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol ac unigolion preifat.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan y cwrs MSc hwn gysylltiadau ymchwil cryf â llawer o sefydliadau cadwraeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol e.e. Adnoddau Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Gymdeithas Frenhinol Amddiffyn Adar (RSPB), Coed Cymru, ffermwyr lleol a diwydiannau bwyd.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae graddedigion wedi cael gwaith gydag asiantaethau cadwraeth, cyrff anllwyodraethol a sefydliadau'r llywodraeth a gyda sefydliadau academaidd yn yr UE a thramor. Mae'r cwrs MSc hwn hefyd wedi cynhyrchu gwyddonwyr o safon uchel ym meysydd newid yn yr hinsawdd, amaethyddiaeth gynaliadwy, ynni adnewyddadwy a chlefydau anifeiliaid ac iechyd pobl.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>



HYD Y CWRS

Blwyddyn (Tystysgrif ôl-radd); 2 flynedd (Diploma ôl-radd); 3 blynedd yn rhan-amser neu 5 mlynedd yn rhan-amser (MSc).

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd dda mewn maes pwnc perthnasol i gael mynediad i'r cwrs hwn. Byddai gradd is ynghyd ag o leiaf dwy flynedd o brofiad gwaith perthnasol yn cael ei hystyried, ynghyd â myfyrwyr hŷn heb radd ond gydag o leiaf dwy flynedd o brofiad gwaith perthnasol mewn swydd o gyfrifoldeb amlwg.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE a myfyrwyr tramor, nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sefyll y prawf Saesneg safonol (IELTS). Mae myfyrwyr sy'n cael sgôr o 6.5 neu uwch (dim sgôr unigol o dan 6.0) yn gymwys i gael mynediad uniongyrchol i'r cwrs.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl o egwyddorion a phrosesau amaethgoedwigaeth fel rhan o system cynhyrchu bwyd cynaliadwy, gan gynnwys ei gyd-destunau cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd yn paratoi myfyrwyr i roi'r ymchwil ddiweddaraf ar waith i feddwl am systemau cynhyrchu cynaliadwy, a bydd yn hwyluso mynediad i yrfaoedd sy'n gysylltiedig ag amaethgoedwigaeth.

Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r cwrs yn:

- Archwilio agwedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol amaethgoedwigaeth yng nghydestun diogelu'r cyflenwad bwyd a'r amgylchedd sy'n newid.
- Astudio sut y gall arferion rheoli amaethgoedwigaeth dethol wella

effeithlonrwydd adnoddau a chynaliadwydd cyffredinol cynhyrchu bwyd.

- Magu persbectif byd-eang i gwestiynu a ellir, a sut y gellir, diwallu'r galw cynyddol am fwyd o adnoddau tir cyfyngedig trwy amaethgoedwigaeth a dwysáu cynaliadwy.

Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i astudio rhwng 3 a 6 modiwl y flwyddyn, yn dibynnu ar eu statws fel myfyrwyr rhan-amser neu lawn-amser. Ar gyfer y radd Meistr, bydd myfyrwyr yn cwblhau cyfanswm o 6 modiwl a phroject traethawd hir. Mae rhai modiwlau'n orfodol, ac mae eraill yn ddewisol (yn dibynnu ar y galw). Cynghorir darpar ymgeiswyr i drafod eu hopsiynau gyda chyfarwyddwr y rhaglen.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

- **Natural Resource Management**
Mae'n rhoi dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r dull systemau o reoli adnoddau naturiol.
- **Agroforestry Systems and Practice**
Mae'n cyflwyno'r cysyniadau y tu ôl i'r system defnydd tir hon, a'r ffyrdd y mae'n cael ei defnyddio ar draws y byd.
- **Global Food Security**
Mae'r modiwl hwn yn cymryd persbectif byd-eang ar systemau bwyd a'u rhan wrth ddiogelu'r cyflenwad bwyd.
- **Study Tour**
Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr weld sut y rhoddir egwyddorion rheoli adnoddau naturiol ar waith yn ymarferol, sy'n cael eu trafod mewn rhannau cynharach o'r rhaglen.

• Soil & Water Management

Wedi'i gynllunio i ddysgu hanfodion rheoli pridd i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb mewn rheoli adnoddau tir yn gynaliadwy ac yn effeithlon.

• Urban Forestry

Mae'r modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion coedwigaeth drefol ledled y byd. Mae'n rhoi golwg gyffredinol hanesyddol o'r berthynas rhwng coed a dinasoedd, a'i bwysigrwydd fel maes astudio sy'n dod i'r amlwg. Mae'n ymdrin ymhellach â chysylltiad gwahanol ddisgyblaethau â choedwigaeth drefol, ac yn edrych ar senarios yn y dyfodol o ôl-ffitio'r hen yn ogystal â dylunio dinasoedd y dyfodol.

• Carbon Footprinting and Life Cycle Assessment

Mae'n rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a'r gallu i asesu ôl troed carbon (CF) a chylch bywyd (LCA) ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â rheoli adnoddau tir yn gynaliadwy ac yn effeithlon.

• Forest Management Planning

Mae'n galluogi myfyrwyr i gynhyrchu cynllun rheoli coedwigoedd sydd (a) yn diwallu safonau proffesiynol a (b) yn galluogi cyflawni amcanion datganedig y perchennog ar gyfer ardal goedwig benodol.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae'r cwrs MSc hwn hefyd yn ffordd dda o symud ymlaen mewn ymchwil ôl-radd, ac mae wedi cynhyrchu gwyddonwyr ymchwil o safon uchel ym meysydd bioleg coed, gwyddor amaethgoedwigaeth, diogelu'r cyflenwad bwyd a rheoli adnoddau naturiol.

Environmental Forestry MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser; Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser

Y GOFYNION MYNEDIAD

Gradd anrhydedd dda mewn maes pwnc perthnasol. Fel arall, gellir derbyn gradd gyntaf mewn pwnc anghysylltiedig ynghyd â phrofiad ymarferol perthnasol. Caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir eu hoedran, profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn datblygu'ch dealltwriaeth o ecosystemau coedwigoedd a'u rôl yn yr amgylchedd byd-eang, ac o'r nwyddau a'r gwasanaethau y gall coedwigoedd eu darparu. Gall y cwrs fod â ffocws tymherus neu drofannol, yn dibynnu ar yr elfennau dewisol a ddewisir.

Mae'r rhan hyfforddedig o'r cwrs yn rhoi cyfle i archwilio ystod eang o bynciau yn fanwl a datblygu sgiliau ac arbenigedd personol. Defnyddir ystod o ddulliau asesu gan gynnwys adroddiadau, cyflwyniadau, ysgrifennu ymarferol ac arholiadau ar-lein ac ysgrifenedig.

Neilltuir y cyfnod o fis Mehefin i fis Medi ar gyfer cynhyrchu traethawd hir a bwnc ymchwil a ddewiswyd gennych mewn ymgynghoriad â'ch goruchwyliwr academaidd. Gall traethodau hir fod â ffocws tymherus neu drofannol, a gallant gynnwys gwaith maes naill ai'n lleol, mewn mannau eraill yn y DU, neu dramor.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

- **Forest Resources & Assessment**
Mae'r modiwl hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar statws coedwigoedd y byd, tueddiadau ac achosion datgoedwigo a diraddio, canlyniadau i wasanaethau ecosystemau, ac ymatebion polisiâu.

• Silviculture

Mae'r modiwl hwn yn datblygu'ch dealltwriaeth o goedwriaeth coed unigol a choed mewn systemau cymhleth. Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar ryngweithio systemau rheoli coed â'r amgylchedd ffisegol (priddoedd, hinsawdd ac ati), gyda bodau dynol ac â'r ystod o gynhyrchion sy'n deillio o'r systemau hyn.

• Forest Inventory, Assessment and Monitoring

Mae'n ystyried ffyrdd y gellir asesu, mesur a chofnodi adnoddau coedwigoedd er mwyn monitro eu twf a'u datblygiad.

• Natural Resource Management

Mae'r modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth ddamcaniaethol i chi o'r dull systemau o reoli adnoddau naturiol, yn ogystal â sylfaen ymarferol yn y ffyrdd y gall rheolwyr adnoddau naturiol ddefnyddio gwahanol fathau o ffynonellau gwybodaeth.

• Forest Management Planning

Mae'r modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth o'r broses cynllunio rheolaeth, a'i defnydd wrth reoli adnoddau gwledig yn gynaliadwy. Rydych chi'n datblygu cynlluniau rheoli ar gyfer sefyllfaoedd coedwigaeth y byd go iawn, sy'n cynnwys gosod amcanion rheoli, ystyried nodweddion tirwedd, dyfeisio technegau monitro a gwerthuso priodol a meintioli costau gweithrediadau rheoli.

• Study Tour

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i chi weld sut mae egwyddorion rheoli coedwigoedd sy'n cael eu trafod mewn rhannau cynharach o'ch cwrs yn cael eu rhoi ar waith.

• Urban Forestry

Mae'r modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion coedwigaeth drefol ar draws y byd. Mae'n rhoi golwg gyffredinol

hanesyddol o'r berthynas rhwng coed a dinasoedd, a'i bwysigrwydd fel maes astudio sy'n dod i'r amlwg. Mae'n ymdrin ymhellach â chysylltiad gwahanol ddisgyblaethau â choedwigaeth drefol, ac yn edrych ar senarios yn y dyfodol o ôl-ffitio'r hen yn ogystal â dylunio dinasoedd y dyfodol.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/ CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae Bangor wedi cael ei chydabod yn rhyngwladol fel canolfan ar gyfer ymchwil Coedwigaeth ers blyneddau lawer, ac mae gan y Brifysgol gysylltiadau parhaus a chynhyrchiol ag ystod amrywiol o sefydliadau yn Affrica, Asia, Ewrop ac America. Mae'r radd hon wedi'i hachredu gan Sefydliad Coedwigwyr Siartredig y DU (ICF) ac mae'n gwneud myfyrwyr yn gymwys am aelodaeth gyswllt.

RHAGOLYCON GYRFA

Yn erbyn cefndir economaidd tywyll weithiau, mae rheoli adnoddau naturiol, a rheoli coedwigoedd yn benodol, yn dod yn fwyfwy pwysig, a chanlyniad hyn yw bod prinder sgiliau a gydnabyddir yn gyffredinol yn y proffesiwn coedwigaeth. Mae pa mor gyflym y mae ein graddedigion yn cael gwaith yn adlewyrchu hyn. Mae graddedigion o'r cwrs hwn wedi symud ymlaen i gyflogaeth berthnasol mewn sefydliadau sector cyhoeddus, cyrff anlywodraethol a sefydliadau academaidd yn yr UE a thramor. Mae'r cwrs MSc hwn hefyd yn ffordd dda o symud ymlaen mewn ymchwil ôl-radd, ac mae wedi cynhyrchu gwyddonwyr ymchwil o safon uchel ym meysydd bioleg coed, gwyddor coedwigoedd, a rheoli adnoddau naturiol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

Forestry MSc (Distance-Learning)

HYD Y CWRS

MSc: 3 blynedd yn rhan-amser; Diploma ôl-radd: 2 flynedd yn rhan-amser; Tystysgrif ôl-radd: Blwyddyn yn rhan-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd dda mewn maes pwnc perthnasol i gael mynediad. Bydd ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn nad oes ganddynt gymwysterau addysg uwch, ond sydd â phrofiad gwaith perthnasol, yn cael eu hystyried.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i roi hyfforddiant i chi mewn rheoli adnoddau coedwigoedd, dealltwriaeth o'r egwyddorion gwyddonol, academaidd ac ymarferol sy'n sail i reoli coedwigoedd, a swyddogaeth ecosystemau coedwigoedd a'r gydberthynas rhwng coedwigoedd y llywodraeth, diwydiant a chymunedau a'r defnydd tir cysylltiedig.

Gall myfyrwyr ddewis arbenigo mewn un o ddwy 'elfen' gradd benodol. Mae'r elfen Ecoleg a Rheolaeth wedi'i chynllunio ar gyfer y rhai sydd â mwy o ddiddordeb mewn ecoleg a gwyddoniaeth (gan gynnwys mathemateg) tra bod yr elfen Coed, Coedwigoedd a Phobl yn apelio at yr ymgeiswyr hynny sy'n awyddus i ddysgu mwy am y gydberthynas rhwng coedwigoedd a chymdeithas.

Modiwlau (gwelwch y wefan i weld pa fodiwlau y byddwch chi'n eu hastudio o dan ba elfen):

• Silviculture

Mae'r modiwl yn ystyried egwyddorion amaethgoedwigaeth, gan gynnwys dewis rhywogaethau yn ôl amodau'r safle, adfywio coetiroedd ac ymyriadau yn artiffisial a naturiol.

• Forestry Study Tour

Taith astudio wythnos o hyd o amgylch safleoedd maes yng Nghymru a/neu Lloegr fel rheol.

• Natural Resource Management

Mae'n rhoi dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r dull systemau o reoli adnoddau naturiol.

• Forest Management Planning

Mae'n rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o'r broses cynllunio rheoli coedwigoedd, a'i defnydd wrth reoli adnoddau gwledig yn gynaliadwy.

• Forest Inventory, Assessment and Monitoring

Mae'n ystyried ffyrdd y gellir asesu, mesur a chofnodi adnoddau coedwigoedd er mwyn monitro eu twf a'u datblygiad.

• Forest Ecosystems

EMae'n archwilio mynychder ac ecoleg gwahanol fathau o goedwigoedd. Rhoddir pwyslais ar fiota a phriddoedd coedwigoedd, a chylchu maetholia a hydroleg.

• Social Issues in Forest Management

Sut mae ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd yn dylanwadu ar siâp a chwmpas systemau rheoli coedwigoedd, a sut mae'r rhain yn effeithio ar fywoliaeth a lles pobl ar draws y byd.

• Sustainable Use of Non-Timber Forest Products

Sut y gellir rheoli coedwigoedd mewn ffyrdd sy'n cydnabod gwerth a photensial datblygu menter cynhyrchion coedwig nad ydynt yn bren (NTFP).

• Forest History, Policy and Management

Mae'n archwilio sut mae anghenion a gwerthoedd cymdeithas mewn perthynas â choetiroedd a choedwigoedd yn newid dros amser, a sut mae'r newidiadau hyn yn dylanwadu ar eu strwythur, eu rheolaeth a'u cyfansoddiad.

• Agroforestry Systems and Practice

Bydd yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o'r rhyngwyneb rhwng coedwigaeth ac amaethyddiaeth.

• Urban Forestry

Mae'r modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion coedwigaeth drefol ar draws y byd. Mae'n rhoi golwg gyffredinol hanesyddol o'r berthynas rhwng coed a dinasoedd, a'i bwysigrwydd fel maes astudio sy'n dod i'r amlwg. Mae'n ymdrin ymhellach â chysylltiad gwahanol ddisgyblaethau â choedwigaeth drefol, ac yn edrych ar senarios yn y dyfodol o ôl-ffitio'r hen yn ogystal â dylunio dinasoedd y dyfodol.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/ CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae cysylltiad agos rhwng y cwrs hwn a phob agwedd ar y diwydiant coedwigoedd, yn y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt. Anogir myfyrwyr i chwilio am gyfleoedd a gwneud eu cysylltiadau eu hunain sy'n ymwneud â'u maes diddordeb ac arbenigedd eu hunain, a chânt eu cefnogi yn y broses hon. Mae myfyrwyr ar y cwrs yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch y newyddion diweddaraf, swyddi, lleoliadau a chyfleoedd eraill yn y sector coedwigaeth.

RHAGOLYGON GYRFA

Mae myfyrwyr cyfredol a rhai sydd wedi graddio'n ddiweddar wedi cael swyddi fel rheolwyr coedwigoedd masnachol, syrfewyr coedwigoedd, ymgynghorwyr ecolegol, cynghorwyr cyllid coedwigaeth ac wedi cychwyn busnesau. Mae rhagolygon gyrfa hefyd yn cynnwys dyrchafiad i'r rheini sydd eisoes yn y proffesiwn coedwigaeth neu broffesiynau cysylltiedig.

Mae'r cwrs yn agor nifer o gyfleoedd ar gyfer astudio, teithio, ysgolheictod ac ymchwil, ac anogir myfyrwyr i fanteisio ar y rhain.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

Forestry and Environmental Management MSc (TRANSFOR-M)

HYD Y CWRS

2 flynedd.

Y Gofynion Mynediad

Mae myfyrwyr yn gwneud cais i un o brifysgolion y consortiwm a rhaid iddynt gael eu dewis gan y brifysgol honno a'r brifysgol bartner. Rhaid i drigolion y Deyrnas Gyfunol ddewis Bangor fel eu brifysgol gartref. Yn ystod y broses ddewis, caiff myfyrwyr sydd â hanes academaidd cryf eu ffafrio, ynghyd â phrofiad a chymwysterau sy'n dangos diddordeb o ddifrif mewn gwaith rhyngwladol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae TRANSFOR-M (Meistr mewn Coedwigaeth Trawsatlantig) yn rhaglen Meistr hyfforddedig dwy flynedd o hyd. Mae'n arwain at radd Ewropeaidd a gradd yng Nghanada (h.y. gradd ddeuol) mewn coedwigaeth a rheolaeth amgylcheddol. Cynigir y rhaglen gan gonsortiwm o chwe phrifysgol, tair yng Nghanada a thair yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae myfyrwyr yn cael golwg fyd-eang ar goedwigaeth gynaliadwy fodern a rheolaeth amgylcheddol, a safbwyntiau amlddiwylliannol ar faterion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae myfyrwyr TRANSFOR-M o Fangor fel rheol yn treulio'u blwyddyn gyntaf mewn prifysgol yng Nghanada a'u hail flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor, lle

maen nhw'n cwblhau traethawd hir sy'n cael ei oruchwylio ar y cyd gan y ddau sefydliad. Maen nhw'n talu ffioedd dysgu Prifysgol Bangor yn y ddwy flynedd.

Y partneriaid yn y consortiwm TRANSFOR-M yw:

- Prifysgol Albert-Ludwigs, Freiburg, yr Almaen
- Prifysgol Bangor, Cymru
- Prifysgol Dwyrain y Ffindir, y Ffindir
- Prifysgol New Brunswick, Canada
- Prifysgol Alberta, Canada
- Prifysgol British Columbia, Canada

Y graddau Prifysgol Bangor sydd ar gael dan TRANSFOR-M yw:

- MSc Agroforestry
- MSc Conservation and Land Management
- MSc Environmental Forestry

Y graddau o Canada ar gael dan TRANSFOR-M yw:

- Master of Environmental Management (University of New Brunswick)
- MSc Forestry (University of New Brunswick)
- MSc Forest Engineering (University of New Brunswick)
- MSc (University of Alberta)
- Master of Forestry, MF (University of Alberta)
- Master of Forestry, MF (University of British Columbia)

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/ CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae Bangor wedi cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel canolfan ar gyfer ymchwil Coedwigaeth ers blynnyddoedd lawer, ac mae gan y Brifysgol gysylltiadau parhaus a chynhyrchiol ag ystod amrywiol o sefydliadau yn Affrica, Asia, Ewrop ac America.

RHAGOLYGON GYRFA

Mae sawl un sydd wedi graddio'n ddiweddar o'r rhaglen TRANSFOR-M wedi mynd ymlaen i astudio am radd ymchwil, tra bod eraill wedi ymgymryd â swyddi proffesiynol mewn coedwigaeth a chadwraeth, yn aml yn y wlad bartner (h.y. mae graddedigion yr UE bellach yn gweithio yng Nghanada, ac mae graddedigion o Ganada yn gweithio mewn gwahanol wledydd yr UE).

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

Tropical Forestry MSc (dysgu o bell)

HYD Y CWRS

MSc: 3 blynedd yn rhan-amser; Diploma ôl-radd: 2 flynedd yn rhan-amser; Tystysgrif ôl-radd: Blwyddyn yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd dda mewn pwnc perthnasol i gael mynediad. Bydd ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn heb gymwysterau addysg uwch, ond sydd â phrofiad gwaith perthnasol, yn cael eu hystyried ar sail unigol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i roi hyfforddiant i fyfyrwyr ym maes coedwigaeth drofannol, dealltwriaeth o'r egwyddorion gwyddonol, academaidd ac ymarferol sy'n sail i gadwraeth, diogelu a rheoli coedwigoedd, a swyddogaeth ecosystemau coedwigoedd a'r gydberthynas rhwng coedwigoedd y llywodraeth, diwydiant a chymunedau a'r defnydd tir cysylltiedig. Mae'r ystod eang o gefndiroedd, arbenigedd, diddordebau a sgiliau ymhlith y staff a'r myfyrwyr ar y rhaglen yn creu profiad dysgu hynod gyfoethog.

Modiwlau Gorfodol:

• Silviculture

Mae'r modiwl hwn yn ystyried egwyddorion coedwriaeth, gan gynnwys dewis rhywogaethau yn ôl amodau'r safle, ymyriadau ac adfywio coetiroedd yn artiffisial a naturiol. Mae'r modiwl hefyd yn cynnwys rheoli clystyrau coedwigoedd cymysg a choedwriaeth coedwigoedd sy'n trawsnewid (trawsfurfio, trosi).

• Social Issues in Forest Management

Mae'r modiwl hwn yn ystyried y ffyrdd y mae ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd yn dylanwadu ar siâp a chwmpas systemau rheoli coedwigoedd,

a sut mae'r rhain yn effeithio ar fywoliaeth a lles pobl ar draws y byd.

• Sustainable Use of Non-Timber Forest Products

Mae'r modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o'r ffyrdd y gellir rheoli coedwigoedd i gydnabod gwerth a photensial datblygu menter cynhyrchion coedwigoedd nad ydynt yn bren (NTFP).

• Agroforestry Systems and Practice

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth fanwl i fyfyrwyr o'r rhyngwyneb hynod ddiddorol rhwng coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Mae cyd-destun byd-eang i'r modiwl, ac mae'n ystyried egwyddorion ac arfer gwyddonol amaethgoedwigaeth mewn rhanbarthau tymherus a throfannol.

• Forest Inventory, Assessment and Monitoring

Mae'r modiwl yn edrych ar ffyrdd y gellir asesu a chofnodi adnoddau coedwigoedd er mwyn monitro eu twf a'u datblygiad. Bydd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o feysydd arbenigol mesur, cofnodi coedwigoedd a monitro adnoddau coedwigoedd.

• Tropical Forestry Study Tour

Mae hon yn daith astudio breswyl pythefnos o hyd, i wlad sydd ag adnoddau coedwig drofannol nodedig. Byddwch yn cwrdd ac yn trafod gyda gwyddonwyr ymchwil, rhai sy'n gweithio fel coedwigwyr a rheolwyr tir mewn sefydliadau cadwraeth, sefydliadau ymchwil ac asiantaethau cyhoeddus.

• Urban Forestry

Mae'r modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion coedwigaeth drefol ar draws y byd. Mae'n rhoi golwg gyffredinol hanesyddol o'r berthynas rhwng coed a dinasoedd, a'i bwysigrwydd fel maes astudio

sy'n dod i'r amlwg. Mae'n ymdrin ymhellach â chysylltiad gwahanol ddisgyblaethau â choedwigaeth drefol, ac yn edrych ar senarios yn y dyfodol o ôl-ffitio'r hen yn ogystal â dylunio dinasoedd y dyfodol.

LEOLIADAU GWAITH/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANTY

Mae cysylltiad agos rhwng y cwrs hwn a phob agwedd ar y diwydiant coedwigoedd, yn y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt. Anogir myfyrwyr i chwilio am gyfleoedd a gwneud eu cysylltiadau eu hunain sy'n ymwneud â'u maes diddordeb ac arbenigedd eu hunain, a chânt eu cefnogi yn y broses hon. Mae myfyrwyr ar y cwrs yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch y newyddion diweddaraf, swyddi, lleoliadau a chyfleoedd eraill yn y sector coedwigaeth.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD

Mae natur ran-amser y cwrs hwn yn galluogi myfyrwyr i adeiladu eu gyrfa ochr yn ochr ag ymrwymadau gwaith neu bersonol eraill. Mae cyfleoedd cyflogaeth rhagorol ym maes eang coedwigaeth drofannol, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol, sefydliadau rhyngwladol ac ymgynghoriaethau. Mae llawer o'r rhai sydd wedi graddio'n ddiweddar ar gyrsiau cysylltiedig wedi mynd ymlaen i wneud ymchwil PhD.

Mae'r cwrs yn agor nifer o gyfleoedd ar gyfer astudio, teithio, ysgolheictod ac ymchwil, ac anogir myfyrwyr i fanteisio ar y rhain.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler: <https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

Environmental and Business Management MSc

Achredwyd gan yr IEMA ar gyfer aelodaeth

HYD Y CWRS

Blwyddyn llawn-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad mae angen gradd anrhydedd dda mewn maes pwnc perthnasol, neu gymhwyster tebyg gan unrhyw sefydliad arall fel rheol. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs hwn wedi'i fwriadu ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb brwd mewn integreiddio rheolaeth amgylcheddol ac arferion busnes.

Bydd y cwrs hwn yn cymryd golwg integredig ar reolaeth amgylcheddol o fewn cyd-destun busnes. Bydd yn darparu'r hyfforddiant rhyngddisgyblaethol arbenigol sy'n ofynnol i integreiddio amcanion datblygu cynaliadwy yn llawn i reoli busnesau. Mae gradd MScRes blwyddyn, sy'n wahanol i'r rhaglenni Meistr hyfforddiedig trwy roi mwy o bwyslais ar y project ymchwil. Mae hwn hefyd ar gael yn y Gwyddorau Biolegol.

• Organisations and People

Mae'n rhoi dadansoddiad integredig o reolaeth, sefydliadau a phobl, gan ddatblygu'r sgiliau cysniadol, strategol ac ymarferol sy'n angenrheidiol i reolwyr mewn cyd-destun sefydliadol, byd-eang a chymhleth.

• Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno iaith rheolaeth strategol ac yn ymdrin â'r cysylltiad rhwng rheolaeth strategol a rheolaeth weithredol.

• Finance for Managers

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i'r rhai sydd am gael dealltwriaeth sylfaenol o reolaeth ariannol, ac sydd angen deall cyllid er mwyn rheoli sefydliad yn effeithiol.

• Business Management for the Green Economy

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r broses o sefydlu menter, o gynhyrchu syniadau i gwblhau cynllun busnes, sy'n ymgorffori cynllunio a rheoli amgylcheddol.

• Research Planning and Communication

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno'r elfen allweddol sydd ei hangen i gwblhau project yn llwyddiannus, ac yn archwilio gwahanol ffyrdd o gyfleu canlyniadau i ystod o randdeiliaid allweddol.

• Strategic Environmental Management

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth o egwyddorion datblygu cynaliadwy, deddfwriaeth amgylcheddol, archwilio ac asesu amgylcheddol, a datblygiadau technolegol gwyrdd. Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth o egwyddorion datblygu cynaliadwy, deddfwriaeth amgylcheddol, archwilio ac asesu amgylcheddol, a datblygiadau technolegol gwyrdd.

• Green Technology

Mae'r modiwl hwn yn adolygu canlyniadau amgylcheddol gweithgarwch economaidd, gan gynnwys cynhyrchu ynni, rheoli gwastraff, cyflenwi bwyd a dŵr, nwyddau defnyddwyr.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD

Mae graddedigion wedi cael gwaith mewn sefydliadau sector preifat a chyhoeddus, cyrff anlywodraethol a sefydliadau academaidd yn yr UE a thramor, yn ogystal â dod yn ymgynghorwyr hunangyflogedig ym maes Rheoli'r Amgylchedd a Busnes.

I gael rhagor o fanylion am y cwrs, gwelwch: <https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

HYD Y CWRS

MBA: Blwyddyn yn llawn-amser, 2.5 mlynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Er mwyn cael mynediad mae angen gradd anrhydedd dda mewn maes pwnc perthnasol, neu gymhwyster tebyg gan unrhyw sefydliad arall. Fel arall, gellir eich derbyn os ydych yn meddu ar gymhwyster proffesiynol addas a phrofiad ymarferol perthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff ymgeiswyr eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol, ac ystyrir profiad gwaith a ffactorau eraill hefyd. Tra bo profiad gwaith yn fanteisiol, nid yw'n hanfodol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae rôl y rheolwr amgylcheddol corfforaethol yn dod yn fwyfwy cymhleth a strategol. Mae cyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol corfforaethol yn dod yn amlwg yn y galw gan ddefnyddwyr ac yn un o'r rhagofynion i fod yn gymwys i dendro. Mae hyn yn gofyn am reolwr amgylcheddol mwy soffistigedig sy'n gallu dehongli gofynion deddfwriaethol ac archwilio, a'u cyflawni mewn modd sy'n ffafriol i ddatblygiad economaidd parhaus, gan gydnabod tueddiadau'r farchnad ar yr un pryd.

Amcan y cwrs hwn yw datblygu sgiliau cyflawni gweithgareddau economaidd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, technoleg werdd a chynaliadwydd. Mae'r cwrs yn cynnwys astudiaethau achos o bob rhan o'r sectorau hyn gan adlewyrchu strategaethau newidiol a dulliau amgen. Mae'r cwrs yn addas ar gyfer graddedigion mewn ystod eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys yr Amgylchedd, Peirianeg, Cyllid, Gwyddorau Cymdeithas a phynciau eraill.

PhD/MPhil/MScRes Courses

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser neu 6 mlynedd yn rhan-amser; MPhil 2 flynedd yn llawn-amser neu 4 blynedd yn rhan-amser; MScRes: Blwyddyn yn llawn-amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd dda mewn maes pwnc perthnasol i gael mynediad. Am ofynion iaith Saesneg, gweler tudalen 114.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Agriculture (PhD/MPhil) and Crop & Soil Science (PhD/MPhil)

Ymchwil i systemau ac arferion amaethyddol yn amrywio o wyddor cynhyrchu planhigion ac anifeiliaid, i wneud penderfyniadau a pholisïau gwledig; gyda ffocws ar gnydau amgen, bwyd a maeth, iechyd ffermwyr, gwybodaeth leol a datblygu gwledig.

Agroforestry (PhD/MPhil)

Ymchwil i ryngweithio pobl, amaethyddiaeth a choed ar ystod o raddfeydd, o ryngweithio ecoffisiolegol ymhlith elfennau systemau, hyd at effeithiau lefel tirwedd, ar draws amgylcheddau tymherus a throfannol, gyda ffocws ar rywogaethau coed amlbwrrpas a choed fferm.

Conservation (PhD/MPhil)

Astudir cadwraeth o'r graddfeydd genetig i fyd-eang, gyda phwyslais cryf ar gadwraeth rhywogaethau sydd mewn perygl, cadwraeth ar sail tystiolaeth, effeithiau cymdeithasol ac economaidd cadwraeth, gwasanaethau ecosystemau a pholisi cadwraeth.

Modiwlau Gorfodol:

• Organisations and People

Mae'r modiwl hwn yn archwilio materion allweddol sy'n codi o ymchwil gyfoes mewn ymddygiad sefydliadol (OB) a rheoli adnoddau dynol (HRM).

• Strategic Management

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r broses o wneud penderfyniadau strategol mewn busnes. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o brosesau strategol rheoli busnes, a'r rhyng-gysylltiadau â'r parthau swyddogaethol.

• Management Research

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi'r sail athronyddol ar gyfer ymchwil yn y gwyddorau rheoli, ac yn archwilio nifer o faterion a dulliau methodolegol allweddol.

• Business Planning for the Green Economy

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r broses o sefydlu menter, o gynhyrchu syniadau i gwblhau cynllun busnes, sy'n ymgorffori cynllunio a rheoli amgylcheddol.

• Finance for Managers

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i'r rhai sydd am gael dealltwriaeth sylfaenol o reolaeth ariannol, ac sydd angen deall cyllid er mwyn rheoli sefydliad yn effeithiol.

Soil & Environmental Science (PhD/MPhil) and Environmental Science (PhD/MPhil)

Mae ymchwil amlddisgyblaethol i brosesau sylfaenol wedi'i anelu at greu amgylcheddau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, ar gyron trefi ac mewn trefi; gyda ffocws mawr ar newid yn yr hinsawdd, biocemeg, ecoffisioleg planhigion, rheoli gwastraff ac adfer.

Forestry (PhD/MPhil)

Mae ymchwil yn ymdrin â'r ffactorau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n sail i gynaliadwydd mewn systemau coedwigoedd, gan astudio prosesau sy'n amrywio o ryngweithio ecolegol unigol i'r rhai sy'n gweithredu ar lefel tirwedd.

Renewable Materials (PhD/MPhil) and Wood Science (PhD/MPhil/MScRes)

Mae ymchwil yn canolbwyntio ar wyddoniaeth sylfaenol ffibrau pren a phlanhigion, cyfansoddion wedi'u hatgyfnerthu â ffibr naturiol, a defnyddio deunyddiau sy'n deillio o blanhigion fel porthiant cemegol; rhoddir sylw arbennig i effeithiau amgylcheddol.

Geography (PhD/MPhil)

Mae ymchwil yn canolbwyntio ar amgylcheddau ffisegol a dynol ar ystod o raddfeydd gofodol a thymhorol, yn enwedig geomorffoleg afonydd, cysylltiadau rhwng newid yn yr hinsawdd a gweithgarwch dynol mewn tirweddau afonydd, llygredd mewn dalgylchoedd afonydd a defnyddio technegau geocemegol, daearyddiaeth wledig, gofodau trefol ac economïau cymdeithasol.

Environmental Sciences (MScRes)

Gradd meistri trwy ymchwil blwyddyn o hyd

• Strategic Environmental Management

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth o egwyddorion datblygu cynaliadwy, deddfwriaeth amgylcheddol, archwilio ac asesu amgylcheddol, a datblygiadau technolegol gwyrdd. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus yn awtomatig yn gymwys i fod yn aelod cyswllt o IEMA.

• Green Technology

Mae'r modiwl hwn yn adolygu canlyniadau amgylcheddol gweithgarwch economaidd, gan gynnwys cynhyrchu ynni, rheoli gwastraff, cyflenwi bwyd a dŵr a nwyddau defnyddwyr.

RHAGOLYSGON GYRFA

Mae nifer cynyddol o swyddi mewn Ymgynghoriaeth a Rheolaeth Amgylcheddol ar gael. Mae Rheolwr Amgylcheddol yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad amgylcheddol sefydliadau sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Maent hefyd yn datblygu, gweithredu a monitro strategaethau, polisïau a rhaglenni amgylcheddol sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae yna lawer o swyddi eraill hefyd mewn sefydliadau masnachol a sector cyhoeddus sy'n cynnal asesiadau effaith i nodi, asesu a lleihau risgiau amgylcheddol a chostau ariannol sefydliad, a chydlynu pob agwedd ar reoli llygredd, rheoli gwastraff, ailgylchu, iechyd yr amgylchedd, cadwraeth ac ynni adnewyddadwy. Mae cyfleoedd eraill ar gael mewn addysg a hyfforddiant amgylcheddol ac ymchwil i'r amgylchedd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

mewn unrhyw un o'r meysydd pwnc uchod. Dylai ymgeiswyr nodi darpar oruchwylwyr a chysylltu â nhw i drafod pynciau ymchwil addas.

ASTUDIAETH DRAMOR

Yn ychwanegol at y dull astudio cwbl breswyl, mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn cynnig rhaglenni PhD/MPhil 'rhanedig' ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol gyda rhan o'r astudiaeth yn digwydd yng ngwlad y myfyrwr ei hun, neu drydedd wlad. Mae llawer o'n myfyrwyr Prydeinig ac Ewropeaidd eraill hefyd yn gwneud gwaith maes dramor ar gyfer eu hymchwil.

CYLLID

Efallai y bydd cyllid ar gael o'r ffynonellau canlynol: Cynghorau Ymchwil y DU (hysbysebair ysgoloriaethau, myfyrwyr y DU yn unig); Benthyciadau Ôl-raddedigion (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon); Comisiwn Ysgoloriaethau'r Gymanwlad; Swyddfa Dramor a Chymanwlad (trwy'r Cyngor Prydeinig); Yr Undeb Ewropeaidd; Ysgoloriaethau prifysgol (myfyrwyr y DU yn unig); Elusennau ac Ymddiriedolaethau; Asiantaethau rhyngwladol; Ysgoloriaethau Llywodraeth Dramor.

RHAGOLYSGON GYRFA

Mae ein hymchwilwyr sydd wedi graddio wedi mynd ymlaen i swyddi ymchwil, addysgu neu academiaidd mewn prifysgolion neu sefydliadau ymchwil ar draws y byd. Mae eraill yn gweithio gyda sefydliadau amgylcheddol, amaethyddol neu goedwigaeth, yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/postgraduate-courses/>

Yr Ysgol Gwyddorau Eigion

Mae'r Ysgol Gwyddorau Eigion ym Mangor yn un o'r adrannau gwyddorau môr fwyaf mewn prifysgol yn Ewrop, ac yn sefydliad ymchwil rhyngwladol blaenllaw, sydd mewn lleoliad defnyddol ar lannau'r Fenai yng ngogledd Cymru.

Mae'r Ysgol yn gartref i'r Ganolfan Gwyddorau Môr Cymhwysol (CAMS) sydd â chysylltiadau agos iawn ag asiantaethau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol, cyrff llywodraethol a'r gymuned o ddefnyddwyr. Y mae hefyd yn rhoi cyngor ynghylch polisiau, ac mae wedi cael effaith ddofn ar wyddor gymhwysol silffoedd y môr drwy weithio ar olrhain gronynnau, rheoli olew yn colli, pysgodfeydd a dyframaeth a chadwraeth y môr.

Cyfleusterau

Mae gan yr Ysgol Gwyddorau Eigion gyfleusterau cefnogi rhagorol ar gyfer addysgu ac ymchwil. Mae'r rhain yn amrywio o labordai addysgu mawr, modern, gydag offer ardderchog, i labordai ymchwil â'r dechnoleg ddiweddaraf; o rwydwaith cyfrifiadurol ardal leol ar gyfrifiadur personol, i weithfannau pwerus prosesu rhifau a ddefnyddir wrth fodelu rhifiadol y cefnfor; o systemau graffeg cyhoeddi ffotograffig a bwrdd gwaith, i weithdai trydanol a mecanyddol mewnol sy'n gallu dylunio ac adeiladu offer eigioneg o'r radd flaenaf; o gyflenwad dŵr môr wedi'i hidlo'n uniongyrchol o'r Fenai, i acwaria môr dŵr oer a throffannol. Diolch i Long Ymchwil y 'Prince Madog', llong ymchwil o'r radd flaenaf, gallwn fynd ar fordeithiau pan ddymunwn, ac mae gennym fflyd o gychod bychan ar y lan hefyd.

Mae graddau Meistr hyfforddedig a graddau ymchwil blwyddyn o hyd hefyd yn cael eu cynnig mewn ystod eang o bynciau'r môr.

Golwg gyffredinol ar feysydd academiaidd

Mae'r Ysgol yn sefydliad sy'n weithgar o ran ei hymchwil ar y môr, a chanddi enw da yn rhyngwladol am ansawdd ei hymchwil i foroedd ysgafell ac amgylcheddau môr bas. Glandiroedd y môr, moroedd ysgafell, morydau a'r ardaloedd

arfordirol yw elfennau allweddol y system forol o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd (lefel y môr, gweithrediad yr ecosystem) a rhyngweithiadau anthropogenig. Yn unol â hynny, mae ein gweithgarwch yn cynnwys ymchwil arloesol, strategol a chymhwysol, a throsglwyddo gwybodaeth yn weithredol. Mae diwylliant ymchwil yr Ysgol yn seiliedig ar ddull amlddisgyblaethol, systemau daear, o ymchwilio i systemau a phrosesau môr bas.

Yr Ysgol Gwyddorau Eigion

Gofynion yng nghyswllt yr iaith Saesneg

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Y gofynion Saesneg isafswm yw:

- MSc Bioleg Môr ac MSc Gwarchod Amgylchedd y Môr: IELTS 6.5 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 6.0)
- MSc Geowyddoniaeth Fôr Gymhwysol, MSc Eigioneg Ffisegol ac MSc Ynni Adnewyddadwy'r Môr: IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 5.5)
- PhD/MPhil IELTS 6.5 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 6.0).

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc

- Applied Marine Geoscience
- Marine Biology
- Marine Environmental Protection
- Marine Renewable Energy
- Physical Oceanography

PhD/MPhil/MScRes

- Ocean Sciences – Shelf Sea and Coastal Processes; Biogeochemistry and Palaeoceanography; Marine Ecosystems; Conservation and Resource Management

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: +44 (0) 1248 351151

E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk

<https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/postgraduate-courses/>

Applied Marine Geoscience MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn llawn-amser;
Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, mae gan ymgeiswyr llwyddiannus radd Anrhydedd isradd dda mewn maes pwnc perthnasol, neu maent yn disgwyl cael gradd o'r fath. Anogir ymgeiswyr o feysydd pwnc eraill yn y gwyddorau (BSc), neu sydd â phrofiad o waith cyflogedig perthnasol, i wneud cais, ar yr amod eu bod yn gallu dangos lefelau uchel o gymhelliant a phrofiad yn eu Datganiad Personol a'u CV.

IELTS: Gofynnir am 6.0 (heb gynnwys yr un elfen o dan 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Esbylgodd yr MSc mewn Geowyddoniaeth Fôr Gymhwysol o'i ragflaenydd, y cwrs Geotechneg Fôr a oedd â thraddodiad hir o 30 mlynedd.

Lluniwyd cyfres o fodiwlau i egluro'r prosesau sy'n ffurfio ac yn nodweddu amrywiaeth eang o amgylcheddau gwaddodol, o'r arfordir i'r cefnfor dwfn. Mae'r rheolaethau hynny'n amrywio o'r rhai deinamig, cemegol, hinsoddol i ddaearegol; mae cysylltiad rhwng pob un ohonynt. Rydych chi hefyd yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau arolygu er mwyn mapio'r amgylcheddau hyn, a thrwy hynny'n cael gwell dealltwriaeth o'r prosesau sy'n eu llunio. Mae agwedd olaf y cwrs yn cynnwys esboniad o sut mae'r deunyddiau gwaddodol hyn yn ymateb i lwythi gosodedig - sut maen nhw'n ymddwyn yn geodechnegol.

Modiwlau Gorfodol:

• Key Concepts and Techniques

Mae'r modiwl hwn yn darparu sgiliau allweddol

i chi gan gynnwys mathemateg i wyddonwyr, rhaglennu MATLAB, a dadansoddi data eigioneg.

• Geophysical Surveying

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys theori ac ymarfer maes/labordy o arolygu seismig, trydanol, magnetig a disgyrchiant.

• Sediment Geotechnics

Mae'r modiwl hwn yn archwilio egwyddorion sylfaenol nodweddu gwaddodion a mecaneg pridd (llif hylif, straen effeithiol, atgyfnerthu, cryfder croeswasgiad). Elfen ymarferol labordy gref.

• Practical Oceanography (geological)

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys caffael data geoffisegol yn ymarferol ar longau a chychod bach. Mae hefyd yn cynnwys dosbarthiadau atodol ar acwsteg môr, geodedd, synhwyro o bell ynghyd â phrosesu a dehongli data cysylltiedig gan ddefnyddio meddalwedd o safon diwydiant.

• Literature Review and Project Plan

Fe'ch goruchwylir yn unigol i baratoi ar gyfer y project traethawd ymchwil ymarferol trwy adolygu llenyddiaeth gefndir, nodi syniadau y gellir eu profi a llunio cynllun project manwl.

• Research Project

Project ymchwil unigol 3.5 mis yn seiliedig ar y maes llafur a'ch dewisiadau unigol.

Modiwlau Dewisol (yn semester 2):

• Sedimentary Environments

Mae'r modiwl hwn yn defnyddio dull gweithredu dalgyrch i fasn morol, gan ganolbwyntio ar amgylcheddau afonol, arfordirol a morol dwfn.

Bydd y modiwl yn darparu fframwaith sylfaen a chysyniadol i ddeall systemau afonydd a morol, newid amgylcheddol a geocronoleg.

• Climate and Climate Change

Cyflwyniad i'r ffactorau a'r prosesau sy'n rheoli hinsawdd y Ddaear yn y gorffennol a'r presennol. Pwysleisir cysylltiadau rhwng yr hinsawdd a phrosesu daearegol.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Yn nodweddiadol, mae cwmnïau'n gwneud cyflwyniadau trwy gydol y flwyddyn ac weithiau'n cynnal cyfweiliadau yn yr Ysgol. Cynhelir cwrs byr gan ymarferydd profesiynol yn semester 2. Mae gan lawer o broiectau ymchwil bartneriaid project diwydiannol.

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae ein graddedigion yn dod o hyd i gyflogaeth yn y diwydiant datblygu alltraeth (olew, nwy, ynni adnewyddadwy), cwmnïau contract geoffisegol (yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu contractwyr peirianeg), byrddau afonydd a harbwr, y diwydiant cloddio mwynau mâl yn y môr, a labordai'r llywodraeth. Gall y cwrs hwn hefyd fod yn fodd o ganiatáu i raddedigion mewn gwyddoniaeth bur fynd ymlaen i ymchwil ôl-raddedig mewn geowyddorau môr. Yn nodweddiadol, bydd myfyrwyr wedi sicrhau cyflogaeth erbyn dechrau'r haf yn ystod y cwrs. Dros y degawd diwethaf, sicraodd tua thri chwarter waith mewn swydd geo-gysylltiedig, ac aeth y gweddill ymlaen i ymchwil bellach (PhD).

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/postgraduate-courses/>

Marine Biology MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser;
Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae mynediad i'r MSc/Diploma Biolog y Môr yn gofyn am radd Anrhydedd israddedig dda mewn maes pwnc perthnasol. Anogir ymgeiswyr o feysydd pwnc eraill yn y gwyddorau, neu sydd â phrofiad o waith cyflogedig perthnasol, i wneud cais, ar yr amod eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o gymhelliant a phrofiad yn eu Datganiad Personol a'u CV.

IELTS: Gofynnir am 6.5 (heb gynnwys yr un elfen o dan 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs yn rhoi hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol yn y maes ac mewn labordy i roi hyfforddiant uwch, ac mae'n ceisio codi myfyrwyr i lefel fel y gallent fod yn fiolegwyr môr annibynnol.

Mae'r Ysgol Gwyddorau Eigion yn hynod addas i ddarparu hyfforddiant mewn Biolog y Môr oherwydd bod gennym ni:

• Lleoliad heb ei ail

Rydym wedi ein lleoli ar lannau'r Fenai yn agos at Eryri, o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig yr UE, gyda glannau creigiog, traethau tywod, gwaddodion rhynglanwol, twyni tywod, morfeydd heli, aberoedd, gwelyau pysgod cregyn, safleoedd lle mae morloi'n tynnu eu hunain allan o'r dŵr, ysgolion o ddolffiniaid a Môr Iwerddon ar ein stepen drws.

• Cyfleusterau addysgu, adnoddau ac amgylchedd hyfforddi rhagorol

Mae'r cwrs wedi'i leoli mewn ystafell bwrpasol 490 m2. Yn ogystal, mae gan yr ysgol set o gychod ymchwil (gan gynnwys llong ymchwil gwerth £2.8M y Prince Madog, sy'n 35 metr o hyd), cyfleusterau acwariwm tymherus a throfannol helaeth a labordai addysgu ac ymchwil pwrpasol.

• Cynnwys cwrs amlddisgyblaethol, darpariaeth addysgu arbenigol

Mae'r holl staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn y pynciau y maent yn eu haddysgu, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio astudiaethau achos ac ymchwil bersonol.

• Wedi hen ennill ei blwyf a'i gydnabod

Mae gennym dros 60 mlynedd o brofiad o ddysgu gwyddor môr ar lefel ôl-raddedig gyda hanes cadarn, sy'n cael ei ganmol yn gyson uchel gan arholwyr allanol.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

• Marine Ecology Skills

Mae'r modiwl hwn yn darparu hyfforddiant mewn sgiliau allweddol mewn dyluniadau arbrol ac arolygon, arolygu benthig morol, tacsonomeg, technegau ystadegol gan ddefnyddio R a mapio adnoddau gan ddefnyddio GIS (Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol).

• Marine Fisheries

Mae'r modiwl hwn yn darparu trosolwg eang o bysgodfeydd a hyfforddiant manwl yn y technegau a ddefnyddir wrth asesu dynameg poblogaeth pysgod.

• Coastal Habitat Ecology and Survey

Mae'r modiwl hwn yn rhoi trosolwg o amrywiaeth ac ecolog cynefinoedd arfordirol a gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau arolygu a ddefnyddir i asesu helaethrwydd organebau a'u dosbarthiad yn y cynefinoedd hyn.

• Marine Vertebrates

Mae'n darparu trosolwg eang o amrywiaeth pysgod, adar môr a mamaliaid môr.

• Marine Invertebrates

Mae'r modiwl hwn yn darparu trosolwg eang o fioleg, ecolog a diwylliant infertebratau môr.

• Research Project Planning

Mae'r modiwl hwn yn caniatáu ichi gynhyrchu adolygiad llenyddiaeth yn eiddo cyffredinol eich pwnc ymchwil arfaethedig a chynllun ymchwil ar gyfer eich project ymchwil arfaethedig.

• Research Project

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys ymchwiliad annibynnol 3.5 mis i bwnc gwyddonol penodol gan arwain at gynhyrchu traethawd ymchwil.

RHAGOLYOGON GYRFA

Rhagolygon Gyrfa

Mae graddedigion wedi dilyn gyrfa yn y meysydd canlynol: ymchwil PhD a chynorthwywyr ymchwil mewn prifysgolion a sefydliadau ymchwil; addysgu; gwaith yn y sector preifat; gwaith yn y sector cyhoeddus; sefydliadau anlywodraethol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/postgraduate-courses/>

Marine Environmental Protection MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser;
Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae mynediad i'r MSc/Diploma Gwarchod Amgylchedd y Môr yn gofyn am radd Anrhydedd israddedig dda mewn maes pwnc perthnasol. Anogir ymgeiswyr o feysydd pwnc eraill yn y gwyddorau, neu sydd â phrofiad o waith cyflogedig perthnasol, i wneud cais, ar yr amod eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o gymhelliant a phrofiad yn eu Datganiad Personol a'u CV.

IELTS: Gofynnir am 6.5 (heb gynnwys yr un elfen o dan 6.0).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Sefydlwyd y radd Meistr mewn Gwarchod Amgylchedd Môr yn 1988, ac mae wedi datblygu enw da dros ddegawdau am ei hyfforddiant amlddisgyblaethol o ansawdd uchel mewn materion amgylcheddol y môr cymhwysol. Mae'r cwrs yn adnabod bygythiadau amrywiol i systemau cynnal bywyd y ddaear trwy ystod o effeithiau anthropogenig, o ddinistrio cynefin, llygredd, a gor-ecsbloetio adnoddau, i effaith fyd-eang newid yn yr hinsawdd. Mae'n bwysicach nag erioed rhagweld effeithiau. Mae'r cwrs yn rhoi sgiliau maes a thechnegau a thechnolegau uwch i fyfyrwyr sydd eu hangen i weithredu yn amgylchedd y môr, sgiliau meintiol i asesu adnoddau a rhagfynegi bygythiadau, dealltwriaeth realistig o lywodraethu a masnach y môr; a sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol i gydweithio i ddod â'u canfyddiadau gerbron y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel bod datblygu yn y dyfodol yn gynaliadwy.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

• Marine Ecology Skills

Mae'r modiwl hwn yn darparu hyfforddiant mewn sgiliau allweddol mewn dyluniadau arbrol ac arolygon, arolygu benthig morol, tacsonomeg, technegau ystadegol gan ddefnyddio R a mapio adnoddau gan ddefnyddio GIS (Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol).

• Marine Fisheries

Mae'r modiwl hwn yn darparu trosolwg eang o bysgodfeydd a hyfforddiant manwl yn y technegau a ddefnyddir wrth asesu dynameg poblogaeth pysgod.

• Coastal Habitat Ecology and Survey

Mae'n archwilio egwyddorion a dulliau arolygon biolegol o gynefinoedd arfordirol.

• Environmental Impact Assessment

Mae'n archwilio effeithiau morol a'u hasesiad gan gynnwys y broses o baratoi Datganiad Effaith Amgylcheddol (EIS) i ofynion Cyfarwyddwr yr UE.

• Marine Conservation and Coastal Zone Management

Mae'r modiwl hwn yn archwilio cyfraith parthau arfordirol, economeg gymdeithasol, bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, ardaloedd morol gwarchodedig, dyframaethu amgylcheddol, a rheoli parthau arfordirol integredig.

• Research Design and Planning

Ymchwilio, ysgrifennu a chyflwyno adolygiad llenyddiaeth a chynnig i baratoi eich project ymarferol.

• Research Project and Traethawd hir

Gwneud project ymchwil uwch ac ymarferol i ymchwilio i bwnc gwyddonol sy'n berthnasol i reoli'r môr.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae cysylltiadau â chyrrff allanol yn adlewyrchu diddordebau ymchwil amrywiol, pur a chymhwysol staff yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion. Mae'r cysylltiadau hyn yn dod â nifer o gyfleoedd ar gyfer projectau ymchwil yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

RHAGOLYOGON GYRFA

Mae graddedigion wedi cael ystod amrywiol o gyflogaeth ac fel rheol yn dod o hyd i gyflogaeth mewn addysg uwch ac ymchwil. Dyma enghreifftiau: Cynorthwydd ymchwil ac ymchwil PhD mewn Gwyddorau môr amgylcheddol yn y DU a thramor; addysgu (e.e. gwyddorau amgylcheddol mewn ysgolion a chanolfannau gweithgareddau); sector preifat (e.e. cwmnïau ac ymgynghoriaethau sy'n arbenigo mewn arolygu morol ac asesu effaith amgylcheddol, dyframaeth, diwydiant olew, twristiaeth a hamdden); ffurfio'u busnesau eu hunain (e.e. ym maes ymgynghoriaeth amgylcheddol forol); sector cyhoeddus (e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaethau Cadwraeth Natur, CEFAS, Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr, Partneriaethau Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir, a sefydliadau tebyg dramor); sefydliadau anlywodraethol a sefydliadau gwirfoddol (e.e. Cronfa Byd-eang ar gyfer Natur, Greenpeace, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth).

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/postgraduate-courses/>

Marine Renewable Energy MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser;
Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, mae gan ymgeiswyr llwyddiannus radd Anrhydedd is-radd dda mewn maes pwnc perthnasol, neu maent yn disgwyl cael gradd o'r fath. Anogir ymgeiswyr o feysydd pwnc eraill, neu sydd â phrofiad o waith cyflogedig perthnasol, i wneud cais, ar yr amod eu bod yn gallu dangos lefelau uchel o gymhelliant a phrofiad yn eu Datganiad Personol a'u CV, a chyda sylfaen addas mewn mathemateg.

IELTS: Gofynnir am 6.0 (heb gynnwys yr un elfen o dan 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae angen brys i gefnogi gallu i gynhyrchu trydan drwy ddatblygu technolegau carbon isel. Mae'r môr yn cynrychioli adnodd ynni helaeth a heb ei ddefnyddio gan fwyaf. Gellid ei ddefnyddio fel math o gynhyrchu trydan carbon isel, ac mae llawer o weithgarwch masnachol yn y sector ynni hwn yn ogystal â gwaith ymchwil a datblygu. Nod y radd MSc hon yw rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr sydd eu hangen i nodi a mesur potensial rhanbarthau ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy'r môr, gyda phwyslais ar adnodd, dadansoddi cyfres amser, modelu rhifiadol, a'r sialensiau a wynebir wrth roi rhesi o ddefensiadau cynhyrchu ynni yn amgylchedd y môr.

Modiwlau Gorfodol:

• Key Concepts and Techniques

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau allweddol sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich cwrs Meistr, gan gynnwys mathemateg i wyddonwyr, rhaglennu MATLAB, a dadansoddi data eigioneg.

• Practical Oceanography

Mae'r modiwl hwn yn rhoi profiad ymarferol i chi o gael data eigioneg a geoffisegol drwy gymorth llong ymchwil 35 metr o hyd y Prince Madog. Byddwch yn prosesu, dehongli ac adrodd ar y data a geir. Ymddirinnir â phynciau fel acwsteg môr; modelu rhifiadol; a synhwyro o bell.

• Geophysical Fluid Dynamics

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno egwyddorion llywodraethu a'r defnydd o Ddeddfau mudiant Newton gyda hylifau geoffisegol. Mae'n cynnwys hydrodynameg glasurol, hafaliadau mudiant a pharhad, cylchdro, y theori y tu ôl i lanw a thonau, gan gynnwys tonnau mewnol a phlanedol, a chyflwyniad i gynnwrf yn y cefnfor.

• Marine Renewable Energy

Bydd y modiwl hwn yn datblygu'ch dealltwriaeth o gysyniadau ynni allweddol, gan gynnwys ynni cinetig ac ynni potensial, pŵer, ysbeidioldeb, a sut mae'r rhain yn gysylltiedig ag ynni'r cefnfor. Byddwch yn dysgu am feintoli adnoddau ynni tonnau a llanw dros amserlenni amrywiol, rhyngweithio rhwng tonnau a llanw, ac effeithiau amgylcheddol.

• Geophysical Surveying

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys theori ac ymarfer maes/labordy o arolygu seismig, trydanol, magnetig a disgyrchiant.

• Research Design & Planning

Fe'ch goruchwylir yn unigol i baratoi ar gyfer y project ymchwil trwy adolygu llenyddiaeth gefndir, nodi syniadau y gellir eu profi a llunio cynllun project manwl.

• Research Project and Traethawd hir

Yn y project ymchwil, rydych chi'n ymchwilio i bwnc gwyddonol penodol yn annibynnol. Dewisir projectau gydag arweiniad priodol gan staff academiaidd, ac mae pynciau'n rhychwantu ystod eang o faterion ynni adnewyddadwy'r môr.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL / CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gennym gysylltiadau helaeth â diwydiant ynni adnewyddadwy'r môr, a bydd llawer o'r projectau ymchwil mewn cydweithrediad â diwydiant. Byddwch hefyd yn dod i gysylltiad â'r diwydiant trwy siaradwyr diwydiannol gwadd.

RHAGOLYOGON GYRFA

Bydd galw mawr am raddedigion ar draws sector ynni adnewyddadwy'r môr, gan weithio i ddatblygu'r dyfeisiau fel dadansoddwyr adnoddau, mynd i mewn i ymgynghoriaethau eigioneg sy'n gweithio ar astudiaethau yn y fan a'r lle, ac astudiaethau modelu ar gyfer y diwydiant tonnau a llanw, arolygu geoffisegol i'r diwydiant, cyfleoedd i weithio ar isadeiledd grid (Natoinal Grid) a cheblau, cyrrff prydlesu fel Ystâd y Goron, a gweithio i gyrrff amgylcheddol a noddir gan y llywodraeth fel Asiantaeth yr Amgylchedd, yn asesu effeithiau amgylcheddol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/postgraduate-courses/>

Physical Oceanography MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn-amser;
Diploma: 30 wythnos yn llawn-amser.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, mae gan ymgeiswyr llwyddiannus radd Anrhydedd is-radd dda mewn maes pwnc perthnasol, neu maent yn disgwyl cael gradd o'r fath. Anogir ymgeiswyr o feysydd pwnc eraill, neu sydd â phrofiad o waith cyflogedig perthnasol, i wneud cais, ar yr amod eu bod yn gallu dangos lefelau uchel o gymhelliant a phrofiad yn eu Datganiad Personol a'u CV, a chyda Lefel A neu uwch mewn mathemateg.

IELTS: Gofynnir am 6.0 (heb gynnwys yr un elfen o dan 5.5).

DISGRIFIAD O'R CWRS

Cynhaliwyd yr MSc mewn Eigoneg Ffisegol ym Mangor er 1965, ac mae wedi'i gynllunio'n benodol i rai sydd eisiau gweithio fel gwyddonwyr sy'n darogan effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol, yn y diwydiant ynni adnewyddadwy, neu mewn chwylio am adnoddau naturiol.

Mae'r cwrs wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer y rhai sydd â chefnidir mewn gwyddorau rhifiadol neu amgylcheddol sydd â diddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth ddamcaniaethol am y cefnforoedd a meithrin sgiliau ymarferol wrth weithio ar y môr. Caiff sgiliau ymarferol eu meithrin trwy gymryd rhan mewn gwaith arolygu ar long ymchwil y Brifysgol, y Prince Madog, a chychod arolygu llai. Rydych chi hefyd yn dysgu rhaglennu yn MATLAB, ac astudio datblygiad modelau rhifiadol a'u profi, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ynni adnewyddadwy o'r môr.

Mae mwy o fodiwlau damcaniaethol yn ymdrin â thonau, dynameg a llanw, a hinsawdd a

newid yn yr hinsawdd. Mae elfen hyfforddedig y cwrs yn rhedeg o fis Hydref i fis Mai, ac ar ôl hynny byddwch yn cychwyn ar broiect ymchwil unigol 3 mis sy'n arwain at gynhyrchu traethawd ymchwil. Yn dilyn hynny, cyhoeddir oddeutu 30% o draethawd ymchwil y radd MSc Eigoneg Ffisegol mewn cyfnodolyn gwyddonol a adolygir gan gymheiriaid.

Modiwlau Gorfodol:

• Key Concepts and Techniques

Mae'r modiwl hwn yn darparu rhai o'r sgiliau allweddol y bydd eu hangen arnoch ar gyfer eich cwrs Meistr a'ch gwaith project. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys mathemateg i wyddonwyr, rhaglennu MATLAB, dadansoddi data eigoneg a chyflwyniad i amgylchedd y môr.

• Practical Oceanography

Bydd y modiwl hwn yn rhoi profiad ymarferol i chi o gael data eigoneg a geoffisegol drwy gymorth llong ymchwil y Prince Madog. Bydd disgwyl i chi brosesu, dehongli ac adrodd ar y data a geir. Yn ategu'r gwaith ar y llongau a'r cychod, bydd darlithoedd sy'n canolbwyntio ar geodedd a gosod lleoliad; acwsteg môr; a synhwyro o bell gyda lloeren a GIS.

• Geophysical Fluid Dynamics

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno egwyddorion llywodraethu a'r defnydd o deddfau mudiant Newton gyda hylifau geoffisegol. Mae'n cynnwys hydrodynameg glasurol, hafaliadau mudiant a pharhad, cylchdro, y theori y tu ôl i lanw a thonau, gan gynnwys tonnau mewnol a phlanedol, a chyflwyniad i gynnwrf yn y cefnfor.

• Climate and Climate Change

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno'r ffactorau a'r prosesau sy'n rheoli hinsawdd y Ddaear

heddiw, yn enwedig amrywioldeb hinsawdd naturiol, newid yn yr hinsawdd anthropogenig, effeithiau newid yn yr hinsawdd, newid yn yr hinsawdd a strategaethau lliniaru yn y dyfodol.

• Marine Renewable Energy

Bydd y modiwl hwn yn datblygu'ch dealltwriaeth o gysyniadau ynni allweddol, gan gynnwys ynni cinetig ac ynni potensial, pŵer, ysbeidioldeb, a sut mae'r rhain yn gysylltiedig ag ynni'r cefnfor. Byddwch yn dysgu am feintoli adnoddau ynni tonnau a llanw dros amserlenni amrywiol, rhyngweithio rhwng tonnau a llanw, ac effeithiau amgylcheddol.

• Research Design and Planning

Fe'ch goruchwylir yn unigol i baratoi ar gyfer y project ymchwil trwy adolygu llenyddiaeth gefndir, nodi syniadau y gellir eu profi a llunio cynllun project manwl.

RHAGOLYGN GYRFA

Gyda thros 50 mlynedd o brofiad o ddysgu Eigoneg Ffisegol yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion, cydnabuwyd ers amser fod graddedigion Bangor yn cael y sgiliau allweddol hynny y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae myfyrwyr yn dod o hyd i gyflogaeth yn y diwydiannau hydrocarbonau ac ynni adnewyddadwy alltraeth, cwmnïau contractau arolygon ar y môr, byrddau afonydd a phorthladdoedd a sefydliadau'r llywodraeth. Mae llawer o fyfyrwyr hefyd yn dewis mynd ymlaen i wneud PhD mewn Eigoneg Ffisegol, naill ai'n aros ym Mangor neu'n symud i brifysgol arall yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/postgraduate-courses/>

Ocean Sciences PhD/MPhil/MScRes

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser; MScRes: Blwyddyn yn llawn-amser. Rhaglenni rhan-amser ar gael.

Y GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd ail ddosbarth uwch dda mewn maes pwnc perthnasol i gael mynediad. Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr o dramor ddangos cymhwysedd yn y Saesneg i lefel dderbyniol. Gweler tudalen 120.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae Graddau Ymchwil (PhD/MPhil) ar gael yn y meysydd pwnc eang canlynol:

• Shelf Sea and Coastal Processes

Mae moroedd ysgafellau yn cynrychioli'r parth pontio rhwng tir a chefnfor. Rydym yn canolbwyntio ar nodi prosesau ffisegol allweddol, a'u rhyngweithiadau, sy'n gyrru'r fflycsau ar draws rhyngwynebau hanfodol yn y parth hwn. Mae datblygu technegau arsylwi newydd, ynghyd â'n cryfderau mewn theori a modelu, wedi ei gwneud yn bosib herio'r patrymau presennol, a phrofi modelau o'r radd flaenaf yn feirniadol, a datblygu syniadau newydd.

• Biogeochemistry and Palaeoceanography

Mae'r grŵp yn ymchwilio i gylchu a thynged carbon a nitrogen ar draws ystod o systemau'r môr, yn enwedig cyflenwi maetholion anorganig a deunydd organig toddedig (DOM) i ddyfroedd arfordirol, a biocemeg iâ'r môr. Mae biocemeg yn sail i ddilysu a defnyddio cofnodion palaeoeigonegol newydd, yr ydym wedi'u defnyddio i ail-greu moroedd ysgafellau a glandiroedd y môr.

• Marine Ecosystems: Conservation and Resource Management

Mae cadwraeth a defnydd cynaliadwy o adnoddau byw dyfrol yn hanfodol o ystyried cyfraddau cyfredol ehangu poblogaeth fyd-eang. Er mwyn deall i ba raddau y mae gweithgarwch dynol yn addasu ecosystemau'r môr, mae angen i ni gael dealltwriaeth sylfaenol o'r prosesau sy'n dylanwadu ar fioamrywiaeth a gweithrediad ecosystem. Mae ein hymchwil yn mabwysiadu dull ecosystem gyfan, ac yn mynd i'r afael â'r wyddoniaeth sy'n sail i liniaru gweithgarwch dynol trwy drin adnoddau'r môr, adfer cynefinoedd neu reoli gweithgarwch dynol. Mae integreiddio gwyddoniaeth sylfaenol a chymhwysol wedi arwain at ddylanwadu ar bolisi rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer cadwraeth a defnydd cynaliadwy o adnoddau'r môr.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/oceansciences/postgraduate-courses/>

Cyfrifiadureg

Mae Cyfrifiadureg yn gymuned fywiog o staff academiaidd, myfyrwyr israddedig ac ôl-radd, ac ymchwilwyr ôl-ddoethurol.

Mae Cyfrifiadureg ym Mangor mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer gyrfa mewn TG yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn rhyngweithio gyda nifer o wahanol o gwmnïau sy'n sicrhau bod ein cyrsiau gradd yn adlewyrchu tueddiadau cyfredol a datblygiadau diweddar yn y pynciau.

Cyfleusterau

Mae gennym raglen ôl-radd gref a bywiog ac mae gan ein myfyrwyr labordai pwrpasol i weithio ynddynt.

Mae gan Bangor gyfarpar da gydag ystafelloedd cyfrifiadurol ac offer arbenigol eraill (fel labordy Delweddu Perfformiad Uchel a Graffeg Feddygol) a ddefnyddir i gefnogi

ac atgyfnerthu gwybodaeth a chysyniadau a gyflwynir yn ystod darlithoedd a seminarau. Yn ogystal, ein nod yw sicrhau bod ein myfyrwyr yn defnyddio caledwedd a meddalwedd a ddefnyddir yn y diwydiant ar ddechrau eu hastudiaethau ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn systemau cyfrifiadurol newydd a meddalwedd gyfoes i gefnogi ein haddysgu.

Mae ein ffocws cryf ar addysgu ac ymchwil ôl-radd yn golygu bod ein holl fyfyrwyr yn ymwneud â themâu ymchwil cyfredol o'r dechrau, gan weithio'n agos â'u tiwtoriaid personol ar yr ymchwil diweddaraf.

Mae lawer o gyfleoedd yn y diwydiant TG mewn sawl sector oherwydd presenoldeb nifer uchel o gwmnïau TG a busnesau bach a chanolig wedi'u lleoli'n lleol.

Trosolwg ar feysydd academiaidd

Mae arbenigedd ymchwil yn rhychwantu graffeg gyfrifiadurol, delweddu, darganfod gwybodaeth a chyfathrebu. Mae arbenigedd yn y meysydd hyn wedi'i ymgorffori yn ein gweithgareddau addysgu, gan roi mynediad uniongyrchol i fyfyrwyr i'r ymchwil Cyfrifiadureg diweddaraf.

Gofynion iaith Saesneg yr Ysgol Cyfrifiadureg

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn yr iaith Saesneg. Mae'r gofynion Saesneg yn golygu bod ag o leiaf:

- IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 5.5)

Datblygiadau Newydd

Mae Cyfrifiadureg yn y broses o ddatblygu cyrsiau newydd a chyffrous i ddarparu ar gyfer meysydd technolegol a sector newydd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni'n uniongyrchol.

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc

- Advanced Computer Science
- Advanced Data Science
- Computing
- Computing for Data Science
- Rise of Machines

PhD/MPhil

- Artificial InFfônligence and InFfônligent Agents
- Communication Networks and Protocols
- Image Processing for Mobile Devices
- Medical Visualization and Simulation
- Pattern Recognition / Classifiers

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: + 44 (0) 1248 382686
E-bost: cs-pg-admissions@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/cs

Cyrsiau MSc Uwch/Dilyniant

Mae'r cyrsiau MSc Uwch/Dilyniant yn rhaglenni ôl-radd hyfforddedig, wedi'u cynllunio'n benodol i ddarparu llwybr i raglenni Cyfrifiadureg (a rhaglenni cyfatebol) i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae'r rhaglenni hyn yn cymryd theori sylfaenol flaenorol, gan alluogi mwy o le i gynnwys agos at fod yn arloesol. Addysgir y modiwlau yn y rhaglenni hyn gan arbenigwyr cydnabyddedig yn y maes priodol, gan gyfuno eu diddordebau ymchwil ag addysgu sydd wedi ennill safon aur TEF.

Advanced Computer Science MSc

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser/2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig gydnabyddedig mewn Cyfrifiadureg neu faes cysylltiedig gydag o leiaf ail ddosbarth, neu gymhwyster cyfatebol rhyngwladol.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor hefyd ddangos medrusrwydd mewn Saesneg gydag IELTS ar lefel 6.0, heb gynnwys yr un gydran islaw 5.5.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs Cyfrifiadureg Uwch yn adeiladu ar sylfeini rhaglen israddedig Cyfrifiadureg, yn astudio pynciau ar lefel uwch fel cyfrifiadureg perfformiad uchel a realiti estynedig/cymysg/rhithwir. Mae myfyrwyr yn ymchwilio i waith mewnol y technolegau hyn ac yn dysgu sut i'w defnyddio ar gyfer rhaglenni'r genhedlaeth nesaf. Cefnogir hyn i gyd gan ein hymrwymiad parhaus i broffesiynoldeb a moeseg, fel y gall y

genhedlaeth nesaf wneud y dewisiadau mwyaf priodol wrth ddefnyddio technoleg i ymdrin â phroblemau'r byd.s.

Cynnwys Dangosol y Cwrs:

- Advanced Machine Learning
- Embedded Systems
- Ethics, Data & Security
- High Performance Computing
- Information Visualisation
- Introduction to Machine Learning & Analytics
- Prototyping & Fabrication
- XReality
- MSc Research Project

Disgwylir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ymchwil arloesol neu'n agos at fod yn arloesol a chyflwyno'r gwaith fel traethawd hir ysgrifenedig.

RHAGOLYGON GYRFA

Mae Cyfrifiadureg ym Mangor wedi bod ymhlith prifysgolion gorau'r DU yn gyson o ran cyflogadwydd yn ôl tablau cynghrair. Mae Cyfrifiadureg yn helpu i feithrin cydweithio â chwmnïau TG lleol. Mae llawer o gyfleoedd hefyd yn y diwydiant TG mewn sawl sector oherwydd presenoldeb nifer uchel o gwmnïau TG a busnesau bach a chanolig yn lleol.number of IT companies and SMEs locally.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

Ffôn: + 44 (0) 1248 382686

E-bost: cs-pg-admissions@bangor.ac.uk

Advanced Data Science MSc

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser/2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Gradd israddedig gydnabyddedig mewn Cyfrifiadureg neu faes cysylltiedig gydag o leiaf ail ddosbarth, neu gymhwyster cyfatebol rhyngwladol.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor hefyd ddangos medrusrwydd mewn Saesneg gydag IELTS ar lefel 6.0, heb gynnwys yr un gydran islaw 5.5.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r MSc.Gwyddor Data Uwch yn galluogi graddedigion o raglenni israddedig Cyfrifiadureg neu Wyddor Data i ehangu a dyfnhau eu sgiliau a'u gwybodaeth am reoli, prosesu a dadansoddi data. Mae'r llwybr hwn hefyd yn caniatáu llwybr i arbenigo eu profiad Cyfrifiadureg gan ganiatáu gyrfaedd mewn deallusrwydd busnes, dadansoddeg data mawr, neu ymchwil a datblygu. Mae'r rhaglen yn rhannu'r un ymrwymiad i broffesiynoldeb a defnyddio data a thechnoleg yn foesebol. Mae'r delfrydau hyn yn hollbwysig wrth inni fynd mewn i Chwyldro Diwydiannol 4.0 a'r defnydd cynyddol o ddata i ddiffinio bywyd bob dydd.

Indicative Course

Content:

- Advanced Machine Learning
- Data Science Experiments
- Ethics, Data & Security
- High Performance Computing
- Information Visualisation
- Natural Language Processing
- MSc Research Project

Disgwylir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ymchwil arloesol neu ymchwil agos at fod yn arloesol a chyflwyno'r gwaith fel traethawd hir ysgrifenedig.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

Ffôn: + 44 (0) 1248 382686

E-bost: cs-pg-admissions@bangor.ac.uk

Mae'r berthynas rhwng staff a myfyriwr yn dda iawn ac mae awyrgylch hapus yno. Mae'r myfyrwyr yn ddymunol, yn hyderus ac yn groyw ac yn mwynhau'r cwrs.

Teaching Quality Assessment

Cyrsiau MSc Dilyniant/Cyffredinol

Mae'r cyrsiau MSc Dilyniant/Cyffredinol yn rhaglenni ôl-radd hyfforddedig ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno naill ai ychwanegu at eu sgiliau presennol neu ychwanegu Cyfrifiadureg at ddisgyblaeth arall. Rydym yn annog ceisiadau o unrhyw faes, gan wneud y rhaglenni hyn yn ddelfrydol ar gyfer newid gyrfa neu i roi mwy o siawns i chi ddod o hyd i'ch arbenigedd unigryw - cael y swydd ddelfrydol rydych wedi bod yn gweithio tuag at ei chael. Mae'r modiwlau ar y rhaglenni hyn yn darparu sylfaen gadarn o dechnolegau Cyfrifiadureg, rhaglennu, gwe a deallusrwydd artifisial. Mae myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i dechnolegau a phynciau cyfoes trwy addysgu sydd wedi ennill safon aur TEF gan arbenigwyr yn y maes.

Computing MSc

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser/2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig gydnabyddedig o leiaf trydydd dosbarth, neu gymhwyster rhyngwladol cyfatebol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs MSc Cyfrifiadureg Gyffredinol yn darparu llwybr i Gyfrifiadureg a gyrfaedd cysylltiedig i raddeddigion o unrhyw ddisgyblaeth. Mae'r rhaglen hon yn rhoi'r dewis ehangaf o bynciau a modiwlau i fyfyrwyr i gefnogi diddordeb cyffredinol mewn defnyddio cyfrifiaduron yn eu disgyblaeth wreiddiol. Bydd myfyrwyr yn ymdrin â theori sylfaenol a sgiliau

ymarferol i'w galluogi i wneud defnydd priodol o dechnoleg gyfrifiadurol. Rhoddir sylw hefyd i thema proffesiynoldeb a moeseg ar gyfer cyfrifiadura fel y gall myfyrwyr ddeall pryderon a gwneud dewisiadau priodol yn eu hymarfer yn y dyfodol. Caiff pob un o'r modiwlau eu haddysgu gan arbenigwyr cydnabyddedig yn eu meysydd sydd wedi ennill safon Aur TEF.

Cynnwys Dangosol y Cwrs:

- Artificial Intelligence and Game Design
- Computer and Network Security
- Database Systems
- Data Structures, Algorithms and Theory
- Ethics, Data and Security
- Introduction to Machine Learning and Analytics
- Introduction to Programming

- Natural Language Processing
- Prototyping and Fabrication
- User Experience (UX) and HCI
- Web Technologies
- MSc Research Project

Disgwylir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ymchwil arloesol neu ymchwil agos at fod yn arloesol a chyflwyno'r gwaith fel traethawd hir ysgrifenedig.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

Ffôn: + 44 (0) 1248 382686

E-bost: cs-pg-admissions@bangor.ac.uk

Computing for Data Science MSc

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser/2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig gydnabyddedig o leiaf trydydd dosbarth, neu gymhwyster rhyngwladol cyfatebol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r rhaglen MSc Cyfrifiadureg ar gyfer Gwyddor Data sydd wedi'i hysbrydoli gan ymchwil o'r radd flaenaf a gydnabyddir yn rhyngwladol ac a gyflwynir trwy addysgu sydd wedi ennill safon aur TEF, yn ychwanegu Gwyddor Data a sgiliau cyfrifiadurol cysylltiedig

eraill at gymhwyster sy'n bodoli eisoes.

Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar bynciau a all gynorthwyo wrth drin a dadansoddi data gan ddefnyddio dulliau cyfrifiadurol cyfoes (megis dysgu peirianyddol). Mae'r llwybr hwn yn ychwanegu sgiliau llythrennedd digidol a data sydd eu hangen i gyrraedd at amrywiaeth o yrfaedd Economi Data.

Cynnwys Dangosol y Cwrs:

- Database Systems
- Data Structures, Algorithms and Theory
- Ethics, Data and Security
- Information Visualisation
- Introduction to Machine Learning and Analytics

- Introduction to Programming
- Natural Language Processing
- User Experience (UX) and HCI
- MSc Research Project

Disgwylir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ymchwil arloesol neu ymchwil agos at fod yn arloesol a chyflwyno'r gwaith fel traethawd hir ysgrifenedig.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

Ffôn: + 44 (0) 1248 382686

E-bost: cs-pg-admissions@bangor.ac.uk

Rise of Machines MSc

HYD Y CWRS

Blwyddyn yn llawn-amser/2 flynedd yn rhan-amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Gradd israddedig gydnabyddedig o leiaf trydydd dosbarth, neu gymhwyster rhyngwladol cyfatebol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Bwriedir i'r cwrs Datblygiad Peiriannau alluogi graddeddigion o Seicoleg a meysydd cysylltiedig ychwanegu at eu sgiliau gyda dulliau avant-garde o Ddeallusrwydd Artifisial, Dysgu Peirianyddol, Seicoleg Wybyddol a Niwrowyddoniaeth. Mae'r rhaglen hon wedi'i

dylanwadu'n fawr gan ymchwil o'r ddwy ddisgyblaeth a chaiff ei chyflwyno trwy addysgu sydd wedi ennill safon aur TEF gan arbenigwyr yn y maes. Mae'n galluogi myfyrwyr i elwa o'r ddwy ddisgyblaeth er mwyn symud ymlaen gyda'r yrfa maent wedi ei dewis. Rydym yn cadw ymdeimlad cryf o broffesiynoldeb a moeseg trwy gydol y rhaglen gan dynnu sylw at natur sensitif y pwnc.

Cynnwys Dangosol y Cwrs:

- Applied Neuroscience: Theoretical Principles
- Artificial Intelligence and Game Design
- Ethics, Data and Security
- Introduction to Machine Learning and Analytics

- Introduction to Programming
- Methods in Cognition and Brain Research
- Natural Language Processing
- Prototyping and Fabrication
- User Experience (UX) and HCI
- MSc Research Project

Disgwylir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ymchwil arloesol neu ymchwil agos at fod yn arloesol a chyflwyno'r gwaith fel traethawd hir ysgrifenedig.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

Ffôn: + 44 (0) 1248 382686

E-bost: cs-pg-admissions@bangor.ac.uk

92% o fyfyrwyr yn fodlon ag
ansawdd y cwrs

NSS 2019

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser

GOFYNIION MYNEDIAD

- Deallusrwydd artiffisial a chyfyngau deallus: mae angen gradd anrhydedd dda neu gyfwerth.
- Rhwydweithiau a phrotocolau cyfathrebu: mae angen gradd anrhydedd da neu gyfwerth mewn peirianeg electronig neu wyddoniaeth gyfrifiadurol.
- Delweddu ac efelychu meddygol: mae angen gradd anrhydedd dda neu gyfwerth â chyfrifiadureg.
- Adnabod patrymau/dosbarthwyr: mae angen gradd anrhydedd dda neu gyfwerth â chyfrifiadureg.

DISGRIFIAD O'R CWRSS

Artificial InFfônlligence and InFfônlligent Agents

Mae pynciau ymchwil yn cynnwys systemau sy'n seiliedig ar wybodaeth, rhesymeg, systemau aml-asiant, systemau dosbarthedig, algorithmau esblygiadol, dysgu peirianyddol, cloddio data, ieithyddiaeth gyfrifiadurol, prosesu iaith naturiol, theori gwybodaeth ac adalw gwybodaeth, cloddio testun, categorieiddio testun, cwestiynu/ateb, cyfieithu peirianyddol, cyfryngau credadwy (e.e. chatbots), a chyfyngau bywyd artiffisial.

Communication Networks and Protocols

Y prif feysydd ymchwil yw: cynllunio ac optimeiddio rhwydwaith, rhwydweithiau data diwifr, a phrotocolau rhwydwaith. Ceir cysylltiadau cryf allanol gyda'r grwpiau ymchwil eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn ogystal â llawer o gwmnïau blaenllaw'r ardal.

Image Processing for Mobile Devices

Gweithio ar yr algorithmau ar gyfer prosesu delweddau ar ddyfeisiau symudol, megis ffonau clyfar a thabledi. Bydd y ffocws ar brosesu pensaernïaeth ac arddangosfeydd camerau newydd. Gweithio ar dechnolegau blaengar a dysgu sgiliau pwysig ym maes twf cyfrifiadura symudol a gweledol.

Medical Visualisation and Simulation

Y prif feysydd ymchwil yw: delweddu meddygol; efelychu llawfeddygol; telefeddygaeth; graffeg gyfrifiadurol; a delweddu ar draws y grid cyfrifiannol. Mae cysylltiadau cryf allanol gyda'r grwpiau ymchwil eraill yn y maes hwn, a'r GIG.

Pattern Recognition/Classifiers

Mae adnabod patrymau yn faes ymchwil gweithredol iawn sydd wedi'i gysylltu'n agos â dysgu peirianyddol a chloddio data. Gelwir hefyd yn ddosbarthiad neu'n ddosbarthiad ystadegol, mae adnabod patrymau yn anelu at adeiladu dosbarthwr a all bennu dosbarth patrwm mewnbyn. Gall mewnbyn fod y cod ZIP ar amlen, delwedd lloeren, data mynegiant genynnau microarae, llofnod cemegol mewnchwilydd maes olew, cofnod ariannol cwmni a llawer mwy. Gall dosbarthwr fod ar ffurf swyddogaeth, algorithm, set o reolau, etc. Mae adnabod patrymau yn ymwneud â hyfforddi dosbarthwyr o'r fath i wneud tasgau a all fod yn ddiflas, yn beryglus, yn annichonadwy, yn anymarferol, yn ddrud neu'n rhy anodd i bobl. Mae adnabod patrymau yn wynebu sawl her yn yr oes fodern o gasglu data enfawr (e.e. ym maes manwerthu, cyfathrebu a'r rhyngwrwyd) a'r galw mawr am gywirdeb a chyflymder (e.e. monitro diogelwch ac olrhain targedau).

Mae angen methodolegau newydd i ateb yr heriau hyn a ddaw o raglenni.

Rydym yn cynnig rhaglen ymchwil newydd a chyffrous ym maes adnabod a dosbarthu patrymau.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT


Mae rhai o'n myfyrwyr wedi cwblhau PhD wrth weithio yn y diwydiant ac astudio'n rhan-amser. Mae Prifysgol Bangor hefyd yn cynnig gwahanol ffynonellau cyllid ar gyfer myfyrwyr lleol (y rhaglen KESS) sy'n cysylltu myfyrwyr â diwydiant trwy gydol eu PhD. Mae myfyrwyr yn ennill profiad gwerthfawr yn y diwydiant ac mae'r cwmni lleol yn gallu manteisio ar yr ymchwil ddiweddaraf.

RHAGOLYCON GYRFA

Mae cysylltiadau cryf gyda diwydiant a grwpiau ymchwil eraill yn y maes hwn. Mae Cyfrifiadureg ym Mangor wedi bod ymhlith prifysgolion gorau'r DU yn gyson o ran cyflogadwydd yn ôl tablau cynghrair. Mae llawer o gyfleoedd hefyd yn y diwydiant TG mewn sawl sector oherwydd presenoldeb nifer uchel o gwmnïau TG a busnesau bach a chanolig yn lleol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/courses/postgraduate/computer-science/>



Peirianeg Electronig

Mae Peirianeg Electronig ar flaen y gad ym maes addysg ac ymchwil ym maes electroneg heddiw ac mae'n cynnal ymchwil sy'n arwain y byd ym maes optoelectroneg, cyfathrebu optegol, electroneg organig a bioelectroneg. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf y Llywodraeth, roedd yr Ysgol yn 4ydd yn y DU am gynnrych ymchwil mewn Peirianeg Electronig.

Staff a chyfleusterau

Gan fod ein staff yn gweithio gyda chwmnïau trwy broiectau ymchwil ar y cyd, partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth ac fel ymgynghorwyr, gall myfyrwyr fod yn sicr eu bod yn cael eu haddysgu gan beirianwyr proffesiynol a gwyddonwyr sy'n ymarfer.

Mae gan Beirianeg Electronig gyfleusterau rhagorol ar gyfer myfyrwyr ôl-radd, yn cynnwys mynediad at offer labordy blaengar, ac ystafelloedd glân a sylfeini profion cyfathrebu optegol. Bydd gan fyfyrwyr fynediad at offer perthnasol a dulliau arbrol, a byddant yn cyflawni eu gwaith project yn ein labordai ymchwil gyda chyfarpar da.

Mae'r dull ymarferol o addysgu a gwaith labordy yn golygu y bydd ein holl fyfyrwyr yn cael profiad gwerthfawr o ddulliau safon diwydiant, gan roi mantais sylweddol i'n myfyrwyr yn y farchnad swyddi.

Synwryddion, dyfeisiau cyfathrebu ac electronig y genhedlaeth nesaf.

O'ch car i ffonau clyfar, mae'r byd modern yn dibynnu ar electroneg, synwryddion a'r cyfathrebu rhyngddynt. Mae ymchwil ym Mhrifysgol Bangor yn ymestyn o ddyfeisiau lled-ddargludyddion graddfa nanomedr

i synwryddion ar gyfer cymwysiadau biofeddygol. Rydym yn archwilio systemau cyfathrebu optegol ar raddfa fawr sy'n galluogi trosglwyddo data ar 40 Gigabit yr eiliad.

Electroneg biofeddygol ac amgylcheddol

Trwy ymchwilio i dechnoleg arloesol mewn amgylchedd amlddisgyblaethol iawn, mae'r Grŵp Bio-feddygol yn ymchwilio, datblygu ac addysgu'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau gofal iechyd a bio-gysylltiedig. Mae systemau annibynnol o bwysigrwydd enfawr i'r potensial arloesi a chasglu data yn y sector amgylcheddol.

Sefydliad Dyfodol Niwclear; deunyddiau ar gyfer amgylcheddau eithafol a modelu rhagfynegol

Sefydlwyd y Sefydliad Dyfodol Niwclear ym Mhrifysgol Bangor o ganlyniad i fuddsoddiad o £6.5M gan Lywodraeth Cymru trwy ei rhaglen Sêr Cymru. Mae hyn wedi arwain at greu dau grŵp ymchwil: un mewn deunyddiau a'r llall mewn modelu rhagfynegol. Comisiynwyd cyfleusterau newydd ar gyfer cynhyrchu a nodwedd cerameg, aloion a chyfansoddion datblygedig.

Peirianeg Electronig Gofynion iaith Saesneg

Fel rheol, mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol gyflwyno tystiolaeth o fedrusrwydd yn y Saesneg. Mae'r gofynion Saesneg yn golygu bod ag o leiaf:

- IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 5.5)
- Ar gyfer MSc Nanodechnoleg a Microwneuthriad:
- IELTS 6.5 (heb unrhyw sgôr unigol islaw 6.0)

RHESTR O'R CYRSIAU:

MSc

- Broadband and Optical Communications
- Electronic Engineering
- Nanotechnology and Microfabrication

MRes

- Electronic Engineering

PhD/MPhil

- Laser Micromachining and Laboratory-on-a-Chip
- Microwave Engineering
- Optical Communications
- Optoelectronics
- Nanophotonics
- Organic Electronics

I GAEL GWYBOD MWY:

Ffôn: + 44 (0) 1248 382686

E-bost: eng-pg-admissions@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/computer-science-and-electronic-engineering

Cafodd Sanjay Priyadarshi, o India ysgoloriaeth ymchwil. Yn ddiweddar, cwblhaodd PhD mewn Peirianeg Electronig.


"Derbyniais yr Ysgoloriaeth Ymchwil a oedd yn gyfle euraidd imi ddilyn fy mreuddwyd o astudiaethau pellach. Roedd fy maes ymchwil mewn cyfathrebu anhrefn optegol a nodweddion dynameg anlinol laserau lled-ddargludo.

Mae gan Beirianeg Electronig gyfleusterau rhagorol a staff profiadol gyda phob un ohonynt yn meddu ar y sgil anhygoel o ysgogi a pharatoi eu myfyrwyr ar gyfer heriau'r byd uwch-dechnoleg newydd. Mae Prifysgol Bangor ymhlith y prifysgolion gorau yn y DU sy'n rhoi pwyslais

ar ymchwil. Mae gan y brifysgol adnoddau a chefnogaeth addysgu a dysgu rhagorol.

Y peth gorau am Bangor i mi yw'r amgylchedd ymchwil ecogyfeillgar a'r ffaith y gallwn drafod fy meddyliau a'm syniadau gyda chyfraniad llawn y grŵp. Hefyd, rhoddodd fy nghydweithwyr yr holl gefnogaeth roeddwn ei hangen.

Gweithiais ar anhrefn optegol, sydd â defnydd posibl mewn cyfathrebu diogel. Mae'r laserau lled-ddargludo yn ffynonellau hynod ddiddorol ar gyfer cyfathrebu optegol diogel gan ddefnyddio anhrefn. Mae'n fwyaf perthnasol ar gyfer y gofyniad cynyddol heddiw i drosglwyddo data yn ddiogel ar gyflymder cyflym iawn."



Electronic Engineering MRes

Meysydd astudio arbenigol:

Optoelectroneg; Cyfathrebu Optegol; Electroneg Organig; Electroneg Polymer; Microbeiriannu; Nanodechnoleg; Bio-Electroneg; Dyfeisiau a Systemau Microdon.

HYD Y CWRS

MRes: Blwyddyn yn llawn amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Rydym yn croesawu ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd Anrhydedd mewn Peirianeg Electronig, Ffiseg neu ddisgyblaeth wyddonol gysylltiedig, ar lefel 2.ii neu uwch neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhyngwladol. Bydd ymgeiswyr sydd â graddau cyntaf mewn disgyblaethau eraill yn cael eu hystyried yn unigol, gyda'r asesiad yn seiliedig ar botensial yr ymgeisydd i lwyddo ar y cwrs ac elwa ohono.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor hefyd ddangos medrusrwydd mewn Saesneg at lefel IELTS 6.0 yn gyffredinol a dim elfen islaw 5.5 gyda sgôr ysgrifennu o 6.5. Gellir dilyn cwrs cyn-sesiynol proffesiynol priodol ELCOS (Ysgol Saesneg Prifysgol Bangor) i gyflawni'r lefel iaith Saesneg ofynnol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae pob rhaglen wedi'i haliu â'r ymchwil a gynhaliwyd o fewn Peirianeg Electronig. Mae'r rhaglen MRes yn darparu llwybr pwrpasol ar gyfer myfyrwyr o safon uchel sy'n barod i wneud ymchwil annibynnol (ac o bosibl gydag amcan ymchwil penodol mewn golwg) sy'n arwain at astudio ar lefel PhD neu sy'n ceisio cymhwyster annibynnol ar sail ymchwil sy'n addas ar gyfer gyrfa mewn ymchwil gyda sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer gwaith ar ôl graddio.

Y disgwyliad arferol yw y dylai'r traethawd ymchwil annibynnol (120 credyd) fod o safon gyhoeddadwy mewn cyfnodolyn o ansawdd uchel a adolygir gan gymheiriaid. Mae pob MRes yn rhannu elfen hyfforddedig y cwrs. Ar ôl cwblhau'r elfen hyfforddedig yn llwyddiannus, gallwch wedyn arbenigo mewn pwnc penodol ar gyfer eich traethawd ymchwil.

Modiwlau Gorfodol:

Mae gan y ddarpariaeth hyfforddedig dri modiwl 20 credyd sy'n canolbwyntio ar sgiliau generig penodol.

• Modelling and Design

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar efelychu a dylunio dyfeisiau electronig gan ddefnyddio pecyn meddalwedd datblygedig - COMSOL. Mae'r pecyn meddalwedd masnachol pwerus hwn yn hynod hyblyg a gellir ei ddefnyddio i efelychu a dylunio ystod eang iawn o systemau.

• Research methods and study skills

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sy'n ofynnol i bennu, cynllunio, gweithredu ac adrodd ar ganlyniadau project ymchwil neu'r project ymchwil.

• Intro to micro and nanotechnology

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddulliau cynhyrchu dyfeisiau ar raddfa nano a micro.

• Research Project

Ar ôl cwblhau'r gydran hyfforddedig o'r rhaglen yn llwyddiannus, bydd y project traethawd ymchwil unigol mawr yn cael ei wneud o fewn y grwpiau ymchwil Peirianeg Electronig ym Mangor sydd gyda'r gorau yn y byd.

Mae'r modiwlau dewisol yn cynnwys:

- RF and Optical MEMS
- Advanced Sensor Systems
- Optical Communications & Systems

RHAGOLYCON GYRFA

Mae graddedigion y cyrsiau hyn wedi mynd ymlaen i weithio mewn gwahanol ganghennau o'r diwydiant Electroneg, er enghraifft cwmnïau cyfathrebu optegol a thelathrebu, cyfleusterau ymchwil y llywodraeth fel GCHQ, a nifer o fentrau nanodechnoleg, o fusnesau newydd i gwmnïau rhyngwladol.

Bydd llawer o fyfyrwyr MRes yn parhau gydag astudiaethau ôl-radd ar ôl graddio, gan fynd ymlaen i raglenni MPhil a PhD. Lle bynnag yr ewch ar ôl gadael, bydd gan raddedigion MRes sgiliau ymchwil annibynnol amlwg a'r gallu i gwmpasu a rheoli projectau technegol cymhleth. Byddwch hefyd wedi datblygu sgiliau gwyddonol a pheirianeg sy'n benodol i'ch maes astudio penodol, o sganio microsgopeg mewnchwilydd i fodelu elfennau meidraidd a ddefnyddir yn uniongyrchol mewn diwydiannau technegol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/electronicengineering

Broadband and Optical Communications MSc

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae'r radd hon wedi'i hanelu at ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd Anrhydedd mewn Peirianeg Electronig, Ffiseg neu ddisgyblaeth wyddonol gysylltiedig, ar lefel 2.ii neu uwch neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhyngwladol. Bydd ymgeiswyr sydd â graddau cyntaf mewn disgyblaethau eraill yn cael eu hystyried yn unigol, gyda'r asesiad yn seiliedig ar botensial yr ymgeisydd i lwyddo ar y cwrs ac elwa ohono.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor hefyd ddangos medrusrwydd mewn Saesneg at lefel IELTS 6.0 yn gyffredinol a dim elfen islaw 5.5. Gellir dilyn cwrs cyn-sesiynol proffesiynol priodol ELCOS (Ysgol Saesneg Prifysgol Bangor) i gyflawni'r lefel iaith Saesneg ofynnol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Amcan y cwrs hwn yw rhoi dealltwriaeth fanwl i raddedigion addas o'r dechnoleg, ac ysgogwyr y dechnoleg, ym maes cyfathrebu band eang a symudol. Bydd y cwrs hefyd yn creu cysylltiad â gweithgaredd ymchwil cyfredol yn y maes.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, bydd gennych ddealltwriaeth fanwl o'r arferion a'r cyfarwyddiadau cyfredol yn y pwnc hwn, a byddwch yn gallu eu cymhwyso i'r dasg o barhau i gyflwyno gwasanaethau cyfathrebu uwch ledled y byd.

Modiwlau Gorfodol:

• Modelling and Design

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar efelychu a dylunio dyfeisiau electronig gan ddefnyddio pecyn meddalwedd datblygedig - COMSOL. Mae'r pecyn meddalwedd masnachol pwerus hwn yn hynod hyblyg a gellir ei ddefnyddio i efelychu a dylunio ystod eang iawn o systemau.

• Research Methods and Study Skills

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sy'n ofynnol i bennu, cynllunio, gweithredu ac adrodd ar ganlyniadau project ymchwil.

• Optical Communications & Systems

Prif amcan dysgu'r modiwl hwn yw astudio nodweddion dylunio a gweithredu systemau cyfathrebu ffibr optegol.

• Broadband Communications

Amcan y modiwl hwn yw darparu dealltwriaeth fanwl o ddulliau cyfathrebu band eang cyfredol a rhai sy'n datblygu a ddefnyddir mewn rhwydweithiau lleol, mynediad a phrif rwydweithiau.

• Mobile Communications systems

Bydd y modiwl hwn yn darparu dealltwriaeth fanwl o systemau cyfathrebu symudol cyfredol a rhai sy'n datblygu, gyda phwyslais arbennig ar agweddau cyffredin pob system o'r fath.

• RF and Optical MEMS

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno'r defnydd a'r manteision o miniaturaeth mewn RF a thechnolegau optegol a bydd yn ymchwilio i

welliannau mewn nodweddion cydrannau a phrosesau gweithgynhyrchu.

RHAGOLYCON GYRFA

Gall graddedigion ddisgwyl dod o hyd i gyflogaeth yn y diwydiant cyfathrebu sy'n datblygu'n gyflym, o gylch lleol o ddarparwyr gwasanaeth i gwmnïau rhwydwaith ôl-drosglwyddo data. Bydd gennych sgiliau uwch wrth ddadansoddi a dylunio systemau a chydannau cyfathrebu band eang, gyda phwyslais arbennig ar gyfathrebu optegol. Bydd y sgiliau hyn yn berthnasol ar unwaith yn y diwydiant cyfathrebu sy'n tyfu fwyfwy bob dydd.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/electronicengineering

HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser.

GOFYNIION MYNEDIAD

Mae'r radd hon wedi'i hanelu at ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd Anrhydedd mewn Peirianeg Electronig, Ffiseg neu ddisgyblaeth wyddonol gysylltiedig, ar lefel 2.ii neu uwch neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhyngwladol. Bydd ymgeiswyr sydd â graddau cyntaf mewn disgyblaethau eraill yn cael eu hystyried yn unigol, gyda'r asesiad yn seiliedig ar botensial yr ymgeisydd i lwyddo ar y cwrs ac elwa ohono.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor hefyd ddangos medrusrwydd mewn Saesneg at lefel IELTS 6.0 yn gyffredinol a dim elfen islau 5.5. Gellir dilyn cwrs cyn-sesiynol proffesiynol priodol ELCOS (Ysgol Saesneg Prifysgol Bangor) i gyflawni'r lefel iaith Saesneg ofynnol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Amcan y rhaglen hon yw darparu MSc Peirianeg Electronig eang a fydd yn eich galluogi i gyfrannu at ddatblygiad cynhyrchion a gwasanaethau electronig yn y dyfodol. Mae'r cwrs yn adlewyrchu gweithgaredd ymchwil Bangor sy'n uchel ei barch ac yn flaengar ym maes peirianeg electronig. Bydd yr MSc yn dysgu sgiliau cyfoes, perthnasol sy'n gwella cymhwysedd peirianeg ei raddedigion ac yn galluogi dysgu gwybodaeth ehangach am beirianeg electronig trwy astudio technolegau pwysig sy'n datblygu, megis optoelectroneg, bioelectroneg, electroneg polymer a microbeiriannu. Mae'r cwrs wedi'i fwriadu ar gyfer graddedigion mewn disgyblaeth gysylltiedig, sy'n dymuno gwella ac arbenigo eu sgiliau mewn nifer o dechnolegau sy'n datblygu.

Modiwlau Gorfodol:

Mae gan y ddarpariaeth hyfforddedig dri modiwl 20 credyd sy'n canolbwyntio ar sgiliau generig penodol.

• Modelling and Design

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar efelychu a dylunio dyfeisiau electronig gan ddefnyddio pecyn meddalwedd datblygedig - COMSOL. Mae'r pecyn meddalwedd masnachol pwerus hwn yn hynod hyblyg a gellir ei ddefnyddio i efelychu a dylunio ystod eang iawn o systemau.

• Research methods and study skills

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sy'n ofynnol i bennu, cynllunio, gweithredu ac adrodd ar ganlyniadau project ymchwil.

• Intro to micro and nanotechnology

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddulliau cynhyrchu dyfeisiau ar raddfa nano a micro.

Mae Modiwlau Dewisol fel rheol yn cynnwys:

- RF and Optical MEMS
- Prototyping and Fabrication
- Microengineering
- Further Microengineering
- Optical Communications & Systems
- Mobile Communications
- Broadband Communication Systems
- Advanced Sensor Systems

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos â chwmnïau technoleg lleol a chenedlaethol, gyda'r potensial i gael lleoliadau gwaith, cyfleoedd ymchwil a datblygu a phrojectau cydweithredol.

RHAGOLYCON GYRFA

Bydd gan holl raddedigion y cwrs hwn sgiliau a gwybodaeth am ddulliau a syniadau systemau electronig modern, gyda phwyslais arbennig ar ddylanwad nanodechnoleg ar eu dyluniad. Byddwch hefyd wedi datblygu sgiliau gwyddonol a pheirianyddol sy'n benodol i'ch dewisiadau modiwl penodol, o ddylunio cylchedau digidol gatiâu gwerth miliynau o filoedd i fodelu systemau cyfathrebu a dyfeisiau optoelectroneg sy'n berthnasol yn uniongyrchol mewn diwydiannau technegol.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/electronicengineering

Roedd Peirianeg Electronig yn 4ydd yn y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf y Llywodraeth am gynnyrch ymchwil a chyflwynwyd ymchwil gan dros 85% o'i staff.



HYD Y CWRS

MSc: Blwyddyn yn llawn amser.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae'r radd hon wedi'i hanelu at ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd Anrhydedd mewn Peirianeg Electronig, Ffiseg neu ddisgyblaeth wyddonol gysylltiedig, ar lefel 2, i neu uwch neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhyngwladol. Bydd ymgeiswyr sydd â graddau cyntaf mewn disgyblaethau eraill yn cael eu hystyried yn unigol, gyda'r asesiad yn seiliedig ar botensial yr ymgeisydd i lwyddo ar y cwrs ac elwa ohono.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor hefyd ddangos medrusrwydd mewn Saesneg at lefel IELTS 6.5 yn gyffredinol a dim elfen islaw 6.0. Gellir dilyn cwrs cyn-sesiynol proffesiynol priodol ELCOS (Ysgol Saesneg Prifysgol Bangor) i gyflawni'r lefel iaith Saesneg ofynnol.

DISGRIFIAD O'R CWRS

Rydym yn un o'r ychydig iawn o brifysgolion yn y DU sy'n cynnig amser i ymarfer ar lunio dyfeisiau amser mewn amgylchedd ystafell lân ac amser gweithredwr ar offer micro-beiriannu laser. Mae'r cwrs hwn yn dysgu gwybodaeth a sgiliau i raddedigion â sgiliau rhifedd ym maes nanodechnoleg a microwneuthuriad. Mae'r cwrs yn defnyddio dull ymdrochi i ddysgu egwyddorion ac arferion nanodechnoleg a microwneuthuriad gyda llawer o'r deunydd yn seiliedig ar enghreifftiau ac ymarferion ymarferol. Mae arholwyr allanol wedi nodi'r elfen ymarferol gref yn y project MSc ac yn y rhan hyfforddedig o'r cwrs, ac wedi canmol bod myfyrwyr ar y cwrs hwn yn gwneud projectau sylweddol yn yr ystafell lân.

Modiwlau Gorfodol:

• Introduction to Nanotechnology and Microsystems

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddulliau llunio dyfeisiau ar raddfa nano a micro, ynghyd â chyflwyno rhai o'r offer diagnostig sydd ar gael i brofi ansawdd a nodweddion dyfeisiau.

• Modelling and Design

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar efelychu a dylunio dyfeisiau electronig gan ddefnyddio pecyn meddalwedd datblygedig - COMSOL.

• Research methods and study skills

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sy'n ofynnol i bennu, cynllunio, gweithredu ac adrodd ar ganlyniadau project ymchwil.

• RF and Optical MEMS

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno defnyddio miniaturaeth a'i fanteision mewn RF a thechnolegau optegol. Bydd y modiwl yn ymchwilio i welliannau mewn nodweddion cydrannau, a phrosesau gweithgynhyrchu. Bydd cymhwyso RF a nano optegol a microsystemau yn cael eu trafod gan ddefnyddio enghreifftiau.

• Microengineering & Further Microengineering

Mae'r modiwlau hyn yn rhoi cyflwyniad i'r pwnc micro-beirianneg sy'n ehangu'n gyflym. Mae'r modiwlau'n ymchwilio i ddulliau lithograffig mewn ystafelloedd glân a dulliau microwneuthuriad cysylltiedig, yn ogystal â materion micro-weithgynhyrchu ar gyfer amrywiaeth o ddeunyddiau fel silicon, polymerau a metelau.

RHAGOLYGON GYRFA

Bydd gan fyfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn afael gadarn ar arferion a chyfeiriad presennol y maes cyffrous hwn a bydd ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i'ch galluogi i ddylunio ac adeiladu dyfeisiau ar raddfa ficro. Yn arbennig, bydd gennych sgiliau modelu rhifiadol cryf, gydag arbenigedd ym maes modelu amlffiseg sy'n datblygu. Mae'r sgiliau hyn yn berthnasol yn uniongyrchol yn y nifer cynyddol o ddiwydiannau sy'n defnyddio nanodechnoleg i ddylunio cynhyrchion a phrosesau newydd.

Mae graddedigion y cyrsiau hyn wedi mynd ymlaen i weithio mewn gwahanol ganghennau o'r diwydiant Electroneg, er enghraifft cwmnïau cyfathrebu optegol a thelathrebu, cyfleusterau ymchwil y llywodraeth fel GCHQ, a nifer o fentrau nanodechnoleg, o fusnesau newydd i gwmnïau rhyngwladol. Bydd rhai myfyrwyr MSc yn parhau gydag astudiaethau ôl-radd ar ôl graddio, gan fynd ymlaen i raglenni MPhil a PhD.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/electronicengineering

Laser Micromachining and Laboratory-on-a-Chip / Microwave Engineering / Optical Communications / Optoelectronics / Nanophotonics / Organic Electronics PhD/MPhil

HYD Y CWRS

PhD: 3 blynedd yn llawn-amser; MPhil: 2 flynedd yn llawn-amser

GOFYNION MYNEDIAD

Mae angen gradd anrhydedd dda neu gyfwerth.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor hefyd ddangos medrusrwydd mewn Saesneg at lefel IELTS 6.0 yn gyffredinol a dim elfen islaw 5.5 gyda sgôr ysgrifennu o 6.5. Gellir dilyn cwrs cyn-sesiynol proffesiynol priodol ELCOS (Ysgol Saesneg Prifysgol Bangor) i gyflawni'r lefel iaith Saesneg ofynnol.

DISGRIFIAD O'R CWRSS

Organic Electronics

Gwneir ymchwil i: Syntheseiddio monomerau a pholymerau newydd i'w defnyddio mewn dyfeisiau electronig; cynhyrchu MISFETs polymer, diodau Schottky, LEDs, nodweddion trydanol ac optegol polymerau a dyfeisiau, astudiaethau mewnwilydd AFM / EFM / Kelvin ar ddyfeisiau sydd wedi eu cynhyrchu. Astudir celloedd solar (gan gynnwys celloedd solar perovskite ac OPVs) gydag offer nodweddu llawn gan gynnwys efelychydd solar, cynhyrchu mwy o olau (light soaking) ac EQE. Yn ddiweddar, prynwyd sbectromedr màs eilaidd amser hedfan (ToF-SIMS) a siambrau prawf gydol oes cyflymedig.

Graphene

Mae ein hymchwil ym Mhrifysgol Bangor yn canolbwyntio ar ddefnyddio graffen a graffen occid wrth gynhyrchu a nodweddu dyfeisiau organig fel gwrthydd cemegol organig,

transistorau haen denau organig (OTFTs), dyfeisiau cof organig a strwythurau ffotofoltaeg organig.

Optoelectronics and Nanophotonics

Mae ymchwil optoelectroneg a nanoffotoneg wedi'i anelu at hyrwyddo rhaglenni dylunio a systemau dyfeisiau electro-optig lled-ddargludyddion / organig a dyfeisiau nanoffotoneg/metaddeunydd gan gynnwys diodau laser, cyfeirddion tonnau optegol, a chrynodydd ynni solar.

Laser Micronano-machining and Laboratory-on-a-chip

Mae'r diddordebau ymchwil yn cynnwys: Nanowneuthuriad laser ac addasiadau arwyneb; glanhau laser; cynhyrchu laser o nanoddefnyddiau; Sbectrosgopeg Dadansoddiad a ysgogwyd gan laser (LIBS); Priodweddau electronig a dielectrig deunyddiau biolegol; Trin electroginetig bioronynnau; polymerau biolegol, ensymau a chelloedd; Microwneuthuriad bioffatri a labordy-ar-sglodyn; Therapiwteg a diagnosteg feddygol.

Optical Communications

Mae'r diddordebau ymchwil yn cynnwys: Systemau cyfathrebu optegol uwch ar gyfer rhwydweithiau craidd pellter hir, rhwydweithiau mynediad gallu uchel y genhedlaeth nesaf a rhwydweithiau ardal leol cost-effeithiol; rhwydweithio optegol a rhwydweithiau holl-optegol yn y dyfodol; signal optegol a thrydanol.

CYSYLLTIADAU YMCHWIL/CYSYLLTIADAU Â DIWYDIANT

Mae rhai o'n myfyrwyr wedi cwblhau PhD wrth weithio yn y diwydiant ac astudio'n rhan-amser tra'n gweithio. Mae myfyrwyr yn ennill profiad gwerthfawr yn y diwydiant ac mae'r cwmni lleol yn gallu manteisio ar yr ymchwil ddiweddaraf.

RHAGOLYGON GYRFA

Mae gan raddedigion PhD ac MPhil yn y maes hwn ragolygon gyrfa rhagorol. Bydd rhai myfyrwyr yn mynd ymlaen i swyddi ôl-ddoethurol, ac yna i yrfaedd academiaidd. Bydd eraill yn mynd ymlaen i weithio yn y diwydiant electroneg, lle mae eu gwybodaeth arbenigol a'u sgiliau ymchwil cyffredinol a rhyngbersonol yr un mor werthfawr.

Am fanylion pellach am y cwrs, gweler:

www.bangor.ac.uk/go/pg/electronicengineering

GWYBODAETH BWYSIG

Mae Prifysgol Bangor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y prospectws hwn yn gywir ar adeg ei gynhyrchu (Medi 2019). Mae'r argraffiad hwn o brospectws y brifysgol i israddedigion yn disgrifio'r cyfleusterau a'r cyrsiau y mae'r brifysgol yn bwriadu eu cynnig yn ystod y flwyddyn academaidd yn dechrau yn hydref 2019. Mae'r prospectws a'r gwe-dudalennau'n cael eu paratoi beth amser cyn y flwyddyn academaidd y maent yn ymwneud â hi a gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y prospectws hwn yn ddefnyddiol, yn deg a chywir pan aeth i gael argraffu. Fodd bynnag, gall y wybodaeth hon newid dros amser.

Mae'r brifysgol yn gwneud pob ymdrech rhesymol i ddarparu'r cyrsiau, hyfforddiant a chefnogaeth ddysgu, cyfleoedd ymchwil a gwasanaethau a chyfleusterau eraill gyda gofal a medr rhesymol ac yn y ffordd a ddisgrifir yn y prospectws hwn. Fodd bynnag, ni all y brifysgol warantu bod unrhyw gwr neu gyfleuster yn cael ei ddarparu. Gall rhai amgylchiadau, megis newidiadau staff, cyfyngiadau adnoddau a ffactorau eraill nad oes gan y brifysgol unrhyw reolaeth drostynt, megis gweithredu diwydiannol neu newid yn y gyfraith neu lefel y galw am raglen neu fodiwl penodol (nodwch nad yw'r rhestr hon yn un lawn a therfynol), olygu bod yn rhaid i'r brifysgol dynnu'n ôl neu newid agweddau ar y rhaglenni, y modiwlau a / neu'r gwasanaethau myfyrwyr a / neu'r cyfleusterau y manylir arnynt yn y prospectws. Gall hyn gynnwys staffio, cynnwys rhaglen/modiwl, y fan lle dysgir y rhaglen/modiwl neu'r dull addysgu, a'r cyfleusterau a ddarperir i gyflwyno neu gefnogi'r rhaglen, ond heb fod yn gyfyngedig o angenrheidrwydd i'r materion hyn.

Lle bo newid yn anrnod oherwydd amgylchiadau, neu lle mae'n angenrheidiol i'r brifysgol ddod â rhaglen astudio i ben, bydd y brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r effaith i'r eithaf. Bydd holl ddarpar ymgeiswyr sydd wedi mynegi diddordeb yn y rhaglen berthnasol yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar wefan y brifysgol (www.bangor.ac.uk). Bydd gan unigolyn hawl i dynnu'n ôl o'r cwrs drwy hysbysu'r brifysgol yn ysgrifenedig o fewn cyfnod rhesymol o gael ei hysbysu am y newid. Yn ogystal, caiff ymgeiswyr eu hysbysu am unrhyw newidiadau rhwng y prospectws a'r cwrs a gwasanaethau arfaethedig ar yr adeg y gwneir cynnig iddynt. Anogir darpar ymgeiswyr i edrych ar ein

gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Nid yw parodrwydd y brifysgol i ystyried cais yn sicrwydd y derbynnir yr ymgeisydd.

Derbynnir myfyrwyr i'r brifysgol ar y sail bod y wybodaeth a roddant ar eu ffurflen gais yn gyflawn ac yn gywir.

Gall yr holl brisiau a nodir yn y prospectws hwn newid a byddwch yn cael eich hysbysu am unrhyw newid o'r fath pan fydd y brifysgol yn cynnig lle i chi.

Pe baech yn dod yn fyfyrwr yn y brifysgol, bydd yr hysbysiad hwn yn un o delerau unrhyw gontract rhyngoch chi a'r brifysgol. Bydd unrhyw gynnig o le yn y brifysgol yn amodol ar yr amodau cofrestru myfyrwyr a rheolau a rheoliadau'r brifysgol a gaiff eu diwygio o bryd i'w gilydd.

Mae copi o delerau ac amodau cyfredol y brifysgol i'w gael ar-lein yn: www.bangor.ac.uk/terms-and-conditions neu gellir cael copi papur gan y Cofrestruidd Academaidd, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

PRIFYSGOL BANGOR GWYNEDD LL57 2DG

Ffôn: 01248 351151
Gwefan: www.bangor.ac.uk

SWYDDFA DERBYNIADAU

Ffôn: +44 (0)1248 383717
E-bost: postgraduate@bangor.ac.uk

SWYDDFA NEUADDAU

Ffôn: +44 (0)1248 382667
E-bost: halls@bangor.ac.uk

UNED CYMORTH ARIANNOL

Ffôn: +44 (0)1248 383566/383637
E-bost: cymorthariannol@bangor.ac.uk

SWYDDFA TAI MYFYRWYR

Ffôn: +44 (0)1248 382034
E-bost: taimyfyrwyr@bangor.ac.uk

PROSPECTWS A MARCHNATA

Ffôn: +44 (0)1248 351151
E-bost: prospectws@bangor.ac.uk

GWASANAETHAU ANABLEDD

Ffôn: +44 (0)1248 383620/382032
E-bost: ghwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

GWASANAETHAU MYFYRWYR

Ffôn: +44 (0)1248 382024
E-bost: ghwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk



@PrifysgolBangor



facebook.com/PrifysgolBangor



@PrifysgolBangor



@PrifysgolBangor



I'R EITHAF

WWW.BANGOR.AC.UK